# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

**Dydd Mercher, 25 Ebrill 2012**
**Wednesday, 25 April 2012**

**Cynnwys**
**Contents**

3 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Questions to the Minister for Health and Social Services

27 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol
Questions to the Counsel General

29 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad
Questions to the Assembly Commission

34 Adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau yng Nghymru
The Petitions Committee's Report on the Maritime and Coastguard Agency in Wales

57 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Gwerth am Arian
Welsh Conservatives Debate: Value for Money

86 Dadl Plaid Cymru: Awdurdodau Lleol
Plaid Cymru Debate: Local Authorities

112 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

117 Dadl Fer: Troi Cefn neu Wthio i'r Cyrion: Beth sy'n Digwydd i'r Pedwerydd Ystâd yng Nghymru?
Short Debate: Abandonment or Marginalisation: What is Happening to the Fourth Estate in Wales?

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**The Presiding Officer:** The National Assembly for Wales is now in session.

**Y Llywydd:** Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
## Questions to the Minister for Health and Social Services

### Addysg i Gleifion am Ddiabetes

### Diabetes Patient Education

***1. Jenny Rathbone:*** *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynyddu'r ddarpariaeth o addysg i gleifion am ddiabetes. OAQ(4)0116(HSS)*

***1. Jenny Rathbone:*** *What is the Welsh Government doing to increase provision of diabetes patient education. OAQ(4)0116(HSS)*

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** Patient education is key in helping people to reduce the risk of diabetes. We continue to invest in raising awareness of the importance of a healthy lifestyle, including a healthy diet, drinking alcohol sensibly and not smoking, through creating environments that help people to make healthy choices.

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Mae addysg i gleifion yn allweddol o ran helpu pobl i leihau'r risg o ddiabetes. Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ffordd iach o fyw, gan gynnwys deiet iach, yfed alcohol yn synhwyrol a pheidio ag ysmygu, trwy greu amgylcheddau sy'n helpu pobl i wneud dewisiadau iach.

**Jenny Rathbone:** Diabetes UK's research, issued in a press release today, indicates that 80% of the money spent on diabetes across the UK is spent on complications from diabetes, many of which are preventable. What is the Government doing to ensure that every person who is newly diagnosed with diabetes is given all of the information that they need in order to manage and live with their diabetes, because such a huge proportion of the population now has it?

**Jenny Rathbone:** Mae ymchwil Diabetes UK, a gyhoeddwyd mewn datganiad i'r wasg heddiw, yn dangos bod 80% o'r arian a gaiff ei wario ar ddiabetes ar draws y DU yn cael ei wario ar gymhlethdodau sy'n deillio o ddiabetes, y mae modd atal llawer ohonynt. Beth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod pawb sydd newydd gael gwybod bod ganddynt ddiabetes yn cael yr holl wybodaeth y mae arnynt ei hangen i reoli eu diabetes a byw gydag ef, oherwydd bod gan gyfran mor enfawr o'r boblogaeth ddiabetes erbyn hyn?

**Lesley Griffiths:** It is important that they get the correct information. The provision of structured patient education to promote effective self-management of diabetes is the responsibility of health boards, but it will be a key theme in the national diabetes delivery plan for the NHS for the period up to 2016, which I will develop over the coming months. 'Together for Health' sets out our commitment for a new partnership with the public, but in order for them to help themselves, we have to ensure that they have the right support, literature and information

**Lesley Griffiths:** Mae'n bwysig eu bod yn cael y wybodaeth gywir. Cyfrifoldeb byrddau iechyd yw darparu addysg strwythuredig i gleifion i hyrwyddo dulliau effeithiol o hunanreoli diabetes, ond bydd yn thema allweddol yng nghynllun cyflawni cenedlaethol y GIG ar gyfer diabetes ar gyfer y cyfnod hyd at 2016, sy'n gynllun y byddaf yn ei ddatblygu dros y misoedd nesaf. Mae 'Law yn Llaw at Iechyd' yn egluro ein hymrwymiad i bartneriaeth newydd gyda'r cyhoedd, ond er mwyn iddynt eu helpu eu hunain, rhaid inni sicrhau bod ganddynt y

to hand.

gefnogaeth, y llenyddiaeth a'r wybodaeth gywir wrth law.

**The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies):** Many of us recognise that diabetes is a ticking time bomb. Today's report demonstrates that a considerable amount of the health budget in the future will be devoted to dealing with the consequences of diabetes. In your statement to the Chamber on 1 February, you said that you were looking to base the resources that you were going to make available on outcomes achieved and that you had established a task and finish group to that end. When will that task and finish group report and when will you be in a position to remodel resources, if they need to be remodelled, to ensure that we get the best bang for our buck?

**Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies):** Mae llawer ohonom yn cydnabod bod diabetes yn broblem sy'n siŵr o gynyddu yn y dyfodol. Mae adroddiad heddiw'n dangos y bydd swm sylweddol o'r gyllideb iechyd yn y dyfodol yn cael ei neilltuo ar gyfer ymdrin â chanlyniadau diabetes. Yn eich datganiad i'r Siambr ar 1 Chwefror, bu ichi ddweud eich bod yn bwriadu seilio'r adnoddau y byddech yn eu darparu ar ganlyniadau a gyflawnir, a'ch bod wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i'r perwyl hwnnw. Pryd y bydd y grŵp gorchwyl a gorffen hwnnw'n cyflwyno ei adroddiad, a phryd y byddwch mewn sefyllfa i ailfodelu adnoddau, os oes angen iddynt gael eu hailfodelu, er mwyn sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau am ein harian?

**Lesley Griffiths:** Through the expert task and finish group, we are developing our expectations of excellent diabetes care and the outcomes that we want; I will look at that as we develop the national diabetes delivery plan over the coming months. However, you are right: it is a chronic condition that is on the increase, not just in Wales, but across the world. That is mainly due to lifestyle influences, which is why, in answer to my question to Jenny Rathbone, I said that we have to ensure that people understand and start to take responsibility for their own health, avoiding the lifestyle behaviours that increase the risk of developing diabetes.

**Lesley Griffiths:** Trwy'r grŵp gorchwyl a gorffen arbenigol, rydym yn datblygu ein disgwyliadau ynghylch gofal diabetes rhagorol a'r canlyniadau yr ydym am eu cael; byddaf yn ystyried hynny wrth inni ddatblygu'r cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer diabetes dros y misoedd nesaf. Fodd bynnag, rydych yn llygad eich lle: mae'n gyflwr cronig sydd ar gynnydd, nid yn unig yng Nghymru, ond ar draws y byd. Dylanwadau ffordd o fyw sy'n bennaf gyfrifol am hynny, a dyna pam, yn fy ateb i gwestiwn Jenny Rathbone, y dywedais fod yn rhaid inni sicrhau bod pobl yn deall a'u bod yn dechrau cymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd eu hunain, gan osgoi'r agweddau hynny ar ffordd o fyw sy'n cynyddu'r risg o ddatblygu diabetes.

**Rebecca Evans:** You will be aware of the deeply concerning report from the Public Services Ombudsman for Wales that showed that Bronglais General Hospital failed to monitor a diabetic patient's blood sugar levels properly. How is the Welsh Government ensuring that all hospital staff are educated about diabetes to ensure that patients and their families are not failed in this way again?

**Rebecca Evans:** Byddwch yn ymwybodol o'r adroddiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a oedd yn peri pryder difrifol ac a oedd yn dangos bod Ysbyty Cyffredinol Bronglais wedi methu â monitro lefelau siwgr gwaed claf diabetig yn iawn. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pob aelod o staff ysbyty'n cael eu haddysgu am ddiabetes er mwyn sicrhau nad yw cleifion a'u teuluoedd yn cael eu siomi yn y modd hwn eto?

**Lesley Griffiths:** I am aware of the case to which you refer and I know that you have

**Lesley Griffiths:** Rwyf yn ymwybodol o'r achos yr ydych yn cyfeirio ato, ac rwyf yn

been in correspondence with Hywel Dda Local Health Board. Public Health Wales has designed a health literacy programme in relation to diabetes to ensure that all staff are aware of the condition. We have a national service framework that develops programmes to strengthen and support staff and patients in the management of diabetes.

gwybod eich bod wedi bod yn gohebu â Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynllunio rhaglen llythrennedd iechyd ynghylch diabetes i sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r cyflwr. Mae gennym fframwaith gwasanaeth cenedlaethol sy'n datblygu rhaglenni i gynorthwyo staff a chleifion i reoli diabetes ac i atgyfnerthu eu dulliau o wneud hynny.

**Lindsay Whittle:** The National Institute for Health and Clinical Excellence guidance recommends that all people with diabetes receive structured education and that that should occur soon after diagnosis. With the current provision, it would take 50 years to provide education to everyone with diabetes. Do you agree that if the Welsh Government followed NICE guidance on providing structured diabetes education, there would be fewer people in our hospitals, given that 19% of hospital in-patients are those who suffer from diabetes?

**Lindsay Whittle:** Mae canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol yn argymell bod pawb sydd â diabetes yn cael addysg strwythuredig, ac y dylai hynny ddigwydd yn fuan ar ôl y diagnosis. Gyda'r ddarpariaeth bresennol, byddai'n cymryd 50 mlynedd i ddarparu addysg i bawb sydd â diabetes. Pe bai Llywodraeth Cymru yn dilyn canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol ar ddarparu addysg strwythuredig am ddiabetes, a ydych yn cytuno y byddai llai o bobl yn ein hysbytai, o ystyried bod 19% o gleifion mewnol ysbytai yn gleifion sy'n dioddef o ddiabetes?

**Lesley Griffiths:** I do not recognise the figure of 50 years, but you are right about this issue. Although 5% of people in Wales have diabetes, 19% of hospital in-patients have the condition. If it is not properly managed, diabetes can result in many other complications, including blindness, amputations, kidney disease or renal failure. So, it is important that patient education teaches people how to manage their condition and that is something that we will be focusing on.

**Lesley Griffiths:** Nid wyf yn adnabod y ffigur o 50 mlynedd, ond rydych yn llygad eich lle ynghylch y mater hwn. Er mai 5% o bobl Cymru sydd â diabetes, mae 19% o gleifion mewnol ysbytai yn dioddef o'r cyflwr. Os na chaiff ei reoli'n briodol, gall diabetes arwain at lawer o gymhlethdodau eraill, gan gynnwys dallineb, trychiadau, clefyd yr arennau neu fethiant yr arennau. Felly, mae'n bwysig bod addysg i gleifion yn dangos i bobl sut mae rheoli eu cyflwr, ac mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn canolbwyntio arno.

### Iechyd yng Nghwm Cynon

### Health in the Cynon Valley

***2. Christine Chapman:*** *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella iechyd yng Nghwm Cynon. OAQ(4)0108(HSS)*

***2. Christine Chapman:*** *What is the Welsh Government doing to improve health in the Cynon Valley. OAQ(4)0108(HSS)*

**Lesley Griffiths:** Our commitment to improving health in the Cynon Valley is demonstrated by our investment in the new community hospital in Mountain Ash. The hospital includes the new dental teaching unit, which opened last month, at a cost of £12 million, which will help provide additional NHS dental services for up to

**Lesley Griffiths:** Mae ein hymrwymiad i wella iechyd yng Nghwm Cynon yn amlwg yn ein buddsoddiad yn yr ysbyty cymunedol newydd yn Aberpennar. Mae'r ysbyty yn cynnwys uned addysgu ddeintyddol newydd, a agorodd fis diwethaf ac a gostiodd £12 miliwn, a fydd yn helpu i ddarparu gwasanaethau deintyddol ychwanegol gan y

10,000 patients who do not have regular access to a dentist in the Cynon Valley.

GIG ar gyfer hyd at 10,000 o gleifion nad oes ganddynt gysylltiad rheolaidd â deintydd yng Nghwm Cynon.

**Christine Chapman:** I certainly welcome the new hospital and I know that it is very much appreciated by my constituents. I was pleased to attend a health awareness day in Aberdare recently. It was organised by St John's Medical Practice and representatives from a range of charities and organisations were there, working with people who have cancer, heart and lung diseases and diabetes. Many people were on hand to speak to those people affected. Do you agree that this is a very useful approach? Do you also agree that, if we are to tackle the growing health inequalities prevalent in many of our poorest communities, it is vital that people are more engaged with their own health needs and that they have the skills, knowledge and confidence to manage their own healthcare?

**Christine Chapman:** Rwyf yn sicr yn croesawu'r ysbyty newydd, ac rwyf yn gwybod bod fy etholwyr yn ei werthfawrogi'n fawr. Roeddwn yn falch o fynychu diwrnod ymwybyddiaeth iechyd yn Aberdâr yn ddiweddar. Fe'i trefnwyd gan Bractis Meddygol Sant Ioan, ac roedd cynrychiolwyr ystod o elusennau a mudiadau yno sy'n gweithio gyda phobl â chanser, diabetes a chlefydau'r galon a'r ysgyfaint. Roedd llawer o bobl wrth law i siarad â'r sawl yr effeithir arnynt. A ydych yn cytuno bod hwn yn ddull gweithredu defnyddiol iawn? A ydych hefyd yn cytuno, os ydym am fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau iechyd cynyddol sy'n gyffredin yn llawer o'n cymunedau tlotaf, ei bod yn hanfodol bod pobl yn ymwneud yn fwy helaeth â'u hanghenion eu hunain o ran iechyd a bod ganddynt y sgiliau, y wybodaeth a'r hyder i reoli eu gofal iechyd eu hunain?

**Lesley Griffiths:** Absolutely; I agree that we need to empower people to take more responsibility for their own health and to live healthy lifestyles. I refer to my answer to Jenny Rathbone's first question. Since becoming Minister, I have said consistently that we all have a part to play. It is not just for the health service; it is for individuals and organisations like those that you mentioned. I very much welcome the health awareness day in Aberdare and congratulate St John's Medical Practice for doing that. However, if we are to meet the challenges of increased demand on the NHS, of the high expectations of an aging population, of reducing inequalities in health and of increasing life expectancy, we must all work very much together.

**Lesley Griffiths:** Yn bendant; rwyf yn cytuno bod angen inni rymuso pobl i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu hiechyd eu hunain a mabwysiadu ffyrdd iach o fyw. Cyfeiriaf at fy ateb i gwestiwn cyntaf Jenny Rathbone. Ers dod yn Weinidog, rwyf wedi dweud yn gyson bod gan bob un ohonom ran i'w chwarae. Nid y gwasanaeth iechyd yn unig sydd â rhan i'w chwarae; mae gan unigolion a mudiadau tebyg i'r rhai a grybwyllwyd gennych ran i'w chwarae hefyd. Rwyf yn croesawu'n fawr y diwrnod ymwybyddiaeth iechyd yn Aberdâr, ac rwyf yn llongyfarch Practis Meddygol Sant Ioan ar ei gynnal. Fodd bynnag, os ydym am ymdopi â'r heriau sy'n ymwneud â galwadau cynyddol ar y GIG, disgwyliadau uchel poblogaeth sy'n heneiddio, yr angen i leihau anghydraddoldebau o ran iechyd, a disgwyliad oes hwy, rhaid i bob un ohonom weithio'n helaeth iawn gyda'n gilydd.

**Andrew R.T. Davies:** In the Cynon Valley, as in the rest of South Wales Central, I have been approached by several families about issues regarding exceptional funding cases. I commended you, Minister, when you undertook your review into the way in which local health boards dealt with this aspect of

**Andrew R.T. Davies:** Yng Nghwm Cynon, fel yng ngweddill Canol De Cymru, mae llawer o deuluoedd wedi cysylltu â mi ynghylch problemau gydag achosion sy'n ymwneud â chyllid eithriadol. Bu imi eich canmol, Weinidog, pan aethoch ati i gynnal eich adolygiad o'r modd yr oedd byrddau

exceptional funding applications. Are you now in a position to say what that review concluded, as I believe that it reported to you towards the end of March? When will you be able to make the conclusions public?

iechyd lleol yn ymdrin â'r agwedd hon sy'n ymwneud â cheisiadau am gyllid eithriadol. A ydych yn awr mewn sefyllfa i ddweud beth oedd casgliad yr adolygiad hwnnw, gan fy mod yn credu iddo gyflwyno adroddiad ichi tua diwedd mis Mawrth? Pryd y byddwch yn gallu cyhoeddi'r casgliadau?

**Lesley Griffiths:** I am having ongoing discussions about the process. I have just met with some consultants, because they are the people who are at the coalface, if you like, and we held a workshop last week, on 19 April, to share good practice and to address the issues that have been identified in the quick review, to which you referred, that chief executives held into the process. It is very much ongoing—we will have a further workshop towards the end of the year, but it is very much a work in progress. It is working, but we must recognise that the guidance has to show how exceptionality can be demonstrated, because it is very important that patients and clinicians understand that.

**Lesley Griffiths:** Rwyf yn cael trafodaethau parhaus am y broses. Rwyf newydd gwrdd â rhai ymgynghorwyr, gan mai nhw yw'r bobl sydd ar y ffas, os mynnwch, a bu inni gynnal gweithdy yr wythnos diwethaf, ar 19 Ebrill, i rannu arfer da a mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr adolygiad sydyn, y bu ichi gyfeirio ato, a gynhaliwyd gan brif weithredwyr i'r broses. Mae'n waith sy'n bendant yn parhau—byddwn yn cynnal gweithdy arall yn nes at ddiwedd y flwyddyn, ond mae'n bendant yn waith sy'n mynd rhagddo. Mae'n gweithio, ond rhaid inni gydnabod bod yn rhaid i'r canllawiau ddangos sut y gellir profi bod achos yn eithriadol, oherwydd mae'n bwysig iawn bod cleifion a chlinigwyr yn deall hynny.

## Triniaethau ME

## ME Treatment

**3. Julie Morgan:** *Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella triniaethau ME (Enseffalomyelitis Myalgig) yng Nghymru. OAQ(4)0118(HSS)*

***3. Julie Morgan:*** *What plans does the Minister have to improve the treatment of ME (Myalgic Encephalomyelitis) in Wales. OAQ(4)0118(HSS)*

**Lesley Griffiths:** The management of chronic diseases is a high priority for the NHS in Wales. An NHS Wales status care pathway for ME has been developed and was published in March 2011. I expect health boards to plan and deliver ME services in line with the care pathway.

**Lesley Griffiths:** Mae rheoli clefydau cronig yn flaenoriaeth uchel i'r GIG yng Nghymru. Mae llwybr gofal statws GIG Cymru ar gyfer ME wedi'i ddatblygu, ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011. Rwyf yn disgwyl i fyrddau iechyd gynllunio a darparu gwasanaethau ME yn unol â'r llwybr gofal.

**Julie Morgan:** Thank you, Minister, for that response. We had a very successful meeting with ME sufferers and their carers here in the Senedd before Easter. What could you do to try to get rid of the widespread misunderstanding about ME, which is a condition with very complex symptoms that vary from individual to individual? Often, GPs do not have the knowledge to recognise it. What can you do to help that situation?

**Julie Morgan:** Diolch, Weinidog, am yr ymateb hwnnw. Cawsom gyfarfod llwyddiannus iawn gyda dioddefwyr ME a'u gofalwyr yma yn y Senedd cyn y Pasg. Beth y gallech ei wneud i geisio cael gwared ar y gamddealltwriaeth gyffredin ynghylch ME, sy'n gyflwr â symptomau cymhleth iawn sy'n amrywio o'r naill unigolyn i'r llall? Yn aml, nid oes gan feddygon teulu y wybodaeth i'w adnabod. Beth y gallwch ei wneud i helpu'r sefyllfa honno?

**Lesley Griffiths:** I agree that it is very frustrating for people trying to get a diagnosis. A very close friend of mine had

**Lesley Griffiths:** Rwyf yn cytuno bod pobl sy'n ceisio cael diagnosis yn teimlo'n rhwystredig iawn. Roedd ffrind agos iawn

the condition about 25 years ago and she went through a lot of frustration in trying to get a diagnosis. There is a lot of misunderstanding about whether it is a medical condition or a psychological condition. I agree, therefore, that more needs to be done to improve understanding of the condition, both publicly and within the health professions. We have already helped the postgraduate medical deanery with the funding of an e-learning package to help raise awareness among clinicians and to assist with the diagnosis. I have asked for an update from NHS Wales on the improvements that have been made to the services since we published the care pathways in March last year.

imi'n dioddef o'r cyflwr tua 25 mlynedd yn ôl, ac achosodd y broses o geisio cael diagnosis lawer o rwystredigaeth iddi. Ceir llawer o gamddealltwriaeth ynghylch a yw'n gyflwr meddygol ynteu'n gyflwr seicolegol. Rwyf yn cytuno, felly, bod angen gwneud mwy i wella dealltwriaeth ynghylch y cyflwr, ymhlith y cyhoedd ac ymhlith y proffesiynau iechyd. Rydym eisoes wedi helpu'r ddeoniaeth feddygol uwchraddedig drwy ariannu pecyn e-ddysgu i helpu i godi ymwybyddiaeth ymhlith clinigwyr a chynorthwyo gyda'r diagnosis. Rwyf wedi gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf gan GIG Cymru am y gwelliannau a wnaed i wasanaethau ers inni gyhoeddi'r llwybrau gofal ym mis Mawrth y llynedd.

**Nick Ramsay:** Minister, it was, sadly, not that long ago that ME was not even officially recognised by doctors and local health boards, and that led to a lot of unnecessary suffering for people who had the condition, even though it was undiagnosed. I am pleased that you have made these changes. You expect—I think that that was the word you used—all health boards to take the condition more seriously, as they have not always done that in the past. What practical steps are you taking to ensure that they adhere to your guidelines and implement the much-needed pathway? Also, if progress is not quick enough, what action will you take to really get the focus on this issue that we would all want to see?

**Nick Ramsay:** Weinidog, tan yn ddiweddar, yn anffodus, ni châi ME hyd yn oed ei gydnabod yn swyddogol gan feddygon a byrddau iechyd lleol, ac arweiniodd hynny at lawer o ddioddefaint diangen i bobl a oedd â'r cyflwr, er nad oedd wedi'i ddiagnosio. Rwyf yn falch eich bod wedi gwneud y newidiadau hyn. Rydych yn disgwyl—rwyf yn credu mai dyna oedd y gair a ddefnyddiwyd gennych—i bob bwrdd iechyd gymryd y cyflwr fwy o ddifrif, gan nad ydynt wedi gwneud hynny bob amser yn y gorffennol. Pa gamau ymarferol yr ydych yn eu cymryd i sicrhau eu bod yn cadw at eich canllawiau ac yn gweithredu'r llwybr yr oedd mawr ei angen? Yn ogystal, os na fydd cynnydd yn digwydd yn ddigon cyflym, pa gamau y byddwch yn eu cymryd i gael pobl i roi sylw gwirioneddol i'r mater hwn, sy'n rhywbeth y byddem oll am ei weld?

**Lesley Griffiths:** A great deal has been done—I mentioned in my original answer to Julie Morgan that we have helped the postgraduate medical deanery with an e-learning package so that health professionals become much more aware of the condition. I also mentioned the publication of the care pathways from March of last year, so, clearly, this will be monitored through our usual channels. My predecessor, Edwina Hart, set up the task and finish group that started the process. I think that we have got many things right, but we recognise that more needs to be done.

**Lesley Griffiths:** Mae llawer iawn wedi'i wneud—crybwyllais yn fy ateb gwreiddiol i Julie Morgan ein bod wedi helpu'r ddeoniaeth feddygol uwchraddedig â phecyn e-ddysgu er mwyn sicrhau bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn dod yn llawer mwy ymwybodol o'r cyflwr. Soniais hefyd am gyhoeddi'r llwybrau gofal ym mis Mawrth y llynedd. Mae'n amlwg, felly, y bydd y mater yn cael ei fonitro drwy ein sianelau arferol. Sefydlodd fy rhagflaenydd, Edwina Hart, y grŵp gorchwyl a gorffen a ddechreuodd y broses. Credaf ein bod wedi cael llawer o bethau'n iawn, ond rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy.

**Jocelyn Davies:** Minister, you may be aware that the UK parliamentary group on scientific research into ME noted systematic bias towards the treatment of ME as a psychological condition to the exclusion of biomedical research, which is partly down to the Department for Work and Pensions and insurance companies having a vested interest in not accepting this condition as a medical one. Would you therefore agree that establishing a clinic for the 10,000 or so victims of ME in Wales will provide an opportunity for treatment and research from the biomedical perspective? Are you aware of any plans that local health boards may have to come together to do that?

**Jocelyn Davies:** Weinidog, efallai eich bod yn ymwybodol bod grŵp seneddol y DU ar ymchwil wyddonol i ME wedi nodi tuedd systematig i drin ME fel cyflwr seicolegol heb ystyried ymchwil fiomeddygol, yn rhannol oherwydd bod gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a chwmnïau yswiriant fudd mewn peidio â derbyn y cyflwr hwn fel cyflwr meddygol. A fyddech yn cytuno, felly, y bydd sefydlu clinig ar gyfer yr oddeutu 10,000 o ddioddefwyr ME sydd yng Nghymru yn rhoi cyfle i gynnig triniaeth ac ymchwilio o safbwynt biomeddygol? A ydych yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau a allai fod gan fyrddau iechyd lleol i ddod ynghyd i wneud hynny?

**Lesley Griffiths:** I am not aware of any plans to provide a designated clinic of the type that you refer to, but this may be something that local health boards could look at, following the update that I have asked my officials to get from the publication of the care pathways. Maybe we could follow that up.

**Lesley Griffiths:** Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau i ddarparu clinig penodol o'r math yr ydych yn cyfeirio ato, ond efallai ei fod yn rhywbeth y gallai byrddau iechyd lleol ei ystyried, yn dilyn cael y wybodaeth ddiweddaraf yr wyf wedi gofyn i'm swyddogion ei chasglu am y cyfnod ers cyhoeddi'r llwybrau gofal. Efallai y gallem fynd ar drywydd hynny.

**Gwyn R. Price:** Minister, I, too, attended the event for ME sufferers and carers hosted by Julie Morgan. Many who attended the meeting talked of a lack of available expertise in this condition, which is still so misunderstood. What can we in Wales do to ensure that more health professionals have expertise in this field?

**Gwyn R. Price:** Weinidog, roeddwn innau'n bresennol yn y digwyddiad i ddioddefwyr ME a'u gofalwyr, a gynhaliwyd gan Julie Morgan. Roedd llawer o'r rheini a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn sôn am ddiffyg arbenigedd yn y cyflwr hwn, sy'n cael ei gamddeall yn ddirfawr o hyd. Beth y gallwn ni yng Nghymru ei wneud i sicrhau bod gan ragor o weithwyr iechyd proffesiynol arbenigedd yn y maes hwn?

**Lesley Griffiths:** We need to ensure that clinicians and health professionals are much more aware of the condition, and I have referred to the help that we have given to the postgraduate medical deanery to fund an e-learning package, as that will help to raise awareness among clinicians and assist with the diagnosis of ME. I would expect the service to be kept under constant review so that, if there is a need for further training and information for clinicians in this area, it will be provided.

**Lesley Griffiths:** Mae angen inni sicrhau bod clinigwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol yn llawer mwy ymwybodol o'r cyflwr, ac rwyf wedi cyfeirio at y cymorth yr ydym wedi'i roi i'r ddeoniaeth feddygol uwchraddedig i ariannu pecyn e-ddysgu, gan y bydd hwnnw'n helpu i godi ymwybyddiaeth ymhlith clinigwyr ac yn cynorthwyo i ddiagnosio ME. Byddwn yn disgwyl i'r gwasanaeth gael ei adolygu'n gyson er mwyn sicrhau, os oes angen hyfforddiant a gwybodaeth bellach ar gyfer clinigwyr yn y maes hwn, y byddant yn cael eu darparu.

### Darparu Cadeiriau Olwyn

### Wheelchair Provision

***4. Eluned Parrott:*** *A wnaiff y Gweinidog*

***4. Eluned Parrott:*** *Will the Minister outline*

*amlinellu ei chynlluniau ar gyfer darparu cadeiriau olwyn yn y dyfodol. OAQ(4)0110(HSS)*

*her plans for future wheelchair provision. OAQ(4)0110(HSS)*

**Lesley Griffiths:** I am committed to improving wheelchair provision and have allocated an additional £2.2 million per year to increase capacity, specifically targeting services for children as a priority. The recruitment of additional staff will have a positive impact on service performance in future years.

**Lesley Griffiths:** Rwyf wedi ymrwymo i wella'r ddarpariaeth o ran cadeiriau olwyn, ac rwyf wedi dyrannu £2.2 miliwn ychwanegol y flwyddyn i gynyddu capasiti, gan dargedu gwasanaethau i blant yn benodol fel blaenoriaeth. Bydd recriwtio staff ychwanegol yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad y gwasanaeth yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

**Eluned Parrott:** Thank you for that answer, Minister. I recently visited the Artificial Limb and Appliance Service at Nantgarw and was very impressed by the work being done there. However, one significant problem identified by the staff was a major increase in the need for bariatric wheelchairs in increasingly larger sizes. While the issue of obesity raises technical and financial difficulties for the health service, it clearly creates huge distress and discomfort for those affected by it. What work is being done to provide dietary and exercise advice and support for wheelchair users?

**Eluned Parrott:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Yn ddiweddar, ymwelais â'r Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar yn Nantgarw, a gwnaeth y gwaith a wneir yno argraff fawr arnaf. Fodd bynnag, un broblem o bwys a nodwyd gan y staff oedd cynnydd sylweddol yn yr angen am gadeiriau olwyn bariatrig mewn meintiau sy'n gynyddol fwy. Er bod gordewdra yn achosi anawsterau technegol ac ariannol i'r gwasanaeth iechyd, mae'n amlwg ei fod yn achosi llawer iawn o ofid ac anesmwythdra i'r sawl y mae'n effeithio arnynt. Pa waith sy'n cael ei wneud i roi cyngor a chymorth ynghylch deiet ac ymarfer corff i ddefnyddwyr cadair olwyn?

**Lesley Griffiths:** That would be for local health boards to do. I am aware of the increased need for bariatric wheelchairs, and it is a matter that has been raised with me. Actually, I raised this issue with my medical director yesterday. It is something that we will have to look at closely.

**Lesley Griffiths:** Cyfrifoldeb byrddau iechyd lleol fyddai gwneud hynny. Rwyf yn ymwybodol o'r angen cynyddol am gadeiriau olwyn bariatrig, ac mae'n fater sydd wedi'i godi gyda mi. A dweud y gwir, codais y mater gyda'm cyfarwyddwr meddygol ddoe. Mae'n rhywbeth y bydd yn rhaid inni edrych arno'n ofalus.

**Darren Millar:** I am very pleased, Minister, that, at a recent meeting of the Health and Social Services Committee, it was clear that some improvement had been made with regard to children waiting for assessments and wheelchairs. However, you will be aware that there has been significant slippage in the referral times for adult assessments—in north Wales, the referral time currently stands at 52 weeks on average, while it is 17 weeks in south Wales. So, there is a huge difference in performance. What action are you taking to ensure that there is not a postcode lottery when it comes to access to an assessment for wheelchair services for adults across Wales?

**Darren Millar:** Rwyf yn falch iawn, Weinidog, ei bod yn amlwg, mewn cyfarfod diweddar o'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, bod rhywfaint o welliant wedi'i wneud yng nghyswllt plant sy'n aros am asesiadau a chadeiriau olwyn. Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol bod amseroedd atgyfeirio ar gyfer asesiadau oedolion wedi llithro'n sylweddol—yn y gogledd, mae'r amser atgyfeirio ar hyn o bryd yn 52 wythnos ar gyfartaledd, ond yn 17 wythnos yn y de. Ceir gwahaniaeth enfawr o ran perfformiad, felly. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau nad oes loteri cod post pan ddaw'n fater o gael mynediad i asesiad ar gyfer gwasanaethau cadeiriau olwyn i

oedolion ar draws Cymru?

1.45 p.m.

**Lesley Griffiths:** It is very important that we look at these waiting times in north Wales and do not have the postcode lottery that you mentioned. You will be aware that we have trained over 1,000 nurses and therapists to speed up that initial assessment process and reduce waiting times for patients, and the local health board has been made very aware of my concerns regarding the waiting times.

**Lesley Griffiths:** Mae'n bwysig iawn ein bod yn edrych ar yr amseroedd aros hyn yn y gogledd, ac nad oes gennym y loteri cod post y bu ichi sôn amdani. Byddwch yn ymwybodol ein bod wedi hyfforddi dros 1,000 o nyrsys a therapyddion i gyflymu'r broses asesu gychwynnol a lleihau amseroedd aros i gleifion, ac rwyf wedi sicrhau bod y bwrdd iechyd lleol yn ymwybodol iawn o'm pryderon ynghylch yr amseroedd aros.

**Darren Millar:** Clearly, just making somebody aware of your concerns is not actually working because people are waiting for treatment three times longer in north Wales than they are in south Wales. Waiting times for wheelchairs are not the only problem that you have, Minister, or need to have a decent grasp of. Of course, we all know that orthopaedic waiting times were hugely challenging at the start of last year. Focus, quite rightly, was put on those, but, as a result of that focus, the eye has been taken off the ball for a number of other specialities. If you look at ophthalmology waiting times—

**Darren Millar:** Mae'n amlwg nad yw gwneud dim byd ond sicrhau bod rhywun yn ymwybodol o'ch pryderon yn gweithio mewn gwirionedd, gan fod pobl yn aros deirgwaith yn hwy am driniaeth yn y gogledd nag y maent yn y de. Weinidog, nid amseroedd aros am gadeiriau olwyn yw'r unig broblem sydd gennych neu y mae angen ichi fod â rheolaeth dda arni. Wrth gwrs, rydym i gyd yn gwybod bod amseroedd aros orthopedig yn hynod heriol ddechrau'r llynedd. Canolbwyntiwyd yn gywir ddigon ar y rheini, ond o ganlyniad collwyd golwg ar nifer o arbenigeddau eraill. O edrych ar amseroedd aros ar gyfer offthalmoleg—

**The Presiding Officer:** We are talking about wheelchairs here.

**Y Llywydd:** Rydym yn sôn am gadeiriau olwyn yma.

**Darren Millar:** I am talking about—

**Darren Millar:** Rwyf yn sôn am—

**The Presiding Officer:** So, can you come to the question—

**Y Llywydd:** Felly, a allwch ddod at y cwestiwn—

**Darren Millar:** I am talking about waiting times.

**Darren Millar:** Rwyf yn sôn am amseroedd aros.

**The Presiding Officer:** No, it is specifically about the future of wheelchair provision, so can you stick to that point, please?

**Y Llywydd:** Na, mae a wnelo'r mater yn benodol â'r dyfodol o ran darparu cadeiriau olwyn, felly a allwch gadw at y pwynt hwnnw, os gwelwch yn dda?

**Darren Millar:** I am talking about waiting times in general because—

**Darren Millar:** Rwyf yn sôn am amseroedd aros yn gyffredinol oherwydd—

**The Presiding Officer:** I would like you to talk about wheelchairs. It is your second point—

**Y Llywydd:** Hoffwn pe baech yn sôn am gadeiriau olwyn. Hwn yw eich ail bwynt—

**Darren Millar:** Let me explain myself—

**Darren Millar:** Gadewch imi esbonio—

**The Presiding Officer:** No, I am sorry; you do not explain. I am asking you to stick to wheelchairs, otherwise do not ask your second question. Please carry on.

**Y Llywydd:** Na, mae'n ddrwg gennyf; ni chewch esbonio. Rwyf yn gofyn ichi gadw at gadeiriau olwyn. Fel arall, peidiwch â gofyn eich ail gwestiwn. Ewch yn eich blaen.

**Darren Millar:** As you are aware, when waiting times for wheelchairs for children have been focused on, there has been slippage elsewhere, which has also been the case with other waiting times in different disciplines in local health board areas, including Cardiff and the Vale, with ophthalmology waiting times—

**Darren Millar:** Fel y gwyddoch, wrth ganolbwyntio ar amseroedd aros am gadeiriau olwyn i blant, mae pethau eraill wedi llithro, ac mae hynny wedi bod yn wir hefyd am amseroedd aros eraill mewn gwahanol ddisgyblaethau mewn ardaloedd byrddau iechyd lleol, gan gynnwys Caerdydd a'r Fro, gydag amseroedd aros ar gyfer offthalmoleg—

**The Presiding Officer:** I am sorry. Can you come to a question, please?

**Y Llywydd:** Mae'n ddrwg gennyf. A wnewch chi ofyn cwestiwn, os gwelwch yn dda?

**Darren Millar:** This is the question. If you let me finish—

**Darren Millar:** Hwn yw'r cwestiwn. Pe baech yn gadael imi orffen—

**The Presiding Officer:** No, I am sorry; I am asking you to ask the question. I think that you are stretching it a little, Darren Millar. Question, please.

**Y Llywydd:** Na, mae'n ddrwg gennyf; rwyf yn gofyn ichi ofyn y cwestiwn. Rwyf yn credu eich bod yn cymryd mantais ryw ychydig, Darren Millar. Cwestiwn, os gwelwch yn dda.

**Darren Millar:** The Minister will be able to answer, will she not?

**Darren Millar:** Bydd y Gweinidog yn medru ateb, oni fydd?

**The Presiding Officer:** Thank you very much. We now move on to question 5 from Julie Morgan.

**Y Llywydd:** Diolch yn fawr iawn. Symudwn ymlaen yn awr at gwestiwn 5 gan Julie Morgan.

### Triniaethau Canser

### Cancer Treatment

***5. Julie Morgan:*** *Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i wella triniaethau canser yng Nghymru. OAQ(4)0114(HSS)*

***5. Julie Morgan:*** *What plans does the Welsh Government have to improve the treatment of cancer in Wales. OAQ(4)0114(HSS)*

**Lesley Griffiths:** Cancer services remain a top priority for the Welsh Government. We have recently consulted on 'Together Against Cancer', a national delivery plan for the NHS up to 2016. The final plan will be published in May.

**Lesley Griffiths:** Mae gwasanaethau canser yn dal yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Yn ddiweddar rydym wedi cynnal ymgynghoriad ar 'Gyda'n Gilydd yn Erbyn Canser', sy'n gynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer y GIG hyd at 2016. Caiff y cynllun terfynol ei gyhoeddi ym mis Mai.

**Julie Morgan:** In March, Velindre hospital cancer team gave a presentation in the Assembly about developing world-class radiotherapy services in Wales. Given that radiotherapy cures cancer, is cost-effective, is

**Julie Morgan:** Ym mis Mawrth, rhoddodd tîm canser ysbyty Felindre gyflwyniad yn y Cynulliad am ddatblygu gwasanaethau radiotherapi o'r radd flaenaf yng Nghymru. O gofio bod triniaeth radiotherapi yn gwella

a common way to treat cancer, and is used in 40% of cases— compare that with chemotherapy, which is used in only 11% of cases—will the Minister ensure that continued research into radiotherapy and targeted radiotherapy treatments is fully supported by the Government?

canser, ei bod yn gost-effeithiol ac yn ffordd gyffredin o drin canser a'i bod yn cael ei defnyddio mewn 40% o achosion—o'i chymharu â thriniaeth cemotherapi, a gaiff ei defnyddio mewn 11% o achosion yn unig—a wnaiff y Gweinidog sicrhau bod y Llywodraeth yn rhoi cefnogaeth lawn i ymchwil barhaus i radiotherapi a thriniaethau radiotherapi a dargedir?

**Lesley Griffiths:** I want the best health outcomes possible for people diagnosed with cancer, so the Welsh Government, NHS Wales, and all of our partners have to continue to target research in new technologies, including new forms of delivering radiotherapy. I visited Velindre Cancer Centre with you a few months ago and was hugely impressed, not just with the treatment that it provides, but with the research that is done there. It is one of the themes for action in the cancer delivery plan for the NHS, which you will be aware is being finalised following the outcome of consultation.

**Lesley Griffiths:** Rwyf am sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau posibl i bobl a gaiff eu diagnosio â chanser, felly rhaid i Lywodraeth Cymru, GIG Cymru a phob un o'n partneriaid barhau i dargedu gwaith ymchwil i dechnolegau newydd, gan gynnwys dulliau newydd o ddarparu radiotherapi. Ymwelais â Chanolfan Ganser Felindre gyda chi rai misoedd yn ôl a gwnaeth y ganolfan argraff fawr arnaf, nid yn unig o safbwynt y driniaeth y mae'n ei darparu, ond o safbwynt y gwaith ymchwil sy'n cael ei wneud yno. Mae'n un o'r themâu ar gyfer gweithredu yng nghynllun cyflawni'r GIG ar gyfer canser, a byddwch yn ymwybodol bod y cynllun hwnnw wrthi'n cael ei gwblhau yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad.

**Mohammad Asghar:** Cervical cancer screening plays a vital role in detecting this disease early. A recent survey by a leading charity, Jo's Cervical Cancer Trust, highlighted some worrying differences between black and ethnic minority women and white women with regard to cervical cancer screening, such as, a third more BME women than white women of screening age said that they had never attended a cervical screening appointment and 70% of Asian women knew what screening was, compared to 91% of white women. What is the Minister doing to encourage and promote cervical cancer screening among BME women in Wales?

**Mohammad Asghar:** Mae sgrinio am ganser ceg y groth yn chwarae rôl hanfodol wrth ganfod y clefyd hwn yn gynnar. Roedd arolwg diweddar a gynhaliwyd gan elusen flaenllaw, Ymddiriedolaeth Canser Ceg y Groth Jo, yn tynnu sylw at rai gwahaniaethau sy'n peri pryder rhwng menywod duon a menywod o leiafrifoedd ethnig a menywod gwyn mewn perthynas â sgrinio am ganser ceg y groth, megis y ffaith i draean yn fwy o fenywod duon a menywod o leiafrifoedd ethnig o oedran sgrinio ddweud nad oeddent erioed wedi mynychu apwyntiad sgrinio ceg y groth o gymharu â menywod gwyn, a'r ffaith mai 70% o fenywod Asiaidd oedd yn gwybod beth oedd sgrinio, o gymharu â 91% o fenywod gwyn. Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i annog a hyrwyddo sgrinio am ganser ceg y groth ymysg menywod duon a menywod o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru?

**Lesley Griffiths:** It is not just with screening that there is this difference. It is very important that the Welsh Government and I support and work with organisations on this.

**Lesley Griffiths:** Nid dim ond yn achos sgrinio y ceir y gwahaniaeth hwn. Mae'n bwysig iawn bod Llywodraeth Cymru a minnau'n cefnogi hyn ac yn gweithio gyda

For instance, a couple of months ago, I opened a BME health awareness day over at City Hall in Cardiff and it was important that, while people were there, they were able to access the ophthalmology unit that was there for screening. It is important that we get that message out and that we work with organisations right across the board to make sure that that information gets to women.

sefydliadau ar y mater hwn. Er enghraifft, ychydig fisoedd yn ôl agorais ddiwrnod ymwybyddiaeth iechyd i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn Neuadd y Ddinas yng Nghaerdydd, ac roedd yn bwysig bod pobl yn gallu cael mynediad i'r uned offthalmoleg a oedd yno i'w sgrinio tra oeddent yno. Mae'n bwysig inni ledaenu'r neges honno a gweithio gyda sefydliadau o bob math i sicrhau bod y wybodaeth yn cyrraedd menywod.

**Elin Jones:** Yn eich ateb i Julie Morgan, dywedoch eich bod yn awyddus i weld y dechnoleg ddiweddaraf ar gael yma yng Nghymru i drin canser. Sut y byddwch wedyn, o gael y dechnoleg mwyaf diweddar ar gael mewn ambell leoliad yng Nghymru, yn gallu sicrhau bod y dechnoleg honno ar gael i gleifion canser ar hyd a lled Cymru?

**Elin Jones:** In your answer to Julie Morgan, you said that you were eager to see the latest technology available here in Wales to treat cancer. How will you, having ensured the provision of the latest technology in certain locations in Wales, be able to ensure that that technology is available to cancer patients across Wales?

**Lesley Griffiths:** It is up to local health boards to decide what treatment they offer their patients, but I expect to see the latest technologies in as many places as possible. We will obviously have some specialist centres. I recently visited the specialist cancer centre at Ysbyty Glan Clwyd, which has the latest technology, as does Velindre. Therefore, that is in place across Wales.

**Lesley Griffiths:** Mater i'r byrddau iechyd lleol yw penderfynu pa driniaeth y byddant yn ei chynnig i'w cleifion, ond rwyf yn disgwyl gweld y technolegau diweddaraf ar waith mewn cynifer o leoedd ag y bo modd. Yn amlwg bydd gennym rai canolfannau arbenigol. Ymwelais yn ddiweddar â'r ganolfan ganser arbenigol yn Ysbyty Glan Clwyd sydd â'r dechnoleg ddiweddaraf, fel sydd gan Ganolfan Ganser Felindre. Felly, mae hynny ar waith ar draws Cymru.

**Elin Jones:** I accept that there are specialist centres in various locations in Wales. However, my concern is that those specialist centres and the technology within them must be available for use by patients all over Wales, wherever they live. Patients might have to travel to those centres, but it is about ensuring that that technology is available to them. I therefore hope that you can assure us that you want those specialist centres to go out there and work with district general hospitals and cancer patients wherever they live in Wales.

**Elin Jones:** Rwyf yn derbyn bod canolfannau arbenigol i'w cael mewn amryw leoliadau yng Nghymru. Fodd bynnag, fy mhryder yw bod yn rhaid i'r canolfannau arbenigol hynny a'r dechnoleg ynddynt fod ar gael i'w defnyddio gan gleifion ar hyd a lled Cymru, lle bynnag y maent yn byw. Efallai y bydd yn rhaid i gleifion deithio i'r canolfannau hynny, ond yr hyn sy'n bwysig yw sicrhau bod y dechnoleg honno ar gael iddynt. Felly, gobeithiaf y gallwch ein sicrhau eich bod yn dymuno i'r canolfannau arbenigol hynny fynd ati i weithio gydag ysbytai cyffredinol dosbarth a chleifion canser lle bynnag y maent yn byw yng Nghymru.

**Lesley Griffiths:** Yes, absolutely. You have my assurance that health boards know that they have to look across their borders to ensure that their patients can access all services, so that if those services are not available within their own health board area,

**Lesley Griffiths:** Gallaf, yn sicr. Gallaf eich sicrhau bod y byrddau iechyd yn gwybod bod yn rhaid iddynt edrych y tu hwnt i'w ffiniau i sicrhau y gall eu cleifion gael mynediad i'r holl wasanaethau, felly os nad yw'r gwasanaethau hynny ar gael yn ardal eu

those patients can access them elsewhere. Therefore, yes, you have my absolute assurance on that.

bwrdd iechyd eu hunain bydd modd i’r cleifion hynny gael mynediad i’r gwasanaethau rywle arall. Felly gallaf roi pob sicrwydd i chi y bydd hynny’n digwydd.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** Targeted and adaptive radiotherapy, such as image-guided radiation therapy and stereotactic ablative radiotherapy, are cutting-edge technologies that are no longer the subject of research, but are becoming the norm in cancer centres across the UK and the world. The use of such technologies is more likely to cure someone of cancer and to reduce the risk of toxicity and side effects for those undergoing such treatment. Have you made a business case to the Minister for Finance for the money to upgrade the linear accelerators at Velindre to be able to provide that treatment?

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Mae radiotherapi a dargedir a radiotherapi addasol, megis therapi ymbelydredd sy’n defnyddio delweddau a radiotherapi stereotactig abladol, yn dechnolegau sy’n torri tir newydd nad ydynt bellach yn destun gwaith ymchwil, ond sy’n dod yn dechnolegau arferol a ddefnyddir mewn canolfannau canser ledled y DU a’r byd. Mae defnyddio technolegau o’r fath yn fwy tebygol o wella rhywun o ganser a lleihau’r risg o effeithiau gwenwyn a sgîl-effeithiau ar gyfer y sawl sy’n cael triniaeth o’r fath. A ydych wedi cyflwyno achos busnes i’r Gweinidog Cyllid i gael yr arian i uwchraddio’r dyfeisiau cyflymu llinellol yn Felindre i allu darparu’r driniaeth honno?

**Lesley Griffiths:** It is up to Velindre to make the case to me if that is what it wants to provide for patients. It would then be up to me to consider the issue.

**Lesley Griffiths:** Rhaid i Ysbyty Felindre gyflwyno’r achos i mi os dyna y mae’n dymuno ei ddarparu i’w gleifion. Yna, byddai angen i mi ystyried y mater.

**Kirsty Williams:** I am surprised that the Minister has given that answer. It was quite clear in the presentation that Velindre gave to all Members of the National Assembly what its aspirations are for Velindre hospital and its desire to be able to offer Welsh patients, on a consistent basis, IGRT, intensity-modulated radiation therapy and stereotactic body radiation therapy. I am surprised that you are not aware of its desire for capital investment to be able to provide such treatment. Do you not agree that the ability to recruit and retain the very best cancer specialists in Wales will be jeopardised unless you make a case to the Minister for Finance for that capital investment to upgrade these linear accelerators?

**Kirsty Williams:** Rwyf yn synnu i’r Gweinidog roi’r ateb hwnnw. Roedd y cyflwyniad a roddwyd gan Ysbyty Felindre i holl Aelodau’r Cynulliad Cenedlaethol yn dweud yn eithaf clir beth yw ei ddyheadau ar gyfer yr ysbyty a’i awydd i sicrhau bod therapi ymbelydredd sy’n defnyddio delweddau, therapi ymbelydredd y caiff ei ddwyster ei addasu a therapi ymbelydredd stereotactig y corff yn cael eu cynnig yn gyson i gleifion yng Nghymru. Rwyf yn synnu nad ydych yn ymwybodol o’i awydd i gael buddsoddiad cyfalaf er mwyn gallu darparu triniaeth o’r fath. Onid ydych yn cytuno y bydd y gallu i recriwtio a chadw’r arbenigwyr gorau ym maes canser yng Nghymru yn cael ei beryglu oni bai eich bod yn cyflwyno achos i’r Gweinidog Cyllid am y buddsoddiad cyfalaf hwnnw i uwchraddio’r dyfeisiau cyflymu llinellol hyn?

**Lesley Griffiths:** The Member will be aware that for me to provide capital resources, organisations such as Velindre must present a business cases to me. There are stringent criteria and we must look at them all. I am of course aware of its aspirations, but I have to

**Lesley Griffiths:** Bydd yr Aelod yn ymwybodol bod yn rhaid i sefydliadau megis Ysbyty Felindre gyflwyno achos busnes imi cyn y gallaf ddarparu adnoddau cyfalaf. Ceir meini prawf caeth, a rhaid inni ystyried pob un ohonynt. Wrth gwrs fy mod yn

look at these things on a case-by-case basis.

ymwybodol o'i ddyheadau, ond rhaid imi edrych ar y pethau hyn gan gymryd pob achos yn unigol.

**Blaenoriaethau ar gyfer Aberconwy**

**Priorities for Aberconwy**

***6. Janet Finch-Saunders:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer iechyd yn Aberconwy. OAQ(4)0111(HSS)*

***6. Janet Finch-Saunders:*** *Will the Minister make a statement on her priorities for health in Aberconwy. OAQ(4)0111(HSS)*

**Lesley Griffiths:** Our plans and priorities for the health service for the whole of Wales can be found in our programme for government**.**

**Lesley Griffiths:** Gellir gweld ein cynlluniau a'n blaenoriaethau ar gyfer y gwasanaeth iechyd i Gymru gyfan yn ein rhaglen lywodraethu.

**Janet Finch-Saunders:** Thank you for that answer, Minister. The British Lung Foundation has recently raised concerns that 73% of people in Wales are unable to identify asbestos in their own homes. Asbestos is the cause of some 90% of cases of mesothelioma or, more precisely, malignant mesothelioma. The latest available statistics demonstrate that, since devolution, death rates for women in Wales as a result of mesothelioma rose by 214% to 2009, and by 46% for men. The Health and Safety Executive predicts that this disease will peak in 2016, which is potentially four more years of increases in the death rates. How will you commit to working to fight this disease in Wales and will you support the British Lung Foundation's 'Take 5 and stay alive' campaign?

**Janet Finch-Saunders:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint wedi codi pryderon yn ddiweddar nad yw 73% o bobl yng Nghymru yn gallu adnabod asbestos yn eu cartref eu hunain. Asbestos sy'n gyfrifol am oddeutu 90% o achosion o fesothelioma, neu i fod yn fwy cywir, mesothelioma malaen. Mae'r ystadegau diweddaraf sydd ar gael yn dangos bod nifer y menywod yng Nghymru sy'n marw o ganlyniad i mesothelioma ers datganoli wedi cynyddu 214% hyd at 2009, a bod y gyfradd ar gyfer dynion wedi cynyddu 46%. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn rhagweld y bydd y clefyd hwn ar ei lefel uchaf yn 2016, sydd o bosibl yn golygu y bydd y gyfradd marwolaethau'n codi am bedair blynedd arall. Sut y byddwch yn ymrwymo i weithio i ymladd y clefyd hwn yng Nghymru, ac a fyddwch yn cefnogi ymgyrch 'Take 5 and stay alive' Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint?

**Lesley Griffiths:** That issue has not been specifically raised with me, but if the British Lung Foundation wishes to contact me about it, I am sure that it will do so. The figures that you quote are worrying and it is an issue that I am committed to looking into.

**Lesley Griffiths:** Does neb wedi codi'r mater hwnnw'n benodol gyda mi, ond os yw Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint yn dymuno cysylltu â mi am y mater, mae'n siŵr y bydd yn gwneud hynny. Mae'r ffigurau yr ydych yn eu dyfynnu yn peri pryder, ac mae'n fater yr wyf yn ymrwymo i ymchwilio iddo.

**The Presiding Officer:** Question 7, OAQ(4)0113(HSS), will not be asked.

**Y Llywydd:** Nid ofynnir cwestiwn 7, OAQ(4)0113(HSS).

**Apwyntiadau Cleifion Allanol**

**Out-patient Appointment Process**

***8. Rhodri Glyn Thomas:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am broses apwyntiadau cleifion allanol ar draws y gwasanaeth iechyd. OAQ(4)0109(HSS)*

***8. Rhodri Glyn Thomas:*** *Will the Minister make a statement on the out-patient appointment process throughout the health service. OAQ(4)0109(HSS)*

**Lesley Griffiths:** All NHS organisations in Wales are responsible for operating their own systems for booking out-patient appointments in accordance with guidelines set out by the Welsh Government, and which meet the needs of their residents.

**Lesley Griffiths:** Mae pob un o sefydliadau'r GIG yng Nghymru yn gyfrifol am weithredu ei system ei hun ar gyfer trefnu apwyntiadau cleifion allanol yn unol â'r canllawiau a osodir gan Lywodraeth Cymru, ac sydd hefyd yn diwallu anghenion ei drigolion.

**Rhodri Glyn Thomas:** Byddwch yn ymwybodol bod proses newydd wedi cael ei sefydlu a bod y broses honno yn cael ei gyrru gan apwyntiadau drwy gyfrifiadur. Rwyf wedi clywed pryderon un claf sydd wedi cael ei driniaeth ac wedi cael ei iachàu o ganser. Roedd yntau'n poeni'n fawr iawn bod achlysuron yn codi lle mae cleifion yn cael llythyrau yn dweud eu bod wedi methu apwyntiadau er nad ydynt wedi cael y llythyr gwreiddiol yn rhoi'r manylion am yr apwyntiadau hynny. Rwyf hefyd wedi cael trafodaethau anffurfiol â staff Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda—[*Torri ar draws*.]

**Rhodri Glyn Thomas:** You will be aware that a new process has been established and that that process is driven by computerised appointments. I have heard concerns expressed by one patient who has received treatment and who has been cured of cancer. He was greatly concerned that occasions have arisen when patients received letters saying that they had missed appointments even though they had not received the original letters that would have given them the details of those appointments. I have also had informal discussions with the staff of the Hywel Dda Local Health Board—[*Interruption*.]

**The Presiding Officer:** Order. Are you coming to the question?

**Y Llywydd:** Trefn. A ydych yn dod at y cwestiwn?

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae'n rhan o'r cwestiwn. Rwyf hefyd wedi cael—

**Rhodri Glyn Thomas:** This is part of the question. I have also had—

**The Presiding Officer:** Order. I am sorry, but you have been speaking for a minute and you have not come to the final question yet, Rhodri Glyn.

**Y Llywydd:** Trefn. Mae'n ddrwg gennyf, ond rydych wedi bod yn siarad am funud ac nid ydych wedi dod at y cwestiwn terfynol eto, Rhodri Glyn.

**Rhodri Glyn Thomas:** Rwyf hefyd wedi cael sgyrsiau anffurfiol ag aelodau o Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda sy'n mynegi pryder am y system hon. A wnewch ymchwilio i'r mater hwn?

**Rhodri Glyn Thomas:** I have also had informal conversations with members of the Hywel Dda Local Health Board who expressed concern about this system. Will you look into this matter?

**Lesley Griffiths:** Yes; I will look into it. I cannot comment on an individual case, but if there are problems with the new system, it is obviously something that will need to be looked at. It is important that we have a robust system in place, because we know that there are a lot of wasted appointments. That may be because people have not received the letters, but it may also be that people do not turn up for appointments. I will certainly look into this matter and will write to you.

**Lesley Griffiths:** Gwnaf; ymchwiliaf i'r mater hwn. Ni allaf roi sylwadau ynghylch achos unigol, ond os oes problemau â'r system newydd mae'n amlwg bod hynny'n rhywbeth y bydd yn rhaid ymchwilio iddo. Mae'n bwysig bod gennym system gadarn ar waith, oherwydd gwyddom fod llawer o apwyntiadau'n cael eu gwastraffu. Gallai hynny fod oherwydd nad yw pobl wedi cael y llythyrau, ond gallai hefyd fod oherwydd nad yw pobl yn mynychu apwyntiadau. Byddaf yn sicr yn ymchwilio i'r mater hwn ac yn ysgrifennu atoch.

**Antoinette Sandbach:** Minister, the latest figures show that Betsi Cadwaladr University Local Health Board has the second lowest proportion of patients treated within 26 weeks, and that the number of out-patients in north Wales waiting more than 14 weeks for treatment has risen by 75% since November last year. What assurances have you received from the health board that waiting times in north Wales will be brought down as a matter of urgency, and that the additional funding that you announced in June last year will be sufficient to achieve this?

**Antoinette Sandbach:** Weinidog, mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr y gyfran isaf ond un o gleifion a gaiff eu trin cyn pen 26 wythnos, ac maent yn dangos bod nifer y cleifion allanol yn y gogledd sy'n aros mwy na 14 wythnos am driniaeth wedi codi 75% ers mis Tachwedd y llynedd. Pa sicrwydd yr ydych wedi'i gael gan y Bwrdd Iechyd y bydd amseroedd aros yn y gogledd yn cael eu lleihau a hynny ar fyrder, ac y bydd yr arian ychwanegol a gyhoeddwyd gennych ym mis Mehefin y llynedd yn ddigonol i gyflawni hynny?

**Lesley Griffiths:** We have seen a huge decrease in waiting times, particularly in orthopaedics; we have no-one waiting over 36 weeks now in the area covered by the Betsi Cadwaladr University Local Health Board. Waiting times have been brought down. A lot of Members, particularly those on your benches, did not think that that could be done. I know that the health board is addressing this issue as a matter of urgency.

**Lesley Griffiths:** Rydym wedi gweld amseroedd aros yn lleihau yn sylweddol, yn enwedig ym maes orthopedeg; nid oes neb yn aros dros 36 wythnos yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr erbyn hyn. Mae amseroedd aros wedi eu lleihau. Roedd llawer o Aelodau, yn enwedig yr Aelodau hynny sydd ar eich meinciau chi, o'r farn nad oedd hynny'n bosibl. Gwn fod y bwrdd iechyd yn mynd i'r afael â'r mater hwn ar fyrder.

### Gwasanaethau'r GIG yn y Gogledd

### NHS Services in North Wales

***9. Darren Millar:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau'r GIG yng ngogledd Cymru. OAQ(4)0103(HSS)*

***9. Darren Millar:*** *Will the Minister make a statement on the provision of NHS services in north Wales. OAQ(4)0103(HSS)*

**Lesley Griffiths:** The provision of NHS services in north Wales continues to improve; for example, the Betsi Cadwaladr University Local Health Board has made great improvements in reducing the number of patients waiting over 36 weeks and is committed to reducing this further over the coming year. Reductions have also been made in the number of hospital-acquired infections.

**Lesley Griffiths:** Mae'r gwaith o ddarparu gwasanaethau'r GIG yn y gogledd yn dal i wella; er enghraifft mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi gwneud gwelliannau sylweddol wrth ostwng nifer y cleifion sy'n aros dros 36 wythnos, ac mae'n ymrwymo i ostwng y nifer hon ymhellach yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Cafwyd gostyngiadau hefyd yn nifer y bobl sydd wedi dal heintiau mewn ysbytai.

**Darren Millar:** As you will be aware, Minister, services can be jeopardised if there is underfunding or underinvestment in NHS services. The record-breaking cuts that are being imposed by your Government are not doing any favours for services in north Wales. You will be aware that there is a meeting of the Betsi Cadwaladr University Local Health Board tomorrow. However, as yet, no finance report has been published. There are, however, the minutes of the

**Darren Millar:** Fel y gwyddoch, Weinidog, gall gwasanaethau gael eu peryglu os na cheir digon o gyllid neu fuddsoddiad yng ngwasanaethau'r GIG. Nid yw'r toriadau mwyaf erioed a gyflwynir gan eich Llywodraeth chi yn gwneud dim i helpu'r gwasanaethau yn y gogledd. Gwyddoch fod Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cyfarfod yfory. Fodd bynnag, nid oes adroddiad cyllid wedi'i gyhoeddi hyd yma. Serch hynny, mae cofnodion y pwyllgor

finance and performance committee, which make for grim reading, as they give no assurance that a balanced budget has been achieved for the financial year that has just ended and set out an unprecedented financial challenge for the coming financial year. Are you confident that the health board has achieved a balanced budget for the year ending 31 March 2012?

cyllid a pherfformiad wedi'u cyhoeddi, ac nid ydynt yn edrych yn addawol iawn, gan nad ydynt yn rhoi dim sicrwydd bod y gyllideb wedi'i mantoli ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd newydd ddod i ben, ac maent yn awgrymu y bydd her ariannol na welwyd mo'i thebyg o'r blaen yn wynebu'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. A ydych yn hyderus bod y Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i fantoli ei gyllideb ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012?

**Lesley Griffiths:** I am very confident that the NHS came in on budget last year; I am sure that you will be disappointed to hear that. Performance across key indicators is improving, and I think that the NHS in Wales is doing a great job. I wish that you could join me in praising NHS staff across Wales.

**Lesley Griffiths:** Rwyf yn hyderus iawn bod y GIG wedi llwyddo i gadw at ei gyllideb y llynedd; rwyf yn siŵr y byddwch yn siomedig o glywed hynny. Mae perfformiad yn gwella ar draws dangosyddion allweddol, a chredaf fod y GIG yng Nghymru yn gwneud gwaith ardderchog. Byddai'n dda gennyf pe gallech ymuno â mi i ganmol staff y GIG ar draws Cymru.

**Kenneth Skates:** Minister, a recent report by Public Health Wales highlighted that 11% of five-year-olds in north Wales had not been immunised with childhood vaccinations. The recent measles outbreak in north Wales provides a stark reminder of the risks of not enough people being vaccinated. As part of European Immunization Week, will you do all that you can to remind parents of the importance of keeping up to date with vaccinations so that we can eradicate diseases such as measles in our lifetime?

**Kenneth Skates:** Weinidog, roedd adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn tynnu sylw at y ffaith na chafodd 11% o blant pum mlwydd oed yn y gogledd eu himiwneiddio â brechiadau i blant. Mae'r achosion o'r frech goch a gafwyd yn y gogledd yn ddiweddar yn ein hatgoffa'n glir o'r risgiau os na chaiff digon o bobl eu brechu. Yn rhan o'r Wythnos Imiwneiddio Ewropeaidd, a wnewch chi bopeth yn eich gallu i atgoffa rhieni o bwysigrwydd cael y brechiadau diweddaraf, fel y gallwn ddileu afiechydon megis y frech goch yn ystod ein hoes ni?

**Lesley Griffiths:** That is an important point. The press releases that we put out during the recent measles outbreak have reminded parents of the need for vaccination. We will continue to promote vaccination with the aim of eradicating diseases such as measles. Our programme for government includes a commitment to increase immunisation among children to eradicate health problems caused by mumps, measles and rubella. This will be measured by the number of two-year-old children who have been immunised against MMR. The only way to prevent outbreaks such as the one in north Wales is to ensure that at least 95% of children in Wales are immunised.

**Lesley Griffiths:** Mae hwnnw'n bwynt pwysig. Mae'r datganiadau i'r wasg a gyhoeddwyd gennym yn ystod yr achosion diweddar o'r frech goch wedi atgoffa rhieni bod angen brechu plant. Byddwn yn parhau i hyrwyddo brechu gyda'r nod o ddileu afiechydon megis y frech goch. Mae ein rhaglen lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i gynyddu cyfraddau imiwneiddio ymhlith plant er mwyn dileu problemau iechyd a achosir gan glwy'r pennau, y frech goch a rwbela. Caiff hynny ei fesur gan nifer y plant dwy flwydd oed sydd wedi'u himiwneiddio yn erbyn y tri afiechyd hynny. Yr unig ffordd o atal achosion megis yr un yn y gogledd yw trwy sicrhau bod o leiaf 95% o blant yng Nghymru yn cael eu himiwneiddio.

2.00 p.m.

**Alun Ffred Jones:** Mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi bod yn trafod ac ystyried ei drefniadau newydd ar gyfer gogledd Cymru ers dros flwyddyn. A ydych chi wedi trafod y cynlluniau arfaethedig newydd gyda'r bwrdd?

**Lesley Griffiths:** No, not with the board. It is going through its pre-consultation engagement. We will receive the presentation of the consultation proposals—or the public will—within the next two months, probably before the end of June.

**Alun Ffred Jones:** The Betsi Cadwaladr University Local Health Board has been discussing and considering its new arrangements for north Wales for over a year. Have you discussed the proposed new plans with the board?

**Lesley Griffiths:** Nac ydw, nid wyf wedi eu trafod â'r bwrdd. Mae wrthi'n cynnal ei broses ymgysylltu cyn ymgynghori. Bydd cynigion yr ymgynghoriad yn cael eu cyflwyno i ni—neu i'r cyhoedd yn hytrach—yn ystod y deufis nesaf, cyn diwedd mis Mehefin fwy na thebyg.

**Ysbyty Cefn Coed**

**Cefn Coed Hospital**

***10. Julie James:*** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerwyd ers adroddiad beirniadol diweddar Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar Ysbyty Cefn Coed. OAQ(4)0115(HSS)*

***10. Julie James:*** *Will the Minister provide an update on the measures taken since the recent critical Healthcare Inspectorate Wales report into Cefn Coed Hospital. OAQ(4)0115(HSS)*

**Lesley Griffiths:** Yes. The HIW report notes that Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board commenced development of an action plan to address concerns prior to the report's publication. This action plan is being monitored both by the health board and through Welsh Government performance and quality meetings.

**Lesley Griffiths:** Gwnaf. Mae adroddiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn nodi y bu i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ddechrau datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â phryderon cyn cyhoeddi'r adroddiad. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn cael ei fonitro gan y Bwrdd Iechyd ac yng nghyfarfodydd perfformiad ac ansawdd Llywodraeth Cymru.

**Julie James:** Thank you for that answer, Minister. I was alarmed at the report's findings, as I know were you. I am encouraged that new, modern facilities will open shortly that will address many of the issues that were raised, but will the Minister reassure my constituents and the wider professional mental health community that the safety and wellbeing of patients and professionals at the Cefn Coed site are a priority?

**Julie James:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Cefais innau, fel chithau mi wn, fy mrawychu gan ganfyddiadau'r adroddiad. Rwyf wedi fy nghalonogi y bydd cyfleusterau newydd, modern yn agor cyn bo hir a fydd yn mynd i'r afael â llawer o'r materion a godwyd, ond a wnaiff y Gweinidog roi sicrwydd i'm hetholwyr a'r gymuned ehangach o weithwyr proffesiynol ym maes iechyd meddwl bod diogelwch a lles cleifion a gweithwyr proffesiynol ar safle Cefn Coed yn flaenoriaeth?

**Lesley Griffiths:** Yes, absolutely. The safety of patients and staff must be paramount at all times, so I can assure you, your constituents and everybody else that the Welsh Government, and I as Minister, take this report seriously, as I do all HIW reports. The health board has already taken a number of actions to improve safety, and my officials will be keeping this under close review. There is a meeting tomorrow between the

**Lesley Griffiths:** Gwnaf, yn sicr. Rhaid i ddiogelwch cleifion a staff fod o'r pwys mwyaf bob amser, felly gallaf eich sicrhau chi, eich etholwyr a phawb arall bod Llywodraeth Cymru, a minnau fel Gweinidog, yn cymryd yr adroddiad hwn o ddifrif, fel y gwnaf gyda phob un o adroddiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae'r bwrdd iechyd eisoes wedi cymryd nifer o gamau i wella diogelwch, a

joint executive, the health board and the Welsh Government, and I have asked for an update on its detailed action plan. I have also asked my officials to ensure that I have some assurance on progress in ensuring the safety of patients, staff and visitors within Cefn Coed.

bydd fy swyddogion yn cadw golwg manwl ar hyn. Cynhelir cyfarfod yfory rhwng y cyd-bwyllgor gwaith, y bwrdd iechyd a Llywodraeth Cymru, ac rwyf wedi gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am ei gynllun gweithredu manwl. Rwyf hefyd wedi gofyn i'm swyddogion sicrhau fy mod yn cael rhywfaint o sicrwydd ynghylch y cynnydd a wneir o ran sicrhau bod cleifion a staff Cefn Coed ac ymwelwyr â'r ysbyty yn ddiogel.

**Bethan Jenkins:** I welcome the response of ABMU health board to this damning report by HIW. In the long term, what can you try to do as Minister to ensure that these things do not happen again? I appreciate that action is being taken on this particular incident, but we want to make sure that cases such as this do not occur in the future.

**Bethan Jenkins:** Rwyf yn croesawu ymateb Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i'r adroddiad damniol hwn gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Yn y tymor hir, beth y gallwch geisio ei wneud fel Gweinidog i sicrhau nad yw'r pethau hyn yn digwydd eto? Rwyf yn sylweddoli bod camau'n cael eu cymryd mewn perthynas â'r digwyddiad arbennig hwn, ond rydym am sicrhau nad oes achosion o'r fath yn digwydd yn y dyfodol.

**Lesley Griffiths:** Absolutely. As you say, although the findings specifically relate to Cefn Coed, it is important that wider lessons can be learned across the mental health services in Wales, and officials are going to consider how we can best share that learning.

**Lesley Griffiths:** Yn hollol. Fel yr ydych yn ei ddweud, er bod y canfyddiadau'n ymwneud yn benodol â Chefn Coed, mae'n bwysig bod modd dysgu gwersi ehangach ar draws y gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru, a bydd swyddogion yn ystyried beth yw'r ffordd orau o rannu'r hyn a ddysgwyd.

**Peter Black:** Minister, I welcome the action plan that has been put in place after this disturbing report. However, the feedback that I have been getting is that there are still issues relating to staffing levels in Cefn Coed, in particular at night when insufficient staff are available to ensure the safety of patients, who have to be locked up to make things work. When you have your update on the action plan, will you raise this specific issue and question ABMU health board on whether it is addressing the level of staffing in Cefn Coed to ensure that patients' safety is guaranteed and that they have adequate staff on duty at any one time for that purpose?

**Peter Black:** Weinidog, rwyf yn croesawu'r cynllun gweithredu sydd wedi'i roi ar waith ar ôl cyhoeddi'r adroddiad annifyr hwn. Fodd bynnag, mae'r adborth yr wyf wedi'i gael yn awgrymu bod problemau o hyd yn ymwneud â lefelau staffio yng Nghefn Coed, yn enwedig yn ystod y nos pan nad oes digon o staff ar gael i sicrhau bod y cleifion yn ddiogel, a bod yn rhaid cloi cleifion yn eu hystafelloedd er mwyn i'r ysbyty allu gweithredu. Pan fyddwch yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun gweithredu, a wnewch chi godi'r mater penodol hwn, a holi Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a yw'n mynd i'r afael â lefelau staffio yng Nghefn Coed i sicrhau bod y cleifion yn ddiogel a sicrhau bod gan yr ysbyty ddigon o staff ar ddyletswydd ar unrhyw adeg at y diben hwnnw?

**Lesley Griffiths:** Clearly, that is an important issue. I will ask for that point to be

**Lesley Griffiths:** Mae hynny'n amlwg yn fater pwysig. Byddaf yn gofyn i'r pwynt

raised, and I will write to you once my officials have met with them.

hwnnw gael ei godi, a byddaf yn ysgrifennu atoch unwaith y bydd fy swyddogion wedi cyfarfod â staff yr ysbyty.

**Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig**

**Autistic Spectrum Disorder**

***11. Nick Ramsay:*** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Llywodraeth Cymru o ran gweithredu'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig. OAQ(4)0106(HSS)*

***11. Nick Ramsay****: Will the Minister give an update on the Welsh Government's progress in implementing the Autistic Spectrum Disorder (ASD) Strategic Action Plan. OAQ(4)0106(HSS)*

**The Deputy Minister for Children and Social Services (Gwenda Thomas):** Since we published our world-leading autistic spectrum disorder strategic action plan, much has been achieved. We have developed an ASD infrastructure within statutory authorities, facilitated awareness-raising training to professionals, and supported local and regional projects. This summer, we will consult on the future direction of our action plan.

**Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Ers inni gyhoeddi ein cynllun gweithredu strategol ar gyfer anhwylderau'r sbectrwm awtistig, sydd gyda'r gorau yn y byd, rydym wedi cyflawni llawer. Rydym wedi datblygu seilwaith ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig mewn awdurdodau statudol, rydym wedi hwyluso hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth gweithwyr proffesiynol am yr anhwylderau, ac wedi cefnogi prosiectau lleol a rhanbarthol. Yn ystod yr haf, byddwn yn ymgynghori ynghylch y cyfeiriad y bydd ein cynllun gweithredu yn mynd iddo yn y dyfodol.

**Nick Ramsay:** Thank you for that answer, Deputy Minister. In 2008, the ASD strategic action plan was published, as you know, stating that local authorities and local health boards needed to work much more closely together in sharing information. Listening to what you have just said, you obviously believe that some progress has been made. Can you tell us, in your view, how many local authorities are meeting your targets on data sharing and what are you doing now to ensure that those authorities and local health boards that have not been doing that successfully will be able to do so as quickly as possible?

**Nick Ramsay:** Diolch am yr ateb hwnnw, Ddirprwy Weinidog. Fel y gwyddoch, cyhoeddwyd y cynllun gweithredu strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn 2008, gan nodi bod angen i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol weithio'n fwy agos o lawer gyda'i gilydd i rannu gwybodaeth. O wrando ar yr hyn yr ydych newydd ei ddweud, mae'n amlwg eich bod yn credu i rywfaint o gynnydd gael ei wneud. A allwch ddweud wrthym, yn eich barn chi, faint o awdurdodau lleol sy'n cyrraedd eich targedau mewn perthynas â rhannu data, a beth yr ydych yn ei wneud yn awr i sicrhau y bydd yr awdurdodau a'r byrddau iechyd lleol hynny nad ydynt wedi bod yn rhannu data'n llwyddiannus yn gallu gwneud hynny cyn gynted ag y bo modd?

**Gwenda Thomas:** All local authorities are meeting the infrastructure requirements within the plan. I recognise that there is more to do with regard to integrating the services, and we will move forward with that. It is important to have the consultation that we intend to have in the summer, and I intend to

**Gwenda Thomas:** Mae pob awdurdod lleol yn bodloni'r gofynion yn y cynllun yn ymwneud ag isadeiledd. Rwyf yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith o ran integreiddio'r gwasanaethau, a byddwn yn bwrw ymlaen â hynny. Mae'n bwysig cynnal yr ymgynghoriad yr ydym yn bwriadu ei

ask the National Autistic Society and Autism Cymru to help to organise and facilitate that.

gynnal yn yr haf, ac rwyf yn bwriadu gofyn i'r Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth ac Awtistiaeth Cymru helpu i drefnu a hwyluso hynny.

**The Presiding Officer:** I call Rebecca Evans.

**Y Llywydd:** Galwaf ar Rebecca Evans.

**Rebecca Evans:** Presiding Officer, the Deputy Minister has just answered my question.

**Rebecca Evans:** Lywydd, mae'r Dirprwy Weinidog newydd ateb fy nghwestiwn.

**Simon Thomas:** Mae problemau o hyd mewn mannau o Gymru ynghylch rhieni yn cael datganiad o anghenion arbennig ar gyfer plant sydd angen triniaeth a help i ddelio ag awtistiaeth. A oes cynnydd o ran gwella'r system? Mae oedi yn un o'r problemau sy'n wynebu'r rhieni hyn. Mae colli chwe neu naw mis cyn bod help ar gael yn gallu dal y plentyn yn ôl yn addysgiadol.

**Simon Thomas:** Deputy Minister, there are still problems in certain areas of Wales in relation to parents getting a statement of special needs for children who need treatment and help in dealing with autism. Has any progress been made in improving that system? Delays are one of the problems facing these parents. Losing six or nine months before assistance is available to a child can hold that child back educationally.

**Gwenda Thomas:** Credaf fod y cwestiwn o ddiagnosteg yn bwysig, ac rydym yn edrych ar werthuso'r gwasanaeth ddiagnosteg i blant. Rwyf wedi gofyn i Ganolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru edrych ar hyn. Byddwn yn datblygu argymhellion y ganolfan gan sicrhau bod rhwydwaith i ymateb i'r gofynion a'r pryderon sydd gan rieni yn ymwneud â'r cwestiwn yr ydych wedi ei godi.

**Gwenda Thomas:** I believe that the question of diagnostics is important and we are looking at evaluating the children's diagnostic service. I have asked the Wales Autism Research Centre to look at this, and we will develop the recommendations from that centre and ensure that there is a network that can respond to the needs and concerns of parents with regard to the question that you raised.

## Amseroedd Aros Ambiwlans

## Ambulance Waiting Times

***12. Nick Ramsay:*** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am amseroedd aros am ambiwlans ym Mynwy. OAQ(4)0105(HSS)*

***12. Nick Ramsay:*** *Will the Minister provide an update on ambulance waiting times in Monmouthshire. OAQ(4)0105(HSS)*

**Lesley Griffiths:** Response times have improved significantly during recent times. The Monmouthshire locality has achieved well in excess of the 60% equity standard for eight-minute response times during 12 of the past 13 months.

**Lesley Griffiths:** Mae'r amseroedd ymateb wedi gwella'n sylweddol yn ddiweddar. Mae ardal Sir Fynwy wedi cyflawni ymhell dros y safon tegwch o 60% ar gyfer amseroedd ymateb wyth munud yn ystod 12 o'r 13 mis diwethaf.

**Nick Ramsay:** Thank you for that answer. I had a recent meeting with the Welsh Ambulance Service NHS Trust in south-east Wales, and I am pleased that some progress has been made in dealing with those response times, despite the 6% cut that the Welsh Government has made to the ambulance services across Wales this year.

**Nick Ramsay:** Diolch am yr ateb hwnnw. Cyfarfûm yn ddiweddar ag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn y de-ddwyrain, ac rwyf yn falch bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud wrth ymdrin â'r amseroedd ymateb hynny, er gwaethaf y toriad o 6% y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i'r gwasanaethau ambiwlans ledled Cymru eleni.

During the meeting, cross-border issues were cited to me as a reason why there have been problems in the past, particularly in east Wales and rural parts of Wales. What are you doing to help local health boards to better liaise with counties such as Herefordshire, so that, if ambulances are not available within the eight-minute response time this side of the border, a call is made quickly to ambulances beyond the border so that patients' needs come first?

Yn ystod y cyfarfod, dywedwyd wrthyf bod materion traws-ffiniol yn un rheswm am y problemau a gafwyd yn y gorffennol, yn enwedig yn y dwyrain ac mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru. Beth yr ydych yn ei wneud i helpu byrddau iechyd lleol i gydweithio'n well â siroedd megis Swydd Henffordd i sicrhau os nad oes ambiwlans ar gael o fewn yr amser ymateb o wyth munud yr ochr hon i'r ffin, bod galwad yn cael ei wneud yn gyflym i ambiwlansys yr ochr draw i'r ffin fel y gellir sicrhau bod anghenion y cleifion yn dod yn gyntaf?

**Lesley Griffiths:** It is paramount that patients' needs come first. I am aware of your meeting and that you discussed the complaints with the regional director and the chairman. Work is ongoing to ensure that those discussions are taken further with health boards in England.

**Lesley Griffiths:** Mae'n hollbwysig bod anghenion cleifion yn dod yn gyntaf. Rwyf yn ymwybodol o'r cyfarfod a gawsoch a'r ffaith ichi drafod y cwynion â'r cyfarwyddwr rhanbarthol a'r cadeirydd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod y trafodaethau hynny'n parhau â byrddau iechyd yn Lloegr.

**Lindsay Whittle:** I do not think that the public is very happy with the way the service is managed—I certainly am not. Will you provide Members with a written statement on all ambulance response times in relation to every target, whether it has been met or otherwise, during the past 12 months? Do you agree that ambulance services—I will repeat this mantra; I have said it several times in this Chamber—should be accountable to the local health boards? We should cast political differences aside and perhaps bring a report on the feasibility of that to the Health and Social Care Committee.

**Lindsay Whittle:** Nid wyf yn credu bod y cyhoedd yn fodlon iawn â'r modd y caiff y gwasanaeth ei reoli—yn sicr nid wyf i'n fodlon. A wnewch chi roi datganiad ysgrifenedig i'r Aelodau am amseroedd ymateb y gwasanaeth ambiwlans mewn perthynas â phob targed, a ph'un a yw wedi'i fodloni ai peidio, yn ystod y 12 mis diwethaf? A ydych yn cytuno—rwyf am ailadrodd y bregeth hon; rwyf wedi ei chodi droeon yn y Siambr hon—y dylai gwasanaethau ambiwlans fod yn atebol i'r byrddau iechyd lleol? Dylem fwrw gwahaniaethau gwleidyddol o'r neilltu a chyflwyno adroddiad ar ymarferoldeb hynny efallai i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

**Lesley Griffiths:** The ambulance service has made huge strides, but there is a great deal more work to be done. I am happy to make a written statement, as the Member requested.

**Lesley Griffiths:** Mae'r gwasanaeth ambiwlans wedi gwneud cynnydd mawr, ond mae llawer iawn mwy o waith i'w wneud. Rwyf yn fodlon paratoi datganiad ysgrifenedig, yn unol â chais yr Aelod.

### Byw'n Iach

### Healthy Living

***13. William Graham:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei pholisïau i hybu byw'n iach yn Nwyrain De Cymru. OAQ(4)0112(HSS)*

***13. William Graham:*** *Will the Minister outline her policies to encourage healthy living in South Wales East. OAQ(4)0112(HSS)*

**Lesley Griffiths:** 'Together for Health, A Five Year Vision for the NHS in Wales' re-emphasises the importance of the prevention

**Lesley Griffiths:** Mae 'Law yn Llaw at Iechyd, Gweledigaeth bum mlynedd ar gyfer y GIG yng Nghymru', yn ailbwysleisio

of ill health and health improvement by encouraging healthy lifestyles, and builds upon 'Our Healthy Future' and 'Fairer Health Outcomes for All'.

pwysigrwydd atal afiechyd a gwella iechyd drwy annog ffyrdd iach o fyw, ac mae'n adeiladu ar 'Ein Dyfodol Iach' a 'Chanlyniadau Iechyd Tecach i Bawb'.

**William Graham:** I thank the Minister for her answer. You will be aware that more than 2,300 women in Wales die from heart disease each year, which is three times the number of women who die from breast cancer each year. Heart disease is the biggest single killer of women across the United Kingdom, claiming almost 40,000 lives a year. Unfortunately, south-east Wales has one of the highest rates of coronary heart disease among women in the United Kingdom. Will you join me in encouraging women in Wales to take the British Heart Foundation online test to see whether their lifestyles are putting them at risk?

**William Graham:** Diolch i'r Gweinidog am ei hateb. Gwyddoch fod dros 2,300 o fenywod yng Nghymru yn marw o glefyd y galon bob blwyddyn, sy'n dair gwaith yn fwy na nifer y menywod sy'n marw o ganser y fron bob blwyddyn. Mae clefyd y galon yn lladd mwy o fenywod na'r un afiechyd arall ar draws y Deyrnas Unedig, gan hawlio bron i 40,000 o fywydau bob flwyddyn. Yn anffodus, mae gan y de-ddwyrain un o'r cyfraddau uchaf o glefyd coronaidd y galon ymysg menywod yn y Deyrnas Unedig. A wnewch chi ymuno â mi i annog menywod yng Nghymru i gymryd prawf ar-lein Sefydliad Prydeinig y Galon i weld a yw eu ffordd o fyw yn golygu bod perygl iddynt gael yr afiechyd?

**Lesley Griffiths:** Returning to earlier questions, it is important for individuals to take responsibility for their own health. It is important that we get that information to the public. If the British Heart Foundation is doing that, I would encourage individuals to do so.

**Lesley Griffiths:** Gan gyfeirio'n ôl at gwestiynau a ofynnwyd yn gynharach, mae'n bwysig i unigolion gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd eu hunain. Mae'n bwysig inni sicrhau bod y wybodaeth honno'n cyrraedd y cyhoedd. Os yw Sefydliad Prydeinig y Galon yn gwneud hynny, byddwn yn annog unigolion i fanteisio ar y cyfle.

### Ymchwil Feddygol

### Medical Research

***14. Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth ar gyfer ymchwil feddygol yng ngogledd Cymru. OAQ(4)0119(HSS)*

***14. Alun Ffred Jones:** Will the Minister make a statement on provision for medical research in north Wales. OAQ(4)0119(HSS)*

**Lesley Griffiths:** Investment in health and social care research and innovation is on a national basis. North Wales leads on the NeuroDem Cymru dementia research network, the NWORTH clinical trials unit and the biomedical research unit in medical imaging and visualisation. Betsi Cadwaladr University Local Health Board has recently been awarded significantly increased NHS research and development funding.

**Lesley Griffiths:** Buddsoddir mewn ymchwil ac arloesi ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ar lefel genedlaethol. Mae'r gogledd yn arwain rhwydwaith ymchwil dementia Neurodem Cymru, uned treialon clinigol NWORTH a'r uned ymchwil fiomeddygol ym maes delweddu meddygol. Yn ddiweddar, dyfarnwyd cyllid ymchwil a datblygu mwy sylweddol o lawer gan y GIG i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr.

**Alun Ffred Jones:** Rydych wedi ymweld ag Ysgol Gwyddorau Meddygol Prifysgol Bangor, sydd yn gwneud gwaith ymchwil pwysig a blaengar. Pa ymdrechion a wnaethoch i sicrhau bod cyllid teilwng i'r

**Alun Ffred Jones:** You have visited the Bangor University School of Medical Sciences, which does important and innovative research. What efforts have you made to ensure adequate funding for the

ysgol i sicrhau ei dyfodol a denu arbenigwyr, a all yn eu tro gyfrannu a rhannu eu hamser gyda'r gwasanaeth iechyd yn y gogledd?

school to secure its future and attract expertise, which can in turn contribute and share their time with the health service in north Wales?

**Lesley Griffiths:** I have visited the unit, as you described. We gave £1.2 million of Welsh Government funding last year to the biomedical research unit, which, as you say, is based in Bangor. This unit focuses on medical image analysis and visualisation in relation to heart disease, prostate cancer and the brain, and it transforms diagnosis, treatment, education and training applications.

**Lesley Griffiths:** Rwyf wedi ymweld â'r uned, fel y bu ichi nodi. Y llynedd, bu inni roi £1.2 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru i'r uned ymchwil fiomeddygol, sydd, fel y dywedwch, wedi'i lleoli ym Mangor. Mae'r uned yn canolbwyntio ar ddelweddu a dadansoddi delweddau meddygol yng nghyswllt clefyd y galon, canser y prostad a'r ymennydd, ac mae'n gweddnewid rhaglenni ar gyfer diagnosis, triniaeth, addysg a hyfforddiant.

**Antoinette Sandbach:** Minister, given that north Wales was all but neglected when £7 million of new funding for medical research was announced by the First Minister in July of last year, will you confirm what plans you have to address the imbalance in funding between north and south Wales in medical research during future funding rounds and to improve investment in medical research and development in north Wales?

**Antoinette Sandbach:** Weinidog, o gofio bod y gogledd wedi'i anwybyddu i bob pwrpas pan gafodd £7 miliwn o gyllid newydd ar gyfer ymchwil feddygol ei gyhoeddi gan y Prif Weinidog ym mis Gorffennaf y llynedd, a wnewch chi gadarnhau pa gynlluniau sydd gennych i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd o ran cyllid rhwng y gogledd a'r de ym maes ymchwil feddygol yn ystod cylchoedd cyllido yn y dyfodol, ac i wella buddsoddiad mewn gwaith ymchwil a datblygu meddygol yn y gogledd?

**Lesley Griffiths:** I have just referred to the £1.2 million of Welsh Government funding that Bangor University received. We have also provided significant funding to Betsi Cadwaladr University Local Health Board to support NHS research. For instance, in this financial year, it will receive just over £1.3 million from the Welsh Government.

**Lesley Griffiths:** Rwyf newydd gyfeirio at yr £1.2 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru a gafodd Prifysgol Bangor. Rydym hefyd wedi darparu cyllid sylweddol i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr i gefnogi ymchwil y GIG. Er enghraifft, yn ystod y flwyddyn ariannol hon, bydd yn cael ychydig dros £1.3 miliwn gan Lywodraeth Cymru.

### Cyfleusterau Seiciatrig

### Psychiatric Facilities

***15. David Melding:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y cleifion o dan 18 oed a dderbynnir i gyfleusterau seiciatrig cleifion mewnol i oedolion. OAQ(4)0107(HSS)*

***15. David Melding:*** *Will the Minister make a statement on the number of patients aged under 18 admitted into adult inpatient psychiatric facilities. OAQ(4)0107(HSS)*

**Lesley Griffiths:** Following my response on 15 March to your written Assembly question on the same topic, two fuarther admissions in 2012 of under 18 years old to adult psychiatric wards have been reported to the Welsh Government

**Lesley Griffiths:** Yn dilyn fy ymateb ar 15 Mawrth i'ch cwestiwn ysgrifenedig i'r Cynulliad am yr un pwnc, mae Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod am ddau glaf arall a dderbyniwyd yn 2012 I wardiau seiciatric Oedolion.

**David Melding:** Thank you for that answer, Minister. I was disappointed with your written answers, although that is not to do directly with your policy, but because of the fact that we do not hold these figures centrally. I urge you to ensure that these figures are held centrally and for certain treatments that are used. For instance, we do not know how many people aged under 18 received electro-convulsive therapy in 2011. I think that we ought to know these figures, because they indicate the type of treatment that this very vulnerable group of patients receives. Your predecessor made some valuable reforms in this area in relation to in-patient treatment for children and adolescents with serious mental illness, but I want to be able to scrutinise how effectively this is turning around the delivery of these services.

**David Melding:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Cefais fy siomi gan eich atebion ysgrifenedig, ond nid yw hynny'n ymwneud yn uniongyrchol â'ch polisi, ond yn hytrach â'r ffaith nad yw'r ffigurau hyn gennym yn ganolog. Fe'ch anogaf i sicrhau bod y ffigurau hyn yn cael eu cadw'n ganolog ac yn cael eu cadw ar gyfer rhai triniaethau a ddefnyddir. Er enghraifft, nid ydym yn gwybod faint o bobl dan 18 oed a gafodd therapi electrogynhyrfol yn 2011. Credaf y dylem wybod y ffigurau hyn, oherwydd maent yn dangos y math o driniaeth y mae'r grŵp hwn o gleifion sy'n agored iawn i niwed yn ei chael. Cyflwynodd eich rhagflaenydd rai diwygiadau gwerthfawr yn y maes hwn o ran triniaeth cleifion mewnol i blant a phobl ifanc sydd ag afiechyd meddwl difrifol, ond rwyf am allu craffu ar ba mor effeithiol y mae hynny'n gwella'r modd y caiff y gwasanaethau dan sylw eu darparu.

**Lesley Griffiths:** It is something that I will look at. I am aware of the work that Edwina Hart undertook, and we are providing funding to establish dedicated child and adolescent mental health in-patient units to ensure that these people are treated in the most appropriate place. So, it is something that I will look at.

**Lesley Griffiths:** Mae'n rhywbeth yr wyf yn fodlon ei ystyried. Rwyf yn ymwybodol o'r gwaith a wnaeth Edwina Hart, ac rydym yn darparu cyllid i sefydlu unedau cleifion mewnol penodol ar gyfer iechyd meddwl plant a phobl ifanc er mwyn sicrhau bod y cleifion hyn yn cael eu trin yn y lle mwyaf priodol. Felly, mae'n rhywbeth y byddaf yn ei ystyried.

## Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol
## Questions to the Counsel General

### Biliau Preifat

### Private Bills

***1. Simon Thomas:*** *Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael am y broses ar gyfer Biliau Preifat. OAQ(4)0032(CG)*

**The Counsel General (Theodore Huckle):** I have had no discussions about the process for private Assembly Bills.

***1. Simon Thomas:*** *What discussions has the Counsel General had about the process for Private Bills. OAQ(4)0032(CG)*

**Y Cwnsler Cyffredinol (Theodore Huckle):** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau am y broses ar gyfer Biliau preifat y Cynulliad.

**Simon Thomas:** Awgrymaf fod gennych dau rôl ynghylch Biliau preifat, Cwnsler Cyffredinol. Yn gyntaf, mae gennych rôl o ran hysbysu'r cyhoedd yng Nghymru ynglŷn â'r broses. Rydym newydd gweld fod Bil preifat wedi ei gyflwyno gerbron San Steffan a ddylai fod wedi cael ei gyflwyno gerbron y Senedd hon, felly efallai bod diffyg gwybodaeth ymysg y cyhoedd ynglŷn â'r

**Simon Thomas:** I suggest that you have two roles in relation to private Bills, Counsel General. First, you have a role in letting the public in Wales know about the process. We have just seen that a private Bill has been brought before Westminster that should have been brought before this Senedd, therefore there is perhaps a lack of information among the public about the process. Secondly, you

broses. Yn ail, mae gennych rôl o ran cynghori'r Llywodraeth am ei hagwedd tuag at y broses o basio'r Biliau preifat hyn. Rwyf yn deall fod y Pwyllgor Busnes wedi trafod sut y byddai'r Cynulliad yn delio â Biliau preifat. A fyddwch yn rhoi canllawiau i'r Llywodraeth ar sut y bydd yn delio â Biliau preifat?

have a role in advising the Government on its attitude towards the process of passing these private Bills. I understand that the Business Committee has discussed how the Assembly would deal with private Bills. Will you be providing guidelines to the Government on how it will deal with private Bills?

**Theodore Huckle:** As I have said before, I will advise as asked to advise. I am obviously aware of the process by which it is proposed to have a new Standing Order No. 26A to deal with private Bills. For those like me until recently, it may be worth stating that we are talking here about private Bills that are Bills promoted by private organisations or persons, not private Member's Bills, which are a different matter altogether, of course. There is currently no Standing Order that deals with it, although there is intended to be a Standing Order that will at least deal with the matter sufficiently to deal immediately with the process in relation to the Bill that you mentioned, the proposed education Bill.

**Theodore Huckle:** Fel yr wyf wedi dweud o'r blaen, byddaf yn cynghori fel y gofynnir imi gynghori. Yn amlwg, rwyf yn ymwybodol o'r broses lle y bwriedir cael Rheol Sefydlog newydd Rhif 26A i ymdrin â Biliau preifat. I'r sawl a oedd fel fi tan yn ddiweddar, efallai y byddai'n werth nodi ein bod yn sôn yma am Filiau preifat sy'n Filiau a gaiff eu hyrwyddo gan sefydliadau neu bobl breifat, ac nid am Filiau Aelod preifat, sy'n fater hollol wahanol, wrth gwrs. Ni cheir Rheol Sefydlog sy'n ymdrin â'r mater ar hyn o bryd, er ei bod yn fwriad cael Rheol Sefydlog a fydd o leiaf yn mynd i'r afael â'r mater yn ddigonol i ymdrin ar unwaith â'r broses sy'n ymwneud â'r Bil y bu ichi sôn amdano, sef y Bil addysg arfaethedig.

2.15 p.m.

I can reiterate that I will advise when asked to advise. As far as the public is concerned, if the problem arose in relation to the promotion of a private Member's Bill at Westminster, I respectfully suggest that it was more to do with a lack of understanding of the competence and powers of the Assembly, which is a slightly different point. It seems to me that there is a job to be done by us all in enabling the people of Wales to understand the powers of the Assembly compared with the powers of Parliament at Westminster. From there, it flows that people will know, it is hoped, that if they want to promote a Bill that is within the competence of the Assembly, they should come here to promote a Member-proposed Bill here. That is a slightly different matter from the process of doing it, if I may put it that way. I hope that that reasonably answers the point that you raised.

Gallaf ailddweud y byddaf yn cynghori pan ofynnir imi gynghori. O ran y cyhoedd, os cododd y broblem yng nghyswllt hyrwyddo Mesur Aelod preifat yn San Steffan, rwyf yn awgrymu gyda phob parch bod a wnelo hynny'n fwy â diffyg dealltwriaeth o gymhwysedd a phwerau'r Cynulliad, sy'n bwynt ychydig yn wahanol. Ymddengys i mi fod gwaith i'w wneud gan bob un ohonom i alluogi pobl Cymru i ddeall pwerau'r Cynulliad o'u cymharu â phwerau'r Senedd yn San Steffan. Yn dilyn hynny, gobeithir y bydd pobl yn gwybod, os ydynt am hyrwyddo Bil sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad, y dylent ddod yma i hyrwyddo Bil a gynigir gan Aelod yma. Mae'n fater ychydig yn wahanol i'r broses o wneud hynny, os caf ei fynegi felly. Rwyf yn gobeithio bod hynny'n ateb yn rhesymol y pwynt a godwyd gennych.

**Comisiwn Silk**

**The Silk Commission**

***2. Bethan Jenkins:*** *A yw'r Cwnsler Cyffredinol wedi cael unrhyw drafodaethau blaenorol gyda Llywodraeth y DU ynghylch Comisiwn Silk. OAQ(4)0033(CG)*

***2. Bethan Jenkins:*** *Has the Counsel General had any previous discussions with the UK Government regarding the Silk Commission. OAQ(4)0033(CG)*

**Theodore Huckle:** I have not had any discussions with the UK Government

**Theodore Huckle:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau â Llywodraeth y DU

regarding the Silk commission.

ynghylch comisiwn Silk.

**Bethan Jenkins:** Thank you for your informative answer. Part 2 of their Silk commission is not due to report until spring 2014, which is, of course, before an expected Scottish independence referendum and before the UK general election, expected in 2015. Are you able to tell us whether you will have discussions with regard to any legal factors that may have consequences for any changes affecting the recommendations of this report?

**Bethan Jenkins:** Diolch am eich ateb llawn gwybodaeth. Ni ddisgwylir i ran 2 comisiwn Silk adrodd yn ôl tan y gwanwyn 2014, sydd, wrth gwrs, cyn y refferendwm a ddisgwylir ynghylch annibyniaeth yr Alban a chyn etholiad cyffredinol y DU, a ddisgwylir yn 2015. A allwch ddweud wrthym a fyddwch yn cael trafodaethau ynghylch unrhyw ffactorau cyfreithiol a allai arwain at ganlyniadau ar gyfer unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar argymhellion yr adroddiad hwn?

**Theodore Huckle:** For reasons that I have explained on several occasions, I cannot tell you about specific matters on which I may be asked to advise, but I think that it is a reasonable inference that I will, if I may put it that way. What I said in answer to your colleague's question in March is correct: obviously, it is a matter for Government what engagement there is with part 2 of the Silk commission and what formal representations are made to it. Whether I am asked to be a direct or indirect part of that process is a matter for others to decide. However, this all comes together with the current consultation on a separate legal jurisdiction, which, as I have always made clear, is intended to inform, at least in part and in conjunction with the evidence obtained by the Constitutional and Legislative Affairs Committee, the Government's policy position and what representations it makes to the Silk commission part 2.

**Theodore Huckle:** Am resymau yr wyf wedi eu hegluro droeon, ni allaf sôn wrthych am faterion penodol y gellid gofyn imi gynghori yn eu cylch, ond credaf ei bod yn rhesymol dod i'r casgliad y byddaf yn cael trafodaethau, os caf ei fynegi felly. Mae'r hyn a ddywedais wrth ateb cwestiwn eich cydweithiwr ym mis Mawrth yn gywir: mae'n amlwg mai mater i'r Llywodraeth yw pa ymgysylltu sy'n digwydd â rhan 2 comisiwn Silk a pha sylwadau ffurfiol a gaiff eu cyflwyno iddo. Mater i eraill yw penderfynu a ofynnir imi fod yn rhan uniongyrchol neu anuniongyrchol o'r broses honno. Fodd bynnag, mae hyn i gyd yn digwydd ar y cyd â'r ymgynghoriad presennol ynghylch awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân, y bwriedir iddo, fel yr wyf wedi egluro bob amser, lywio, o leiaf yn rhannol ac ar y cyd â'r dystiolaeth a gafwyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, safbwynt polisi'r Llywodraeth a'r sylwadau a gyflwynir ganddi i ran 2 comisiwn Silk.

## Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad
## Questions to the Assembly Commission

### Rhaglen Ffonau Deallus

### A Smartphone Application

***1. Mike Hedges:*** *Pa ystyriaeth y mae'r Comisiwn wedi'i rhoi i sefydlu rhaglen y Cynulliad ar gyfer ffonau deallus. OAQ(4)0055(AC)*

**Assembly Commissioner (Peter Black):** Thank you for that question, Mike. We have looked at the possibility of developing smartphone applications for promoting campaigns such as Vote 2011 and for

***1. Mike Hedges:*** *What consideration has the Commission given towards setting-up an Assembly smartphone application. OAQ(4)0055(AC)*

**Comisiynydd y Cynulliad (Peter Black):** Diolch am y cwestiwn hwnnw, Mike. Rydym wedi edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu rhaglenni ffonau deallus i hyrwyddo ymgyrchoedd megis Pleidleisiwch 2011 a

accessing Assembly business. We will continue to add to the range of ways in which we inform the public about Assembly business.

chael mynediad i fusnes y Cynulliad. Byddwn yn parhau i ychwanegu at yr ystod o ffyrdd y byddwn yn eu defnyddio i roi gwybod i'r cyhoedd am fusnes y Cynulliad.

**Mike Hedges:** I half thank you for that response. What I was perhaps looking for was a commitment on the part of the Commission to look at a way of producing a smartphone application, because that is how young people access things these days.

**Mike Hedges:** Rwyf yn hanner diolch ichi am yr ymateb hwnnw. Yr hyn yr oeddwn yn chwilio amdano, efallai, oedd ymrwymiad ar ran y Comisiwn i ystyried ffordd o gynhyrchu rhaglen ffonau deallus, oherwydd dyna sut y mae pobl ifanc yn cael mynediad i bethau y dyddiau hyn.

**Bethan Jenkins:** Only young people?

**Bethan Jenkins:** Dim ond pobl ifanc?

**The Presiding Officer:** Order. Can we allow young Mr Hedges to finish? [*Laughter*.]

**Y Llywydd:** Trefn. A allwn adael i'r gŵr ifanc, Mr Hedges, orffen? [*Chwerthin*.]

**Mike Hedges:** People of all ages use this technology but, for young people in the 16 to 19 age group in particular, that is their main way of accessing information, and I would have hoped that the Commission would have given serious thought to taking this forward.

**Mike Hedges:** Mae pobl o bob oed yn defnyddio'r dechnoleg hon ond, i bobl ifanc rhwng 16 a 19 oed yn benodol, dyna yw eu prif ffordd o gael mynediad i wybodaeth, a byddwn wedi gobeithio y byddai'r Comisiwn wedi ystyried o ddifrif symud hynny yn ei flaen.

**Peter Black:** Thank you for that supplementary question. Clearly, we are giving this serious thought. However, the costs of developing such an application are between £12,000 and £25,000 so we would need to make some budgetary provision for that. The application that we use to manage Assembly business papers includes an element that we may use in future to allow connectivity via iPads or Android devices, although not smartphones. We are looking at the cost of introducing that service. At the moment, our priority is ensuring that our main website provides information for members of the public in a useful way, and we are looking at a number of things to make the Assembly's information more accessible to members of the public. These include the development of XML feeds from our Record of Proceedings so that the content can feature on sites such as TheyWorkForYou.com, making Senedd.tv clips editable and promoting the work of the Assembly through social networks. However, that does not mean that we will not develop an app. We need to look at it, taking in the context and the time frame of the other things that we need to do first.

**Peter Black:** Diolch am y cwestiwn atodol hwnnw. Yn amlwg, rydym yn ystyried y mater o ddifrif. Fodd bynnag, mae costau datblygu rhaglen o'r fath rhwng £12,000 a £25,000, felly byddai angen inni wneud rhywfaint o ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer hynny. Mae'r rhaglen yr ydym yn ei defnyddio i reoli papurau busnes y Cynulliad yn cynnwys elfen y gallem ei defnyddio yn y dyfodol i ganiatáu cysylltedd trwy iPads neu ddyfeisiau Android, ond nid drwy ffonau deallus. Rydym yn edrych ar gost cyflwyno'r gwasanaeth hwnnw. Ar hyn o bryd, ein blaenoriaeth yw sicrhau bod ein prif wefan yn darparu gwybodaeth i aelodau'r cyhoedd mewn ffordd ddefnyddiol, ac rydym yn ystyried nifer o bethau i sicrhau bod gwybodaeth y Cynulliad yn fwy hygyrch i aelodau'r cyhoedd. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu ffrydiau XML o'n Cofnod Trafodion fel y gall y cynnwys ymddangos ar wefannau megis TheyWorkForYou.com, sicrhau bod modd golygu clipiau Senedd.tv a hyrwyddo gwaith y Cynulliad drwy rwydweithiau cymdeithasol. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu na fyddwn yn datblygu rhaglen. Mae angen inni edrych ar hynny, gan ystyried cyd-destun ac amserlen y pethau eraill y mae angen inni eu gwneud yn

gyntaf.

**Tyfu Bwyd ar Ystâd y Cynulliad**

***2. Julie Morgan:*** *Pa gynlluniau sydd gan Gomisiwn y Cynulliad i annog pobl i dyfu bwyd ar ystâd y Cynulliad neu o'i hamgylch. OAQ(4)0054(AC)*

**Peter Black:** Thank you for that, Julie. Our catering contractor, Charlton House, is using the Oriel cafe balcony in the Senedd to grow herbs for use in food preparation. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.'] Not those sorts of herbs. [*Laughter.*] Other than that, there are no plans to grow food in or around the Assembly estate.

**Julie Morgan:** I thank the Commissioner for that interesting reply. Following the launch of the Cardiff food charter earlier this month, which included the aim of encouraging organisations and businesses to involve their staff in growing, cooking and eating fresh food together, does the Commissioner agree that the Assembly also has a role to play by developing a local food-growing project?

**Peter Black:** Thank you for that. We are aware of that excellent initiative and, as indicated, we have made a start with our herb garden. However, we have significant limitations because of the lack of green space on the estate. We will, however, take the suggestion and consider it further.

**Antoinette Sandbach:** I am sure that the Commissioner will agree that Wales produces a truly excellent range of food and drink. Can he confirm what consideration the Commission has given to improving the way in which Welsh produce, including that from the winners of the Wales True Taste awards, is promoted to visitors to the Senedd building?

**Peter Black:** The promotion of Welsh food is a matter for the Welsh Government, but our caterers endeavour, whenever possible, to make use of Welsh-sourced food products in their provision on the estate, and we will continue to review that and ensure that that continues.

**Cyflog Staff y Comisiwn**

**Growing Food on the Assembly Estate**

***2. Julie Morgan:*** *What plans does the Assembly Commission have to encourage food growing in or around the Assembly estate. OAQ(4)0054(AC)*

**Peter Black:** Diolch am y cwestiwn, Julie. Mae ein contractwr arlwyo, Charlton House, yn defnyddio balconi caffi'r Oriel yn y Senedd i dyfu perlysiau i'w defnyddio wrth baratoi bwyd. [AELODAU'R CYNULLIAD: 'O.'] Nid y mathau hynny o berlysiau. [*Chwerthin.*] Ar wahân i hynny, nid oes cynlluniau i dyfu bwyd ar ystâd y Cynulliad nac o'i hamgylch.

**Julie Morgan:** Hoffwn ddiolch i'r Comisiynydd am yr ateb diddorol hwnnw. Yn dilyn lansio siarter fwyd Caerdydd yn gynharach y mis hwn, a oedd yn cynnwys y nod o annog sefydliadau a busnesau i gynnwys eu staff mewn gwaith tyfu, coginio a bwyta bwyd ffres gyda'i gilydd, a yw'r Comisiynydd yn cytuno bod gan y Cynulliad rôl i'w chwarae hefyd drwy ddatblygu prosiect tyfu bwyd yn lleol?

**Peter Black:** Diolch am y cwestiwn. Rydym yn ymwybodol o'r fenter wych honno ac, fel y nodwyd, rydym wedi dechrau â'n gardd berlysiau. Fodd bynnag, cawn ein cyfyngu'n sylweddol oherwydd diffyg mannau gwyrdd ar yr ystâd. Fodd bynnag, rydym yn fodlon cymryd yr awgrym a'i ystyried ymhellach.

**Antoinette Sandbach:** Rwyf yn siŵr y bydd y Comisiynydd yn cytuno bod Cymru yn cynhyrchu ystod wirioneddol ardderchog o fwyd a diod. A all gadarnhau pa ystyriaeth y mae'r Comisiwn wedi'i rhoi i wella'r modd y mae cynnyrch o Gymru, gan gynnwys cynnyrch gan enillwyr gwobrau Cymru y Gwir Flas, yn cael ei hyrwyddo i ymwelwyr ag adeilad y Senedd?

**Peter Black:** Mae hyrwyddo bwyd o Gymru yn fater i Lywodraeth Cymru, ond mae ein harlwywyr yn ymdrechu, pryd bynnag y bo modd, i ddefnyddio bwyd o Gymru yn eu darpariaeth ar yr ystâd, a byddwn yn parhau i adolygu hynny a sicrhau bod hynny'n parhau.

**The Salary of Commission Staff**

***3. Simon Thomas:*** *Sawl aelod o staff a gyflogir gan y Comisiwn sydd yn derbyn cyflog dros £53,852. OAQ(4)0056(AC)*
**Peter Black:** As of 19 April 2012, there were 29.

**Simon Thomas:** Thank you for that answer. As you know, all those employed by the Commission are here to help Assembly Members in their job. It is interesting to note how many are paid more than an Assembly Member's salary. May I ask you further what processes are in place to ensure that we keep the wages paid here in line with those paid in similar institutions and in line with those for comparable or similar jobs elsewhere? In addition, what is in place to ensure that we do not let the pay gap grow excessively between those the best paid and the most poorly paid of those who work for the Commission?

**Peter Black:** Thank you for that supplementary question, Simon. Assembly staff salary scales are broadly in line with those paid by the Welsh Government, as required by Schedule 2 to the Government of Wales Act 2006. Pay and reward arrangements for Assembly staff are determined by the chief executive in consultation with the Commission and the Commission's independent remuneration committee. We are aware of the differences between pay scales for staff, but, as I have indicated previously, we try to ensure that we pay generous rates for the lowest-paid staff. The lowest-paid Assembly Commission employee receives £9.01 an hour. You will also be aware that the chief executive and the directors of the Commission have had no cost-of-living rise since April 2009 and, unlike civil service departments, we do not pay bonuses.

**Antoinette Sandbach:** I am sure that the Commissioner will join me in praising the excellent work of support staff in helping Assembly Members to carry out their duties. With that in mind, can he confirm what consideration the Commission has given to reviewing the pay bands for Assembly

***3. Simon Thomas:*** *How many members of staff employed by the Commission receive a salary of over £53,852. OAQ(4)0056(AC)*
**Peter Black:** Ar 19 Ebrill 2012, roedd 29 ohonynt.

**Simon Thomas:** Diolch am yr ateb hwnnw. Fel y gwyddoch, mae pawb a gyflogir gan y Comisiwn yma i helpu Aelodau'r Cynulliad yn eu gwaith. Mae'n ddiddorol nodi faint ohonynt sy'n cael mwy o dâl na chyflog Aelod o'r Cynulliad. A gaf i ofyn ichi ymhellach pa brosesau sydd ar waith i sicrhau ein bod yn cadw'r cyflogau a delir yma'n unol â'r rhai a delir mewn sefydliadau tebyg, ac yn unol â'r rhai ar gyfer swyddi cymaradwy neu debyg mewn mannau eraill? Yn ogystal, pa fesurau sydd ar waith i sicrhau nad ydym yn gadael i'r bwlch o ran cyflog rhwng y rhai sy'n cael y cyflogau uchaf a'r rhai sy'n cael y cyflogau isaf dyfu'n ormodol ymhlith y sawl sy'n gweithio i'r Comisiwn?

**Peter Black:** Diolch am y cwestiwn atodol hwnnw, Simon. Yn gyffredinol, mae graddfeydd cyflog staff y Cynulliad yn unol â'r cyflogau a delir gan Lywodraeth Cymru, fel sy'n ofynnol gan Atodlen 2 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Caiff trefniadau cyflogau a thaliadau ar gyfer staff y Cynulliad eu pennu gan y prif weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Comisiwn a phwyllgor taliadau annibynnol y Comisiwn. Rydym yn ymwybodol o'r gwahaniaethau rhwng graddfeydd cyflog ar gyfer staff, ond, fel yr wyf wedi nodi o'r blaen, rydym yn ceisio sicrhau ein bod yn talu cyfraddau hael i'r staff sy'n cael y cyflogau isaf. Mae'r gweithiwr a gaiff y cyflog isaf yng Nghomisiwn y Cynulliad yn cael £9.01 yr awr. Byddwch hefyd yn ymwybodol nad yw'r prif weithredwr na chyfarwyddwyr y Comisiwn wedi cael codiad cyflog sy'n adlewyrchu costau byw er mis Ebrill 2009 ac, yn wahanol i adrannau'r gwasanaeth sifil, nid ydym yn talu taliadau bonws.

**Antoinette Sandbach:** Rwyf yn siŵr y bydd y Comisiynydd yn ymuno â mi i ganmol gwaith ardderchog y staff cymorth o ran helpu Aelodau'r Cynulliad i gyflawni eu dyletswyddau. Gyda hynny mewn golwg, a all gadarnhau pa ystyriaeth y mae'r Comisiwn wedi'i rhoi i adolygu'r bandiau

Members' support staff and to increasing them to achieve parity with those of staff in the Assembly Commission undertaking equivalent roles?

cyflog ar gyfer staff cymorth Aelodau'r Cynulliad a'u cynyddu fel eu bod yn gyfartal â bandiau cyflog staff yng Nghomisiwn y Cynulliad sy'n ymgymryd â rolau cyfwerth?

**Peter Black:** The lowest hourly rate for any support staff is £9.05, but the determination of their salary lies with the Assembly's Remuneration Board and not with the Commission. I have personally made representations in the past to it in relation to Assembly Members' support staff, and I agree with you about the valuable work that they do in supporting us. However, any representation in relation to them will need to be made to the Remuneration Board and not to the Commission.

**Peter Black:** Y gyfradd isaf yr awr i unrhyw aelodau o staff cymorth yw £9.05, ond Bwrdd Taliadau'r Cynulliad ac nid y Comisiwn sy'n penderfynu ynghylch eu cyflog. Rwyf wedi cyflwyno sylwadau i'r Bwrdd yn bersonol yn y gorffennol ynghylch staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, ac rwyf yn cytuno â chi am y gwaith gwerthfawr y maent yn ei wneud i'n cynorthwyo. Fodd bynnag, bydd angen i unrhyw sylwadau yn eu cylch gael eu cyflwyno i'r Bwrdd Taliadau ac nid i'r Comisiwn.

**Offer Cyfieithu**

**Translation Equipment**

***4. Bethan Jenkins:*** *A wnaiff y Comisiynydd ddatganiad am offer cyfieithu ar gyfer grwpiau trawsbleidiol a digwyddiadau cyhoeddus sydd yn cael eu trefnu gan Aelodau Cynulliad yn y Cynulliad. OAQ(4)0053(AC)*

***4. Bethan Jenkins:*** *Will the Commissioner make a statement on translation equipment for cross-party groups and public events organised by Assembly Members in the Assembly. OAQ(4)0053(AC)*

**Comisiynydd y Cynulliad (Rhodri Glyn Thomas):** Gall Aelodau'r Cynulliad wneud cais am gyfieithu ar y pryd mewn digwyddiadau, gan gynnwys cyfarfodydd grwpiau trawsbleidiol a gynhelir ar ystâd y Cynulliad.

**Assembly Commissioner (Rhodri Glyn Thomas):** Assembly Members are entitled to request interpretation at events held on the Assembly estate, including meetings of the cross-party groups.

**Bethan Jenkins:** Diolch am hynny, achos nid wyf yn credu bod llawer o Aelodau Cynulliad yn ymwybodol o'r cyfle i wneud hynny. Oni bai bod mudiad yn ariannu digwyddiadau, yn aml iawn, nid oes cyfieithu ar y pryd mewn nifer fawr o ddigwyddiadau nac mewn cyfarfodydd grwpiau trawsbleidiol. A chithau'n Gomisiynydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg, a allwch helpu i hybu ymwybyddiaeth o'r ffaith bod Aelodau Cynulliad yn cael gwneud cais am help i gyfieithu, gan wneud hynny mewn modd rhagweithiol a chadarnhaol?

**Bethan Jenkins:** Thank you for that, because I do not think that many Assembly Members are aware of that opportunity to make a request for it. Unless an organisation funds an event, very often, interpretation is not available at a large number of events or at the meetings of cross-party groups. As the Commissioner with responsibility for the Welsh language, can you help by raising awareness of the fact that Assembly Members are entitled to request interpretation services, and do so in a proactive and positive way?

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae'r rhan fwyaf o Aelodau'r Cynulliad yn bresennol y prynhawn yma, ac felly gwnaf eu hysbysu yn awr. Os ydynt am gael offer cyfieithu ar y pryd mewn digwyddiad a noddir ganddynt, gan gynnwys cyfarfodydd grwpiau trawsbleidiol, dylent gysylltu â'r Gwasanaeth

**Rhodri Glyn Thomas:** The vast majority of Assembly Members are present here this afternoon, so I will inform them now. If they want interpretation equipment to be available at events sponsored by themselves, including meetings of cross-party groups, they should contact the Translation and Reporting

Cyfieithu a Chofnodi. Yn ystod y sesiwn gyfredol, defnyddiwyd yr offer cyfieithu ar y pryd ar bum achlysur, rwy'n credu: dwywaith yr un gan y grwpiau trawsbleidiol ar y Gymraeg ac ar faterion gwledig, ac unwaith gan y grŵp trawsbleidiol ar hawliau dynol. Felly, os bydd rhywun yn dymuno cael yr offer hwnnw, mae modd gwneud cais amdano.

Service. During the current session, the translation equipment has been used five times, I think: twice each by the cross-party groups on the Welsh language and on rural affairs, and once by the cross-party group on human rights. Therefore, if anyone wants to use that equipment, they can request it.

Dyma apêl ychwanegol yn awr ar i bobl ei ddefnyddio os yw'r offer ar gael. Rwyf wedi bod i gyfarfodydd grwpiau trawsbleidiol lle, am ryw reswm, nad oedd pobl sy'n medru'r Gymraeg am fanteisio ar y ffaith bod cyfieithu ar y pryd ar gael.

I now make an additional appeal that if the equipment is available, people should make use of it. I have attended meetings of cross-party groups where, for whatever reason, the Welsh speakers have not wanted to take advantage of the interpretation available.

**Simon Thomas:** Ers imi gael fy ethol i'r Cynulliad, rwyf wedi gweld mwy a mwy o wahoddiadau i gyfarfodydd a gynhelir ar yr ystâd hon yn cael eu hanfon yn uniaith Saesneg. Gan fod pob undeb myfyrwyr ar hyd a lled y wlad yn hysbysebu'n ddwyieithog am unrhyw ddigwyddiad ar ei hystâd, oni ddylai'r Comisiwn ystyried sefydlu rheol fel bod unrhyw ddigwyddiad a gynhelir ar yr ystâd hon yn cael ei hysbysebu i Aelodau a'r cyhoedd yn Gymraeg ac yn Saesneg?

**Simon Thomas:** Since my election to the Assembly, I have seen more and more invitations to meetings held on this estate being sent in English only. Given that every student union the length and breadth of the country promotes any event on its estate bilingually, should the Commission not consider making it a rule that any event held on this estate should be promoted to Assembly Members and the public in English and Welsh?

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae'r Comisiwn yn ei gwneud yn glir ei bod yn ddisgwyliedig i'r sawl sy'n trefnu neu'n noddi digwyddiad ar ystâd y Cynulliad gydymffurfio â pholisi dwyieithog Comisiwn y Cynulliad. Ategaf hynny yn awr: mae'r Comisiwn yn disgwyl i unrhyw Aelod Cynulliad sy'n noddi digwyddiad ar yr ystâd sicrhau bod y gwahoddiadau yn ddwyieithog a bod pob peth sy'n digwydd yng nghyd-destun y digwyddiad hwnnw yn cydymffurfio â pholisi dwyieithog y Comisiwn.

**Rhodri Glyn Thomas:** The Commission makes it clear that anyone organising or sponsoring an event on the Assembly estate is expected to comply with the Assembly Commission's bilingual policy. I reiterate that now: the Commission expects any Assembly Member who sponsors any event on the estate to ensure that the invitations are bilingual and that everything that happens in the context of that event conforms to the bilingual policy of the Commission.

**The Presiding Officer:** Question 5, OAQ(4)0057(AC), is withdrawn.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 5, OAQ (4) 0057 (AC), yn ôl.

## Adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau yng Nghymru
## The Petitions Committee's Report on the Maritime and Coastguard Agency in Wales

*Cynnig NDM4962 William Powell*

*Motion NDM4962 William Powell*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Chwefror 2012.*

*Notes the report of the Petitions Committee on the Maritime and Coastguard Agency in Wales, which was laid in the Table Office on 23 February 2012.*

**William Powell:** I move the motion.

**William Powell:** Cynigiaf y cynnig.

I am deeply honoured to open this debate, as it is the first time a Petitions Committee report has been debated in Plenary. I hope that it will not be the last. The rest of the Petitions Committee and I are firmly of the view that that the petitions system that has been developed in Wales does exactly what a petitions system should: it enables the people of Wales to engage with the Assembly in a direct and meaningful way on issues that are important to them. Standing Orders oblige the committee to consider all admissible petitions, and we are very pleased to do so, and to promote our petitions system to the people of Wales. In the past 12 months, that has included our attendance at the Royal Welsh Show and the National Eisteddfod.

Mae'n anrhydedd mawr cael agor y ddadl hon, gan mai dyma'r tro cyntaf i un o adroddiadau'r Pwyllgor Deisebau gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn. Gobeithiaf nad hwn fydd y tro olaf. Mae gweddill aelodau'r Pwyllgor Deisebau a minnau yn gadarn o'r farn bod y system ddeisebau sydd wedi ei datblygu yng Nghymru yn gwneud yr union beth y dylai system ddeisebau ei wneud: mae'n galluogi pobl Cymru i ymgysylltu â'r Cynulliad mewn modd uniongyrchol ac ystyrlon ar faterion sy'n bwysig iddynt. Mae Rheolau Sefydlog yn gorfodi'r pwyllgor i ystyried yr holl ddeisebau derbyniol, ac rydym yn falch iawn o gael gwneud hynny, ac i hyrwyddo ein system ddeisebau i bobl Cymru. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae hynny wedi cynnwys bod yn bresennol yn Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol.

In July last year, the Assembly received a petition on proposed changes to the Maritime and Coastguard Agency. The petition called for the Assembly to urge the Welsh Government to carry out an independent risk assessment on the safety of coastal tourists, and it was submitted as proposed changes to the Maritime and Coastguard Agency were being discussed in Westminster. Of course, the future structure of the coastguard service in Wales is a matter for the Maritime and Coastguard Agency, the responsibility for which is retained at Westminster. However, tourism is a devolved matter, as we all understand, and it is only right that any potential risks to tourists and the tourism sector be properly understood and managed from the outset.

Ym mis Gorffennaf y llynedd, cafodd y Cynulliad ddeiseb ar newidiadau arfaethedig i Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau. Roedd y ddeiseb yn galw ar y Cynulliad i annog Llywodraeth Cymru i gynnal asesiad risg annibynnol ar ddiogelwch ymwelwyr â'r arfordir, ac fe'i cyflwynwyd wrth i newidiadau arfaethedig i Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau gael eu trafod yn San Steffan. Wrth gwrs, mae strwythur gwasanaeth gwylwyr y glannau yng Nghymru yn y dyfodol yn fater i Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, y mae'r cyfrifoldeb amdani wedi'i gadw yn San Steffan. Fodd bynnag, mae twristiaeth yn fater datganoledig, fel y gwyddom i gyd, ac mae'n gwbl briodol bod unrhyw risgiau posibl i dwristiaid a'r sector twristiaeth yn cael eu deall a'u rheoli'n iawn o'r dechrau.

2.30 p.m.

During consideration of the petition, the committee heard that a risk assessment had not initially been published alongside the proposed changes to the Maritime and Coastguard Agency. The UK Government's

Wrth ystyried y ddeiseb, clywodd y pwyllgor na chafodd asesiad risg ei gyhoeddi'n wreiddiol ochr yn ochr â'r newidiadau arfaethedig i Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau. Dywedodd Pwyllgor Trafnidiaeth

Transport Committee said that by failing to publish a risk assessment of the current plans, MCA management had badly miscalculated. A risk assessment was later published along with the MCA's revised proposals for the future of the agency. However, the Petitions Committee agreed with the petitioner that the timing of that risk assessment's publication—a mere six weeks after the MCA consultation closed, with 1,700 responses—meant that people affected by the proposed changes were suspicious that the risk assessment could not have considered the risks raised in the consultation process.

Llywodraeth y DU mai cam gwag iawn ar ran rheolwyr Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau oedd methu â chyhoeddi asesiad risg o'r cynlluniau presennol. Cafodd asesiad risg ei gyhoeddi'n ddiweddarach gyda chynigion diwygiedig Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau ar gyfer dyfodol yr asiantaeth. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor Deisebau yn cytuno â'r deisebydd bod amseriad cyhoeddi'r asesiad risg—cwta chwe wythnos ar ôl i ymgynghoriad Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau ddod i ben, gyda 1,700 o ymatebion—yn golygu bod pobl y bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio arnynt yn amau na allai'r asesiad risg fod wedi ystyried y risgiau a godwyd yn ystod y broses ymgynghori.

At this point, I will pay tribute to fellow members of the Petitions Committee and mention initially Bethan Jenkins and Joyce Watson because they have a previous track record in this area of the wider coastguard campaign. I, as the newly elected Member, alongside my colleagues, for the Mid and West Wales region came relatively new to the issue, and although Russell George is the Member for landlocked Montgomeryshire, he soon became very conversant with the issues and engaged energetically with the process.

Yn y fan hon, hoffwn roi teyrnged i'm cyd-aelodau ar y Pwyllgor Deisebau a chyfeirio yn y lle cyntaf at Bethan Jenkins a Joyce Watson, oherwydd bod ganddynt brofiad blaenorol yn yr agwedd hon ar yr ymgyrch ehangach ynghylch gwylwyr y glannau. Roedd y mater yn gymharol newydd i mi, fel yr Aelod a oedd newydd gael ei ethol, ochr yn ochr â'm cydweithwyr, dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru, ac er mai Aelod dros Sir Drefaldwyn, sydd wedi'i hamgylchynu gan dir, yw Russell George, buan y daeth yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw gan ymwneud yn egnïol â'r broses.

The Pembrokeshire Coast National Park—

Dywedodd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro—

**Lord Elis-Thomas:** Will you accept that Montgomeryshire is not completely landlocked? There is the Dyfi estuary. [*Laughter.*]

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** A wnewch chi dderbyn nad yw Sir Drefaldwyn wedi'i hamgylchynu'n gyfan gwbl gan dir? Mae aber afon Dyfi yno. [*Chwerthin.*]

**William Powell:** Thank you for that intervention. The Pembrokeshire Coast National Park told the Petitions Committee that, for visitors, the provision of an acceptable balance between experience, risk and safety is one of the givens of a holiday experience in the UK and security and safety may in fact be important in the future decision making of potential holidaymakers coming to Wales. I do not need to rehearse the arguments for how important the industry is to the future wellbeing of Wales.

**William Powell:** Diolch am yr ymyriad. Dywedodd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wrth y Pwyllgor Deisebau fod ymwelwyr o'r farn bod cael cydbwysedd derbyniol rhwng profiad, risg a diogelwch yn un o'r pethau a gymerir yn ganiataol yng nghyswllt profiad gwyliau yn y DU, ac y gallai diogelwch mewn gwirionedd fod yn bwysig yn y dyfodol wrth i ymwelwyr posibl wneud penderfyniadau ynghylch dod i Gymru. Nid oes angen imi ailadrodd y dadleuon ynghylch pa mor bwysig yw'r diwydiant i les Cymru yn y dyfodol.

During an oral evidence session, the lead petitioner shared the concerns of a small coastal business whose owners are worried about how appropriate and effective it might be to have a search and rescue co-ordinator based in Scotland, for example, directing a lifeboat in west Wales. The potential risk of radio instructions given in a strong regional accent and of being misunderstood in highly stressful situations or of landmarks being described by local nicknames, which would not appear on the charts used by the incident co-ordinator, is a concern and could result in avoidable delays. Such delays in a search and rescue situation could have devastating consequences.

Yn ystod sesiwn tystiolaeth lafar, bu’r prif ddeisebydd yn rhannu pryderon busnes bach ar yr arfordir, y mae ei berchnogion yn poeni ynghylch pa mor briodol ac effeithiol fyddai cael cydgysylltydd chwilio ac achub yn yr Alban, er enghraifft, yn rhoi cyfarwyddiadau i fad achub yng ngorllewin Cymru. Mae’r risg bosibl y byddai cyfarwyddiadau dros y radio mewn acen ranbarthol gref yn cael eu camddeall mewn sefyllfaoedd llawn straen, neu’r risg y byddai tirnodau’n cael eu disgrifio’n ôl yr enwau lleol arnynt, na fyddent yn ymddangos ar y siartiau a ddefnyddir gan gydgysylltydd y digwyddiad, yn destun pryder, a gallai arwain at oedi y gellid ei osgoi. Gallai canlyniadau oedi o’r fath mewn sefyllfa o chwilio ac achub fod yn drychinebus.

Responsibility for the safety of coastal users lies with the Maritime and Coastguard Agency, as I said earlier, and relevant local authorities. The men and women who work for the MCA are professional and highly competent—of that there is no doubt. However, should the unthinkable happen and a failure in the system lead to tragic circumstances, then confidence in that delicate balance between risk on the one hand and safety on the other would be irreparably damaged. Any reduction in the tourism industry resulting from such a loss of confidence could mean that coastal businesses already struggling in the current difficult financial circumstances could encounter further threats to their survival. That is a situation that we should all surely be seeking to avoid.

Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, fel y dywedais yn gynharach, ac awdurdodau lleol perthnasol sy’n gyfrifol am ddiogelwch y sawl sy’n defnyddio’r arfordir. Mae’r dynion a’r menywod sy’n gweithio i Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau yn broffesiynol ac yn gymwys iawn—nid oes dim amheuaeth am hynny. Fodd bynnag, pe bai’r gwaethaf yn digwydd a phe bai methiant yn y system yn arwain at amgylchiadau trasig, byddai’n gwneud niwed na ellid ei adfer i’r hyder sydd gan bobl yn y cydbwysedd bregus hwnnw rhwng risg ar y naill law a diogelwch ar y llaw arall. Gallai unrhyw ddirywiad yn y diwydiant twristiaeth o ganlyniad i golli hyder fel hyn olygu y gallai busnesau arfordirol sydd eisoes yn ei chael yn anodd yn yr amgylchiadau ariannol heriol sydd ohoni wynebu bygythiadau pellach i’w gallu i oroesi. Does bosibl nad yw honno’n sefyllfa y dylem i gyd fod yn ceisio ei hosgoi.

The Petitions Committee recommended that the Welsh Government carry out a risk assessment that would identify and seek to mitigate any risks to tourists and others who visit the coast for leisure purposes. I am pleased that the First Minister’s response to the report accepts this recommendation and that he has written to the Under-Secretary of State for Transport, Mike Penning MP, proposing that he commission a full and independent assessment of the risks associated with the proposed closure of the Swansea Maritime Rescue Co-ordination

Argymhellodd y Pwyllgor Deisebau y dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad risg a fyddai’n nodi ac yn ceisio lliniaru unrhyw risgiau i dwristiaid a phobl eraill sy’n ymweld â’r arfordir at ddibenion hamdden. Rwyf yn falch bod ymateb Prif Weinidog Cymru i’r adroddiad yn derbyn yr argymhelliad hwn a’i fod wedi ysgrifennu at yr Is-ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, Mike Penning AS, yn cynnig y dylai gomisiynu asesiad llawn ac annibynnol o’r risgiau sy’n gysylltiedig â’r bwriad i gau Canolfan Cydgysylltu Achub ar y Môr

Centre. I am also pleased that the Welsh Government is willing to jointly finance such a risk assessment and I look forward to a positive outcome from the First Minister's discussions.

Abertawe. Rwyf hefyd yn falch bod Llywodraeth Cymru yn barod i gydariannu asesiad risg o'r fath, ac edrychaf ymlaen at ganlyniad cadarnhaol o drafodaethau'r Prif Weinidog.

The Welsh Government is not responsible for the decisions of the Maritime and Coastguard Agency. Ministers have repeatedly told the committee that representations have been made to the UK Government on this matter in the hope of halting the proposed changes. The committee welcomes these efforts and recommends that the Welsh Government continues to seek to influence the decision-making process. I am particularly pleased that the First Minister has agreed to do so. I know how valued the discussions between the First Minister and Mr Graham Warlow and others of the petitioning team were.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am benderfyniadau Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau. Mae Gweinidogion wedi dweud droeon wrth y pwyllgor bod sylwadau wedi'u gwneud i Lywodraeth y DU ar y mater hwn yn y gobaith o atal y newidiadau arfaethedig. Mae'r pwyllgor yn croesawu'r ymdrechion hyn ac yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i geisio dylanwadu ar y broses gwneud penderfyniadau. Rwyf yn arbennig o falch bod y Prif Weinidog wedi cytuno i wneud hynny. Gwn mor werthfawr oedd y trafodaethau rhwng y Prif Weinidog a Mr Graham Warlow ac eraill yn y tîm deisebu.

Presiding Officer, the Petitions Committee is aware of the complexities of this issue. However, when decisions taken at a UK level could adversely affect Wales, it is vital that we understand and seek to mitigate those effects. I urge the Welsh Government to follow up on its very positive initial steps by commissioning an independent risk assessment so that we in this Chamber, and those directly affected by the changes, are fully informed and can take whatever action is needed to avoid unnecessary further risks.

Lywydd, mae'r Pwyllgor Deisebau yn ymwybodol o gymhlethdodau'r mater hwn. Fodd bynnag, pan allai penderfyniadau a wneir ar lefel y DU gael effaith andwyol ar Gymru, mae'n hanfodol ein bod yn deall yr effeithiau hynny ac yn ceisio eu lliniaru. Rwyf yn annog Llywodraeth Cymru i weithredu ymhellach ar sail y camau cychwynnol cadarnhaol iawn a gymerwyd ganddi, drwy gomisiynu asesiad risg annibynnol, fel y gallwn ni yn y Siambr hon, a'r sawl yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y newidiadau, gael y wybodaeth i gyd a chymryd pa gamau bynnag y mae angen eu cymryd i osgoi risgiau pellach diangen.

**Julie James:** I am delighted by the report of the Petitions Committee. It is a measured and sensible report, and I very much welcome the First Minister's response to it. We have been involved across parties in the campaign to stop the closure of the coastguard station, alongside all of the coastal communities of Wales. A wider number of issues are raised, which the petitioners have gone through in some detail, and there are others as well. There are wider issues in terms of tourism, which the chairman of the committee outlined in some regards, but this actually affects all of the communities of Wales. Many people undertake two-stage holidays in Wales; they take a climbing holiday and then a coastal one, or the other way around. It is part of our big offer here in Wales. Yes,

**Julie James:** Rwyf yn falch iawn o adroddiad y Pwyllgor Deisebau. Mae'n adroddiad ystyriol a synhwyrol, ac rwyf yn croesawu'n fawr ymateb y Prif Weinidog iddo. Mae pob plaid wedi bod yn cymryd rhan yn yr ymgyrch i atal cau gorsaf gwylwyr y glannau, ochr yn ochr â holl gymunedau arfordirol Cymru. Caiff nifer ehangach o faterion eu codi, y mae'r deisebwyr wedi mynd drwyddynt yn fanwl iawn, a cheir materion eraill yn ogystal. Ceir materion ehangach o ran twristiaeth, a amlinellwyd i ryw raddau gan gadeirydd y pwyllgor, ond mewn gwirionedd mae'r mater hwn yn effeithio ar holl gymunedau Cymru. Bydd llawer o bobl yn trefnu gwyliau dau gam yng Nghymru; byddant yn cael gwyliau dringo ac yna'n cael gwyliau ar yr arfordir, neu i'r

people take part in 'dangerous activities' on the water, but those risks are balanced with the knowledge that we have a good lifeboat system controlled by an excellent coastguard service.

gwrthwyneb. Mae'n rhan o'r hyn sydd gennym i'w gynnig yma yng Nghymru. Bydd pobl yn cymryd rhan mewn 'gweithgareddau peryglus' ar y dŵr, ond caiff y risgiau hynny eu cydbwyso gan y ffaith eu bod yn gwybod bod gennym system dda o fadau achub a reolir gan wasanaeth gwylwyr y glannau sy'n rhagorol.

That service is excellent in part because a large number of the coastguard staff also volunteer as voluntary lifeboat people and vice versa. We have a large voluntary body of people looking at this as well. That vital local connection is important in human activity terms because, for example, they understand the same shorthand, they have all done the same water-based activities and when someone phoning from a mobile phone does not know where they are and describes the scene in front of them they can find where that person is very quickly. We have all heard of incidents were lives have been saved because of the swift response of somebody with local knowledge in the lifeboat being directed by someone with local knowledge in the coastguard station.

Mae'r gwasanaeth yn rhagorol yn rhannol oherwydd bod nifer fawr o staff gwylwyr y glannau hefyd yn gwirfoddoli i weithio ar y badau achub, ac i'r gwrthwyneb. Mae gennym lawer iawn o wirfoddolwyr yn edrych ar y mater hwn yn ogystal. Mae'r cysylltiad lleol hanfodol hwnnw'n bwysig o ran gweithgarwch pobl oherwydd, er enghraifft, maent yn rhannu'r un iaith, maent i gyd wedi gwneud yr un gweithgareddau dŵr, a phan fydd rhywun yn ffonio o ffôn symudol heb wybod ymhle y mae ac yn disgrifio'r olygfa o'i flaen, gallant ddod o hyd i'r unigolyn hwnnw'n gyflym iawn. Rydym i gyd wedi clywed am ddigwyddiadau lle y mae bywydau wedi eu hachub oherwydd ymateb cyflym gan rywun â gwybodaeth leol yn y bad achub sy'n cael cyfarwyddiadau gan rywun â gwybodaeth leol yng ngorsaf gwylwyr y glannau.

I have been very involved in the Swansea coastguard fight, but what we want is for all of our coastguard stations to remain open. The savings represented by the proposed closures are laughably small in terms of the lives that we potentially put at risk and the tourism industry that we potentially put at risk as well. Also, certainly in the Swansea bay area, the development and maintenance of our ports industry is also at risk. We are looking to develop the deep-water port in Swansea bay and we are looking at the Atlantic Array being put out into the Bristol Channel, and the idea that we will do this with a reduced maritime safety regime is frankly alarming. We urge the UK Government to reconsider this and we urge the First Minister to continue in his considerable efforts to prevent this from happening. I am delighted that the Welsh Government is prepared to partly finance some of this if necessary, although I believe that the UK Government should be doing it. The idea that you can close something that is so closely associated with the preservation of

Rwyf wedi bod yn weithgar iawn yn y frwydr i achub gwylwyr y glannau yn Abertawe, ond ein dymuniad yw gweld pob un o'n gorsafoedd gwylwyr y glannau yn aros ar agor. Mae'r arbedion a allai ddeillio o'r cynlluniau i'w cau yn chwerthinllyd o fach o ystyried y bywydau y gallem fod yn eu peryglu, a'r diwydiant twristiaeth y gallem fod yn ei beryglu hefyd. Yn ogystal, yn sicr yn ardal bae Abertawe, mae gwaith datblygu a chynnal ein diwydiant porthladdoedd hefyd mewn perygl. Rydym yn ystyried datblygu'r porthladd dŵr dwfn ym mae Abertawe ac mae'n bosibl y bydd fferm wynt Atlantic Array yn cael ei gosod ym môr Hafren, ac a siarad yn blaen, mae'n frawychus meddwl y bydd hynny'n digwydd gyda threfn sydd wedi'i chwtogi ar gyfer diogelwch ar y môr. Rydym yn annog Llywodraeth y DU i ailystyried hyn, ac rydym yn annog y Prif Weinidog i barhau â'i ymdrechion sylweddol i atal hyn rhag digwydd. Rwyf wrth fy modd bod Llywodraeth Cymru yn barod i ariannu rhywfaint o'r gwaith yn rhannol os bydd angen, er fy mod yn credu mai Llywodraeth y

life and limb without a proper risk assessment attached to it is ridiculous in this day and age.

DU ddylai fod yn gwneud hynny. Mae'r syniad y gallwch gau rhywbeth sydd wedi'i gysylltu mor agos â diogelu bywydau, heb gynnal asesiad risg priodol, yn chwerthinllyd yn yr oes sydd ohoni.

I want to pay tribute to the number of people who have campaigned very hard on this issue and to the coastguard staff themselves who are absolutely dedicated. They go to some pains to say that they are not trying to preserve their own jobs, but that is in itself an issue. The loss of skilled and able personnel in some of these areas in Wales will be a bitter blow to those areas and should be taken into account. The Under-Secretary of State for Transport showed total contempt when he said that the reason for the closure of the Swansea coastguard station was because there were already enough public servants in Swansea. So, when you are drowning in Swansea bay, you will be pleased to know that your vehicle licence is being processed with some efficiency. On what basis is that a reasonable argument? We urge the Minister to reconsider and I commend the First Minister's efforts. I am very grateful to the Petitions Committee for taking the report forward and bringing this debate to us today.

Hoffwn roi teyrnged i'r bobl niferus sydd wedi ymgyrchu'n galed iawn ar y mater hwn ac i staff gwylwyr y glannau eu hunain sy'n gwbl ymroddedig. Maent yn awyddus iawn i ddweud nad ceisio diogelu eu swyddi eu hunain y maent, ond mae hynny ynddo'i hun yn broblem. Bydd colli staff medrus a galluog mewn rhai o'r ardaloedd hyn yng Nghymru yn ergyd galed i'r ardaloedd dan sylw, a dylid ystyried hynny. Dangosodd yr Is-ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ddirmyg llwyr pan ddywedodd mai'r rheswm dros gau gorsaf gwylwyr y glannau Abertawe oedd bod digon o weision cyhoeddus yn Abertawe yn barod. Felly, pan fyddwch yn boddi ym mae Abertawe, byddwch yn falch o wybod bod trwydded eich cerbyd yn cael ei phrosesu'n effeithlon iawn. Ar ba sail y mae hynny'n ddadl resymol? Rydym yn annog y Gweinidog i ailystyried, a chymeradwyaf ymdrechion y Prif Weinidog. Rwyf yn ddiolchgar iawn i'r Pwyllgor Deisebau am hybu'r adroddiad hwn ac am ddod â'r ddadl hon ger ein bron heddiw.

**Suzy Davies:** Members will be aware of my strong views on the closure of Swansea coastguard station. While it may be true that the coalition's decision means that more stations are retained in Wales than under the proposals from the former Labour Government, it simply made no sense to remove an on-site co-ordination function from the second-busiest shipping lane in the UK. That is why I welcome the Petitions Committee's recommendations but will raise some questions with you, Minister, if that is in order.

**Suzy Davies:** Bydd yr Aelodau yn gwybod bod gennyf farn gref ynghylch cau gorsaf gwylwyr y glannau Abertawe. Er ei bod efallai'n wir bod penderfyniad y glymblaid yn golygu y bydd mwy o orsafoedd yn cael eu cadw yng Nghymru nag a fwriadwyd dan gynigion y Llywodraeth Lafur flaenorol, nid oedd yn gwneud dim synnwyr o gwbl i gael gwared ar swyddogaeth gydgysylltu leol o'r llwybr môr prysuraf ond un yn y DU. Dyna pam yr wyf yn croesawu argymhellion y Pwyllgor Deisebau, ond hoffwn ofyn rhai cwestiynau ichi, Weinidog, os yw hynny'n iawn.

In response to the second recommendation, the Welsh Government has confirmed that it will continue to challenge the UK Government's current plans. In your reply to this debate, could you advise us what steps you might take in addition to the First Minister's letter proposing the risk assessment? How exactly does the Welsh Government plan to continue to challenge the

Mewn ymateb i'r ail argymhelliad, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd yn parhau i herio cynlluniau cyfredol Llywodraeth y DU. Wrth ymateb i'r ddadl hon, a allech roi gwybod inni pa gamau y gallech eu cymryd yn ychwanegol at lythyr y Prif Weinidog sy'n cynnig yr asesiad risg? Sut yn union y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu parhau i herio cynlluniau

UK Government's plans on this issue? Perhaps you could also update us on whether the First Minister has written to the Parliamentary Under-Secretary of State to see whether and how he intends to make good on his promise to strengthen the training and organisation of the voluntary service—the personnel at the front line of the rescue process.

Llywodraeth y DU ar y mater hwn? Efallai hefyd y gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ynghylch a yw'r Prif Weinidog wedi ysgrifennu at yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol i weld a yw'n bwriadu cadw'i addewid i gryfhau hyfforddiant a threfniadaeth y gwasanaeth gwirfoddol—y personél sydd yn rheng flaen y broses achub, ac os ydyw, sut y mae'n bwriadu gwneud hynny.

With regard to the first recommendation, I note that it asks the Welsh Government to carry out a risk assessment regarding tourists and other leisure visitors for the relevant part of the Welsh coastline. In William Powell's address, he suggested that the recommendation is framed in this way because tourism is devolved to this Assembly, which allows the Welsh Government to take a proactive role rather than claiming that the Maritime and Coastguard Agency is not a devolved area and that the Welsh Government's position would have to be limited to lobbying. In accepting the recommendation, I can see that the Government is interested in such a risk assessment, but in its response it pushes the responsibility for such a risk assessment back to the UK Government. Although the First Minister has asked the Under-Secretary of State to give due consideration to tourism, and, indeed, has himself raised the matter of economic development, that is not the same as the Welsh Government itself carrying out a slightly narrower risk assessment and using it separately to challenge the UK Government position. I also note the offer to partly finance the commissioning of a review, but this itself does not amount to an acceptance of the recommendation set out.

O ran yr argymhelliad cyntaf, nodaf ei fod yn gofyn i Lywodraeth Cymru gynnal asesiad risg yng nghyswllt twristiaid a phobl eraill sy'n ymweld â'r arfordir at ddibenion hamdden, ar gyfer y rhan berthnasol o arfordir Cymru. Yn anerchiad William Powell, awgrymodd fod yr argymhelliad wedi ei eirio fel hyn oherwydd bod twristiaeth yn faes sydd wedi'i ddatganoli i'r Cynulliad hwn, sy'n caniatáu i Lywodraeth Cymru chwarae rôl ragweithiol yn hytrach na honni nad yw Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau yn faes datganoledig a bod yn rhaid cyfyngu safbwynt Llywodraeth Cymru i waith lobïo. Wrth dderbyn yr argymhelliad, gwelaf fod gan y Llywodraeth ddiddordeb mewn asesiad risg o'r fath, ond yn ei hymateb mae'n rhoi'r cyfrifoldeb am yr asesiad risg hwnnw'n ôl i Lywodraeth y DU. Er bod y Prif Weinidog wedi gofyn i'r Is-ysgrifennydd Gwladol roi ystyriaeth ddyledus i dwristiaeth, ac er ei fod ef ei hun yn wir wedi codi'r mater sy'n ymwneud â datblygu economaidd, nid yw hynny'r un fath â chael Llywodraeth Cymru ei hun yn cynnal asesiad risg ychydig yn fwy cyfyng ac yn ei ddefnyddio ar wahân i herio safbwynt Llywodraeth y DU. Nodaf hefyd y cynnig i ariannu'n rhannol y gwaith o gomisiynu adolygiad, ond nid yw hynny ynddo'i hun yn gyfystyr â derbyn yr argymhelliad a nodir.

I make it clear that I welcome the idea of a wider report, but could you explain to us, Minister whether you share the view of the Minister for Business that this is a non-devolved matter and the door is therefore closed to the Welsh Government commissioning a risk assessment itself, or whether you are prepared to accept William Powell's argument that tourism and economic regeneration are devolved, and that you are able to commission a report separately in those areas? I ask that because,

Dywedaf yn glir fy mod yn croesawu'r syniad o gael adroddiad ehangach, ond a allech egluro wrthym, Weinidog, a ydych chithau, fel y Gweinidog Busnes, o'r farn bod hwn yn fater nad yw wedi'i ddatganoli ac na all Llywodraeth Cymru, felly, gomisiynu ei hasesiad risg ei hun, ynteu a ydych yn barod i dderbyn dadl William Powell bod twristiaeth ac adfywio economaidd wedi eu datganoli, a'ch bod yn gallu comisiynu adroddiad ar wahân yn y meysydd hynny? Rwyf yn gofyn hynny oherwydd, os na fydd Llywodraeth y

if the UK Government does not proceed with a risk assessment as you hope, I would like to know whether you will go it alone. Thirdly, I note that the funding will come from existing resources, so perhaps you could explain which resources the finance for an independent or joint report will come from.

DU yn bwrw ymlaen â'r asesiad risg fel yr ydych yn gobeithio, hoffwn wybod a fyddwch chi'n mynd ati i wneud hynny ar eich pen eich hun. Yn drydydd, rwyf yn nodi y bydd y cyllid yn dod o adnoddau presennol, felly efallai y gallech egluro o ba adnoddau y daw'r arian ar gyfer adroddiad annibynnol neu adroddiad ar y cyd.

**Bethan Jenkins:** I welcome the chance to debate this today, especially as it is such an important topic not only for the Petitions Committee, but for others like me who represent areas that have been affected by this situation. We are facing a situation where things are being cut in the public sector, and that is affecting many services, but one area above all others that the public expects to be kept sacrosanct is services that keep us safe. In my view, the coastguard is a vital component in keeping the public safe, and so we as a party cannot understand why the UK Government has taken it upon itself to make this particular decision. The fact that the coastguard agency is being considered for such dramatic cuts is irresponsible and dangerous, and I urge everybody here to contact the UK Government to make that representation loud and clear. We all know that the initial consultation was held and that there was a strong backlash against plans to close Holyhead and Milford Haven stations. One of the primary reasons for this was concern over the importance of local knowledge, particularly the Welsh-language place names and the potentially dangerous implications for safety that arose from any plans to close these particular stations.

**Bethan Jenkins:** Rwyf yn croesawu'r cyfle i drafod y mater hwn heddiw, yn enwedig gan ei fod yn bwnc mor bwysig nid yn unig i'r Pwyllgor Deisebau ond i eraill fel fi sy'n cynrychioli ardaloedd y mae'r sefyllfa hon wedi effeithio arnynt. Rydym yn wynebu sefyllfa lle y mae toriadau'n cael eu gwneud yn y sector cyhoeddus, ac mae hynny'n effeithio ar lawer o wasanaethau, ond un maes y mae'r cyhoedd yn disgwyl iddo fod yn fwy cysegredig na'r un maes arall yw gwasanaethau sy'n ein cadw yn ddiogel. Yn fy marn i, mae gwylwyr y glannau yn elfen hanfodol o'r broses o gadw'r cyhoedd yn ddiogel, ac felly, ni allwn ni fel plaid ddeall pam y mae Llywodraeth y DU wedi cymryd arni ei hun i wneud y penderfyniad hwn. Mae'r ffaith bod asiantaeth gwylwyr y glannau yn cael ei hystyried ar gyfer toriadau mor ddramatig yn anghyfrifol ac yn beryglus, ac rwyf yn annog pawb yn y fan hon i gysylltu â Llywodraeth y DU i ddweud hynny wrthi yn blwmp ac yn blaen. Gwyddom i gyd fod yr ymgynghoriad cyntaf wedi ei gynnal a bod ymateb cryf yn erbyn cynlluniau i gau gorsafoedd Caergybi ac Aberdaugleddau. Un o'r prif resymau am hynny oedd pryder ynghylch pwysigrwydd gwybodaeth leol, yn enwedig yr enwau Cymraeg ar leoedd a'r goblygiadau a oedd yn deillio o unrhyw gynlluniau i gau'r gorsafoedd penodol hynny, a allai beryglu diogelwch.

2.45 p.m.

We, of course, welcome the fact that these stations have remained open, but the second consultation process was a shock, particularly to us in the Swansea area, given that it went from proposing a day service to closing Swansea altogether. We cannot understand that, given that no full risk assessment was carried out and that the views of the House of Commons Transport Committee, which criticised the fact that there was not enough

Wrth gwrs, rydym yn croesawu'r ffaith bod y gorsafoedd hyn wedi aros ar agor, ond roedd yr ail broses ymgynghori yn sioc, yn arbennig i ni yn ardal Abertawe, o ystyried iddi fynd o gynnig gwasanaeth yn ystod y dydd i gau gorsaf Abertawe yn gyfan gwbl. Ni allwn ddeall hynny, o ystyried na chynhaliwyd asesiad risg llawn ac nad ystyriwyd barn Pwyllgor Trafnidiaeth Tŷ'r Cyffredin, a oedd yn feirniadol o'r ffaith na chafwyd eglurhad

rigour with regard to why these decisions had been made, were not taken into account.

digon manwl ynghylch pam y gwnaed y penderfyniadau hyn.

As has been said previously, the south Wales coastline is extremely busy, not just as a result of having a deep-water harbour at Port Talbot, but also because of shipping in the Bristol channel more generally. There are also potential risks in relation to the millions of people who enjoy the coastline of south Wales every year, given that businesses that depend upon the tourism industry depend upon a safe marine environment. A major issue that has been brought to the committee's attention is the concern of campaigners, as a result of campaigning locally, that confidence regarding the safety of the coastline could be compromised if the station at Swansea is closed. Is it really of any surprise that that might be the case? For example, if you were a tourist visiting the south Wales coastline, might you think twice in future about coming to the area if you knew that your life could potentially be put at risk because the services were not provided in that area, or if phone calls were answered from the Outer Hebrides as opposed to being answered by professional, well-educated coastguard officers in and around the Swansea area?

Fel y dywedwyd eisoes, mae arfordir y de yn hynod o brysur, nid yn unig oherwydd yr harbwr dŵr dwfn ym Mhort Talbot, ond hefyd oherwydd y llongau sy'n mynd a dod ym môr Hafren yn fwy cyffredinol. Ceir risgiau posibl hefyd o ran y miliynau o bobl sy'n mwynhau arfordir y de bob blwyddyn, o gofio bod busnesau sy'n dibynnu ar y diwydiant twristiaeth yn dibynnu ar gael amgylchedd morol diogel. Un mater pwysig sydd wedi ei ddwyn i sylw'r pwyllgor yw pryder yr ymgyrchwyr, o ganlyniad i ymgyrchu'n lleol, y gallai hyder ynghylch diogelwch yr arfordir gael ei beryglu os caiff yr orsaf yn Abertawe ei chau. A yw'n syndod, mewn gwirionedd, y gallai hynny fod yn wir? Er enghraifft, pe baech yn ymweld ag arfordir y de ar eich gwyliau, a fyddech efallai'n meddwl ddwywaith yn y dyfodol am ddod i'r ardal pe baech yn gwybod y gallai eich bywyd gael ei beryglu am nad yw'r gwasanaethau'n cael eu darparu ynddi, neu pe bai galwadau ffôn yn cael eu hateb yn yr Hebrides Allanol yn hytrach na chan swyddogion gwylwyr y glannau proffesiynol sydd wedi cael addysg dda, yn Abertawe a'r cyffiniau?

My final point is to urge the Welsh Government to look at the risk assessment issue. If the UK Government decides not to fully fund the risk assessment that we have called for in the report, will the Welsh Government undertake to perform that risk assessment, not necessarily alone, but potentially in conjunction with the SNP Government, which has raised concerns about the closure of stations in Scotland? We would not need to fund it on a Wales level; we could look to our colleagues elsewhere to see what is possible. I do not think that it is good enough for the Welsh Government to say 'Sorry, we can't take any responsibility for this'. Implications in relation to tourism and to the marine environment are under the control of the devolved nations. I therefore urge the Minister to consider this and to urge the UK Government to co-operate as much as it can.

Yn olaf, rwyf yn annog Llywodraeth Cymru i edrych ar y mater sy'n ymwneud ag asesu risg. Os bydd Llywodraeth y DU yn penderfynu peidio ag ariannu'n llawn yr asesiad risg yr ydym wedi galw amdano yn yr adroddiad, a wnaiff Llywodraeth Cymru ymrwymo i ymgymryd â'r asesiad risg hwnnw, nid o reidrwydd ar ei phen ei hun, ond ar y cyd â Llywodraeth yr SNP o bosibl, sydd wedi codi pryderon am gau gorsafoedd yn yr Alban? Ni fyddai angen inni ei ariannu ar lefel Cymru; gallem droi at ein cydweithwyr mewn mannau eraill i weld beth sy'n bosibl. Nid wyf yn meddwl ei bod yn ddigon da i Lywodraeth Cymru ddweud 'Mae'n ddrwg gennym, ni allwn gymryd unrhyw gyfrifoldeb am hyn'. Mae'r goblygiadau o ran twristiaeth a'r amgylchedd morol dan reolaeth y gwledydd datganoledig. Felly, rwyf yn annog y Gweinidog i ystyried hyn ac i annog Llywodraeth y DU i gydweithredu gymaint ag y gall.

None of us are happy that this decision has

Nid yw'r un ohonom yn fodlon bod y

been made. If we were in Government at a UK level, we would reverse this decision now. However, as a party, we are not in Government at a UK level—[*Interruption.*] Having the powers here would be even better. I thank everyone who has taken part in the petitions process, particularly the campaigners from the Public and Commercial Services Union and local people in Swansea, who have been superb in helping us to frame this document to make it the effective and balanced report that we wanted it to be.

penderfyniad hwn wedi cael ei wneud. Pe baem mewn Llywodraeth ar lefel y DU, byddem yn gwrthdroi'r penderfyniad yn awr. Fodd bynnag, fel plaid, nid ydym mewn Llywodraeth ar lefel y DU—[*Torri ar draws.*] Byddai cael y pwerau yn y fan hon yn well fyth. Diolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y broses ddeisebau, yn enwedig yr ymgyrchwyr o Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol a phobl leol yn Abertawe, sydd wedi bod yn wych wrth ein helpu i lunio'r ddogfen hon a pharatoi'r adroddiad effeithiol a chytbwys yr oeddem yn awyddus i'w gael.

**Peter Black:** I welcome the Petitions Committee report and the opportunity that it gives us to debate this issue in full in the Chamber. I also welcome the continuing consensus across all parties that the decision to close the Mumbles coastguard station was absolutely the wrong one and was taken for all the wrong reasons. I still find it difficult to understand how the Minister can stand up in the House of Commons and say that he is closing the coastguard station at Mumbles because Swansea already has too many Department for Transport employees. That has nothing whatsoever to do with any operational considerations relating to that station, nor the very many arguments made by campaigners against that closure, particularly in relation to the safety issues and some of the other issues that have already been raised by Members.

**Peter Black:** Rwyf yn croesawu adroddiad y Pwyllgor Deisebau a'r cyfle y mae'n ei roi inni drafod y mater hwn yn llawn yn y Siambr. Rwyf hefyd yn croesawu'r consensws parhaus ar draws pob plaid, sef bod y penderfyniad i gau gorsaf gwylwyr y glannau yn y Mwmbwls yn un cwbl anghywir a'i fod wedi'i wneud am y rhesymau anghywir. Rwyf yn ei chael yn anodd deall o hyd sut y gall y Gweinidog sefyll yn Nhŷ'r Cyffredin a dweud ei fod yn cau gorsaf gwylwyr y glannau yn y Mwmbwls oherwydd bod gan Abertawe ormod o weithwyr o'r Adran Drafnidiaeth yn barod. Nid oes a wnelo hynny ddim oll ag unrhyw ystyriaethau gweithredol sy'n ymwneud â'r orsaf honno, na'r dadleuon niferus a wnaed gan ymgyrchwyr yn erbyn cau'r orsaf, yn enwedig yng nghyswllt y materion sy'n ymwneud â diogelwch a rhai o'r materion eraill a godwyd eisoes gan yr Aelodau.

In the meetings that took place during the campaign to try to keep Mumbles station open, I was particularly struck by the testimony of local fishermen and other users of small vessels around the Gower coastline, in particular, about the need for local knowledge in responding to emergency calls. Gower, as is most of the south Wales coast, is littered with small bays and difficult currents, and when someone gets into trouble in one of those areas, an immediate or swift response is essential to ensure that they are able to survive that incident. Local knowledge clearly counts. Someone who, for example, is inexperienced and is in a boat caught up in the Loughor estuary, who might be able to ring to give some landmarks to an operative

Yn y cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod yr ymgyrch i geisio cadw gorsaf y Mwmbwls ar agor, cefais fy nharo'n arbennig gan dystiolaeth pysgotwyr lleol ac eraill sy'n defnyddio cychod bach o gwmpas arfordir Gŵyr, ac yn arbennig, ynghylch yr angen am wybodaeth leol wrth ymateb i alwadau brys. Mae penrhyn Gŵyr, fel y mae'r rhan fwyaf o arfordir y de, yn frith o faeau bach a cherhyntau anodd, a phan fydd rhywun yn mynd i drafferth yn un o'r ardaloedd hynny, mae ymateb disyfyd neu sydyn yn hanfodol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu goroesi'r digwyddiad. Mae'n amlwg bod gwybodaeth leol yn cyfrif. Er enghraifft, i rywun dibrofiad mewn cwch sydd wedi ei ddal yn aber afon Llwchwr, ac a allai fod mewn sefyllfa i allu

at the Mumbles coastguard station, stands a much better chance of having a boat or helicopter get to him or her in minutes than if they were calling an operator based in the Outer Hebrides or Somerset who had no idea of the local circumstances of the coastline around Gower and the Loughor estuary.

ffonio i ddisgrifio rhai tirnodau i weithiwr yng ngorsaf gwylwyr y glannau yn y Mwmbwls, byddai ganddo lawer mwy o obaith o weld cwch neu hofrennydd yn ei gyrraedd mewn munudau na phe bai'n ffonio rhywun sy'n gweithio yn yr Hebrides Allanol neu Wlad yr Haf, nad oes ganddynt ddim syniad am yr amgylchiadau lleol a'r arfordir o gwmpas Gŵyr ac aber afon Llwchwr.

The same applies to the rest of the Severn estuary, which is particularly notorious for mud flats. People often get caught in the mud, and knowing the various eddies and difficulties with the terrain there is crucial in mounting a rescue to help get people out of that particular difficulty. I find it incomprehensible that that local knowledge is being cast to one side. Although I am sure that staff at Milford Haven will do a sterling job, they clearly do not have the knowledge or resources to replace what was on offer from Mumbles. I still hold out hope that the UK Government might change its mind, and I think that a risk assessment is crucial in trying to make that happen. I hope that the risk assessment goes ahead irrespective of whether the UK Government is able to part-fund it. I understand that this matter is not the responsibility of the Welsh Government, and that the Welsh Government is perfectly within its rights to say to the UK Government 'You closed the station, so you take responsibility for the consequences'. However, we all have a responsibility, as representatives in Wales, particularly in the south Wales area, for the safety and wellbeing of those people who we represent. It is important, therefore, that we occasionally step outside our responsibilities and take on board these sorts of projects, simply as part of a campaign to underline to the UK Government how barking mad its decision was to close this coastguard station. That is why I urge the Minister to consider funding this study if the UK Government decides that it is not prepared to do so.

Mae'r un peth yn wir am weddill aber afon Hafren sy'n enwog iawn am ei fflatiau llaid. Yn aml bydd pobl yn cael eu dal yn y mwd, ac mae gwybod am y gwahanol drolifau a'r anawsterau sy'n gysylltiedig â'r dirwedd yno'n hanfodol wrth drefnu ymgyrch achub i helpu i gael pobl allan o'r anhawster dan sylw. Rwyf yn ei chael yn amhosibl deall bod gwybodaeth leol yn cael ei bwrw o'r neilltu. Er fy mod yn siŵr y bydd y staff yn Aberdaugleddau yn gwneud gwaith rhagorol, mae'n amlwg nad oes ganddynt y wybodaeth na'r adnoddau i gymryd lle'r hyn a oedd ar gael yn y Mwmbwls. Rwyf yn dal i obeithio y gallai Llywodraeth y DU newid ei meddwl, a chredaf fod asesiad risg yn hollbwysig o ran ceisio gwneud i hynny ddigwydd. Rwyf yn gobeithio y bydd yr asesiad risg yn mynd rhagddo, ni waeth a yw Llywodraeth y DU yn gallu ariannu'r gwaith yn rhannol ai peidio. Rwyf yn deall nad cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw'r mater hwn, a bod perffaith hawl gan Lywodraeth Cymru i ddweud wrth Lywodraeth y DU, 'Chi gaeodd yr orsaf, felly rhaid i chi gymryd cyfrifoldeb am y canlyniadau'. Fodd bynnag, fel cynrychiolwyr yng Nghymru, yn enwedig yn ardal y de, mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb am ddiogelwch a lles y bobl yr ydym yn eu cynrychioli. Mae'n bwysig, felly, ein bod yn mynd ymhellach na'n cyfrifoldebau o bryd i'w gilydd ac yn ymgymryd â phrosiectau tebyg i hwn, a hynny'n syml yn rhan o ymgyrch i bwysleisio wrth Lywodraeth y DU mor wallgof oedd ei phenderfyniad i gau'r orsaf hon. Dyna pam yr wyf yn annog y Gweinidog i ystyried ariannu'r astudiaeth hon os bydd Llywodraeth y DU yn penderfynu nad yw'n barod i wneud hynny.

I also hope that, as part of this petition, we can once again highlight to the UK Government the need to rethink this decision. I still think that there are inherent dangers in

Gobeithiaf hefyd, yn rhan o'r ddeiseb hon, y gallwn dynnu sylw Llywodraeth y DU unwaith eto at yr angen i ailystyried y penderfyniad hwn. Rwyf yn dal i gredu bod

expecting coastguard stations many miles away from the Severn estuary that have huge responsibilities of their own—the Milford Haven waterway is a massive undertaking, as is Cardigan bay—to take on board what is happening in the Severn estuary in addition to what they are doing in their own areas. As has been pointed out, when you have such developments as the Atlantic Array, which could involve the deep port in Port Talbot or Pembroke Dock and Milford Haven, it is a difficult scenario to envisage.

peryglon cynhenid mewn disgwyl i orsafoedd gwylwyr y glannau filltiroedd lawer i ffwrdd o aber afon Hafren, sydd â llawer iawn o gyfrifoldebau eisoes—mae dyfrffordd Aberdaugleddau yn waith enfawr, ac mae'r un peth yn wir am fae Ceredigion—ymgymryd â'r hyn sy'n digwydd yn aber afon Hafren ar ben yr hyn y maent yn ei wneud yn eu hardaloedd eu hunain. Fel y nodwyd, pan fydd gennych ddatblygiadau megis Atlantic Array, a allai gynnwys y porthladd dwfn ym Mhort Talbot neu Ddoc Penfro ac Aberdaugleddau, mae'n sefyllfa anodd ei dychmygu.

In conclusion, I welcome this debate and the recommendations made in the Petitions Committee report. I urge the Minister to do everything that he can to highlight to the UK Government the dangers of its decision, if necessary by funding this study himself.

I gloi, croesawaf y ddadl hon a'r argymhellion a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor Deisebau. Anogaf y Gweinidog i wneud popeth posibl i dynnu sylw Llywodraeth y DU at beryglon ei phenderfyniad, a hynny drwy ariannu'r astudiaeth hon ei hun os bydd angen.

**Joyce Watson:** I am pleased to speak in this debate as a member of the Petitions Committee. I was responsible for the first debate here on saving our coastguard stations, although that seems an awfully long time ago. I thank the First Minister for his positive response to the report, and recognise his ongoing robust support for Swansea coastguard station. Given the strength of feeling on this issue, it is right that the Welsh Government continues to challenge the UK Government's decision; I think that everybody here agrees with that. When Westminster announced the original proposal to close the stations at Milford Haven and Holyhead, the combination of grass-roots activism and political opposition proved to be compelling and potent. I can only hope that the same will happen again as a result of this report.

**Joyce Watson:** Rwyf yn falch o gael siarad yn y ddadl hon fel aelod o'r Pwyllgor Deisebau. Roeddwn yn gyfrifol am y ddadl gyntaf a gafwyd yma ynghylch achub ein gorsafoedd gwylwyr y glannau, er bod honno'n ymddangos ymhell yn ôl erbyn hyn. Hoffwn ddiolch i'r Prif Weinidog am ei ymateb cadarnhaol i'r adroddiad, a chydnabod ei gefnogaeth barhaus a chadarn i orsaf gwylwyr y glannau yn Abertawe. O ystyried mor gryf yw'r teimladau ynghylch y mater hwn, mae'n briodol i Lywodraeth Cymru barhau i herio penderfyniad Llywodraeth y DU; credaf fod pawb yn y fan hon yn cytuno â hynny. Pan gyhoeddodd San Steffan y cynnig gwreiddiol i gau'r gorsafoedd yn Aberdaugleddau a Chaergybi, gwelwyd bod y cyfuniad o weithredu ar lawr gwlad a gwrthwynebiad gwleidyddol yn gyfuniad grymus ac effeithiol. Ni allaf ond gobeithio y bydd yr un peth yn digwydd eto o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

This issue is unquestionably of great importance to everyone who visits our coast. As other Members have noted, the haste with which the risk assessment was published, fewer than six weeks after the Department for Transport received 1,700 consultation responses, is cause for concern. We must be absolutely certain that these plans have been thought through and that they have not

Nid oes amheuaeth nad yw'r mater hwn o bwys mawr i bawb sy'n ymweld â'n harfordir. Fel y mae Aelodau eraill wedi dweud, mae'n destun pryder bod yr asesiad risg wedi'i gyhoeddi ar gymaint o frys, lai na chwe wythnos ar ôl i'r Adran Drafnidiaeth gael 1,700 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'n rhaid inni fod yn hollol sicr bod y cynlluniau hyn wedi eu hystyried yn drwyadl,

simply been cobbled together to justify a money-saving, but potentially life-threatening, plan. Given the history of the policy and concerns about the integrity of successive risk assessments, the only way that we can be confident is if we carry out a full and independent risk assessment, as the committee has recommended and as the First Minister has accepted.

ac nad ydynt wedi eu llunio rywsut rywsut i gyfiawnhau cynllun sy'n arbed arian ond a allai beryglu bywydau. O ystyried hanes y polisi a'r pryderon ynghylch cywirdeb y naill asesiad risg ar ôl y llall, yr unig ffordd y gallwn fod yn hyderus yw trwy gynnal asesiad risg llawn ac annibynnol, fel y mae'r pwyllgor wedi argymell ac fel y mae'r Prif Weinidog wedi derbyn.

Has the First Minister received a response to his request for an independent risk assessment from the Parliamentary Under-Secretary of State for Transport? Does the First Minister agree that the Welsh Government should oversee such an assessment, given the perception of previous reports and confidence—or, rather, lack of confidence—in them? What specific issues does the First Minister and the Welsh Government think the Department for Transport has overlooked with regard to the Swansea plans? In his response to our report, the First Minister cites coastal safety alongside tourism, employment, and economic development, especially inward investment, and the commercial prospects of the deep-water harbour in Port Talbot as issues that must be taken into account. Is it the Welsh Government's position that these factors have been ignored?

A yw'r Prif Weinidog wedi cael ymateb i'w gais am asesiad risg annibynnol gan yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Drafnidiaeth? A yw'r Prif Weinidog yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru oruchwylio asesiad o'r fath, o ystyried y canfyddiad ynghylch adroddiadau blaenorol a'r hyder—neu'n hytrach y diffyg hyder—ynddynt? Ym marn y Prif Weinidog a Llywodraeth Cymru, pa faterion penodol y mae'r Adran Drafnidiaeth wedi eu hanwybyddu yng nghyswllt y cynlluniau ar gyfer Abertawe? Yn ei ymateb i'n hadroddiad, mae'r Prif Weinidog yn cyfeirio at ddiogelwch ar yr arfordir ynghyd â thwristiaeth, cyflogaeth, datblygu economaidd, yn enwedig mewnfuddsoddi, a rhagolygon masnachol yr harbwr dŵr dwfn ym Mhort Talbot fel materion y mae'n rhaid eu hystyried. A yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod y ffactorau hyn wedi cael eu hanwybyddu?

**Byron Davies:** I make my contribution to this debate with a certain reservation. I must hold my hands up at the outset and unequivocally state that I do not agree with the decision to close Swansea coastguard services at Mumbles. This puts me in direct opposition to the UK Government's plans but, with devolution, this Chamber allows Conservatives to differ on occasion, and this is certainly one of them.

**Byron Davies:** Rwyf braidd yn betrus wrth gyfrannu i'r ddadl hon. Rhaid imi gyfaddef ar y dechrau a datgan yn ddiamwys nad wyf yn cytuno â'r penderfyniad i gau gwasanaethau gwylwyr y glannau Abertawe yn y Mwmbwls. Mae hynny'n golygu bod fy safbwynt yn gwbl groes i gynlluniau Llywodraeth y DU, ond, gyda datganoli, mae'r Siambr hon yn caniatáu i Geidwadwyr anghytuno ar adegau, ac mae hon yn sicr yn un o'r adegau hynny.

I was, and still am, deeply saddened that Swansea is to lose a first-class coastguard station, manned by a very professional team, the members of which have been pivotal in keeping our waters safe. I also pay tribute to the commitment of campaigners, who have put forward a powerful case for the retention of Swansea's coastguard services. It is difficult at this juncture, because much of what I am going to say has already been said,

Roeddwn yn drist iawn, ac rwyf yn dal yn drist iawn bod Abertawe yn mynd i golli gorsaf gwylwyr y glannau sydd o'r radd flaenaf, a gaiff ei staffio gan dîm proffesiynol iawn y mae ei aelodau wedi bod yn ganolog i'r gwaith o gadw ein dyfroedd yn ddiogel. Rwyf hefyd am roi teyrnged i ymroddiad ymgyrchwyr sydd wedi cyflwyno achos cryf dros gadw gwasanaethau gwylwyr y glannau Abertawe. Mae'n anodd yn awr, gan fod

but I want to support what has been said by colleagues Suzy Davies, Bethan Jenkins, Peter Black and Julie James. The Bristol channel is a busy one, and has been expertly served by the coastguard station in Swansea for many years. With the planned Atlantic Array development and other port developments on the horizon, this waterway is set to become more, not less, challenging, thus creating a greater need for a presence in Swansea.

llawer o'r hyn yr wyf yn bwriadu ei ddweud wedi ei ddweud eisoes, ond rwyf am gefnogi'r hyn a ddywedwyd gan fy nghydweithwyr Suzy Davies, Bethan Jenkins, Peter Black a Julie James. Mae môr Hafren yn brysur iawn, ac fe'i gwasanaethwyd yn fedrus iawn am flynyddoedd lawer gan orsaf gwylwyr y glannau yn Abertawe. O gofio bod datblygiad arfaethedig Atlantic Array a datblygiadau eraill i borthladdoedd ar y gorwel, mae disgwyl i'r ddyfrfffordd hon fod yn fwy heriol, ac nid yn llai heriol, gan greu mwy o angen am bresenoldeb yn Abertawe, felly.

Growing up in Port Eynon on Gower, where my father was a policeman, I well remember a number of incidents around the extended coast that relied hugely on the professionalism of the local coastguards. There is an enormous history of ships in distress, as well as disasters, in the Bristol channel. I welcome the recommendations of the Petitions Committee report and note that the Welsh Government has accepted them. I also pay tribute to the First Minister for meeting with me and campaigners to discuss the Government's reaction to this report and the ongoing campaign. It is generally accepted that there is a clear need to review the Maritime and Coastguard Agency and build a national resilience. This issue has been neglected for far too long. I pay tribute to the UK Government for the many difficult decisions that it is having to make. Its determination to make the difficult decisions has, in this case, put me at loggerheads with it, but that is democracy.

Fel un a fagwyd ym Mhort Eynon ar benrhyn Gŵyr, lle'r oedd fy nhad yn blismon, rwyf yn cofio llawer o ddigwyddiadau o amgylch yr arfordir estynedig, a oedd yn dibynnu'n fawr ar broffesiynoldeb gwylwyr y glannau yn lleol. Ceir hanesion di-ri am longau mewn trafferthion, ac am drychinebau, ym môr Hafren. Rwyf yn croesawu argymhellion adroddiad y Pwyllgor Deisebau ac yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi eu derbyn. Hoffwn innau roi teyrnged i'r Prif Weinidog am gyfarfod â mi ac ag ymgyrchwyr i drafod ymateb y Llywodraeth i'r adroddiad hwn a'r ymgyrch barhaus. Derbynnir yn gyffredinol ei bod yn amlwg bod angen adolygu Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau ac adeiladu gwydnwch cenedlaethol. Mae'r mater hwn wedi ei esgeuluso am gyfnod rhy hir o lawer. Hoffwn roi teyrnged i Lywodraeth y DU am y penderfyniadau anodd niferus y mae'n gorfod eu gwneud. Mae'r ffaith ei bod yn benderfynol o wneud y penderfyniadau anodd wedi golygu, yn yr achos hwn, fy mod benben â hi, ond dyna yw democratiaeth.

While more jobs in the Welsh maritime industry have been protected than would have been the case under the previous Government's plans, this remains a terrible blow for Swansea, and I will continue to fight for Swansea's role in the maritime industry, to make the best use of its training facilities, and will do all possible to help guarantee public safety. I thank fellow campaigners across the political spectrum and fully support this report and its recommendations.

Er bod mwy o swyddi wedi cael eu gwarchod yn niwydiant morol Cymru nag a fyddai wedi cael eu gwarchod dan gynlluniau'r Llywodraeth flaenorol, mae hon yn parhau'n ergyd ofnadwy i Abertawe, a byddaf yn parhau i ymladd dros rôl Abertawe yn y diwydiant morol, a thros wneud y defnydd gorau o'i chyfleusterau hyfforddi, a byddaf yn gwneud popeth posibl i helpu i sicrhau bod y cyhoedd yn ddiogel. Hoffwn ddiolch i'm cyd-ymgyrchwyr ar draws y sbectrwm gwleidyddol, ac rwyf yn cefnogi'r adroddiad hwn a'i argymhellion yn llwyr.

**Simon Thomas:** Rwyf innau eisau cefnogi popeth sydd wedi cael ei ddweud yma heddiw. Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i'r Pwyllgor Deisebau am ei waith caled a chlodwiw wrth baratoi'r adroddiad hwn, a dweud, fel un sydd wedi ymdrin â deisebau mewn lle gwahanol iawn, mae'r system yn gweithio gryn dipyn yn well yma nag yn Llundain. Mae'n braf gweld adroddiad a dadl yn dilyn yn sgil deiseb, sydd yn dangos bod gwerth i'r cyhoedd ddeisebu'r lle hwn er mwyn sicrhau bod eu dadl yn cael ei chlywed.

**Simon Thomas:** I want to endorse all that has been said here today. I would like to begin by thanking the Petitions Committee for its hard and commendable work in preparing this report, and say, as someone who has dealt with petitions in a very different place, that the system here works much better than the system in London. It is good to see a report and a debate stemming from a petition, which shows that it is worthwhile for the public to petition this place in order to ensure that their arguments are heard.

3.00 p.m.

Rwyf innau'n ymwybodol o'r bygythiad i orsafoedd gwylwyr y glannau Roeddwn i'n helpu fy rhagflaenydd, Nerys Evans, wrth ymateb i'r cynllun cyntaf wrth geisio cadw gorsaf Aberdaugleddau, pan oeddem yn meddwl y byddai'r orsaf honno'n cau. Er ein bod yn hapus gweld gorsaf yn cael ei chadw mewn un man, roedd y cyhoeddiad y byddai gorsaf Abertawe'n cau, a hynny heb unrhyw asesiad o'r peryglon a'r risg cysylltiedig, yn ergyd ac yn un o'r camau gwag mwyaf enbyd yr oedd yn bosibl i'r Llywodraeth ei gymryd. Fel y nodwyd eisoes, mae'r rhesymeg dros hynny yn anffodus iawn.

I am aware of the threat to coastguard stations. I had been assisting my predecessor, Nerys Evans, in responding to the first scheme and trying to retain the Milford Haven station, when we thought that that station was to close. Although we were pleased to see that one station was to be retained, the announcement that Swansea was to be closed, without any assessment of the associated dangers and risks, was a blow and one of the worst mistakes that the Government could have made. As we have heard already, the rationale behind that was very unfortunate indeed.

Mae'r ymgyrchwyr wedi bod yn arbennig o gryf a huawdl, gan achub ar bob cyfle i godi llais er mwyn cadw'r orsaf ar agor. Rwy'n dal i obeithio y bydd y Llywodraeth, a phob un ohonom, yn derbyn argymhelliad 2 ac yn dal i frwydro i gadw gorsaf Abertawe ar agor.

The campaigners have been exceptionally robust and vocal, taking all opportunities to make their views known in order to retain the station. It is still my hope that the Government, and each and every one of us, will accept recommendation 2 and continue to fight to keep the Swansea station open.

Gan y cyfeiriwyd at dwristiaeth, hoffwn wneud un pwynt yn arbennig ynglŷn â datblygiad economaidd yn yr ardal honno a pha mor bwysig yw hynny. Rydym eisoes yn gwybod am ddatblygiad Tata a bod y Llywodraeth wedi datgan y bydd £800 miliwn o fuddsoddiad gan Tata yn yr ardal. Mae hynny ar ben y posibilrwydd o fuddsoddiad mewn glo brig yn yr ardal honno. Mae datblygiad economaidd gwerth dros £1 biliwn ar lan y môr a fydd yn ddibynnol, ar sawl lefel, ar ddod â nwyddau i mewn i'r ardal hon, ac ar yr un pryd maent yn cau gorsaf gwylwyr y glannau, sydd wedi diogelu môr Hafren, fel y nododd Byron.

As tourism has already been mentioned, I want to raise a point about economic development in the area and its importance. We are already aware of the Tata development and that the Government has stated that Tata will invest £800 million in the area. This comes on top of the possible investment in opencast mining in the area. Economic development worth more than £1 billion is to take place in a coastal area, and this development will depend, on several levels, on bringing in goods, but, at the same time, the coastguard station is to close, a station that has safeguarded the Bristol channel, as Byron outlined.

O ran datblygiad melinau gwynt yn y canolbarth—pa un a ydych yn eu hoffi ai peidio—efallai nad yw pobl yn ymwybodol bod nifer ohonynt yn cael eu cludo drwy Abertawe. Drwy harbwr Abertawe y bydd y melinau gwynt wedi eu datgymalu yn cael eu mewnforio er mwyn cael eu cludo i ganolbarth Cymru. Mae'r rhain yn nwyddau mawr sy'n gallu bod yn anodd eu trin ac, felly, mae angen gwasanaeth diogelwch o'r radd flaenaf i sicrhau bod y broses yn saff.

As regards windfarm developments in mid Wales—regardless of whether you like them or not—people might not be aware that many of the component parts come through Swansea. The turbine components are imported through Swansea dock to be transported to mid Wales. These are large pieces of machinery that can be difficult to deal with and, therefore, we need safety arrangements of the highest quality to ensure that the process is conducted safely.

I will conclude with tourism, because at this stage of the Olympics—whatever you think about the Olympics—we have seen how Wales has been marketed during the past few months to people coming to Great Britain. We have seen the tourism adverts for Wales and they all focus on our beaches and maritime activities, whether it is an actor from the Harry Potter films cavorting in the sea or a couple trying out certain delights that I certainly would not partake of in a very cold sea off the coast of Wales.

Rwyf am gloi â thwristiaeth, oherwydd a'r Gemau Olympaidd ar ein gwarthaf—ni waeth beth yw eich barn am y Gemau Olympaidd—rydym wedi gweld sut y mae Cymru wedi cael ei marchnata yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf i bobl sy'n dod i Brydain Fawr. Rydym wedi gweld yr hysbysebion twristiaeth ar gyfer Cymru, ac maent i gyd yn canolbwyntio ar ein traethau a'n gweithgareddau morol, boed yn actor o'r ffilmiau Harry Potter sy'n prancio yn y môr neu'n bâr sy'n rhoi cynnig ar ambell bleser na fyddwn i, yn sicr, yn cymryd rhan ynddynt mewn môr oer iawn oddi ar arfordir Cymru.

Wales is sold internationally as a place of clean seas to be enjoyed and as a place where it is safe to come for leisure and outdoor activities. It not only reflects on us when we do this; what message does it send to the people who want to come to enjoy our maritime activities in Wales when we are closing one of the busiest and safest coastguard stations? It is essential that we continue to fight, and I am very pleased that we have had this debate today.

Caiff Cymru ei gwerthu'n rhyngwladol fel man lle y gellir mwynhau moroedd glân ac fel man y mae'n ddiogel dod iddo ar gyfer gweithgareddau hamdden ac awyr agored. Nid arnom ni'n unig y mae'r cam hwn yn adlewyrchu'n wael; pa neges a anfonir at y bobl sydd am ddod i fwynhau ein gweithgareddau morol yng Nghymru, pan fyddwn yn cau un o'r gorsafoedd gwylwyr y glannau prysuraf a mwyaf diogel? Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i frwydro, ac rwyf yn falch iawn ein bod wedi cael y ddadl hon heddiw.

**Antoinette Sandbach:** I welcome the report into this matter, but I will limit my contribution to north Wales. Holyhead was one of the stations that was threatened with closure by the previous Labour Government. It will now be retained. The importance of Holyhead is reflected in the fact that it is a 24-hour deep water port, it serves more than 2 million passengers annually and it has vital trade links with Ireland. Stena Line and the port provide over 1,000 jobs either directly or indirectly and it has a growing role in boosting the tourism industry—15 cruise ships are currently scheduled to visit the port

**Antoinette Sandbach:** Croesawaf yr adroddiad ar y mater hwn, ond rwyf am gyfyngu fy nghyfraniad i'r gogledd. Roedd Caergybi yn un o'r gorsafoedd a oedd mewn perygl o gael ei chau gan y Llywodraeth Lafur flaenorol. Yn awr, bydd yn cael ei chadw. Caiff pwysigrwydd Caergybi ei adlewyrchu yn y ffaith ei fod yn borthladd dŵr dwfn 24-awr, sy'n gwasanaethu mwy na 2 filiwn o deithwyr bob blwyddyn ac sydd â chysylltiadau masnach hanfodol ag Iwerddon. Mae Stena Line a'r porthladd yn darparu dros 1,000 o swyddi naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ac mae

between now and September, bringing tens of thousands of visitors to Wales. It is a welcome decision by the UK Government to maintain the Holyhead coastguard station, and I make no observations in relation to any other coastguard stations.

ganddo rôl gynyddol o ran hybu'r diwydiant twristiaeth—ar hyn o bryd mae disgwyl i 15 o longau mordeithio ymweld â'r porthladd rhwng nawr a mis Medi, gan ddod â degau o filoedd o ymwelwyr i Gymru. Mae penderfyniad Llywodraeth y DU i gadw gorsaf gwylwyr y glannau yng Nghaergybi yn un i'w groesawu. Nid wyf am wneud sylw ynghylch unrhyw orsafoedd gwylwyr y glannau eraill.

I pay tribute to the work of local coastguard and community groups in Anglesey and to the work of Nick Bourne, whose representations to the UK Government were crucial in securing Holyhead's future. UK Ministers have said that they are prepared to listen and that the decision to continue to support Holyhead is proof of that, and it is a decision that I, as an Assembly Member for North Wales, welcome.

Hoffwn roi teyrnged i waith gwylwyr y glannau a grwpiau cymunedol lleol ar Ynys Môn ac i waith Nick Bourne, yr oedd ei sylwadau i Lywodraeth y DU yn hollbwysig o ran diogelu dyfodol Caergybi. Mae Gweinidogion y DU wedi dweud eu bod yn barod i wrando a bod y penderfyniad i barhau i gefnogi Caergybi yn brawf o hynny, ac mae'n benderfyniad yr wyf i, fel Aelod Cynulliad dros Ogledd Cymru, yn ei groesawu.

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I am grateful for the opportunity to respond to the debate on the Petitions Committee's report on the Maritime and Coastguard Agency in Wales. Many issues were raised about Swansea coastguard station in particular, which I will address in my contribution.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle i ymateb i'r ddadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau yng Nghymru. Codwyd nifer o faterion am orsaf gwylwyr y glannau yn Abertawe yn benodol, y byddaf yn mynd i'r afael â hwy yn fy nghyfraniad.

The Welsh Government responded to the consultation on proposals for modernising the coastguard service, and provided a strong argument for retaining all our coastguard stations. We all recognise the need to modernise the coastguard service to keep up with the changing demands and technologies. This service needs to be more resilient and more responsive when managing incidents, and we recognise that the new operating model will allow that to be taken forward. However, this should not be at the cost of closing the coastguard centres unnecessarily.

Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ynghylch cynigion i foderneiddio gwasanaeth gwylwyr y glannau, a chyflwynodd ddadl gref dros gadw pob un o'n gorsafoedd gwylwyr y glannau. Mae pob un ohonom yn cydnabod yr angen i foderneiddio gwasanaeth gwylwyr y glannau er mwyn ymateb i'r galwadau a'r dechnoleg sy'n newid. Mae angen i'r gwasanaeth hwn fod yn fwy gwydn ac yn fwy ymatebol wrth reoli digwyddiadau, ac rydym yn cydnabod y bydd y model gweithredu newydd yn caniatáu i hynny gael ei ddatblygu. Fodd bynnag, ni ddylai hynny fod ar draul cau canolfannau gwylwyr y glannau'n ddiangen.

The existing network of three coastguard centres in Wales works well, with an appropriate geographical spread and local knowledge that gives maritime users confidence that they will quickly be able to access an effective service from the Maritime and Coastguard Agency—many Members

Mae'r rhwydwaith presennol o dair canolfan gwylwyr y glannau yng Nghymru yn gweithio'n dda, gyda dosbarthiad daearyddol priodol a gwybodaeth leol sy'n golygu bod defnyddwyr y môr yn hyderus y byddant yn gallu cael mynediad cyflym i wasanaeth effeithiol gan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y

referred eloquently to the need for local knowledge of the coastline in their areas.

Glannau—cafwyd cyfraniadau huawdl gan lawer o Aelodau a gyfeiriodd at yr angen am wybodaeth leol am yr arfordir yn eu hardaloedd.

The First Minister has written to Mike Penning, the Under-Secretary of State for Transport, asking the Department for Transport to commission a full and independent assessment of the risks associated with the consequences of the closure. We have suggested that the review should look at maritime and coastal safety provision as the first priority, but should also take into account the related issues around tourism, employment and economic development, as many Members have referred to already this afternoon. Such an assessment needs to be specifically mindful of the impact that the closure could have on future inward investment aspirations for Wales.

Mae'r Prif Weinidog wedi ysgrifennu at Mike Penning, yr Is-ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, yn gofyn i'r Adran Drafnidiaeth gomisiynu asesiad llawn ac annibynnol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â chanlyniadau cau'r orsaf. Rydym wedi awgrymu y dylai'r adolygiad edrych ar y ddarpariaeth o ran diogelwch ar y môr a'r arfordir, fel y flaenoriaeth gyntaf, ond y dylai hefyd ystyried y materion cysylltiedig sy'n ymwneud â thwristiaeth, cyflogaeth a datblygu economaidd, fel y mae nifer o Aelodau wedi crybwyll eisoes y prynhawn yma. Mae angen i asesiad o'r fath ystyried, yn benodol, yr effaith y gallai cau'r orsaf ei chael ar ddyheadau Cymru o safbwynt mewnfuddsoddi yn y dyfodol.

**Bethan Jenkins:** Has the Welsh Government received a response to that letter? If I am correct, it was sent quite a few weeks ago. Could you not hurry up the process a bit by telling us whether Mike Penning has responded?

**Bethan Jenkins:** A yw Llywodraeth Cymru wedi cael ymateb i'r llythyr hwnnw? Os cofiaf yn iawn, fe'i hanfonwyd sawl wythnos yn ôl. Oni allwch gyflymu'r broses ychydig drwy ddweud wrthym a yw Mike Penning wedi ymateb?

**Carl Sargeant:** We have received a disappointing response from Mike Penning in the Department for Transport, but we are continuing to press for further dialogue to seek reassurances that a further risk assessment will be undertaken. As I said, the response was disappointing. The Welsh Government feels that a site-specific assessment needs to be undertaken—an assessment that will look at the specific issues in relation to each station, not only the system that the DfT is proposing to put in place. This is not just an issue for Swansea, but for all the stations threatened with closure.

**Carl Sargeant:** Rydym wedi cael ymateb siomedig gan Mike Penning yn yr Adran Drafnidiaeth, ond rydym yn parhau i bwyso am drafodaeth bellach i geisio cael sicrwydd y bydd asesiad risg arall yn cael ei gynnal. Fel y dywedais, roedd yr ymateb yn siomedig. Mae Llywodraeth Cymru yn teimlo bod angen cynnal asesiad sy'n benodol i safleoedd—asesiad a fydd yn edrych ar y materion penodol yng nghyswllt pob gorsaf, ac nid dim ond y system y mae'r Adran Drafnidiaeth yn bwriadu ei rhoi ar waith. Nid problem i Abertawe yn unig mo hon, mae'n broblem i'r holl orsafoedd sydd dan fygythiad.

We all recognise the benefits of the improved resilience offered by the new operating model, but I would again highlight how essential local knowledge is in delivering this agile service. We continue to have concerns that the new system will not allow for the intimate knowledge of the entire Welsh coastline and beyond. With the new proposals, the Maritime and Coastguard

Rydym i gyd yn cydnabod y manteision a gynigir gan y model gweithredu newydd o ran gwella gwydnwch, ond hoffwn dynnu sylw unwaith eto at ba mor hanfodol yw gwybodaeth leol wrth ddarparu'r gwasanaeth buan hwn. Rydym yn pryderu o hyd na fydd y system newydd yn caniatáu gwybodaeth drylwyr am holl arfordir Cymru a thu hwnt. Dan y cynigion newydd, rhaid i Asiantaeth y

Agency must be cautious and ensure that undue additional pressures are not placed on volunteer teams or other services as a result of the proposed modernisation. Such pressures will surely result in the loss of life along the Welsh coastline. We believe that the decision to close Swansea coastguard station was ill-thought-through, and is yet to be evidenced by an impact assessment.

Môr a Gwylwyr y Glannau fod yn ofalus a sicrhau nad oes pwysau ychwanegol diangen yn cael ei roi ar dimau o wirfoddolwyr neu wasanaethau eraill o ganlyniad i'r gwaith moderneiddio arfaethedig. Bydd pwysau o'r fath yn siŵr o arwain at farwolaethau ar hyd arfordir Cymru. Yn ein barn ni, ni chafodd y penderfyniad i gau gorsaf gwylwyr y glannau Abertawe ei ystyried yn ddigon gofalus, ac nid oes gennym eto asesiad effaith i gefnogi'r penderfyniad hwnnw.

Over 100,000 people have signed a petition objecting to these proposals, and I welcome Peter Black's comments, who described the outcome produced by his party's Westminster coalition partners as 'bizarre'. That is understating the situation when a crucial decision on maritime safety is taken based on the number of people working in the Driver and Vehicle Licensing Agency in the region.

Mae dros 100,000 o bobl wedi llofnodi deiseb yn gwrthwynebu'r cynigion hyn, a chroesawaf sylwadau Peter Black, a ddisgrifiodd y canlyniad a gafwyd gan bartneriaid ei blaid yng nghlymblaid San Steffan fel un rhyfedd. Nid yw hwnnw'n air digon cryf i ddisgrifio sefyllfa lle y caiff penderfyniad hollbwysig ynghylch diogelwch ar y môr ei wneud ar sail nifer y bobl sy'n gweithio yn yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau yn y rhanbarth.

I pay tribute to members of the Public and Commercial Services Union, members of the public, service users, councillors, Assembly Members and MPs who have campaigned on this issue, who I know will continue to protest. The Welsh Government will continue to question the decision. Members urged me earlier to respond to the negative decision by the Westminster Minister to not fund this, and asked whether we would go it alone or work in collaboration with other agencies with a similar interest.

Hoffwn roi teyrnged i aelodau Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol, aelodau'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, cynghorwyr, Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol sydd wedi ymgyrchu ar y mater hwn. Gwn y byddant yn parhau i brotestio. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i amau'r penderfyniad. Yn gynharach, cefais fy annog gan Aelodau i ymateb i'r penderfyniad negyddol gan y Gweinidog yn San Steffan i beidio ag ariannu'r gwaith hwn, a gofynnwyd imi a fyddem yn mynd ati ar ein pen ein hunain neu'n cydweithio ag asiantaethau eraill sydd â diddordeb tebyg.

Members in the Chamber have reached a consensus and have challenged whether this was the right decision. As Members have said, it was an odd decision. However, let us not fall into a trap with regard to the issues relating to responsibility here. Where would it all end if we were to do that? If you are asking the Welsh Government to fund an investigation into the reduction in this service, will you be asking me or another Minister, when reductions in Home Office funding for policing come in, to fill that gap at the appropriate time? This is a consequence of a political decision made in Westminster having an impact on Wales.

Mae'r Aelodau yn y Siambr wedi dod i gonsensws ac wedi amau ai hwn oedd y penderfyniad cywir. Fel y mae Aelodau wedi dweud, roedd yn benderfyniad rhyfedd. Fodd bynnag, gadewch inni beidio â syrthio i fagl o ran y materion sy'n ymwneud â chyfrifoldeb yn hyn o beth. Ble byddai'r pen draw pe baem yn gwneud hynny? Os ydych yn gofyn i Lywodraeth Cymru ariannu ymchwiliad i'r gostyngiad yn y gwasanaeth hwn, a fyddwch yn gofyn i mi neu Weinidog arall, pan ddaw gostyngiadau i rym yng nghyllid y Swyddfa Gartref ar gyfer plismona, lenwi'r bwlch hwnnw ar yr adeg briodol? Yr hyn a geir yma yw canlyniad penderfyniad gwleidyddol a wnaed yn San

Steffan yn cael effaith ar Gymru.

**Peter Black:** I accept that point of view, Minister. However, surely the whole concept of standing up for Wales is to put the case when you feel that Wales is being mistreated or that a wrong decision has been taken. In this particular instance, the best way to stand up for Wales is surely to put the case to the Government relating to the consequences of its decision.

**Peter Black:** Rwyf yn derbyn y safbwynt hwnnw, Weinidog. Fodd bynnag, does bosib nad yr holl syniad o sefyll o blaid Cymru yw cyflwyno'r achos pan fyddwch yn teimlo bod Cymru yn cael cam neu bod penderfyniad anghywir wedi'i wneud. Yn yr achos penodol hwn, does bosibl nad y ffordd orau o sefyll o blaid Cymru yw cyflwyno'r achos i'r Llywodraeth ynghylch canlyniadau ei phenderfyniad.

**Carl Sargeant:** The Member raises an important issue. With regard to the implications of many of the decisions taken at Westminster, regardless of the politics, when, with colleagues, I agree that they do not have a beneficial effect on Wales, we must be measured in our approach to testing decisions made by another Minister or another political group in terms of the implications for Wales. However, as you are aware, despite this being a non-devolved function and a decision taken by Westminster, the First Minister has offered to work very closely with the department by jointly funding a study into this. That is extremely generous and shows a willingness to work beyond our boundaries and outside the box, as other Members put it earlier, to reach a solution. However, as I said, we will continue to press the UK Government, in order to achieve a successful outcome, to present a paper to evidence the decision it made. Clearly, that has not happened to date.

**Carl Sargeant:** Mae'r Aelod yn codi mater pwysig. O ran goblygiadau llawer o'r penderfyniadau a wneir yn San Steffan, ni waeth beth yw'r wleidyddiaeth, pan fyddaf i, a'm cydweithwyr, yn cytuno nad ydynt yn cael effaith fuddiol ar Gymru, rhaid inni fod yn bwyllog wrth herio penderfyniadau a wneir gan Weinidog arall neu grŵp gwleidyddol arall o ran y goblygiadau i Gymru. Fodd bynnag, fel y gwyddoch, er bod hon yn swyddogaeth nad yw wedi'i datganoli ac er ei fod yn benderfyniad a wnaed gan San Steffan, mae'r Prif Weinidog wedi cynnig gweithio'n agos iawn gyda'r adran drwy gydariannu astudiaeth o'r mater hwn. Mae hynny'n hael iawn ac yn dangos parodrwydd i weithio y tu hwnt i'n ffiniau ac mewn ffyrdd newydd, fel y dywedodd Aelodau eraill yn gynharach, er mwyn dod o hyd i ateb. Fodd bynnag, fel y dywedais, er mwyn sicrhau canlyniad llwyddiannus, byddwn yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i gyflwyno papur i gefnogi'r penderfyniad a wnaed ganddi. Yn amlwg, nid yw hynny wedi digwydd hyd yn hyn.

**Suzy Davies:** Minister, does that mean 'no' then?

**Suzy Davies:** Weinidog, ai 'na' yw'r ateb, felly?

**Carl Sargeant:** I am sorry; I thought that I was pretty clear, but I am more than happy to explain it again. We are in a position where we have asked the UK Government to jointly fund a study. We have had a response from the Minister that the department does not believe that there is any need for a further study. We will continue to press the issue. We will open another dialogue with the Minister. The offer is still on the table. We are happy to jointly fund a study. We will have to see what response comes back from the UK Government.

**Carl Sargeant:** Mae'n ddrwg gennyf; roeddwn yn meddwl fy mod yn eithaf clir, ond rwyf yn fwy na pharod i esbonio eto. Rydym mewn sefyllfa lle'r ydym wedi gofyn i Lywodraeth y DU gydariannu astudiaeth. Rydym wedi cael ymateb gan y Gweinidog sy'n dweud nad yw'r adran o'r farn bod angen astudiaeth bellach. Byddwn yn parhau i bwyso ar y Llywodraeth. Byddwn yn dechrau trafodaeth arall â'r Gweinidog. Mae'r cynnig ar y bwrdd o hyd. Rydym yn barod i gydariannu astudiaeth. Bydd yn rhaid inni weld pa ymateb ddaw'n ôl gan

Lywodraeth y DU.

I have been grateful for the opportunity to respond to the hard work that the Petitions Committee has put in to taking information from the public, giving the public the opportunity to air its views in a legislative forum. I thank Members for their contributions today.

Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle i ymateb i'r gwaith caled y mae'r Pwyllgor Deisebau wedi ei wneud i gasglu gwybodaeth gan y cyhoedd, gan roi cyfle i'r cyhoedd leisio eu barn mewn fforwm deddfwriaethol. Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau heddiw.

**The Presiding Officer:** I call on the Chair of the Petitions Committee to reply to the debate: William Graham. I am sorry, I mean William Powell.

**Y Llywydd:** Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau i ymateb i'r ddadl: William Graham. Mae'n ddrwg gennyf, William Powell yn hytrach.

**William Powell:** Diolch, Llywydd. Almost a dead ringer. [*Laughter*.] This has been a really excellent debate, and I have been struck by the unanimity of views around the Chamber. We have resisted various temptations. There has been a large-scale resistance of the potential for a divide-and-rule approach that could have come in. There has also been an absence of tribalism and partisanship, because there has been a recognition by a number of colleagues of the difficulties that arise when a decision is made in one place that has a major impact somewhere else, namely in this country and in this Chamber. That must be recognised and valued.

**William Powell:** Diolch, Lywydd. Rydym bron yr un ffunud. [*Chwerthin*.] Bu'n ddadl wirioneddol wych, ac mae'r unfrydedd barn o gwmpas y Siambr wedi gwneud argraff arnaf. Rydym wedi gwrthsefyll sawl temtasiwn. Cafwyd gwrthwynebiad ar raddfa fawr i'r posibilrwydd o ddull gweithredu rhannu a rheoli a allai fod wedi dod i'r amlwg. Ni welwyd agwedd lwythol na phleidiol chwaith, oherwydd mae nifer o gydweithwyr wedi cydnabod yr anawsterau sy'n codi pan gaiff penderfyniad ei wneud mewn un man sy'n cael effaith fawr ar fan arall, sef yn y wlad hon ac yn y Siambr hon. Mae'n rhaid cydnabod a gwerthfawrogi hynny.

I would like to pay particular tribute to the Members who have spoken in today's debate. In her contribution, Julie James stressed the importance of local knowledge as well as the importance of the safety and reassurance provided by the coastguard, not only to visitors, but the local population. She was one of the first of several Members to mention in passing the rather odd explanation of public sector jobs being the reason for this decision being taken in this way.

Hoffwn roi teyrnged arbennig i'r Aelodau sydd wedi siarad yn y ddadl heddiw. Yn ei chyfraniad, pwysleisiodd Julie James bwysigrwydd gwybodaeth leol yn ogystal â phwysigrwydd y diogelwch a'r sicrwydd a ddarperir gan wylwyr y glannau, nid yn unig i ymwelwyr ond i'r boblogaeth leol hefyd. Hi oedd un o'r cyntaf o nifer o Aelodau i sôn wrth fynd heibio am yr esboniad rhyfedd braidd, sef bod y penderfyniad hwn wedi'i wneud fel hyn oherwydd swyddi yn y sector cyhoeddus.

3.15 p.m.

Suzy Davies urged the Welsh Government to keep up the pressure; it is important that we all do that and that we do so with all the power at our disposal. She also posed some detailed questions around risk assessment that the Minister has taken forward. I thank Bethan Jenkins for her passionate defence of Swansea coastguard station, which echoed much of what she has already contributed in committee, and also for raising the possibility of a joint approach with the devolved

Anogodd Suzy Davies Lywodraeth Cymru i ddal i bwyso; mae'n bwysig ein bod i gyd yn gwneud hynny a'n bod yn gwneud hynny gyda phob pŵer sydd ar gael inni. Gofynnodd rai cwestiynau manwl hefyd ynghylch asesu risg, y mae'r Gweinidog wedi eu symud yn eu blaen. Diolch i Bethan Jenkins am ei hangerdd wrth amddiffyn gorsaf gwylwyr y glannau yn Abertawe, a oedd yn adleisio llawer o'r hyn y mae eisoes wedi'i gyfrannu yn y pwyllgor, ac am godi'r posibilrwydd o

administrations in relation to the funding of the independent high-quality risk assessment that is obviously necessary. Peter Black made reference to the consensus that is evident in the Chamber, and again stressed the importance of local knowledge and also of the possibility of a partnership approach to the funding, which echoed what had already been said by Bethan.

gydweithio â'r gweinyddiaethau datganoledig yng nghyswllt ariannu asesiad risg annibynnol o safon, sy'n amlwg yn angenrheidiol. Cyfeiriodd Peter Black at y consensws sy'n amlwg yn y Siambr, ac unwaith eto pwysleisiodd bwysigrwydd gwybodaeth leol a'r posibilrwydd o weithio mewn partneriaeth i ariannu'r gwaith, a oedd yn adleisio'r hyn a ddywedwyd eisoes gan Bethan.

Joyce Watson was active in this campaign from the outset and that informed the remarks that she made on the importance of a robust and independent risk assessment, supporting the recommendations of our committee report. Byron Davies recalled some childhood memories of previous disasters off the south-west Wales coast and was also candid about the difficulties that sometimes face Members of a party that takes a certain view at Westminster, the consequences of which we face and have to live with and seek a review of in the Assembly. In addition, Byron joined Julie James in commenting about the importance of this in relation to the Atlantic Array and other renewable energy developments, which is very important.

Bu Joyce Watson yn weithgar yn yr ymgyrch hon o'r dechrau, ac roedd hynny'n sail i'r sylwadau a wnaeth am bwysigrwydd asesiad risg cadarn ac annibynnol, gan gefnogi argymhellion adroddiad ein pwyllgor. Bu Byron Davies yn hel rhai atgofion o'i blentyndod am drychinebau oddi ar arfordir y de-orllewin yn y gorffennol, ac roedd yn onest wrth sôn am yr anawsterau a all wynebu Aelodau sy'n perthyn i blaid sydd â safbwynt penodol yn San Steffan, pan fydd yn rhaid inni wynebu canlyniadau'r safbwynt hwnnw, byw gyda nhw a cheisio'u hadolygu yn y Cynulliad. Yn ogystal, ymunodd Byron â Julie James wrth gyfeirio at bwysigrwydd y mater hwn yng nghyswllt Atlantic Array a datblygiadau eraill ym maes ynni adnewyddadwy, sy'n bwysig iawn.

Simon Thomas, in his contribution, was able to draw on his experience of the petitions process in another place, and his comments resonate very much with the experience that some people across Wales will have had of the way that the petitions process is developing in the Assembly, and I hope will continue to develop. He paid tribute, as others have done, to the energy and the resilience of the campaigners—I referred earlier to the lead petitioner, but there is a whole network that has contributed to the success of the petition and of the campaign that has been mounted. He stressed the importance of tourism, as I did in my earlier remarks, to the prosperity of this country. Antoinette Sandbach, in her contribution, looked to the Holyhead facility, which has been saved, and paid tribute to the former Member for Mid and West Wales for his robust intervention, which she felt was crucial in that particular decision.

Yn ei gyfraniad yntau, medrodd Simon Thomas ddefnyddio ei brofiad o'r broses ddeisebau mewn man arall, ac mae ei sylwadau'n atseinio'r profiad y bydd rhai pobl ledled Cymru wedi ei gael o'r modd y mae'r broses ddeisebau yn datblygu yn y Cynulliad, a'r modd y bydd yn parhau i ddatblygu, gobeithio. Rhoddodd deyrnged, fel y gwnaeth eraill, i egni a gwydnwch yr ymgyrchwyr—cyfeiriais yn gynharach at y prif ddeisebydd, ond mae rhwydwaith cyfan o bobl wedi cyfrannu at lwyddiant y ddeiseb a'r ymgyrch a gafwyd. Pwysleisiodd bwysigrwydd twristiaeth, fel y gwneuthum innau yn fy sylwadau cynharach, i ffyniant y wlad hon. Yn ei chyfraniad, cyfeiriodd Antoinette Sandbach at y cyfleuster yng Nghaergybi, sydd wedi ei achub, a rhoddodd deyrnged i'r cyn-Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru am ei ymyrraeth gadarn, a oedd, yn ei barn hi, yn hollbwysig yn y penderfyniad hwnnw.

I thank the Minister for his comprehensive response to the debate, updating Members on

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei ymateb cynhwysfawr i'r ddadl, ac am roi'r

the initial response—I hope that it is just an initial response—from Mike Penning, the Minister at Westminster. We need to keep up the pressure through all the channels to which we have access to try to keep this dialogue open. In his remarks, Carl Sargeant also referred to the importance of local knowledge and the fact that it is essential to secure the safety of tourists, but also to the fact that we need to have regard to fishermen and the vital role that they play in this country and to the possible threat to future inward investment and the delivery of already agreed investment with the additional traffic that will arise.

wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am yr ymateb cychwynnol—rwyf yn gobeithio mai ymateb cychwynnol yn unig ydyw—gan Mike Penning, y Gweinidog yn San Steffan. Mae angen inni barhau i bwyso trwy bob dull sydd ar gael inni er mwyn ceisio sicrhau bod y drafodaeth hon yn parhau. Yn ei sylwadau, cyfeiriodd Carl Sargeant hefyd at bwysigrwydd gwybodaeth leol a'r ffaith ei bod yn hanfodol sicrhau bod twristiaid yn ddiogel, ond cyfeiriodd hefyd at y ffaith bod angen ystyried pysgotwyr a'r rôl hanfodol y maent hwy yn ei chwarae yn y wlad hon, a bod angen ystyried y bygythiad posibl i fewnfuddsoddi yn y dyfodol a gwireddu buddsoddiad a gytunwyd eisoes, a'r traffig ychwanegol a fydd yn deillio o hynny.

To conclude, I thank all Members who have contributed and the petitioners for all the energy that they have brought to bear. As Chair of the Petitions Committee, I give you my assurance—I am sure that my colleagues on the committee will join me in this—that we will keep this under close review and follow up on progress in relation to the recommendations. Let us hope, work, and strive in every way that we can, to bring this to a successful outcome.

I gloi, hoffwn ddiolch i'r holl Aelodau sydd wedi cyfrannu ac i'r deisebwyr am eu holl egni. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau, hoffwn eich sicrhau—ac rwyf yn siŵr y bydd fy nghydweithwyr ar y pwyllgor yn ymuno â mi yn hyn o beth—y byddwn yn parhau i gadw golwg fanwl ar y mater ac ar y cynnydd a wneir mewn perthynas â'r argymhellion. Gadewch inni obeithio, gweithio, ac ymdrechu ym mhob ffordd posibl i sicrhau canlyniad llwyddiannus.

**The Presiding Officer:** The proposal is to note the Petition Committee's report. Is there any objection? I see that there is not. In accordance with Standing Order No. 12.36, I therefore declare the motion agreed.

**Y Llywydd:** Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36, rwyf yn datgan bod y cynnig wedi ei dderbyn.

*Motion agreed.*

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.19 p.m.*
*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.19 p.m.*

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig
## Welsh Conservatives Debate

### Gwerth am Arian
### Value for Money

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt a gwelliant 2 yn enw Peter Black.

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Jane Hutt and amendment 2 in the name of Peter Black.

*Cynnig NDM4963 William Graham*

*Motion NDM4963 William Graham*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. Yn nodi bod yr hinsawdd economaidd anodd yn tynnu sylw at bwysigrwydd bod cyrff cyhoeddus yn gweithredu mewn ffordd sy'n sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian.*

*2. Yn cymeradwyo unrhyw ymdrechion gan awdurdodau lleol i wneud arbedion er mwyn darparu gwerth am arian y trethdalwyr;*

*3. Yn nodi ymhellach fod gormod o wastraff o hyd ar lefel Llywodraeth Leol; a*

*4. Yn gresynu wrth fethiant Llywodraeth Cymru i arwain drwy esiampl wrth yrru'r agenda gwerth am arian yn ei blaen.*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Notes that the difficult economic climate highlights the importance of public bodies acting in a manner which ensures best possible value for money;*

*2. Commends any efforts by local authorities to make savings in order to provide value for taxpayer's money;*

*3. Further notes that there is still too much waste at the Local Government level; and*

*4. Regrets the failure of the Welsh Government to lead by example in driving forward the value for money agenda.*

**Janet Finch-Saunders:** I move the motion.

I move the motion in the hope that we can raise the profile of a commonsense approach to the value for public money agenda and make tackling local government waste and inefficiency one of our top priorities and a thing of the past. At a time when households throughout the country are having to tighten their budgets and curtail their spending, it is morally objectionable for Government, councils and other public bodies to carry on spending as though nothing had changed. This motion stresses that the best possible value for money should be sought at all times, and I am hoping that we can get cross-party support for that today.

Some local authorities have already responded to the challenging fiscal circumstances, but much more needs to be done. In this regard, Conservative-led Monmouthshire, Newport and the Vale of Glamorgan have already set the bar high with innovative policy initiatives, such as reducing mileage allowance costs, tackling the number of working days lost to sickness absence, and enhancing productivity. All these have helped to promote greater value for money.

Additionally, in a spirit of openness and transparency that reflects the belief that nobody scrutinises public spending better than taxpayers, all three local authorities now

**Janet Finch-Saunders:** Cynigiaf y cynnig.

Cynigiaf y cynnig yn y gobaith y gallwn godi proffil agwedd synhwyrol at yr agenda gwerth am arian cyhoeddus, a sicrhau bod mynd i'r afael â gwastraff ac aneffeithlonrwydd llywodraeth leol yn un o'n prif flaenoriaethau a'i fod yn rhywbeth sy'n perthyn i'r gorffennol. Ar adeg pan fo aelwydydd ledled y wlad yn gorfod cwtogi eu cyllidebau a chyfyngu ar yr arian y maent yn ei wario, mae'n annerbyniol o safbwynt moesol i Lywodraeth, cynghorau a chyrff cyhoeddus eraill barhau i wario fel pe bai dim byd wedi newid. Mae'r cynnig hwn yn pwysleisio y dylid ceisio'r gwerth gorau posibl am arian bob amser, ac rwyf yn gobeithio y gallwn gael cefnogaeth drawsbleidiol i hynny heddiw.

Mae rhai awdurdodau lleol eisoes wedi ymateb i'r amgylchiadau ariannol heriol, ond mae angen gwneud llawer mwy. I'r perwyl hwnnw, mae Sir Fynwy, Casnewydd a Bro Morgannwg a arweinir gan y Ceidwadwyr eisoes wedi gosod safon uchel drwy gyflwyno mentrau polisi arloesol, megis lleihau costau lwfansau milltiroedd, mynd i'r afael â nifer y diwrnodau gwaith a gollir drwy absenoldeb oherwydd salwch, a gwella cynhyrchiant. Mae'r rhain i gyd wedi helpu i hyrwyddo gwell gwerth am arian.

Yn ogystal, mewn ysbryd o fod yn agored ac yn dryloyw, sy'n adlewyrchu'r gred nad oes neb yn craffu'n well ar wariant cyhoeddus na threthdalwyr, mae pob un o'r tri awdurdod

publish online council expenditure over £500, and, in Monmouthshire's case, all spending over £1. This is a concrete policy proposal that the Welsh Conservatives want to see become the norm across the whole of Wales. Even a cursory glance at some local council spending priorities can be a cause of anger and disappointment, and some can be rather eye-watering. In Blaenau Gwent, in one year alone, 2010-11, £5.1 million was spent on external consultancy. In Cardiff, £4 million is spent on communications, including the local authority newspaper, *The Capital Times*, which is often nothing more than propaganda paid for by the rate payers. In Neath Port Talbot, between April 2011 and February 2012, £418,000 was spent on local council credit cards, to which as many as 51 employees had access.

lleol bellach yn cyhoeddi gwybodaeth ar-lein am bob gwariant dros £500 gan y cyngor, ac, yn achos Sir Fynwy, yn cyhoeddi gwybodaeth am bob gwariant dros £1. Mae hwn yn gynnig polisi pendant y mae'r Ceidwadwyr Cymreig am ei weld yn dod yn norm ar draws Cymru gyfan. Gall hyd yn oed cipolwg brysiog ar rai o flaenoriaethau gwario cynghorau lleol beri dicter a siom, a gall rhai ddod â dŵr i'ch llygaid. Ym Mlaenau Gwent, yn ystod un flwyddyn yn unig, sef 2010-11, cafodd £5.1 miliwn ei wario ar ymgynghorwyr allanol. Yng Nghaerdydd, caiff £4 miliwn ei wario ar gyfathrebu, gan gynnwys papur newydd yr awdurdod lleol, *The Capital Times,* nad yw'n aml yn ddim byd mwy na phropaganda y mae trethdalwyr yn talu amdano. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, rhwng mis Ebrill 2011 a mis Chwefror 2012, cafodd £418,000 ei wario ar gardiau credyd y cyngor lleol, yr oedd modd i gynifer â 51 o weithwyr eu defnyddio.

That brings me to what is perhaps the greatest scandal of all, which is the current situation with regard to the remuneration of chief executives and some senior officers in local authorities in Wales.

Daw hynny â mi at y sgandal fwyaf i gyd efallai, sef y sefyllfa bresennol o ran taliadau prif weithredwyr a rhai uwch-swyddogion mewn awdurdodau lleol yng Nghymru.

**David Rees:** You quoted a figure for Neath Port Talbot council's credit card expenditure. Have you actually identified the purposes of that expenditure, or is it simply a figure drawn from the air of a budget?

**David Rees:** Bu ichi ddyfynnu ffigur ar gyfer gwariant cyngor Castell-nedd Port Talbot ar gardiau credyd. A ydych wedi darganfod union ddibenion y gwariant hwnnw, ynteu a yw'n ffigur a dynnwyd o'r awyr yng nghyswllt cyllideb?

**Janet Finch-Saunders:** Let me ask you this question: do you believe that £418,000 is a lot of taxpayers' money?

**Janet Finch-Saunders:** Gadewch imi ofyn y cwestiwn hwn ichi: a ydych yn credu bod £418,000 yn llawer o arian trethdalwyr?

**David Rees** *rose—*

**David Rees** *a gododd—*

**The Deputy Presiding Officer:** Are you giving way?

**Y Dirprwy Lywydd:** A ydych am ildio?

**Janet Finch-Saunders:** No.

**Janet Finch-Saunders:** Nac ydwyf.

The latest figures compiled by the TaxPayers' Alliance paint a grim picture. I was very disappointed yesterday when the work and research of the TaxPayers' Alliance was pooh-poohed here in this Chamber. The figures paint a grim picture of local authorities failing to exercise pay restraint at the most senior levels. Ten local authority

Mae'r ffigurau diweddaraf a gasglwyd gan Gynghrair y Trethdalwyr yn creu darlun difrifol. Roeddwn yn siomedig iawn ddoe pan gafodd gwaith ac ymchwil Cynghrair y Trethdalwyr eu hwfftio yma yn y Siambr hon. Mae'r ffigurau yn creu darlun difrifol o awdurdodau lleol yn methu â chyfyngu ar gyflogau ar y lefelau uchaf. Mae deg o brif

chief executives earn more than the basic salary of the Prime Minister of the United Kingdom. Furthermore, of the 19 local authorities for which data are publicly available, 13 chief executives recorded an increase in salary between the financial years 2009-10 and 2010-11. Let us not single out chief executive's salaries alone for the Chamber's criticism; it should be noted that there are wide differences in the total number of senior council officers in receipt of salaries greater than £100,000 a year. In Merthyr Tydfil, only three officers, including the chief executive, earn more than £100,000. However, in Rhondda Cynon Taf, as many as 17 individuals earn in excess of £100,000 annually. In other words, at an average of £127,000 each, 17 authority employees each earn nearly six times the median household income for the Rhondda.

weithredwyr awdurdodau lleol yn ennill mwy na chyflog sylfaenol Prif Weinidog y Deyrnas Unedig. Ar ben hynny, o blith y 19 o awdurdodau lleol y mae data ar gael yn gyhoeddus ar eu cyfer, gwelwyd bod cyflogau 13 o brif weithredwyr wedi cynyddu rhwng blynyddoedd ariannol 2009-10 a 2010-11. Gadewch inni beidio â chyfeirio beirniadaeth y Siambr at gyflogau prif weithredwyr yn unig; dylid nodi bod gwahaniaethau mawr rhwng nifer yr uwch-swyddogion mewn cynghorau sy'n cael cyflogau sy'n uwch na £100,000 y flwyddyn. Ym Merthyr Tudful, dim ond tri swyddog, gan gynnwys y prif weithredwr, sy'n ennill mwy na £100,000. Fodd bynnag, yn Rhondda Cynon Taf, mae cynifer â 17 o unigolion yn ennill mwy na £100,000 y flwyddyn. Mewn geiriau eraill, ar sail cyfartaledd o £127,000 yr un, mae 17 o weithwyr yr awdurdod yn ennill bron i chwe gwaith yn fwy nag incwm canolrifol aelwydydd y Rhondda.

In Cardiff, which is the worst offender in Wales, 19 people earn more than £100,000 a year, three of which, contrary to conventional wisdom, earn more than the chief executive. The situation at present is unacceptable, and Welsh Conservatives want to see the heads of local councils lead by example and exercise some pay restraint. We further believe that information regarding senior appointments should not be exempt, and I know that my colleague Antoinette Sandbach raised this issue here only yesterday. The light of transparency and democratic scrutiny should be allowed to shine when it comes to all stages of local authority recruitment, and particularly at senior level. On the final point of the motion, it is manifestly clear that Welsh Labour is not serious about driving forward the value for money agenda. After all, why should local councils listen to a Government that cannot manage its own affairs effectively enough to deliver value for money?

Yng Nghaerdydd, sef y troseddwr gwaethaf yng Nghymru, mae 19 o bobl yn ennill mwy na £100,000 y flwyddyn, ac mae tri ohonynt, yn groes i ddoethineb confensiynol, yn ennill mwy na'r prif weithredwr. Mae'r sefyllfa sydd ohoni'n annerbyniol, ac mae'r Ceidwadwyr Cymreig am weld penaethiaid cynghorau lleol yn arwain drwy esiampl ac yn cyfyngu rhywfaint ar gyflogau. At hynny, credwn na ddylid eithrio gwybodaeth am swyddi uwch, a gwn fod fy nghydweithiwr, Antoinette Sandbach, wedi codi'r mater hwn yn y fan hon ddoe ddiwethaf. Dylid sicrhau tryloywder a gwaith craffu democrataidd yng nghyswllt pob cam o waith recriwtio awdurdodau lleol, yn enwedig ar lefel uwch. O ran pwynt olaf y cynnig, mae'n hollol amlwg nad yw Llafur Cymru o ddifrif ynghylch gyrru'r agenda gwerth am arian yn ei blaen. Wedi'r cyfan, pam y dylai cynghorau lleol wrando ar Lywodraeth nad yw'n gallu rheoli ei busnes ei hun yn ddigon effeithiol i sicrhau gwerth am arian?

The Wales Audit Office reports that the flagship Communities First scheme has failed to deliver value for money: £8.4 million of public money was spent by the All Wales Ethnic Minority Association, despite many concerns for many years. Welsh Ministers have committed to a £270,000 lease on a new London office, and 98 Welsh Government-

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi bod y cynllun blaenllaw, Cymunedau yn Gyntaf, wedi methu â sicrhau gwerth am arian: cafodd £8.4 miliwn o arian cyhoeddus ei wario gan Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, er gwaethaf nifer o bryderon dros flynyddoedd lawer. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i brydles gwerth

owned or leased properties are currently empty. Well done to my colleague to my left, Byron Davies, for raising concerns about the way that these properties are looked at and being disposed of. I myself in recent days have discovered the shocking fact that in 2011 the Welsh Government spent £1.4 million of taxpayers' money on Plas Glyndwr, a building that had been empty for seven months of that year. That is on top of the £1.3 million spent vacating and relocating from the office premises in the first place. In my own constituency, we have a very nice monument to the Welsh Government that is certainly not recognised in the locality as being the best use of public money.

£270,000 ar swyddfa newydd yn Llundain, ac mae 98 eiddo y mae Llywodraeth Cymru yn berchen arnynt neu'n eu rhentu ar brydles yn wag ar hyn o bryd. Llongyfarchiadau i'm cydweithiwr ar fy llaw chwith, Byron Davies, am fynegi pryderon ynghylch y modd y caiff yr eiddo dan sylw ei ystyried ac am y modd y ceir gwared ag ef. Yn ystod y diwrnodau diwethaf, rwyf innau wedi darganfod ffaith syfrdanol, sef bod Llywodraeth Cymru yn ystod 2011 wedi gwario £1.4 miliwn o arian trethdalwyr ar Blas Glyndwr, sef adeilad a fu'n wag am saith mis yn ystod y flwyddyn honno. Mae hynny ar ben yr £1.3 miliwn a wariwyd yn y lle cyntaf ar symud allan o'r swyddfeydd ac adleoli i rywle arall. Yn fy etholaeth fy hun, mae gennym gofeb hyfryd iawn i Lywodraeth Cymru, nad yw'r ardal yn sicr yn teimlo ei bod yn adlewyrchu'r defnydd gorau o arian cyhoeddus.

The Government amendment seeking to delete point 4 of the motion demonstrates that, for this Welsh Labour Government, value for money is not a priority. It is a lazy amendment typical of a Government that simply cannot stand criticism, and yet has no ideas of its own to offer. As such, I ask Members to reject it. It is clear that 13 years of devolution have failed to live up to the expectations of our Welsh people, and, in many ways, during this time our nation has gone backwards. In relation to wealth, health, education, and a whole raft of policy areas, Wales is underperforming. The challenge for us in this Chamber is this: if we failed to deliver in an age of steadily increasing public expenditure, how are we going to deliver in an age of austerity? The key has to be to work smarter by focusing on value for money and driving forward efficiency.

Mae gwelliant y Llywodraeth, sy'n ceisio dileu pwynt 4 y cynnig, yn dangos nad yw gwerth am arian yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru. Mae'n welliant diog sy'n nodweddiadol o Lywodraeth na all oddef beirniadaeth ond nad oes ganddi ei syniadau ei hun i'w cynnig chwaith. Felly, gofynnaf i'r Aelodau ei wrthod. Mae'n amlwg bod 13 blynedd o ddatganoli wedi methu â bodloni disgwyliadau pobl Cymru, ac mewn sawl ffordd yn ystod y cyfnod hwn, mae ein cenedl wedi mynd tuag yn ôl. Mae Cymru yn tanberfformio o ran cyfoeth, iechyd, addysg, a llu o feysydd polisi. Yr her i ni yn y Siambr hon yw hyn: os bu inni fethu â chyflawni mewn cyfnod lle'r oedd gwariant cyhoeddus yn cynyddu'n gyson, sut yr ydym yn mynd i gyflawni mewn cyfnod o galedi? Rhaid mai'r allwedd yw gweithio'n fwy craff drwy ganolbwyntio ar werth am arian a hybu effeithlonrwydd.

When the credit crunch first hit in 2008 the response of the private sector was to immediately put greater emphasis on efficiency—in other words, to put the brakes on spending. We need a similar approach to public services in Wales. Now is not the time for narrow, partisan pet projects and policies, but for broader ideas about how we can get Wales back on track and get it to reach its potential in an age of diminishing public resources. On these benches, we have a

Pan darodd y wasgfa gredyd am y tro cyntaf yn 2008, ymateb y sector preifat oedd rhoi mwy o bwyslais yn syth ar effeithlonrwydd—mewn geiriau eraill, arafu gwariant. Mae angen agwedd debyg at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Nid nawr yw'r adeg i gyflwyno hoff brosiectau a pholisïau cul a phleidiol; nawr yw'r adeg i gyflwyno syniadau ehangach ynghylch sut y gallwn roi Cymru ar y trywydd iawn unwaith eto, a sicrhau ei bod yn gwireddu ei photensial

prospectus for change that would signal a radical break with the past. Savings can and must be made, because £1 saved on backroom costs is £1 that can be spent and invested on the front line. Simple savings could be implemented now. The Welsh Local Government Association estimates that £76 million could be saved at a stroke by reducing the Welsh Government's reliance on hypothecated grant funding, which is something that local authorities themselves are asking for. A further £102 million could be saved if schools were funded directly, as up to 4% of school funding is currently eaten up by local education authorities. How many times have we discussed our failing educational standards here? How many times have we discussed how much more England spends on education than we do here?

mewn cyfnod lle y mae adnoddau cyhoeddus yn prinhau. Ar y meinciau hyn, mae gennym brosbectws ar gyfer newid a fyddai'n cyflwyno dulliau gweithredu sy'n hollol wahanol i rai'r gorffennol. Gellir ac mae'n rhaid gwneud arbedion, oherwydd mae £1 a arbedir ar gostau ystafell gefn yn £1 y gellir ei gwario a'i buddsoddi yng nghyswllt y rheng flaen. Gellid cyflwyno arbedion syml yn awr. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn amcangyfrif y gellid arbed £76 miliwn yn syth trwy leihau dibyniaeth Llywodraeth Cymru ar gyllid grant wedi'i neilltuo, sy'n rhywbeth y mae awdurdodau lleol eu hunain yn gofyn amdano. Gellid arbed £102 miliwn arall pe bai ysgolion yn cael eu hariannu'n uniongyrchol, oherwydd ar hyn o bryd caiff hyd at 4% o gyllid ysgolion ei lyncu gan awdurdodau addysg lleol. Sawl gwaith yr ydym wedi trafod ein safonau addysgol gwan yma? Sawl gwaith yr ydym wedi trafod cymaint yn fwy y mae Lloegr yn ei wario ar addysg nag a wnawn ni yma?

**Jocelyn Davies:** If the Welsh public wanted schools funded directly, do you not think that they would have elected you to run this Government rather than this lot?

**Jocelyn Davies:** Pe bai'r cyhoedd yng Nghymru am i ysgolion gael eu hariannu'n uniongyrchol, onid ydych yn credu y byddent wedi eich ethol chi i redeg y Llywodraeth hon yn hytrach na'r criw hwn?

**Janet Finch-Saunders:** My response to that is that, if memory serves me right, we came back from the last election with more Assembly Members than ever before. If you look at our track record, you can see that we are making gains.

**Janet Finch-Saunders:** Hoffwn ymateb i hynny drwy ddweud, os cofiaf yn iawn, ein bod ni wedi dychwelyd o'r etholiad diwethaf gyda mwy o Aelodau Cynulliad nag erioed o'r blaen. O edrych ar ein hanes, fe welwch ein bod yn ennill tir.

Finally, on the day that it emerged that 23% more Welsh local authority staff are earning over £100,000 compared with last year, the question of senior salaries should be addressed. The ballooning cost of senior salaries could be reduced by the implementation of the principle that no local authority officer should earn more than the Prime Minister of the United Kingdom, irrespective of who the Prime Minister is.

Yn olaf, ar y diwrnod pan ddaeth i'r amlwg bod 23% yn rhagor o staff awdurdodau lleol yng Nghymru yn ennill dros £100,000, o'i gymharu â'r llynedd, dylid mynd i'r afael â chyflogau uwch-swyddogion. Gellid lleihau cost gynyddol cyflogau uwch-swyddogion drwy weithredu'r egwyddor na ddylai'r un swyddog awdurdod lleol ennill mwy na Phrif Weinidog y Deyrnas Unedig, ni waeth pwy yw'r Prif Weinidog.

3.30 p.m.

In sum total, much more can, and must, be done to reduce costs, increase transparent public scrutiny, and drive forward the value-for-money agenda in local government in Wales. I ask all Members to support our

I grynhoi, gellid ac mae'n rhaid gwneud llawer mwy i leihau costau, cynyddu gwaith craffu cyhoeddus tryloyw, a gyrru'r agenda gwerth am arian mewn llywodraeth leol yn ei blaen yng Nghymru. Gofynnaf i bob Aelod

motion today.

gefnogi ein cynnig heddiw.

*Gwelliant 1 Jane Hutt*

*Amendment 1 Jane Hutt*

*Dileu pwynt 4.*

*Delete point 4.*

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I move amendment 1 in the name of Jane Hutt.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Cynigiaf welliant 1 yn enw Jane Hutt.

*Gwelliant 2 Peter Black*

*Amendment 2 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as a new point at end of motion:*

*Yn croesawu'r gwerth am arian sy'n cael ei gyflawni gan awdurdodau a arweinir gan y Democratiaid Rhyddfrydol sydd wedi'u galluogi i sicrhau codiadau isel yn y dreth gyngor dros y pedair blynedd diwethaf.*

*Welcomes the value for money delivered by Liberal Democrat-led local authorities which has enabled them to deliver low council tax rises over the last four years.*

**Peter Black:** I move amendment 2 in my name.

**Peter Black:** Cynigiaf welliant 2 yn fy enw i.

I very much regret the tone of some of Janet Finch-Saunders's speech. It appears to me that a large part of it relied on half-truths and innuendo. If the TaxPayers' Alliance wants me to take it seriously, the first thing it needs to do is ensure that all its senior staff pay UK tax, because at least one senior member is a tax exile and does not pay tax in this country. It seems to me that any organisation that lectures us on how we spend taxpayers' money should, at the very least, ensure that its staff pay tax in the same way as you and I do, along with everyone else in the Chamber, but that is not the case.

Rwyf yn gresynu'n fawr iawn at dôn rhywfaint o araith Janet Finch-Saunders. Ymddengys i mi fod rhan helaeth ohoni'n dibynnu ar hanner gwirioneddau ac ensyniadau. Os yw Cynghrair y Trethdalwyr am imi ei gymryd o ddifrif, y peth cyntaf y mae angen iddo ei wneud yw sicrhau bod pob un o'i staff uwch yn talu treth yn y DU, oherwydd mae o leiaf un o'i uwch-aelodau o staff yn alltud o ran treth ac nid yw'n talu treth yn y wlad hon. Ymddengys i mi y dylai unrhyw sefydliad sy'n pregethu wrthym ynghylch sut y dylem wario arian trethdalwyr sicrhau, o leiaf, bod ei staff ei hun yn talu treth yn yr un modd â chi a fi, a phawb arall yn y Siambr, ond nid yw hynny'n wir.

I am very much concerned about the tone of this debate, because it seems to me that the important principle behind any debate on local government must be local accountability. It is not our job, as Assembly Members, to tell local councils how to run their affairs, or to hold local councillors to account for individual spending decisions, whether on how much they spend on credit cards or on the salary they pay their chief executive or senior officers. The whole point of the local elections that are to be held a week on Thursday is for those councillors to be accountable to their local electorate. Of course, they would be more accountable if we had a decent voting system, but it is

Rwyf yn pryderu'n fawr am dôn y ddadl hon, oherwydd hyd y gwelaf fi, rhaid mai atebolrwydd lleol yw'r egwyddor bwysig y tu ôl i unrhyw ddadl am lywodraeth leol. Nid ein gwaith ni, fel Aelodau'r Cynulliad, yw dweud wrth gynghorau lleol sut i redeg eu busnes, neu ddwyn cynghorwyr lleol i gyfrif am benderfyniadau gwario unigol, boed hynny yng nghyswllt faint y maent yn ei wario ar gardiau credyd neu'r cyflogau y maent yn eu talu i'w prif weithredwr neu'u huwch-swyddogion. Holl ddiben yr etholiadau lleol sydd i'w cynnal wythnos i ddydd Iau yw sicrhau bod y cynghorwyr hynny'n atebol i'w hetholwyr lleol. Wrth gwrs, byddent yn fwy atebol pe bai gennym

important that we understand that the elections on 3 May are about local councillors being accountable for the decisions that they make. They have to answer to the electorate for the salaries that they pay their chief officers, and for various other decisions, some of which were referred to in Janet Finch-Saunders's speech on how they spend our money or their taxpayers' money.

system bleidleisio foddhaol, ond mae'n bwysig ein bod yn deall bod a wnelo'r etholiadau ar 3 Mai â sicrhau bod cynghorwyr lleol yn atebol am y penderfyniadau a wnânt. Rhaid iddynt fod yn atebol i'r etholwyr am y cyflogau y maent yn eu talu i'w prif swyddogion, ac am amryw benderfyniadau eraill, y cyfeiriwyd at rai ohonynt yn araith Janet Finch-Saunders, ynghylch sut y maent yn gwario ein harian ni neu arian eu trethdalwyr.

A good example of how important accountability is lies in the decision to defer the elections in Anglesey. Every other council in Wales has endeavoured to keep their council tax as low as possible and yet Anglesey has raised its council tax by 5%, the highest rise in Wales, and it is not holding elections this year. I think that those two factors are related, to be frank, because if you are not answerable to the electorate for your decisions in the same way as everyone else is, you get away with things that, in my view, are wrong.

Enghraifft dda o bwysigrwydd atebolrwydd yw'r penderfyniad i ohirio'r etholiadau yn Ynys Môn. Mae pob cyngor arall yng Nghymru wedi ymdrechu i gadw eu treth gyngor mor isel ag sy'n bosibl, ond mae cyngor Ynys Môn wedi codi ei dreth gyngor 5%, sef y cynnydd uchaf yng Nghymru, ac nid yw'n cynnal etholiadau eleni. Credaf fod cysylltiad rhwng y ddau ffactor hynny, a bod yn onest, oherwydd os nad ydych yn atebol i'r etholwyr am eich penderfyniadau, yn yr un modd â phawb arall, gallwch osgoi cael eich cosbi am wneud pethau sydd, yn fy marn i, yn anghywir.

I agree with the general thrust of the motion, namely that, in a difficult economic climate, it is important that our public bodies not only act in a manner that ensures best value for money, but also do everything that they can to ensure that what they charge ordinary residents for their services is kept to a minimum. Clearly, we are in difficult times and everyone is having to deal with the consequences of constraints as a result of the economic situation in which the UK Government finds itself. However, I hope that those councils that have made an effort to save money from back-office systems and have protected public services will be rewarded for that by the ballot box on 3 May.

Rwyf yn cytuno â byrdwn cyffredinol y cynnig, sef ei bod yn bwysig, mewn hinsawdd economaidd anodd, bod ein cyrff cyhoeddus nid yn unig yn gweithredu mewn modd sy'n sicrhau gwerth gorau am arian, ond eu bod hefyd yn gwneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod y swm y maent yn ei godi ar drigolion cyffredin am eu gwasanaethau'n cael ei gadw ar y lefel isaf posibl. Mae'n amlwg ein bod mewn cyfnod anodd, ac mae pawb yn gorfod ymdopi â chanlyniadau cyfyngiadau yn sgîl y sefyllfa economaidd y mae Llywodraeth y DU ynddi. Fodd bynnag, rwyf yn gobeithio y bydd y cynghorau hynny sydd wedi ymdrechu i arbed arian mewn systemau cefn swyddfa ac sydd wedi diogelu gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu gwobrwyo am hynny yn y blychau pleidleisio ar 3 Mai.

I will briefly mention Swansea council, of course, which has saved £35 million over four years through back-office savings, while investing an extra £2 million in education this year—more than the Welsh Government has asked it to invest—and investing an extra £2 million in social services.

Hoffwn sôn yn fyr am gyngor Abertawe, wrth gwrs, sydd wedi arbed £35 miliwn dros bedair blynedd trwy arbedion cefn swyddfa, ac sydd ar yr un pryd wedi buddsoddi £2 filiwn ychwanegol mewn addysg eleni—sy'n fwy na'r hyn y gofynnodd Llywodraeth Cymru iddo fuddsoddi—ac sydd wedi buddsoddi £2 filiwn ychwanegol mewn

gwasanaethau cymdeithasol.

**Carl Sargeant:** Can you tell me why Swansea council has invested more money in social services?

**Carl Sargeant:** A allwch ddweud wrthyf pam y mae cyngor Abertawe wedi buddsoddi mwy o arian mewn gwasanaethau cymdeithasol?

**Peter Black:** It has done so because it, like every other social services department in Wales, is under pressure as a result of a number of issues relating to the case of baby P and so on. It is no longer under special measures. As you know very well, Minister, it has not been under special measures for some time. The administration in Swansea has managed the authority in such a way as to ensure that, and it has put additional money into social services to make that happen. There are other authorities whose children's services departments are as bad as Swansea's was—and I will name Neath Port Talbot as one of those whose children's services are in difficulty at the moment. Yet, they are not under special measures, despite the fact that, in my view, they are most probably in a worse condition than Swansea's ever were. I wonder why that is the case, and I am sure that people will draw their own conclusions on that.

**Peter Black:** Mae wedi gwneud hynny gan ei fod, fel pob adran gwasanaethau cymdeithasol arall yng Nghymru, dan bwysau o ganlyniad i nifer o faterion sy'n ymwneud ag achos babi P ac yn y blaen. Nid yw bellach yn destun mesurau arbennig. Fel y gwyddoch yn iawn, Weinidog, nid yw wedi bod yn destun mesurau arbennig ers cryn amser. Mae'r weinyddiaeth yn Abertawe wedi rheoli'r awdurdod mewn modd sy'n sicrhau hynny, ac mae wedi rhoi arian ychwanegol i wasanaethau cymdeithasol i sicrhau bod hynny'n digwydd. Ceir awdurdodau eraill y mae eu hadrannau gwasanaethau plant cynddrwg ag yr oedd adran Abertawe—a hoffwn enwi Castell-nedd Port Talbot fel un o'r awdurdodau y mae eu gwasanaethau plant mewn trafferthion ar hyn o bryd. Eto i gyd, nid ydynt hwy'n destun mesurau arbennig, er gwaethaf y ffaith eu bod, yn ôl pob tebyg, yn fy marn i, mewn cyflwr gwaeth nag y bu gwasanaethau Abertawe erioed. Tybed pam? Rwyf yn siŵr y daw pobl i'w casgliadau eu hunain ynghylch hynny.

Swansea has put extra money into social services, into schools, and into key services, including meeting the cost of the cuts that the Minister himself has introduced via the bus fuel levy. Swansea council has already determined that, when that comes into force later this year, it will cover the cost that the bus companies would otherwise have to bear to try to protect local services. That is the sort of investment that I believe people want to see as a result of this.

Mae Abertawe wedi rhoi arian ychwanegol i wasanaethau cymdeithasol, ysgolion a gwasanaethau allweddol, ac mae hefyd wedi talu cost y toriadau a gyflwynodd y Gweinidog ei hun trwy gyfrwng yr ardoll tanwydd bysiau. Pan ddaw'r ardoll i rym yn ddiweddarach eleni, mae cyngor Abertawe eisoes wedi penderfynu y bydd yn talu'r gost y byddai'n rhaid i'r cwmnïau bysiau ei thalu fel arall, er mwyn ceisio diogelu gwasanaethau lleol. Dyna'r math o fuddsoddiad y mae pobl am ei weld o ganlyniad i hyn, yn fy marn i.

Deputy Presiding Officer, I have run out of time, so I will conclude my remarks by saying that, when we have these debates in future, I hope that we can be more mature in looking at local authorities and how they spend their money, and ensure that we understand that they are accountable to their local electorate and not to us.

Ddirprwy Lywydd, mae amser wedi mynd yn drech na mi. Felly, hoffwn orffen drwy ddweud fy mod yn gobeithio, pan fyddwn yn cael y dadleuon hyn yn y dyfodol, y gallwn fod yn fwy aeddfed wrth edrych ar awdurdodau lleol a'r modd y maent yn gwario eu harian, a sicrhau ein bod yn deall eu bod yn atebol i'w hetholwyr lleol ac nid i

ni.

**Mark Isherwood:** The UK coalition Government inherited the largest structural deficit in the developed world and the difficult economic climate highlights the importance of public bodies acting in a manner that ensures best possible value for money. We must commend those councils and other public bodies that lead the way in delivering value for taxpayers' money, while condemning those where dogma and self-interest are allowed to take precedence.

**Mark Isherwood:** Etifeddodd Llywodraeth glymblaid y DU ddiffyg strwythurol mwyaf y byd datblygedig, ac mae'r hinsawdd economaidd anodd yn tynnu sylw at bwysigrwydd cael cyrff cyhoeddus i weithredu mewn ffordd sy'n sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian. Rhaid inni ganmol y cynghorau a'r cyrff cyhoeddus eraill sy'n arwain y ffordd o ran sicrhau gwerth am arian trethdalwyr, a chondemnio'r rheini lle y caniateir i ddogma a hunan-les gael blaenoriaeth.

It is now two years since the Wales Council for Voluntary Action and partner organisations highlighted the need to involve the voluntary sector in the development of primary care services across Wales with co-design and co-delivery, allowing the independent sector to deliver public services that put people and communities, rather than the service deliverers, at the centre, reducing demand on other services. They feared that the move to community care would be more expensive when it need not be if we changed the way we did things. Effective public bodies are not there to deliver every public service, but to ensure that better public services are delivered. Giving power to the people working on the front line, the people who know best, can benefit the most vulnerable, provide best value and turn the power thing upside down.

Mae dwy flynedd wedi mynd heibio ers i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a sefydliadau partner dynnu sylw at yr angen i gynnwys y sector gwirfoddol wrth ddatblygu gwasanaethau gofal sylfaenol ar draws Cymru drwy gydgynllunio a chyd-ddarparu, gan ganiatáu i'r sector annibynnol ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar bobl a chymunedau yn hytrach na darparwyr gwasanaethau, gan leihau'r galw ar wasanaethau eraill. Roedd y Cyngor yn ofni y byddai symud i ofal yn y gymuned yn ddrutach, pan nad oes angen iddo fod dim ond inni newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau. Nid darparu pob gwasanaeth cyhoeddus yw diben cyrff cyhoeddus effeithiol, ond sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus gwell yn cael eu darparu. Gall rhoi grym i'r bobl sy'n gweithio yn y rheng flaen, y bobl sy'n gwybod orau, fod o fudd i'r sawl sydd fwyaf agored i niwed, sicrhau gwerth gorau a throi'r holl gwestiwn ynghylch grym wyneb i waered.

However, at a seminar in the Assembly in February on reforming social care, we heard voluntary sector representatives state that

Fodd bynnag, mewn seminar yn y Cynulliad ym mis Chwefror ar ddiwygio gofal cymdeithasol, clywsom gynrychiolwyr y sector gwirfoddol yn datgan fel a ganlyn:

'Local community groups, at the hub of huge swathes of informal care, have been marginalised by a targets culture that…expects its world to speak its political language and satisfy its obscure bureaucracy.'

Mae grwpiau cymunedol lleol, sydd wrth wraidd peth wmbredd o ofal anffurfiol, wedi cael eu gwthio i'r cyrion gan ddiwylliant targedau sy'n...disgwyl i'w fyd siarad ei iaith wleidyddol a bodloni ei fiwrocratiaeth aneglur.

As a process of real community engagement, participatory budgeting is a highly efficient community empowerment process. The Wales participatory budgeting unit is already

Fel proses o ymgysylltu'n wirioneddol â'r gymuned, mae cyllidebu cyfranogol yn broses effeithlon iawn o ran grymuso cymunedau. Mae uned cyllidebu cyfranogol

having success in parts of Wales as a social enterprise that directly involves local people in making decisions on spending priorities. When it ran workshops on how participatory budgeting could work in providing respite care for carers, 15 Welsh local authorities and Disability Wales were impressed by the practicality and feasibility of the processes and by how much money was saved by providing user-determined outcomes.

Cymru eisoes yn llwyddo mewn rhannau o Gymru fel menter gymdeithasol sy'n cynnwys pobl leol yn uniongyrchol wrth wneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau gwario. Pan fu'r uned yn cynnal gweithdai ar sut y gallai cyllidebu cyfranogol weithio o ran darparu gofal seibiant i ofalwyr, cafodd 15 o awdurdodau lleol Cymru ac Anabledd Cymru eu synnu gan ymarferoldeb a dichonoldeb y prosesau a chan yr arian a gâi ei arbed drwy ddarparu canlyniadau a bennir gan y defnyddiwr.

Local area co-ordination and asset-based community development are about supporting vulnerable people, strengthening local communities, supporting people to have greater choice and control and reforming services to make them more personal, flexible, accountable and efficient. Only last week, Monmouthshire County Council hosted a seminar on local area co-ordination, investing in the prevention of problems rather than crisis support. Welsh Conservative-controlled Monmouthshire also publishes all expenditure over £1. We believe that local government should be transparent and accountable to the people whom it represents. Remarkably, Labour's Minister for local government, Carl Sargeant, described the process to committee as 'onerous'. The last time the Minister's local party ran his local council, in Flintshire, an investigation by external auditors into its housing maintenance department found—and I quote from PricewaterhouseCoopers—that

Mae cydgysylltu ardaloedd lleol a datblygu cymunedau ar sail asedau'n ymwneud â chynorthwyo pobl sy'n agored i niwed, cryfhau cymunedau lleol, cynorthwyo pobl i gael mwy o ddewis a rheolaeth a diwygio gwasanaethau i'w gwneud yn fwy personol, hyblyg, atebol ac effeithlon. Mor ddiweddar â'r wythnos diwethaf, cynhaliodd Cyngor Sir Fynwy seminar ar gydgysylltu ardaloedd lleol a buddsoddi mewn atal problemau rhag digwydd yn hytrach na chynnig cymorth mewn argyfwng. Mae Sir Fynwy, a reolir gan y Ceidwadwyr Cymreig, hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth am bob gwariant dros £1. Rydym yn credu y dylai llywodraeth leol fod yn dryloyw ac yn atebol i'r bobl y mae'n eu cynrychioli. Yn rhyfeddol, dywedodd y Gweinidog Llafur Llywodraeth Leol, Carl Sargeant, mewn pwyllgor fod y broses yn feichus. Y tro diwethaf y bu plaid leol y Gweinidog yn rhedeg ei gyngor lleol, yn Sir y Fflint, canfu ymchwiliad gan archwilwyr allanol i adran cynnal a chadw tai'r cyngor—ac rwyf yn dyfynnu PricewaterhouseCoopers—fod

'dozens of crucial documents were missing…Jobs were awarded without tender, without evidence they were value for money.'

dwsinau o ddogfennau hollbwysig ar goll...bod gwaith wedi'i ddyfarnu heb dendro, a heb dystiolaeth ei fod yn sicrhau gwerth am arian.

A legally binding employment tribunal document states that it unanimously found that Flintshire County Council's internal audit manager was unfairly dismissed because of the investigations into malpractice that he was blocked from carrying out. That legally binding tribunal decision found that

Mae dogfen tribiwnlys cyflogaeth, sy'n ddogfen gyfreithiol rwymol, yn datgan bod y tribiwnlys yn unfrydol bod rheolwr archwilio mewnol Cyngor Sir y Fflint wedi'i ddiswyddo'n annheg oherwydd yr ymchwiliadau i gamymddwyn y cafodd ei rwystro rhag eu cyflawni. Canfu'r penderfyniad cyfreithiol rwymol hwnnw gan y tribiwnlys fod

'there had been positive falsification of

dogfennau wedi'u ffugio'n bendant yng

documentation on the so-called ultra vires case'.

nghyswllt yr achos a alwyd yn achos 'ultra vires'.

'Ultra vires' means an abuse of power, yet the then Labour Minister in this place granted a special dispensation to write off the ultra vires amount. I believe that it was hundreds of thousands of pounds, if not more. No politician has still ever been held to account.

Mae 'ultra vires' yn golygu camddefnyddio grym. Er hynny, caniataodd y Gweinidog Llafur ar y pryd yn y lle hwn oddefeb arbennig i ddileu'r swm 'ultra vires'. Credaf fod y swm yn gannoedd o filoedd o bunnoedd, os nad yn fwy. Nid oes yr un gwleidydd wedi'i ddwyn i gyfrif o hyd am hynny.

No area reaches communities and targets poverty like housing does, but, oddly, when Flintshire council tenants voted on stock transfer, in a ballot funded by the Welsh Labour Government to achieve the Welsh Labour Government's Welsh housing quality standard, the 'No' campaign was co-ordinated by the local Labour Party. It was more interested in controlling people than in putting people in control. Former council officers now working in stock transfer associations elsewhere subsequently asked me, 'Is it serious about sustainable communities?' I think that its actions answer the question.

Nid oes yr un maes yn effeithio ar gymunedau ac yn targedu tlodi fel y mae tai yn ei wneud, ond, yn rhyfedd ddigon, pan bleidleisiodd tenantiaid cyngor Sir y Fflint ynghylch trosglwyddo stoc, mewn pleidlais a ariannwyd gan Lywodraeth Lafur Cymru i gyrraedd safon ansawdd tai Cymru Llywodraeth Lafur Cymru, cafodd yr ymgyrch 'Na' ei chydlynu gan y Blaid Lafur leol. Roedd ganddi fwy o ddiddordeb mewn cadw rheolaeth ar bobl yn hytrach na rhoi rheolaeth iddynt. Yn dilyn hynny, bu cyn-swyddogion y cyngor, sydd bellach yn gweithio mewn cymdeithasau a sefydlwyd mewn mannau eraill yn sgîl trosglwyddo stoc, yn gofyn imi, 'A yw'r cyngor o ddifrif ynghylch cymunedau cynaliadwy?' Credaf fod ei gamau gweithredu'n ateb y cwestiwn.

Last month, the Welsh Labour Government's Minister for Housing, Regeneration and Heritage told the committee that Flintshire was now one of just three local authorities that do not currently have a way forward to achieve the Welsh housing quality standard. A Flintshire company reviewing value for money within the public sector has saved millions for health and social services commissioners in north-west England, but advises that Welsh commissioners are paying more. Therefore, let us learn from these organisations and stop side-lining.

Fis diwethaf, dywedodd Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth Llywodraeth Lafur Cymru wrth y pwyllgor fod Sir y Fflint, erbyn hyn, ymhlith tri yn unig o awdurdodau lleol nad ydynt ar hyn o bryd wedi dod o hyd i ffordd o gyrraedd safon ansawdd tai Cymru. Mae cwmni o Sir y Fflint sy'n adolygu gwerth am arian yn y sector cyhoeddus wedi arbed miliynau i gomisiynwyr gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng ngogledd-orllewin Lloegr, ond dywed fod comisiynwyr Cymru yn talu mwy. Felly, gadewch inni ddysgu oddi wrth y sefydliadau hyn a rhoi'r gorau i weithredu ar y cyrion.

**Jocelyn Davies:** I welcome the opportunity to contribute to this debate on best value in the spending of public bodies, especially local authorities. Like Peter Black, I find it difficult to disagree with the general thrust of the motion, but I cannot agree with some of the points made in the motion, for example, those on waste in councils and on the failure of the Welsh Government to lead by

**Jocelyn Davies:** Rwyf yn croesawu'r cyfle i gyfrannu i'r ddadl hon ar werth gorau o safbwynt gwariant cyrff cyhoeddus, yn enwedig awdurdodau lleol. Fel Peter Black, rwyf yn ei chael yn anodd anghytuno â byrdwn cyffredinol y cynnig, ond ni allaf gytuno â rhai o'r pwyntiau a wnaed yn y cynnig, er enghraifft, y rhai ynghylch gwastraff mewn cynghorau ac ynghylch

example. The Welsh Conservatives are obviously using this debate to have a go at people who are not here to defend themselves.

methiant Llywodraeth Cymru i arwain drwy esiampl. Mae’r Ceidwadwyr Cymreig yn amlwg yn defnyddio’r ddadl hon i ymosod ar bobl nad ydynt yma i’w hamddiffyn eu hunain.

A great deal of guidance and best practice notes have in fact been issued by the Welsh Government, and when I was Deputy Minister I was pleased to launch i2i, the Inform to Involve toolkit, along with the then Deputy Minister for Regeneration. That demonstrates the use of local and social clauses in public contracts and is now widely used across the public sector. There have been significant efforts to reduce waste and achieve efficiency savings by councils, and I am fairly confident that my colleague, Lindsay Whittle, may well outline some of the work done by the Plaid-led Caerphilly County Borough Council later this afternoon, so I will not detail it here. However, we should also acknowledge examples elsewhere in the public sector.

Mae llawer iawn o nodiadau cyfarwyddyd ac arfer gorau wedi’u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru mewn gwirionedd, a phan oeddwn yn Ddirprwy Weinidog roeddwn yn falch o allu lansio i2i, y pecyn cymorth Hysbysu i Ymrwymo, ar y cyd â’r Dirprwy Weinidog dros Adfywio ar y pryd. Mae’r pecyn yn arddangos y defnydd o gymalau lleol a chymdeithasol mewn contractau cyhoeddus, ac mae’n arfer a ddefnyddir yn eang ar draws y sector cyhoeddus erbyn hyn. Cafwyd ymdrechion sylweddol i leihau gwastraff a chyflawni arbedion effeithlonrwydd gan gynghorau, ac rwyf yn eithaf hyderus y bydd fy nghydweithiwr, Lindsay Whittle, yn amlinellu rhywfaint o’r gwaith a wnaed gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, a arweinir gan Blaid Cymru, yn nes ymlaen y prynhawn yma. Nid wyf am fanylu arno yma, felly. Fodd bynnag, dylem gydnabod enghreifftiau mewn mannau eraill yn y sector cyhoeddus hefyd.

I was impressed by the Public Services Ombudsman for Wales when he gave evidence to the Finance Committee last autumn. He outlined the efforts of his office to streamline services, clear the backlog of cases, invest in dealing with telephone inquiries and start cases earlier, while also achieving a reduction in management and changing the staff structure. All that resulted in a more efficient and effective service, despite a reduced budget and an increased caseload following the huge rise in complaints about health services. That is all good news.

Cefais argraff dda o Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru pan roddodd dystiolaeth i’r Pwyllgor Cyllid yr hydref diwethaf. Amlinellodd ymdrechion ei swyddfa i symleiddio gwasanaethau, clirio’r achosion a oedd wedi ôl-gronni, buddsoddi mewn ymdrin ag ymholiadau dros y ffôn a dechrau achosion yn gynharach, a lleihau rheolaeth a newid y strwythur staffio ar yr un pryd. Arweiniodd hynny i gyd at wasanaeth mwy effeithiol ac effeithlon, er gwaethaf cyllideb lai a nifer fwy o achosion yn sgîl y cynnydd enfawr yn nifer y cwynion am wasanaethau iechyd. Mae hynny i gyd yn newyddion da.

However, there was one aspect that concerned the committee and the ombudsman, which was the level of councillor-on-councillor and candidate-on-candidate complaints. Most are trivial and vexatious and are, of course, politically motivated, which, quite frankly, is a waste of the ombudsman’s time and valuable resources. We heard that changing the system would require legislation—and I hope that we

Fodd bynnag, roedd un agwedd yn peri pryder i’r pwyllgor a’r ombwdsmon, sef lefel y cwynion gan gynghorwyr ynghylch cynghorwyr a chan ymgeiswyr ynghylch ymgeiswyr. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn ddibwys ac yn flinderus, ac wedi’u cymell wrth gwrs gan resymau gwleidyddol sydd, a bod yn hollol onest, yn gwastraffu amser ac adnoddau gwerthfawr yr ombwdsmon. Clywsom y byddai newid y system yn gofyn

would all support that if the situation does not improve. However, in the meantime, we should all bear in mind the cost of these trivial, politically motivated complaints, and send the message loud and clear, perhaps to our own political parties, that the right to complain does not mean that it is right to complain.

am ddeddfwriaeth—ac rwyf yn gobeithio y byddem oll yn cefnogi hynny os na fydd y sefyllfa'n gwella. Fodd bynnag, yn y cyfamser, dylai pob un ohonom gofio cost y cwynion dibwys hyn a gaiff eu cymell gan resymau gwleidyddol, ac anfon y neges yn glir ac yn groyw, i'n pleidiau gwleidyddol ein hunain efallai, nad yw'r hawl i gwyno yn golygu ei bod yn iawn i gwyno.

I am also concerned about the Conservatives' plans for referenda on council tax increases. I wonder whether the cost of that is justified—or even known. As Peter Black mentioned earlier, we should be careful about impinging on the mandate that local government has obtained from its own local electorate. The parties leading local authorities are answerable to their residents, and that includes justifying their council tax levels, budgets and the levels of services. You cannot on the one hand argue that local authorities should have greater autonomy while, on the other, compel annual referenda. Real value for money can be achieved by responsible administrations. However, the news that we are again in recession will heighten the challenges to our already cash-strapped councils.

Rwyf hefyd yn pryderu am gynlluniau'r Ceidwadwyr ar gyfer refferenda ynghylch cynnydd mewn treth gyngor. Tybed a oes modd cyfiawnhau cost gwneud hynny—neu tybed a yw'r gost hyd yn oed yn hysbys? Fel y soniodd Peter Black yn gynharach, dylem fod yn ofalus ynghylch tresmasu ar y mandad y mae llywodraeth leol wedi'i gael gan ei hetholwyr lleol. Mae'r pleidiau sy'n arwain awdurdodau lleol yn atebol i'w trigolion, ac mae hynny'n cynnwys cyfiawnhau lefelau eu treth gyngor, eu cyllidebau a lefelau gwasanaethau. Ni allwch ddadlau y dylai awdurdodau lleol gael mwy o ymreolaeth ar y naill law, a gorfodi refferenda blynyddol ar y llaw arall. Gall gweinyddiaethau cyfrifol sicrhau gwerth gwirioneddol am arian. Fodd bynnag, bydd y newyddion ein bod unwaith eto mewn dirwasgiad yn cynyddu'r heriau i'n cynghorau sydd eisoes yn brin o arian.

I am afraid that we will not be supporting the Lib Dems' amendment 2 either. Of course we believe in good financial management, which is important, and in keeping council tax low—or frozen, as in the case of Caerphilly—but that is a political choice for individual councils. Of course, Peter Black, you had to go and spoil it all by asking us to support this amendment that praises your party one week before the elections; no doubt that was an oversight on your part. I am sure that you will understand why we will be abstaining on that amendment.

Mae arnaf ofn na fyddwn chwaith yn cefnogi gwelliant 2 y Democratiaid Rhyddfrydol. Rydym wrth gwrs yn credu mewn rheolaeth ariannol dda, sy'n bwysig, ac mewn cadw'r dreth gyngor yn isel—neu'i rhewi, fel yn achos Caerffili—ond dewis gwleidyddol i gynghorau unigol yw hynny. Wrth gwrs, Peter Black, bu'n rhaid ichi ddifetha popeth trwy ofyn inni gefnogi'r gwelliant hwn sy'n canmol eich plaid wythnos yn unig cyn yr etholiadau; nid oes amheuaeth nad amryfusedd ar eich rhan oedd hynny. Rwyf yn siŵr y byddwch yn deall pam y byddwn yn atal ein pleidlais yng nghyswllt y gwelliant hwnnw.

3.45 p.m.

To close, people want well-run, efficient and effective public bodies, and a well-motivated workforce is vital for the delivery of services. The elimination of waste must not become an attack on those services or on the workforce.

I gloi, mae pobl am gael cyrff cyhoeddus effeithlon ac effeithiol a gaiff eu rhedeg yn dda, ac mae gweithlu brwdfrydig yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau. Rhaid sicrhau nad yw dileu gwastraff yn troi'n ymosodiad ar y gwasanaethau hynny neu'r gweithlu.

**Antoinette Sandbach:** We would agree with

**Antoinette Sandbach:** Byddem yn cytuno

what Jocelyn has said. I find it hard to understand how Neath Port Talbot County Borough Council could spend £448,425 on fees associated with chauffeur-driven cars. There is a question of accountability and whether or not people feel that they have real choice. One thing that is of definite concern is the level of unpaid council tax across Welsh local authorities. Research for 2010-11 showed that more than £36.5 million in council tax was not collected across Wales. That money could make a real difference to front-line services in Wales. It is not often that I quote from the unions, but the GMB has described the level of uncollected taxes as a 'scandal'.

â'r hyn y mae Jocelyn wedi'i ddweud. Rwyf yn ei chael yn anodd deall sut y gallai Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wario £448,425 ar ffïoedd sy'n gysylltiedig â cheir â gyrwyr. Mae'n fater o atebolrwydd, a ph'un a yw pobl yn teimlo bod ganddynt ddewis go iawn. Un peth sy'n peri pryder pendant yw lefel y dreth gyngor na chaiff ei thalu ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru. Dangosodd ymchwil ar gyfer 2010-11 nad oedd dros £36.5 miliwn o dreth gyngor wedi'i chasglu ar draws Cymru. Gallai'r arian hwnnw wneud gwahaniaeth go iawn i wasanaethau rheng flaen yng Nghymru. Nid wyf yn dyfynnu'r undebau yn aml, ond dywedodd y GMB fod lefel y trethi nad ydynt wedi'u casglu yn sgandal.

There are many council tax payers who would also describe their council tax bills as a scandal. Council tax bills have increased in Wales by 140%. That does not take into account the effect of the reassessment of properties in Wales. Many properties changed council tax bands, so it is artificial to say that the rises in Wales have been smaller than those in England, or that the level of council tax on a band D property is less, because so many properties moved bands in the re-evaluation. That has hit families very hard in their pockets. Peter Black made an important point about Anglesey and the level of council tax set there, when there is no accountability. There is no doubt that local authorities have to pick up some of the bill left by the Labour UK Government's debt legacy. There is no doubt that there have been cuts here and elsewhere as a result of the fact that the UK has to pay £120 million a day in interest on the debt owed.

Byddai llawer o'r rhai sy'n talu treth gyngor yn dweud bod eu biliau treth gyngor yn sgandal hefyd. Mae biliau treth gyngor wedi cynyddu 140% yng Nghymru. Nid yw hynny'n ystyried effaith yr ymarfer ailasesu eiddo yng Nghymru. Newidiodd band treth gyngor llawer o eiddo, felly nid yw'n wir dweud bod y codiadau yng Nghymru wedi bod yn llai na'r codiadau yn Lloegr, neu bod lefel y dreth gyngor ar eiddo band D yn llai, oherwydd pennwyd band newydd ar gyfer cymaint o eiddo yn ystod yr ymarfer ailbrisio. Mae hynny wedi taro teuluoedd yn galed iawn yn ariannol. Gwnaeth Peter Black bwynt pwysig am Ynys Môn a lefel y dreth gyngor a bennwyd yno, ar adeg pan nad oes atebolrwydd. Nid oes amheuaeth nad oes yn rhaid i awdurdodau lleol dalu rhywfaint o'r bil a adawyd gan waddol Llywodraeth Lafur y DU o ran dyled. Nid oes amheuaeth na fu toriadau yma ac mewn mannau eraill o ganlyniad i'r ffaith bod yn rhaid i'r DU dalu £120 miliwn y dydd o log ar yr arian sy'n ddyledus.

In relation to the example that could be set by the Labour Welsh Government, it is clear that there have been some appalling examples of fraud in the Communities First programme in north Wales. The Wales Audit Office's verdict was that that programme had failed to deliver good value. People want good services; they want them delivered locally and delivered well. However, there are clearly problems in the system. It should not be a political point; if we cannot raise these problems in the Assembly, where can we

O ran yr esiampl y gallai Llywodraeth Lafur Cymru ei gosod, mae'n amlwg bod rhai enghreifftiau gwarthus o dwyll yn y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn y gogledd. Barn Swyddfa Archwilio Cymru oedd bod y rhaglen honno wedi methu â sicrhau gwerth da am arian. Mae pobl am gael gwasanaethau da; maent am iddynt gael eu darparu'n lleol a chael eu darparu'n dda. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod problemau yn y system. Ni ddylai fod yn bwynt gwleidyddol; os na allwn dynnu sylw at y problemau hyn yn y

raise them? Council tax payers in Wales want to know if there are systemic or endemic problems. They want the light to be shone on those problems. Looking at what happened with the All Wales Ethnic Minority Association, council tax payers want to see that public funds are spent well delivering services in their area. The only other example I can cite, which was a great shame, was that more than £600,000 was spent on a free laptop scheme that was then scrapped before it had been properly evaluated. I support what Janet Finch-Saunders has said about publishing expenditure. If you shine the light of scrutiny on expenditure, you will find that people will tend to question and criticise their local councillors. Too often spending decisions are hidden behind processes that are not transparent, and it is for that reason that it is vital that services are delivered without waste, and, more importantly, with transparency so that local people can see how their money is spent. That helps them to hold councillors to account.

Cynulliad, ymhle y gallwn dynnu sylw atynt? Mae'r sawl sy'n talu treth gyngor yng Nghymru am wybod a oes problemau systemig neu endemig. Maent am weld goleuni'n cael ei daflu ar y problemau hynny. O edrych ar yr hyn a ddigwyddodd yn achos Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, mae'r sawl sy'n talu treth gyngor am weld bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n dda wrth ddarparu gwasanaethau yn eu hardal. Yr unig enghraifft arall y gallaf ei dyfynnu, a oedd yn drueni mawr, oedd y ffaith bod dros £600,000 wedi'i wario ar gynllun gliniaduron rhad ac am ddim, y rhoddwyd y gorau iddo wedyn cyn iddo gael ei werthuso'n iawn. Rwyf yn cefnogi'r hyn y mae Janet Finch-Saunders wedi'i ddweud am gyhoeddi gwybodaeth am wariant. O graffu ar wariant, fe welwch y bydd pobl yn tueddu i holi a beirniadu eu cynghorwyr lleol. Yn rhy aml, caiff penderfyniadau gwario eu cuddio y tu ôl i brosesau nad ydynt yn dryloyw, a dyna pam y mae'n hanfodol bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n ddiwastraff, ac yn bwysicach na hynny, mewn modd tryloyw fel y gall pobl leol weld sut y caiff eu harian ei wario. Mae hynny'n eu helpu i ddwyn cynghorwyr i gyfrif.

**Mike Hedges:** If anyone sitting in the gallery did not know that there are council elections next week, I am sure that they are aware of them now. [*Laughter*.]

**Mike Hedges:** Os nad oedd rhywun sy'n eistedd yn yr oriel yn gwybod bod etholiadau cynghorau'n cael eu cynnal yr wythnos nesaf, rwyf yn siŵr eu bod yn ymwybodol o hynny erbyn hyn. [*Chwerthin*.]

I know of a few things that can unite everyone in this Chamber: the bye-law Bill yesterday did, and I am sure that support for value for money in local government is another. I do not expect anyone to stand up today and say that they want more waste and inefficiency in local government and that they want to see local authorities wasting money.

Gwn am rai pethau a all uno pawb yn y Siambr hon: llwyddodd y Bil Is-ddeddfau ddoe i wneud hynny, ac rwyf yn siŵr bod cefnogaeth i werth am arian mewn llywodraeth leol yn rhywbeth arall. Nid wyf yn disgwyl i neb sefyll heddiw a dweud eu bod am weld mwy o wastraff ac aneffeithlonrwydd mewn llywodraeth leol a'u bod am weld awdurdodau lleol yn gwastraffu arian.

There is a serious lack of understanding of local government. I am not here to educate people, but I would say to those who talk about uncollected council tax that they need to go into greater depth to find out why some of that tax is uncollected, what has caused it to be uncollected and to understand how some of it is not collectable in some cases, for example where people have died.

Ceir diffyg dealltwriaeth difrifol ynghylch llywodraeth leol. Nid wyf yma i addysgu pobl, ond hoffwn ddweud wrth y sawl sy'n sôn am dreth gyngor nad yw wedi'i chasglu bod angen iddynt ymchwilio ymhellach i ddarganfod pam nad yw rhywfaint o'r dreth honno wedi'i chasglu, beth sydd wedi peri iddi beidio â chael ei chasglu, a deall pam nad oes modd casglu rhywfaint ohoni mewn

rhai achosion, er enghraifft, pan fydd pobl wedi marw.

What do we mean by greater efficiency and value for money? We all have our own views on this. In Swansea, when the Conservatives were in coalition with the Lib Dems, as they are in London at the moment, they introduced new computer systems and talked of all the benefits they would bring. They spent over £750,000 on a pay-roll system, which had to be scrapped. Tens of millions of pounds were spent on an integrated IT system, only to discover that all of the huge financial savings promised failed to materialise.

Beth yr ydym yn ei olygu wrth fwy o effeithlonrwydd a gwerth am arian? Mae gan bob un ohonom ein barn ein hunain am hynny. Yn Abertawe, pan oedd y Ceidwadwyr mewn clymblaid gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol, fel y maent yn Llundain ar hyn o bryd, bu iddynt gyflwyno systemau cyfrifiadurol newydd a sôn am yr holl fanteision y byddent yn eu sicrhau. Bu iddynt wario dros £750,000 ar system gyflogres, y bu'n rhaid rhoi'r gorau i'w defnyddio. Cafodd degau o filiynau o bunnoedd eu gwario ar system TG integredig, dim ond i ddarganfod na fyddai modd i'r holl arbedion ariannol enfawr a addawyd gael eu gwireddu.

In Swansea, the Lib Dem's definition of efficiency is to give less money to schools, leaving Swansea schools twenty-first out of 22 local authorities in Wales, spending only 97.7% of its education indicator-based assessment. The council cut social services until children's services were in such a state that they ended up in special measures. None of those things are efficiencies.

Yn Abertawe, diffiniad y Democratiaid Rhyddfrydol o effeithlonrwydd yw rhoi llai o arian i ysgolion, gan adael ysgolion Abertawe yn y safle olaf ond un o blith y 22 o awdurdodau lleol sydd yng Nghymru, gan wario dim ond 97.7% o'i asesiad wedi'i seilio ar ddangosyddion ym maes addysg. Torrodd y cyngor wasanaethau cymdeithasol gymaint nes i gyflwr gwasanaethau plant olygu bod yn rhaid iddynt fod yn destun mesurau arbennig. Nid arbedion effeithlonrwydd mo'r un o'r pethau hynny.

**Jocelyn Davies:** You are outlining a long list of problems at Swansea council. The leader of Swansea council is not here to defend it. Do you not think that perhaps the scrutiny at Swansea council is a bit ineffective as well?

**Jocelyn Davies:** Rydych yn amlinellu rhestr hir o broblemau yng nghyngor Abertawe. Nid yw arweinydd cyngor Abertawe yma i'w amddiffyn. Onid ydych yn credu efallai fod gwaith craffu yng nghyngor Abertawe braidd yn aneffeithiol hefyd?

**Mike Hedges:** Scrutiny at all councils is ineffective. I have serious concerns about the whole scrutiny system.

**Mike Hedges:** Mae gwaith craffu ym mhob cyngor yn aneffeithiol. Rwyf yn pryderu'n ddifrifol am y system graffu yn ei chyfanrwydd.

I will finish with one more Swansea council issue. It had a policy of building a contingency fund, year on year, and then, in election year, the council tax increase was 0%. Is that efficiency, or would you describe it as electioneering?

Hoffwn orffen drwy sôn am un arall o broblemau cyngor Abertawe. Roedd ganddo bolisi o adeiladu cronfa wrth gefn o'r naill flwyddyn i'r llall, ac yna, yn ystod blwyddyn etholiad, ni fyddai cynnydd o gwbl yn y dreth gyngor. Ai effeithlonrwydd yw hynny, ynteu a fyddech yn ei alw'n ymgyrchu etholiadol?

We should be looking for quality services from local authorities for their areas. There is

Dylem fod yn chwilio am wasanaethau o safon gan awdurdodau lleol ar gyfer eu

no shortage of organisations available, at a price, both in the public and private sector, which will act as consultants on efficiency in local government. Unfortunately, there does not appear to be a shortage of councils in Wales, of every political hue, that are gullible enough to engage them.

hardaloedd. Mae digon o sefydliadau ar gael, am bris, yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, sy'n fodlon gweithredu fel ymgynghorwyr ynghylch effeithlonrwydd mewn llywodraeth leol. Yn anffodus, ymddengys fod digon o gynghorau yng Nghymru, o bob lliw gwleidyddol, sy'n ddigon hurt i'w cyflogi.

This debate is little more than another Tory attack on local government, suggesting glibly that there is too much waste at local government level and ignoring the significant progress made by local authorities across Wales in finding efficiencies and in developing regional working and collaborating in the delivery of an increasing number of services.

Nid yw'r ddadl hon yn ddim byd mwy nag ymosodiad arall gan y Torïaid ar lywodraeth leol, ac maent yn barod iawn i awgrymu bod gormod o wastraff ar lefel llywodraeth leol gan anwybyddu'r cynnydd sylweddol a wnaed gan awdurdodau lleol ledled Cymru o ran dod o hyd i arbedion effeithlonrwydd a datblygu dulliau gweithio rhanbarthol a dulliau o gydweithredu i ddarparu nifer gynyddol o wasanaethau.

The greatest inefficiencies brought into local government was reorganisation. We went from eight directors of education—

Yr aneffeithlonrwydd mwyaf a gyflwynwyd i lywodraeth leol oedd ad-drefnu. Aethom o fod ag wyth o gyfarwyddwyr addysg—

**Janet Finch-Saunders:** On the comment you made earlier about the 0% council tax increase during election year, were you not aware that the UK Government handed over the money last year, also?

**Janet Finch-Saunders:** O ran y sylw a wnaethoch yn gynharach ynghylch dim cynnydd o gwbl yn y dreth gyngor yn ystod blwyddyn etholiad, a oeddech yn ymwybodol bod Llywodraeth y DU wedi trosglwyddo'r arian y llynedd, hefyd?

**Mike Hedges:** Are you aware that a number of local authorities in England, despite the money they were given, have put council tax up by anything up to 3%?

**Mike Hedges:** A ydych yn ymwybodol bod nifer o awdurdodau lleol yn Lloegr, er gwaethaf yr arian a roddwyd iddynt, wedi codi'r dreth gyngor hyd at 3%?

The greatest inefficiency brought into local government in Wales was the Tory reorganisation of the 1990s, when we went from eight directors of education and social services to 22. The Labour collaboration agenda, like in so many other areas, is putting right the problems caused previously by Conservative administrations.

Yr aneffeithlonrwydd mwyaf a gyflwynwyd i lywodraeth leol yng Nghymru oedd yr ad-drefnu gan y Torïaid yn yr 1990au, pan aethom o fod ag wyth o gyfarwyddwyr addysg a gwasanaethau cymdeithasol i 22. Mae agenda gydweithredu'r Blaid Lafur, fel mewn cynifer o feysydd eraill, yn cywiro'r problemau a achoswyd yn flaenorol gan weinyddiaethau Ceidwadol.

There are many examples of efficiencies in local government, including the Welsh purchasing consortium, which made substantial savings through bulk purchases and the Invest to Save initiative. As this will be the last time I speak in this Chamber as a local councillor, as I will not be standing for election again, I should say that I wish others would follow. In Scotland, Members of the

Ceir llawer o enghreifftiau o arbedion effeithlonrwydd mewn llywodraeth leol, gan gynnwys consortiwm prynu Cymru, a wnaeth arbedion sylweddol trwy swmpbrynu a thrwy'r fenter Buddsoddi i Arbed. Gan mai hwn fydd y tro olaf imi siarad yn y Siambr hon fel cynghorydd lleol, gan na fyddaf yn sefyll etholiad eto, dylwn ddweud y byddwn yn hoffi pe bai eraill yn dilyn. Yn yr Alban,

Scottish Parliament are expected to relinquish their role as councillors no later than the next election, but here in Wales it is becoming more common for Assembly Members to continue as councillors. In Scotland, there are calls for legislation to stop double jobbing. In London, the Senior Salaries Review Body recommended that London Assembly Members should not carry out other paid public sector work. I urge other Members of this Assembly to follow the lead set by Janet Finch-Saunders, Aled Roberts and myself, and end double jobbing in the National Assembly for Wales.

disgwylir i Aelodau o Senedd yr Alban roi'r gorau i'w rôl fel cynghorwyr erbyn yr etholiad nesaf fan bellaf, ond yma yng Nghymru mae'n dod yn fwy cyffredin i Aelodau'r Cynulliad barhau fel cynghorwyr. Yn yr Alban, gelwir am ddeddfwriaeth i atal pobl rhag cyflawni dwy swydd. Yn Llundain, argymhellodd y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion na ddylai Aelodau Cynulliad Llundain gyflawni gwaith arall y ceir tâl amdano yn y sector cyhoeddus. Rwyf yn annog Aelodau eraill y Cynulliad hwn i ddilyn yr arweiniad a roddwyd gan Janet Finch-Saunders, Aled Roberts a minnau, a rhoi'r gorau i gyflawni dwy swydd tra byddant yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Finally, wastefulness in local government is not only a waste of council tax payers' hard-earned money, but a missed opportunity to make an area better. No-one wants wastefulness; let us work towards having well-run local authorities.

Yn olaf, yn ogystal â gwastraffu arian y mae'r sawl sy'n talu'r dreth gyngor wedi gweithio'n galed i'w ennill, mae bod yn wastraffus mewn llywodraeth leol yn gyfle a gollir i wella ardal. Nid oes neb am weld gwastraff; gadewch inni weithio tuag at gael awdurdodau lleol a gaiff eu rhedeg yn dda.

**Mohammad Asghar:** I am grateful for the opportunity to speak this afternoon on waste in the public sector in Wales. We live in economically challenging times. This has resulted in Government at all levels having to make tough financial decisions. We are part of this nation and we are taking the tough decisions across the country. It is imperative, therefore, that local authorities ensure that as much money as possible is directed to front-line services by cutting out waste and unnecessary bureaucracy. The Welsh Conservatives recognise that we have a duty to deliver value for money for every £1 taken from the taxpayer. Conservative-controlled and led councils in Wales have done just that. They have risen to the challenge by saving money and by protecting front-line services. They have done this in a number of ways, the first of which is through transparency. The Vale of Glamorgan Council was the first local authority in Wales to publish details of all expenditure over £500. Newport City Council has followed suit. Monmouthshire County Council has gone a step further by publishing all expenditure over £1. That is transparency, and it should be taken up by all councils led by Labour and other parties in Wales. Conservative councils in Wales have

**Mohammad Asghar:** Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle i siarad y prynhawn yma am wastraff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn byw mewn cyfnod anodd o safbwynt economaidd. Oherwydd hynny, mae Llywodraeth ar bob lefel yn gorfod gwneud penderfyniadau ariannol anodd. Rydym yn rhan o'r genedl hon ac rydym yn gwneud penderfyniadau anodd ar draws y wlad. Mae'n hanfodol, felly, bod awdurdodau lleol yn sicrhau bod cymaint o arian ag sy'n bosibl yn cael ei gyfeirio at wasanaethau rheng flaen drwy gael gwared ar wastraff a biwrocratiaeth ddiangen. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cydnabod bod gennym ddyletswydd i sicrhau gwerth am arian ar gyfer pob £1 a gymerir oddi ar y trethdalwr. Dyna'n union y mae cynghorau a reolir ac a arweinir gan y Ceidwadwyr yng Nghymru wedi'i wneud. Maent wedi ymateb i'r her drwy arbed arian a diogelu gwasanaethau rheng flaen. Maent wedi gwneud hynny mewn nifer o ffyrdd, a'r ffordd gyntaf yw trwy dryloywder. Cyngor Bro Morgannwg oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i gyhoeddi manylion pob gwariant dros £500. Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi gwneud yr un peth. Mae Cyngor Sir Fynwy wedi mynd gam

set a shining example.

ymhellach drwy gyhoeddi manylion pob gwariant dros £1. Dyna beth yw tryloywder, ac mae'n gam a ddylai gael ei gymryd gan bob cyngor a arweinir gan y Blaid Lafur a phleidiau eraill yng Nghymru. Mae Cynghorau Ceidwadol yng Nghymru wedi gosod esiampl ddisglair.

You only need to look at the issue of MPs' expenses and the subsequent public anger generated to demonstrate the power of transparency in exposing waste. Monmouthshire, Newport and the Vale of Glamorgan councils have taken the lead in cutting out wasteful expenditure. So successful has Monmouthshire been that it is one of the few councils in Wales to freeze council tax next year. Of course, if we on this side of the Chamber had had our way, no council in Wales would have needed to increase council tax next year, because we would have used the £39 million provided by the coalition Government in Westminster for the purpose it was intended.

Nid oes ond angen ichi edrych ar y mater ynghylch treuliau Aelodau Seneddol, a dicter y cyhoedd yn dilyn hynny, i ddangos grym tryloywder o ran amlygu gwastraff. Mae cynghorau Sir Fynwy, Casnewydd a Bro Morgannwg wedi arwain y ffordd o ran dileu gwariant gwastraffus. Cymaint yw llwyddiant Sir Fynwy nes mae'r cyngor hwnnw yw un o'r ychydig gynghorau yng Nghymru i rewi'r dreth gyngor y flwyddyn nesaf. Wrth gwrs, pe baem wedi cael ein ffordd yr ochr hon i'r Siambr, ni fyddai'r un cyngor yng Nghymru wedi gorfod cynyddu'r dreth gyngor y flwyddyn nesaf, oherwydd byddem wedi defnyddio'r £39 miliwn a ddarparwyd gan y Llywodraeth glymblaid yn San Steffan at y diben y'i bwriadwyd.

Still the waste goes on. Figures for 2010-11 reveal that over £36.5 million of council tax remains uncollected. Not everyone has passed away; people must be around, or it may be that they have moved to different areas. This is collectable money. Since 2002, unpaid library fines in Powys have amounted to nearly £140,000. Since 2007, Neath Port Talbot County Borough Council spent nearly £450,000 on chauffeur-driven car fees. That is called a luxury by Labour-led councils.

Mae'r gwastraff yn parhau. Mae ffigurau ar gyfer 2010-11 yn dangos nad yw dros £36.5 miliwn o'r dreth gyngor wedi'i chasglu o hyd. Nid yw pawb wedi marw; rhaid bod y bobl hyn o gwmpas, neu efallai eu bod wedi symud i ardaloedd eraill. Mae hwn yn arian y gellid ei gasglu. Er 2002, mae dirwyon llyfrgell nad ydynt wedi'u talu ym Mhowys yn cyfateb i gyfanswm o bron i £140,000. Er 2007, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi gwario bron i £450,000 ar ffïoedd ceir â gyrwyr. Caiff hynny ei alw'n foethusrwydd gan gynghorau a arweinir gan y Blaid Lafur.

By failing to tackle such waste, some local authorities in Wales have been forced to cut front-line services and increase the council tax burden on hard-pressed individuals and families. The Welsh Government must lead by example on this issue. We all know of examples of Welsh Government waste. The Wales Audit Office said that the £300 million-worth Communities First programme had not delivered good value. We remember the recent scandal of AWEMA, which most of my colleagues have mentioned, with inadequate accounting procedures resulting in unauthorised salary increases and the paying

Drwy fethu â mynd i'r afael â gwastraff o'r fath, mae rhai awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cael eu gorfodi i dorri gwasanaethau rheng flaen a chynyddu baich y dreth gyngor ar unigolion a theuluoedd sydd dan bwysau. Rhaid i Lywodraeth Cymru arwain drwy esiampl ar y mater hwn. Rydym i gyd yn gwybod am enghreifftiau o wastraff Llywodraeth Cymru. Dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru nad oedd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf gwerth £300 miliwn wedi sicrhau gwerth da am arian. Cofiwn am sgandal ddiweddar Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, y mae

off of credit cards. These are some of the reasons for the downfall of that organisation. That is a waste of money.

mwyafrif fy nghydweithwyr wedi sôn amdani, lle'r arweiniodd gweithdrefnau cyfrifyddu annigonol at godiadau cyflog nas awdurdodwyd ac at dalu biliau cardiau credyd. Dyma rai o'r rhesymau pam y methodd y sefydliad hwnnw. Dyna yw gwastraff arian.

**4.00 p.m.**

The Welsh Conservatives do not forget that, at the end of the day, it is the taxpayers' money. We have a duty to ensure value for money and efficiency of services. I am proud that Conservative-led and Conservative-controlled councils in Wales have done exactly that. As someone who was a councillor not long ago, I know that there are many areas where Labour-controlled councils do not have the sense, the political will or the ability to run those councils.

Nid yw'r Ceidwadwyr Cymreig yn anghofio mai arian y trethdalwyr ydyw yn y pen draw. Mae dyletswydd arnom i sicrhau gwerth am arian ac effeithlonrwydd gwasanaethau. Rwyf yn falch bod cynghorau a arweinir gan y Ceidwadwyr ac a reolir gan y Ceidwadwyr yng Nghymru wedi gwneud yr union beth hynny. Fel un a oedd yn gynghorydd tan yn gymharol ddiweddar, rwyf yn gwybod bod llawer o ardaloedd lle nad oes gan gynghorau a reolir gan y Blaid Lafur y synnwyr cyffredin, yr ewyllys wleidyddol na'r gallu i redeg y cynghorau hynny.

**Kenneth Skates:** As many have said before, the challenge of remodelling the local public service map in the midst of the biggest public spending squeeze that we have seen in a generation is the most difficult public policy problem that we face in 2012, made all the more difficult by today's news that the UK economy has slumped back into recession.

**Kenneth Skates:** Fel y mae llawer wedi dweud o'r blaen, yr her o ailfodelu'r map gwasanaethau cyhoeddus lleol yng nghanol y wasgfa fwyaf ar wariant cyhoeddus a welwyd mewn cenhedlaeth yw'r broblem anoddaf o ran polisi cyhoeddus yr ydym yn ei hwynebu yn 2012, a chaiff y broblem ei gwaethygu gan y newyddion heddiw bod economi'r DU wedi mynd yn ôl i mewn i ddirwasgiad.

I warmly welcome the Welsh Labour Government's priority of working with our 22 local authorities, and the ambitious collaboration agenda put forward by my colleague Carl Sargeant. It is important to note the skills and dedication of our workforce in local government—the representatives, managers and officials who do so much to provide the good local services that our communities rely on. It is important to build the morale of those making changes on the ground if we are to get real buy-in for service change, and not undermine confidence, which will inevitably undercut reform.

Rwyf yn croesawu'n fawr blaenoriaeth Llywodraeth Lafur Cymru, sy'n golygu gweithio gyda'n 22 o awdurdodau lleol, a'r agenda gydweithredu uchelgeisiol a gyflwynwyd gan fy nghydweithiwr, Carl Sargeant. Mae'n bwysig nodi sgiliau ac ymroddiad ein gweithlu mewn llywodraeth leol—y cynrychiolwyr, y rheolwyr a'r swyddogion sy'n gwneud cymaint i ddarparu'r gwasanaethau lleol da y mae ein cymunedau'n dibynnu arnynt. Mae'n bwysig codi morâl y sawl sy'n gwneud newidiadau ar lawr gwlad os ydym am gael cefnogaeth go iawn i newid gwasanaethau, ac mae'n bwysig peidio â thanseilio hyder, a fydd, mae'n anochel, yn rhwystro gwaith diwygio.

However, I see a few key barriers that we need to overcome if better partnership working between local authorities is to genuinely lead to more efficient methods of working. The first of these problems concerns money. Many good and well-

Fodd bynnag, rwyf yn gweld rhai rhwystrau allweddol y mae angen inni eu goresgyn i sicrhau bod mwy o weithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol yn arwain yn wirioneddol at ddulliau mwy effeithlon o weithio. Mae'r broblem gyntaf

intentioned reform proposals to save money founder because many of the savings that might accrue never find their way back to the town hall. I have come across this when looking into the issue of care leavers, for instance. It is often said to me that there is institutional reticence in local government to shoulder the burden of greater investment in more preventative work to tackle the problems associated with care leavers if a successful policy initiative simply leads to savings for the NHS, the criminal justice system or the Department for Work and Pensions later down the line, while generating less of a benefit for council coffers. This is a problem that we must overcome.

yn ymwneud ag arian. Mae llawer o gynigion da, sy'n llawn bwriadau da, ynghylch diwygio er mwyn arbed arian yn methu am nad yw llawer o'r arbedion a allai gronni byth yn llwyddo i ddychwelyd i neuadd y dref. Rwyf wedi dod ar draws hynny wrth ymchwilio i'r mater sy'n ymwneud â'r sawl sy'n gadael gofal, er enghraifft. Clywaf yn aml fod amharodrwydd sefydliadol mewn llywodraeth leol i ysgwyddo'r baich o fuddsoddi mwy mewn rhagor o waith atal er mwyn mynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig â'r sawl sy'n gadael gofal, os y cyfan a wna menter lwyddiannus o ran polisi yw sicrhau arbedion ar gyfer y GIG, y system cyfiawnder troseddol neu'r Adran Gwaith a Phensiynau yn nes ymlaen, gan gynhyrchu llai o fudd i goffrau'r cyngor. Mae hon yn broblem y mae'n rhaid inni ei goresgyn.

The second problem is geography. We cannot disentangle the efficiency agenda from the local place and the geography that underpins our communities. Where there is seen to be a common area shared by local partners, such as a county or sub-region, there is seen to be a stronger platform on which to build partnerships. However, this is much less the case when the geography becomes more difficult.

Yr ail broblem yw daearyddiaeth. Ni allwn wahanu'r agenda effeithlonrwydd oddi wrth yr ardal leol a'r ddaearyddiaeth sy'n sail i'n cymunedau. Mewn achosion lle y ceir ardal gyffredin a rennir gan bartneriaid lleol, megis cyngor neu is-ranbarth, gwelir llwyfan cryfach ar gyfer meithrin partneriaethau. Fodd bynnag, mae hynny dipyn yn llai gwir pan fydd y ddaearyddiaeth yn anos.

The third problem is the political barrier that exists. Effective partnership working demands solid political involvement and support from elected members and other local politicians across the divide. Where partnerships are sought between different local authorities, local politics can, unfortunately, become a central barrier.

Y drydedd broblem yw'r rhwystr gwleidyddol sy'n bodoli. Mae gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth yn gofyn am gyfranogiad a chefnogaeth wleidyddol gadarn gan aelodau etholedig a gwleidyddion lleol eraill o bob carfan. Mewn mannau lle y ceisir creu partneriaethau rhwng gwahanol awdurdodau lleol, gall gwleidyddiaeth leol, yn anffodus, ddod yn rhwystr canolog.

The fourth problem is data. We need to overcome the problem of insufficient data for measuring the added financial value that comes through partnership working or innovative policies.

Y bedwaredd broblem yw data. Mae angen inni oresgyn y broblem sy'n ymwneud â data annigonol ar gyfer mesur y gwerth ariannol ychwanegol a ddaw drwy weithio mewn partneriaeth neu gyflwyno polisïau arloesol.

The fifth problem is the need to build capacity in the voluntary and community sector to help local authorities to arrive at efficiencies.

Y bumed broblem yw'r angen i adeiladu capasiti yn y sector gwirfoddol a chymunedol er mwyn helpu awdurdodau lleol i sicrhau arbedion effeithlonrwydd.

Lastly, we need to think more strategically and more creatively about incentives to support collaboration, particularly in relation

Yn olaf, mae angen inni feddwl yn fwy strategol ac yn fwy creadigol am gymhellion i hybu cydweithredu, yn enwedig yng

to the development of shared services across local authorities.

nghyswllt datblygu gwasanaethau a rennir ar draws awdurdodau lleol.

I will quickly mention two important recent announcements made by the Welsh Government in the field of older people and social care, where I believe that these principles have truly been applied. The Minister for Housing, Regeneration and Heritage recently announced funding of over £2 million to carry out minor—but in my view, vital—adaptions to homes of older people under the rapid response adaptations programme. In addition, the Minister for Health and Social Services has also awarded over £4.5 million to Care and Repair Cymru handyman services across Wales. In an ageing population, these announcements recognise the cost of falls among older people; I believe that they cost the UK NHS around £4.6 million per day. They show that spending today in collaboration ensures savings in the future. It is a principle that could also be applied to the wider economy. This type of joint working between the NHS, local authorities and community organisations illustrates how we can drive efficiencies and build better services through collaboration.

Hoffwn sôn yn gyflym am ddau gyhoeddiad diweddar pwysig a wnaed gan Lywodraeth Cymru ym maes pobl hŷn a gofal cymdeithasol, lle y credaf fod yr egwyddorion hyn wedi'u rhoi ar waith yn wirioneddol. Yn ddiweddar cyhoeddodd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth dros £2 filiwn o gyllid i wneud addasiadau mân—ond hanfodol, yn fy marn i—i gartrefi pobl hŷn dan y rhaglen addasiadau brys. Yn ogystal, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd wedi dyfarnu dros £4.5 miliwn i wasanaethau tasgmon Gofal a Thrwsio Cymru ledled Cymru. Mewn poblogaeth sy'n heneiddio, mae'r cyhoeddiadau hyn yn cydnabod cost achosion o bobl hŷn yn cwympo; credaf eu bod yn costio tua £4.6 miliwn y dydd i'r GIG yn y DU. Maent yn dangos bod gwario ar y cyd heddiw yn sicrhau arbedion yn y dyfodol. Mae'n egwyddor y gellid ei rhoi ar waith hefyd yng nghyswllt yr economi ehangach. Mae'r math hwn o weithio ar y cyd rhwng y GIG, awdurdodau lleol a mudiadau cymunedol yn dangos sut y gallwn hybu arbedion effeithlonrwydd ac adeiladu gwasanaethau gwell drwy gydweithredu.

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I am often referred to as the consensual Minister and as being non-partisan. [*Laughter*.] I would like to continue that today. I was certainly expecting a debate on local government this week—although perhaps not two debates. Nevertheless, we have two debates, and I am encouraged by listening to colleagues' contributions, bearing in mind next week's election. I am happy to support part 1 of the motion, which recognises the difficult public expenditure climate created by the UK Government and highlights the importance of public bodies acting to ensure the best possible value for money.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Cyfeirir ataf yn aml fel y Gweinidog cydsyniol ac fel rhywun sy'n amhleidiol. [*Chwerthin*.] Hoffwn barhau felly heddiw. Roeddwn yn sicr yn disgwyl dadl ar lywodraeth leol yr wythnos hon—ond nid oeddwn yn disgwyl dwy, efallai. Serch hynny, mae gennym ddwy ddadl, ac rwyf wedi fy nghalonogi o wrando ar gyfraniadau fy nghydweithwyr, gan ystyried etholiadau'r wythnos nesaf. Rwyf yn fodlon cefnogi rhan 1 y cynnig, sy'n cydnabod yr hinsawdd anodd o ran gwariant cyhoeddus sydd wedi'i chreu gan Lywodraeth y DU, ac sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd bod cyrff cyhoeddus yn gweithredu mewn ffordd sy'n sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian.

I am happy to talk about the work this Government is doing in partnership with local government to ensure that we get the best value for Welsh taxpayers' money and high-quality services. There are clear duties

Rwyf yn fodlon siarad am y gwaith y mae'r Llywodraeth hon yn ei wneud mewn partneriaeth â llywodraeth leol i sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau am arian trethdalwyr Cymru a gwasanaethau o safon.

on local authorities to achieve best value for money in delivering and improving services. This will be more challenging than ever given the double jeopardy of the Tory and Lib Dem cuts to our budget, which will have a knock-on effect at the local level, and the ideologically driven attacks on the poorest in society due to the Government's ill-thought-out welfare benefit changes.

Mae dyletswydd glir ar awdurdodau lleol i sicrhau'r gwerth gorau am arian wrth ddarparu a gwella gwasanaethau. Bydd hynny'n fwy heriol nag erioed o ystyried y perygl dwbl, sef toriadau'r Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol i'n cyllideb, a fydd yn cael effaith ganlyniadol ar lefel leol, a'r ymosodiadau a ysgogir gan ideoleg ar y tlotaf mewn cymdeithas, yn sgîl newidiadau gwael y Llywodraeth i fudd-daliadau lles.

Although stating that we cannot make up the shortfall of Tory and Lib Dem cuts, our approach has been to support local authorities to best achieve value for money in providing a fair and realistic settlement in these difficult financial circumstances. Indeed, the settlement is 1.3% better over the spending review period than is the case in England. Let me be very clear: this is a political decision that we have taken—a decision that shows how we, Welsh Labour, value the services that local authorities provide and the fact that we believe they should be protected.

Er inni ddatgan na allwn wneud iawn am y diffyg yn sgîl toriadau'r Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol, rydym wedi gweithredu mewn modd sy'n cynorthwyo awdurdodau lleol i sicrhau gwerth gorau am arian, drwy ddarparu setliad teg a realistig yn yr amgylchiadau ariannol anodd hyn. Yn wir, mae'r setliad dros gyfnod yr adolygiad o wariant 1.3% yn well nag y mae yn Lloegr. Gadewch imi fod yn hollol glir: mae'r penderfyniad yr ydym wedi'i wneud yn benderfyniad gwleidyddol—penderfyniad sy'n dangos sut yr ydym ni, Llafur Cymru, yn gwerthfawrogi'r gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol, ac sy'n dangos ein bod yn credu y dylent gael eu diogelu.

However, local authorities will still face a huge challenge to deliver more with less, and they are working against the backdrop not only of the UK Government's cuts, but an increasing elderly population, increasing fuel and other costs and reductions in trading income. Local authorities must continue to strive to find ways to deliver more with less. This Government is happy to support it to do this. I am happy to provide real examples of savings and to demonstrate the results for the Welsh purse as a result of our support. Public services in Wales spent around £4.3 billion with suppliers of external goods and services in 2010-11. Thanks to a collaboration and procurement programme and the use of e-procurement, the Welsh public sector saved around £26 million. Local authorities account for around £9 million of these savings through the Value Wales collaborative procurement team. In addition, local authorities are improving services through the collaboration agenda, which is being led by my public services leadership group and assisted by the findings of the Simpson review and the compact. However, I must say that, of all 22 authorities, there is only one

Fodd bynnag, bydd awdurdodau lleol yn dal i wynebu'r her enfawr o ddarparu mwy gan ddefnyddio llai, ac maent yn gweithio yn erbyn cefndir sy'n cynnwys nid yn unig toriadau gan Lywodraeth y DU ond poblogaeth sy'n heneiddio fwyfwy, costau tanwydd a chostau eraill sy'n cynyddu, a gostyngiadau mewn incwm masnachu. Rhaid i awdurdodau lleol barhau i ymdrechu i ddod o hyd i ffyrdd o ddarparu mwy gan ddefnyddio llai. Mae'r Llywodraeth hon yn fodlon eu cynorthwyo i wneud hynny. Rwyf yn fodlon darparu enghreifftiau go iawn o arbedion a dangos y canlyniadau i bwrs Cymru o ganlyniad i'n cefnogaeth. Gwariodd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru oddeutu £4.3 biliwn gyda chyflenwyr nwyddau a gwasanaethau allanol yn 2010-11. Diolch i raglen gydweithredu a chaffael a'r defnydd o e-gaffael, arbedodd y sector cyhoeddus yng Nghymru oddeutu £26 miliwn. Mae awdurdodau lleol yn cyfrif am oddeutu £9 miliwn o'r arbedion hyn drwy dîm caffael cydweithredol Gwerth Cymru. Yn ogystal, mae awdurdodau lleol yn gwella gwasanaethau drwy'r agenda gydweithredu, a arweinir gan fy ngrŵp arwain gwasanaethau

authority yet to sign up to the Simpson agreement—the Tory-controlled Vale of Glamorgan Council.

cyhoeddus ac a gefnogir gan ganfyddiadau adolygiad Simpson a'r compact. O blith pob un o'r 22 awdurdod, fodd bynnag, rhaid imi ddweud mai un awdurdod yn unig sydd heb ymrwymo i gytundeb Simpson—sef Cyngor Bro Morgannwg a reolir gan y Torïaid.

This should not be about local authorities putting their parochial interests first. It should be about putting local authorities and the needs of their citizens first and seeking ways to improve front-line services. It should be about the commitment to deliver high-quality services for families, older people and those who are most in need. Let me be very clear: that is what is on offer from this Welsh Labour Government and my Welsh Labour local government colleagues in the local government elections. It is a clear vision for public services; a clear commitment to protect the most vulnerable.

Ni ddylai fod a wnelo hyn ag awdurdodau lleol yn rhoi eu buddiannau plwyfol hwy yn gyntaf. Dylai fod a wnelo â rhoi awdurdodau lleol ac anghenion eu dinasyddion yn gyntaf a chwilio am ffyrdd i wella gwasanaethau rheng flaen. Dylai fod a wnelo ag ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau o safon ar gyfer teuluoedd, pobl hŷn a'r sawl sydd fwyaf mewn angen. Gadewch imi fod yn hollol glir: dyna a gynigir gan y Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru a'm cydweithwyr o Lafur Cymru mewn llywodraeth leol yn yr etholiadau llywodraeth leol. Mae'n weledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus; ymrwymiad clir i amddiffyn y sawl sydd fwyaf agored i niwed.

We have heard many contributions from Members today about their own regions or local authorities, which are often of the same political colour as the Member making the contribution. It is only right and proper that I put some facts on record. Of course, we have seen failings across Wales in some of our local authorities. We heard Peter Black's contribution about Swansea, but we must remember that the Lib Dem administration looking after Swansea was put in special measures for social services. Independent councillors running the administrations in Pembrokeshire and Blaenau Gwent had their education services put in special measures. Anglesey, then run by an independent council, was the only council where wholesale functions had to be removed—it was quite serious. Wales needs to elect good authorities.

Rydym wedi clywed llawer o gyfraniadau gan Aelodau heddiw am eu rhanbarthau neu'u hawdurdodau lleol eu hunain, sy'n aml o'r un lliw gwleidyddol â'r Aelod sy'n gwneud y cyfraniad. Mae'n iawn ac yn briodol imi gofnodi rhai ffeithiau. Rydym, wrth gwrs, wedi gweld methiannau ar draws Cymru yn rhai o'n hawdurdodau lleol. Clywsom gyfraniad Peter Black am Abertawe, ond rhaid inni gofio i weinyddiaeth y Democratiaid Rhyddfrydol, sy'n gofalu am Abertawe, ddod yn destun mesurau arbennig ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Gwelodd cynghorwyr annibynnol sy'n rhedeg gweinyddiaethau Sir Benfro a Blaenau Gwent eu gwasanaethau addysg hwy'n dod yn destun mesurau arbennig. Cyngor Ynys Môn, a gâi ei redeg ar y pryd gan gynghorwyr annibynnol, yw'r unig gyngor y bu'n rhaid tynnu swyddogaethau oddi arno ar raddfa eang—roedd yn sefyllfa eithaf difrifol. Mae angen i Gymru ethol awdurdodau da.

It has been put to me that that would also mean electing Labour authorities—which would work with us in the Welsh Labour Government against the worst effects of the Tory and Liberal Democrat cuts. Those Labour authorities would provide vision and determination to make their local areas

Awgrymwyd wrthyf y byddai hynny hefyd yn golygu ethol awdurdodau Llafur—a fyddai'n gweithio gyda ni yn Llywodraeth Lafur Cymru i wrthsefyll effeithiau gwaethaf toriadau'r Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Byddai'r awdurdodau Llafur hynny'n darparu gweledigaeth a

better—

phenderfyniad i wneud eu hardaloedd lleol yn well—

**Rhodri Glyn Thomas:** Will you give way?

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnewch chi ildio?

**Carl Sargeant:** In a minute. The Labour-run Torfaen County Borough Council will invest £40 million to deliver schools that are fit for the twenty-first century and Cardiff Labour will reform opportunities in the city by establishing a new science park to increase science-based employment and bring new international fixtures to the Millennium Stadium. That is vision and ambition that has been sadly lacking from the Lib Dems and Plaid, whose Neil McEvoy only this week claimed that one of his greatest successes in the administration was Cardiff Central bus station. I often get the train to Cardiff and, from my regular travels, I am not sure that Neil is talking about the same old bus station.

**Carl Sargeant:** Mewn munud. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a gaiff ei redeg gan y Blaid Lafur yn buddsoddi £40 miliwn i ddarparu ysgolion sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, a bydd y Blaid Lafur yng Nghaerdydd yn diwygio cyfleoedd yn y ddinas drwy sefydlu parc gwyddoniaeth newydd i gynyddu cyflogaeth sy'n seiliedig ar wyddoniaeth a dod â digwyddiadau rhyngwladol newydd i Stadiwm y Mileniwm. Dyna weledigaeth ac uchelgais nas cafwyd yn anffodus gan y Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid Cymru. Mor ddiweddar â'r wythnos hon, honnodd Neil McEvoy o'r Blaid honno mai un o'i lwyddiannau mwyaf yn y weinyddiaeth oedd gorsaf fysiau Caerdydd Canolog. Byddaf yn defnyddio'r trên yn aml i deithio i Gaerdydd, ac o'm teithiau rheolaidd, nid wyf yn credu bod Neil yn sôn am yr un hen orsaf fysiau.

**Rhodri Glyn Thomas:** Carl, I am grateful to you for eventually giving way. You have talked about the Labour Government working with local authorities. Can you explain to us why you have placed an additional tax burden of £23.4 million on local authorities in Wales by not making good the shortfall in tax credit benefits?

**Rhodri Glyn Thomas:** Carl, rwyf yn ddiolchgar ichi am ildio yn y diwedd. Rydych wedi sôn am y Llywodraeth Lafur yn gweithio gydag awdurdodau lleol. A allwch esbonio wrthym pam yr ydych wedi rhoi baich ychwanegol o £23.4 miliwn o ran treth ar awdurdodau lleol yng Nghymru drwy beidio â gwneud iawn am y diffyg mewn budd-daliadau credyd treth?

**Carl Sargeant:** There have been no changes to the tax benefits system that is being introduced by the Westminster Government. I think that your question is premature, because no system has been changed. [*Interruption.*]

**Carl Sargeant:** Ni fu dim newidiadau i'r system budd-daliadau treth a gyflwynir gan Lywodraeth San Steffan. Rwyf yn credu bod eich cwestiwn wedi'i ofyn yn rhy gynnar, oherwydd nid oes yr un system wedi'i newid. [*Torri ar draws*.]

If I may continue, Deputy Llywydd, the Swansea Labour team has pledged to turn around the failure of the Liberal Democrat administration. That failure has been clear in the way that it has performed in social services and in its recycling.

Os caf barhau, Ddirprwy Lywydd, mae'r tîm Llafur yn Abertawe wedi addo gwrthdroi methiant gweinyddiaeth y Democratiaid Rhyddfrydol. Mae'r methiant hwnnw wedi bod yn amlwg yn y modd y mae wedi perfformio yng nghyswllt gwasanaethau cymdeithasol ac ailgylchu.

Mark Isherwood's contribution was, as ever, interesting. He failed to mention the fact that Flintshire County Council is currently run by the Conservatives, Lib Dems and

Roedd cyfraniad Mark Isherwood yn ddiddorol, fel arfer. Methodd â sôn am y ffaith bod Cygor Sir y Fflint yn cael ei redeg ar hyn o bryd gan y Ceidwadwyr,

independents, and that they have recently closed libraries, bungled the school reorganisation and broken their promise on extra investment for our schoolchildren in Flintshire. However, this administration—

Democratiaid Rhyddfrydol a chynghorwyr annibynnol, a'u bod yn ddiweddar wedi cau llyfrgelloedd, wedi gwneud llanast o'r broses ad-drefnu ysgolion ac wedi torri eu haddewid ynghylch buddsoddi arian ychwanegol ar gyfer ein plant ysgol yn Sir y Fflint. Fodd bynnag, mae'r weinyddiaeth hon—

**Darren Millar** *rose*—

**Darren Millar** *a gododd*—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. You do not have time to give way, Minister.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Nid oes gennych amser i ildio, Weinidog.

**Carl Sargeant:** Thank you. [*Laughter*.] I would gladly have done so, but, of course, I take note of the Deputy Presiding Officer's guidance. We will probably have another opportunity in the next debate to finish this discussion.

**Carl Sargeant:** Diolch yn fawr. [*Chwerthin*.] Byddwn wedi gwneud hynny â phleser, ond, wrth gwrs, rwyf am barchu arweiniad y Dirprwy Lywydd. Mae'n debyg y daw cyfle arall yn y ddadl nesaf i orffen y drafodaeth hon.

Across Wales, you can be assured that the Welsh Labour Government, working with our Welsh Labour candidates in the next election, can deliver and stand up for Wales.

Ar draws Cymru, gallwch fod yn siŵr y bydd Llywodraeth Lafur Cymru, drwy weithio gyda'n hymgeiswyr Llafur Cymru yn yr etholiad nesaf, yn gallu cyflawni canlyniadau ac amddiffyn Cymru.

**Nick Ramsay:** It is a pleasure to speak in this debate and to follow on from the consensual Minister's party political broadcast, which was far better than the one from Welsh Labour that was televised the other night. They should use you a lot more, Minister; you have a far better understanding and grasp of the facts than many others in your party.

**Nick Ramsay:** Mae'n bleser siarad yn y ddadl hon a dilyn darllediad gwleidyddol y Gweinidog cydsyniol, a oedd yn llawer gwell na'r un a ddarlledwyd gan Lafur Cymru ar y teledu y noson o'r blaen. Dylent eich defnyddio gryn dipyn yn fwy, Weinidog; mae gennych ddealltwriaeth a gafael well o lawer ar y ffeithiau na nifer o bobl eraill yn eich plaid.

The opening remarks from Janet Finch-Saunders were great. She spoke of the difficulties faced by households across Wales and of the need for local authorities to follow suit. In a completely impartial way, she mentioned the valiant efforts of Newport, the Vale of Glamorgan and Monmouthshire—in a consensual way, Minister—the savings being made there and the transparency efforts of those councils in publishing expenditure of over £500, and of over £1 in the case of my local authority. Janet also spoke of the need to oppose the Welsh Government's amendment, amendment 1, and asked how, if we cannot deliver at a time of wealth, we can succeed at a time of austerity. There is a message there for the future.

Roedd sylwadau agoriadol Janet Finch-Saunders yn wych. Soniodd am yr anawsterau a wynebir gan aelwydydd ledled Cymru ac am yr angen i awdurdodau lleol ddilyn eu hesiampl. Mewn ffordd hollol ddiduedd, soniodd am ymdrechion glew Casnewydd, Bro Morgannwg a Sir Fynwy—mewn modd cydsyniol, Weinidog—yr arbedion a wneir yno, ac ymdrechion tryloyw'r cynghorau hynny wrth iddynt gyhoeddi gwybodaeth am wariant dros £500, a thros £1 yn achos fy awdurdod lleol i. Soniodd Janet hefyd am yr angen i wrthwynebu gwelliant Llywodraeth Cymru, sef gwelliant 1, a gofynnodd, os na allwn gyflawni mewn cyfnod o gyfoeth, sut y gallwn lwyddo mewn cyfnod o galedi. Dyna neges ar gyfer y dyfodol.

Peter Black spoke of the need for the TaxPayers' Alliance to get its house in order and ensure that its staff pay tax in the UK before it lectures the rest of us—I mentioned that, Peter, because I rather liked that comment. Elections on 3 May are about local issues, Peter Black said, and about those authorities being accountable locally. I was more than disappointed, I was amazed by the Welsh Labour local government campaign launch, when it tried to argue that this was not the case and said that people in Wales should send a message to the UK Government on its budget on 3 May. We talk about apathy in elections and the need to try to inform people of what to do.

Soniodd Peter Black am yr angen i Gynghrair y Trethdalwyr roi trefn ar ei fusnes ei hun a sicrhau bod ei staff yn talu treth yn y DU, cyn pregethu wrth y gweddill ohonom—soniais am hynny, Peter, oherwydd roeddwn yn eithaf hoff o'r sylw hwnnw. Mae a wnelo'r etholiadau ar 3 Mai â materion lleol, meddai Peter Black, ac mae a wnelont â sicrhau bod yr awdurdodau hynny'n atebol yn lleol. Yn ogystal â chael fy siomi, cefais fy syfrdanu gan y modd y lansiodd Llafur Cymru ei ymgyrch ar gyfer llywodraeth leol, pan geisiodd ddadlau nad oedd hynny'n wir gan ddweud y dylai pobl yng Nghymru anfon neges i Lywodraeth y DU ynghylch ei chyllideb ar 3 Mai. Rydym yn sôn am ddifaterwch mewn etholiadau ac am yr angen i geisio hysbysu pobl o'r hyn a wnawn.

4.15 p.m.

What a grotesque message to people throughout Wales that local authorities should be reduced to sheer party politics on the national basis. [*Laughter*.] I am glad that you laugh—I hope it has an effect and that you will be telling people on the doorsteps the true nature of what local government is about.

Dyna neges wrthun i bobl ledled Cymru, sef y dylai awdurdodau lleol gael eu gostwng i lefel gwleidyddiaeth bleidiol genedlaethol. [*Chwerthin*.] Rwyf yn falch eich bod yn chwerthin—rwyf yn gobeithio y bydd yn cael effaith, ac y byddwch yn dweud wrth bobl ar stepen y drws beth yw gwir natur llywodraeth leol.

**Mike Hedges:** Will you take an intervention?

**Mike Hedges:** A wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Nick Ramsay:** I said that I would give way in a moment—calm down.

**Nick Ramsay:** Dywedais y byddwn yn ildio yn y man—pwyllwch.

Mark Isherwood spoke of the need to provide greater control, and referred again to Monmouthshire's seminar on dealing with issues before they become crises. He also mentioned, for once, Flintshire County Council, and said that it is necessary across the board for councils to deal with issues before they get to the crisis level and cost people more in the long run. I will now give way to Mike Hedges.

Soniodd Mark Isherwood am yr angen i ddarparu mwy o reolaeth, a chyfeiriodd unwaith eto at seminar Sir Fynwy ar ymdrin â materion cyn iddynt droi'n argyfwng. Soniodd hefyd, am unwaith, am Gyngor Sir y Fflint, a dywedodd ei bod yn angenrheidiol yn gyffredinol i gynghorau ymdrin â materion cyn iddynt droi'n argyfwng a chyn iddynt gostio mwy i bobl yn y pen draw. Ildiaf yn awr i Mike Hedges.

**Mike Hedges:** Thank you, Nick. At the last council election, did you see any of the leaflets put out by you and the Conservatives talking about the 10p tax?

**Mike Hedges:** Diolch, Nick. Adeg etholiad diwethaf y cynghorau, a welsoch unrhyw un o'r taflenni a ddosbarthwyd gennych chi a'r Ceidwadwyr yn sôn am y dreth 10c?

**Nick Ramsay:** I want to talk about local issues. [*Laughter*.] However, I know that it was the last UK Labour Government that abolished the 10p tax rate, thereby putting a lot of poor people into even greater poverty

**Nick Ramsay:** Rwyf am siarad am faterion lleol. [*Chwerthin*.] Fodd bynnag, rwyf yn gwybod mai Llywodraeth Lafur ddiwethaf y DU a ddiddymodd y gyfradd treth 10c, gan beri i lawer o bobl dlawd ddioddef tlodi a

than the debt that would otherwise have been accrued.

oedd hyd yn oed yn fwy na'r ddyled a fyddai wedi cronni fel arall.

I am glad that you have intervened, Mike, because your comments were excellent, as always. In fact, I quite liked your comment about little government—I thought that you would go on about *Little Britain*, but you did not. You did coin a new phrase, however, and one that we shall be tweeting and that will be memorable in future debates. You spoke about areas in which you think things should not be cut and that may be fair enough, as you probably have enough experience in local government to say that; however, you did not mention a single area where you think efficiency savings should be made. That is the problem that you guys are going to have on the doorstep when explaining to people why they should be turning to your candidate if you cannot say where money should be saved. That was probably the problem of the last 10 years under the previous Government and why we are in the economic mess that we are in now.

Rwyf yn falch ichi ymyrryd, Mike, oherwydd roedd eich sylwadau'n ardderchog, fel arfer. Yn wir, roeddwn yn eithaf hoff o'ch sylw ar lywodraeth fach—roeddwn yn meddwl y byddech wedi mynd ymlaen i sôn am *Little Britain*, ond wnaethoch chi ddim. Fodd bynnag, bu ichi fathu ymadrodd newydd y byddwn yn ei ddefnyddio wrth drydar ac a fydd yn gofiadwy mewn dadleuon yn y dyfodol. Bu ichi sôn am feysydd lle'r ydych yn credu na ddylai pethau gael eu torri, ac efallai fod hynny'n ddigon teg, oherwydd mae'n debyg bod gennych ddigon o brofiad mewn llywodraeth leol i ddweud hynny. Fodd bynnag, ni fu ichi sôn am yr un maes lle'r ydych yn credu y dylid sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Dyna'r broblem y byddwch yn dod ar ei thraws ar stepen y drws wrth esbonio i bobl pam y dylent droi at eich ymgeisydd chi, os na allwch ddweud ymhle y dylai arian gael ei arbed. Mae'n debyg mai dyna oedd y broblem yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, dan y Llywodraeth flaenorol, ac mai dyna pam yr ydym yn y llanast economaidd yr ydym ynddo'n awr.

Jocelyn Davies said that she agreed with the thrust of our motion, and I was pleased to hear that. You questioned other things, such as the cost of—in fact, I will not go into the things that you questioned, Jocelyn, because, actually—. Oh, she is not there. That will teach me to look up before I read on. Jocelyn Davies spoke about the need for local authorities have greater autonomy, and I agreed with much of that.

Dywedodd Jocelyn Davies ei bod yn cytuno â byrdwn ein cynnig, ac roeddwn yn falch o glywed hynny. Bu ichi amau pethau eraill, megis y gost sydd ynghlwm wrth—a dweud y gwir, nid wyf am fanylu ar y pethau y bu ichi eu hamau, Jocelyn, oherwydd, mewn gwirionedd—. O, nid yw'n bresennol. Dyna wers imi godi fy llygaid cyn parhau i ddarllen. Soniodd Jocelyn Davies am yr angen i awdurdodau lleol gael mwy o ymreolaeth, ac rwyf yn cytuno â llawer o hynny.

Antoinette Sandbach spoke about authorities across Wales and about people's concerns about council tax bills. In a number of contributions, the concern about the failure to pass on the council tax freeze that was introduced in England came through loud and clear. Members mentioned the fact that a Conservative council in Wales is seeking to do that this year and next. It is not easy; I think that all councils are facing difficult problems, and we all accept that there is an economic challenge to be faced. In fact, Ken Skates, you put that very succinctly in talking

Soniodd Antoinette Sandbach am awdurdodau ledled Cymru ac am bryderon pobl ynghylch biliau treth gyngor. Mewn nifer o gyfraniadau, roedd yn hollol amlwg bod pobl yn pryderu ynghylch y methiant i drosglwyddo'r broses o rewi'r dreth gyngor, a gyflwynwyd yn Lloegr. Soniodd yr Aelodau am y ffaith bod cyngor Ceidwadol yng Nghymru yn ceisio gwneud hynny eleni a'r flwyddyn nesaf. Nid yw'n hawdd; rwyf yn credu bod pob cyngor yn wynebu problemau anodd, ac rydym i gyd yn derbyn bod her economaidd i'w hwynebu. Mewn

about the vast problems facing councils. Let us not pretend that when the economic situation improves, it will all be plain sailing; the fact is that we have to learn to do more with less.

gwirionedd, Ken Skates, buoch yn gryno iawn wrth sôn am y problemau enfawr sy'n wynebu cynghorau. Gadewch inni beidio ag esgus y bydd popeth yn rhwydd pan fydd y sefyllfa economaidd yn gwella; y gwir amdani yw bod yn rhaid inni ddysgu gwneud mwy gan ddefnyddio llai.

I will close by saying that we do not believe that these two things are incompatible. We do not believe that efficiency savings are incompatible with running better public services. In fact, I would venture to suggest that if you seek to make efficiency savings—I am sure that the Minister agrees in part with this—you will actually get better services in the long run, because you will focus on the issues that are of concern to people. These things do go together. I oppose the Government's amendment and urge Members to support this motion, which is designed to ensure that, in the future, local government in Wales will be better than it is today.

Hoffwn gloi trwy ddweud nad ydym yn credu bod y ddau beth hyn yn anghydnaws â'i gilydd. Nid ydym yn credu bod arbedion effeithlonrwydd yn anghydnaws â rhedeg gwasanaethau cyhoeddus gwell. Yn wir, byddwn yn mentro awgrymu y byddwch, wrth geisio gwneud arbedion effeithlonrwydd—rwyf yn siŵr bod y Gweinidog yn cytuno'n rhannol â hynny—yn cael gwasanaethau gwell yn y tymor hir mewn gwirionedd, oherwydd byddwch yn canolbwyntio ar y materion sy'n bwysig i bobl. Mae'r pethau hyn yn cyd-fynd â'i gilydd. Rwyf yn gwrthwynebu gwelliant y Llywodraeth ac yn annog yr Aelodau i gefnogi'r cynnig hwn, y bwriedir iddo sicrhau y bydd llywodraeth leol yng Nghymru yn y dyfodol yn well nag y mae heddiw.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod, felly gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that the motion without amendment be agreed. Are there any objections? I see that there are, therefore I defer all voting on this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Dadl Plaid Cymru
## Plaid Cymru Debate

### Awdurdodau Lleol
### Local Authorities

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw William Graham a gwelliant 2 yn enw Peter Black.

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of William Graham and amendment 2 in the name of Peter Black.

*Cynnig NDM4964 Jocelyn Davies*

*Motion NDM4964 Jocelyn Davies*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Yn cydnabod:*

*1. Acknowledges:*

*a) gwerth y gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol;*

*b) bod awdurdodau lleol yn hanfodol i gynaliadwyedd economïau lleol;*

*c) ei bod yn bwysig bod awdurdodau lleol yn gyflogwyr da, cyfrifol; a*

*2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo arfer da ymysg awdurdodau lleol, gan gynnwys creu partneriaethau, sy'n diwallu anghenion lleol.*

*a) the value of services provided by local authorities;*

*b) that local authorities are vital to the sustainability of local economies;*

*c) that it is important that local authorities are good, responsible employers; and*

*2. Calls on the Welsh Government to promote good practice among local authorities, including the creation of partnerships, which meet local needs.*

**Rhodri Glyn Thomas:** Cynigiaf y cynnig.

**Rhodri Glyn Thomas:** I move the motion.

Dilynaf yr hyn y mae Nick Ramsay wedi'i ddweud wrth gloi'r ddadl ddiwethaf gan Geidwadwyr Cymru. Wrth gwrs, rhaid i lywodraeth leol geisio gwneud y gorau o'r sefyllfa sy'n ei hwynebu a cheisio gwneud mwy â llai, ceisio bod yn greadigol, a cheisio sicrhau ei bod yn amddiffyn gwasanaethau uniongyrchol i'w hetholwyr.

I follow on from what Nick Ramsay had to say in concluding the previous debate by the Welsh Conservatives. Of course, local government has to try to make the best of the situation that it finds itself in and try to do more with less, to be creative and to ensure that it protects those services that are provided directly to its constituents.

Pwrpas ein cynnig ni yw pwysleisio'r rôl sydd gan lywodraeth leol i'w chwarae. Mae'r rôl honno ochr yn ochr ac mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Rydym yn credu bod llywodraeth leol yng Nghymru'n cyflawni cryn lawer, ond bod modd iddi wneud hyd yn oed mwy.

The purpose of our motion is to emphasise the role that local government has to play. That role is alongside and in partnership with the Welsh Government. We believe that local government in Wales achieves a great deal, but that there is scope for it to do even more.

Cyfeiriaf at rai o'r pethau sy'n cael eu cyflawni yng Nghymru, ac wrth gwrs byddaf yn cyfeirio at y cynghorau hynny sy'n cael eu harwain gan Blaid Cymru, a chynghorau lle mae Plaid Cymru'n rhan o reolaeth y cyngor. Er enghraifft, yng nghyd-destun yr economi leol yng Ngwynedd, mae'r cyngor hwnnw wedi sefydlu cronfa arloesol lle y mae'n defnyddio £3 miliwn o gyllideb y cyngor er mwyn cefnogi busnesau bach yng Ngwynedd. Mae'r cynllun hwnnw wedi llwyddo i ddiogelu neu greu 350 o swyddi yng Ngwynedd. Meddyliwch am ardaloedd Gwynedd, yr hyn fyddai'n digwydd pe bai'r swyddi hynny'n diflannu, a'r cyfraniad mae'r swyddi hynny'n eu gwneud i economi Gwynedd.

I will refer to some of the things being delivered in Wales and, of course, I will refer to those councils that are led by Plaid Cymru, and councils where Plaid Cymru is part of the council's leadership. For example, in the context of the local economy in Gwynedd, that council has established an innovative fund where it uses £3 million of the council's budget in order to support small businesses in Gwynedd. That scheme has succeeded in creating or safeguarding 350 jobs in Gwynedd. Think of the areas of Gwynedd, what would happen if those jobs were to disappear, and the contribution that those jobs make to the economy of Gwynedd.

Mae awdurdod Caerffili, eto, wedi creu cynllun blaengar o ran prentisiaethau. Bydd Lindsay Whittle yn cymryd rhan yn y ddadl

The Caerphilly authority, again, has created an innovative programme for apprenticeships. Lindsay Whittle will be

hon ac rwy'n siŵr y bydd yn cyfeirio at hyn. Mae tua 160 o brentisiaethau wedi cael eu creu gan y cynllun hwn, yn rhoi gobaith a chyfle i bobl ifanc yng Nghaerffili i fagu sgiliau a fydd yn eu galluogi i gymryd eu lle yn y gweithle.

participating in this debate and I am sure that he will make reference to this. About 160 apprenticeships have been created by this scheme, giving hope and opportunity to young people in Caerphilly to gain the skills that will enable them to take their place in the workforce.

Yma yn y brifddinas, mae'r cyngor, lle mae Plaid Cymru yn rhan o'r grŵp sy'n ei reoli, wedi creu cronfa arbennig ac mae 600 o swyddi newydd wedi eu creu. Dyma'r math o gyfleoedd sydd ar gael. Yr hyn sy'n angenrheidiol yn y sefyllfa economaidd sydd ohoni yw bod y mathau hyn o gynlluniau blaengar sy'n cael eu cynnig gan lywodraeth leol yn cael cefnogaeth y Llywodraeth ganolog yn y Cynulliad. Codais y pwynt hwn gyda'r Gweinidog ac fe'i codaf unwaith eto er mwyn iddo gael cyfle arall i ymateb, oherwydd mae'n amlwg nad oedd yn deall yr hyn cyfeiriais ato yn gynharach. Y ffaith amdani yw, Weinidog, oherwydd eich bod wedi methu llenwi'r bwlch sydd wedi ei adael wrth i fudd-dal y dreth gyngor gael ei ddatganoli, mae bwlch o £23.4 miliwn yn y fan honno, ac wrth i Lywodraeth Cymru fethu â llenwi'r bwlch honno—[*Torri ar draws*.] Gadewch i mi orffen y pwynt; disgwyliais yn ddigon hir i chi rhoi cyfle i fi. Mae bwlch o £23.4 miliwn yn y fan honno ac os nad ydych chi, fel Llywodraeth, yn mynd i lenwi'r bwlch hwnnw, yr hyn fyddwch chi'n ei wneud yw trosglwyddo £23.4 miliwn ychwanegol o fudd-dal y dreth gyngor i gynghorau Cymru. Mae Llywodraeth yr Alban wedi ateb y gofyn hwnnw ac wedi sicrhau bod y bwlch hwnnw yn cael ei lenwi ac felly ni fydd y pwysau hwnnw ar gynghorau yn yr Alban. Rwy'n falch iawn eich bod am ateb y pwynt. Dyma'ch cyfle chi.

Here in the capital city, the council, where Plaid Cymru is part of the governing group, has created a specific fund and 600 new jobs have been created. These are the kind of opportunities that are available. In the current economic climate, it is essential that these sorts of innovative schemes that are being proposed by local authorities are supported by central Government in the Assembly. I have raised this point with the Minister and I will raise it once again so that he has another opportunity to respond, because obviously he did not understand what I was referring to a little earlier. Minister, the fact is that because you have failed to fill the gap that has been left as council tax benefit is devolved, there is a funding shortfall of £23.4 million, and as the Welsh Government fails to fill that gap—[*Interruption.*] Let me finish the point; I waited long enough for you to give me an opportunity to intervene. There is a shortfall of £23.4 million there and if you, as a Government, are not going to fill that gap, then what you will be doing is transferring additional council tax benefit of £23.4 million to Welsh councils. The Scottish Government has met that requirement and ensured that that funding gap is filled, and that the pressure will not be transferred to Scottish councils. I am very pleased that you want to respond to this point. This is your opportunity.

**Carl Sargeant:** I thank the Member for his question. I will try to answer it and perhaps he could respond to the question that I will pose. I do not recognise the position that the Member offers to me today in terms of the council tax benefit situation, because council tax benefit is still a non-devolved function. Can he tell me the exact date when it was devolved to Scotland or to Wales, and when the Scottish Government filled the gap that he mentions?

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Byddaf yn ceisio ei ateb, ac efallai y gallai yntau ymateb i'r cwestiwn y byddaf innau'n ei ofyn. Nid wyf yn cydnabod y sefyllfa y mae'r Aelod yn ei rhoi ger fy mron heddiw o ran budd-dal y dreth gyngor, oherwydd mae budd-dal y dreth gyngor yn swyddogaeth sydd heb ei datganoli o hyd. A all yr Aelod ddweud wrthyf pryd yn union y cafodd budd-dal y dreth gyngor ei ddatganoli i'r Alban neu i Gymru, a phryd y bu i Lywodraeth yr Alban lenwi'r bwlch y mae'n sôn amdano?

**Rhodri Glyn Thomas:** This was announced last year. I am sorry that you missed the announcement. It was announced last year that local council benefits would be devolved to Wales and that there would be a shortfall of £23.4 million. At that time, when it was announced in Scotland, Alex Salmond responded by stating categorically that the Scottish Government, in partnership with local government in Scotland, would make sure that that shortfall was filled and that local government in Scotland would not be affected. You have not responded. This has been known for the last four months and you have not responded. As far as your contribution is concerned, it seems that you are not even aware of the fact that this is happening. It is a well-known fact and it is about time that you, as Minister, and the Government were aware of it. Perhaps you are conveniently trying to postpone your response to the situation until after the elections on 3 May. The fact is that the rest of us know that it is going to happen and it is about time you as Minister found out about that. This is an additional tax on local authorities in Wales amounting to £23.4 million over and above everything else that will be faced by local government in Wales.

**Rhodri Glyn Thomas:** Cyhoeddwyd hyn y llynedd. Mae’n flin gennyf ichi golli’r cyhoeddiad. Cyhoeddwyd y llynedd y byddai budd-daliadau cynghorau lleol yn cael eu datganoli i Gymru, ac y byddai diffyg o £23.4 miliwn yn y cyllid. Bryd hynny, pan wnaed y cyhoeddiad yn yr Alban, ymatebodd Alex Salmond trwy ddweud yn bendant y byddai Llywodraeth yr Alban, mewn partneriaeth â llywodraeth leol yn yr Alban, yn sicrhau y byddai’r diffyg yn cael ei dalu ac na fyddai’n effeithio ar lywodraeth leol yn yr Alban. Nid ydych chi wedi ymateb. Mae hyn wedi bod yn hysbys ers pedwar mis ac nid ydych wedi ymateb. O ran eich cyfraniad chi, ymddengys nad ydych hyd yn oed yn ymwybodol o’r ffaith bod hyn yn digwydd. Mae’n ffaith dra hysbys, ac mae’n hen bryd i chi, fel Gweinidog, a’r Llywodraeth fod yn ymwybodol ohoni. Efallai eich bod yn ceisio gohirio eich ymateb i’r sefyllfa nes ar ôl yr etholiadau ar 3 Mai yn gyfleus iawn. Y gwir yw bod y gweddill ohonom yn gwybod bod hyn yn mynd i ddigwydd, ac mae’n hen bryd i chi, fel Gweinidog, ddod i wybod am hynny. Mae hon yn dreth ychwanegol ar awdurdodau lleol yng Nghymru sy’n dod i gyfanswm o £23.4 miliwn ar ben popeth arall y bydd llywodraeth leol yng Nghymru yn ei wynebu.

Minister, you were talking about the Welsh Government working with local government in Wales in partnership. We have had this conversation on a number of occasions, in relation to the way in which you have acted towards local government in Wales. You seem to want to centralise everything and to tell local government what to do. Our motion today is saying that local government has a lot to offer in relation to the economy of Wales. We are talking about procurement, given that £7.2 billion-worth of services are procured by local government in Wales. How are you helping local government to ensure that that procurement happens within the local economy and that local businesses benefit from that procurement? A number of things could be done, but while you are happy to criticise the coalition Government in Westminster, for example about the transfer of council tax benefits, you are not prepared to do anything to safeguard the people of Wales.

Weinidog, roeddech yn sôn am Lywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol yng Nghymru. Rydym wedi cael y sgwrs hon droeon ynghylch eich ymddygiad at lywodraeth leol yng Nghymru. Ymddengys eich bod am ganoli popeth a dweud wrth lywodraeth leol beth i’w wneud. Mae ein cynnig heddiw yn datgan bod gan lywodraeth leol lawer i’w gynnig i economi Cymru. Rydym yn sôn am gaffael, o gofio bod gwerth £7.2 biliwn o wasanaethau’n cael eu caffael gan lywodraeth leol yng Nghymru. Sut yr ydych yn helpu llywodraeth leol i sicrhau bod y broses gaffael honno’n digwydd o fewn yr economi leol a bod busnesau lleol yn elwa o’r broses gaffael honno? Gallai llawer o bethau gael eu gwneud, ond er eich bod yn ddigon bodlon beirniadu’r Llywodraeth glymblaid yn San Steffan, er enghraifft ynghylch trosglwyddo budd-daliadau’r dreth gyngor, nid ydych yn barod i wneud dim i amddiffyn pobl Cymru.

At the last elections—the Assembly elections—the Labour Party told the people of Wales that it would safeguard and shield the people of Wales. It said that it would ensure that the people of Wales were not affected by the cuts imposed by the coalition Government in Britain. However, let me challenge you, Minister: can you point me in the direction of any cut introduced by the coalition Government in Westminster from which the Welsh Government has managed to shield the people of Wales? Has there been any situation where you have managed to protect the people of Wales from the coalition Government cuts in Britain? You are quite prepared to criticise, but you do nothing whatsoever to protect the interests of the people of Wales. This motion shows how you could, if you wanted to, work with local government to do that.

Yn ystod yr etholiadau diwethaf—etholiadau'r Cynulliad—dywedodd y Blaid Lafur wrth bobl Cymru y byddai'n amddiffyn ac yn gwarchod pobl Cymru. Dywedodd y byddai'n sicrhau na fyddai toriadau'r Llywodraeth glymblaid ym Mhrydain yn effeithio ar bobl Cymru. Fodd bynnag, gadewch imi eich herio, Weinidog: a allwch dynnu fy sylw at unrhyw doriad a gyflwynwyd gan y Llywodraeth glymblaid yn San Steffan y mae Llywodraeth Cymru wedi llwyddo i warchod pobl Cymru rhagddo? A oes unrhyw sefyllfa wedi codi lle'r ydych wedi llwyddo i amddiffyn pobl Cymru rhag y toriadau a wnaed gan y Llywodraeth glymblaid ym Mhrydain? Rydych yn ddigon parod i feirniadu, ond nid ydych yn gwneud dim byd o gwbl i warchod buddiannau pobl Cymru. Mae'r cynnig hwn yn dangos sut y gallech weithio gyda llywodraeth leol i warchod buddiannau pobl Cymru, pe baech yn dymuno gwneud hynny.

*Gwelliant 1 William Graham*

*Amendment 1 William Graham*

*Yn is-bwynt 1b), dileu popeth ar ôl 'awdurdodau lleol' a rhoi yn ei le:*

*In sub-point 1b) delete all after 'authorities' and replace with:*

*'yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at economïau lleol, ond yn credu bod yn rhaid i awdurdodau lleol ymgysylltu'n ehangach â'r sector annibynnol a'r trydydd sector er mwyn sicrhau bod ffyniant economïau lleol yn gynaliadwy'*

*'make a positive contribution to local economies, but believes that local authorities must engage with the independent and third sectors more widely to ensure that the viability of local economies is sustainable'*

**Janet Finch-Saunders:** I move amendment 1 in the name of William Graham.

**Janet Finch-Saunders:** Cynigiaf welliant 1 yn enw William Graham.

It gives me great pleasure to move this amendment, which we have tabled for two primary reasons. First, while recognising the value of public services provided by local authorities, the Welsh Conservatives want to ensure that the people who use public services have a real choice, and for that it is necessary to engage with the private and third sectors. A classic example of where there is potential for this is in the area of direct payments. Despite a pledge by the previous UK Labour Government for 100% of service users to be using direct payments by the end of this month, local authorities in Wales are not encouraging their take-up. Indeed, rather than them being actively promoted, MS Society Cymru feels that the choice is

Mae'n bleser mawr gennyf gynnig y gwelliant hwn, a gyflwynwyd gennym am ddau brif reswm. Yn gyntaf, er ein bod yn cydnabod gwerth y gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir gan awdurdodau lleol, mae'r Ceidwadwyr Cymreig am sicrhau bod y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus yn cael dewis go iawn, ac er mwyn sicrhau hynny mae angen ymgysylltu â'r sector preifat a'r trydydd sector. Mae taliadau uniongyrchol yn enghraifft glasurol o faes lle y ceir potensial i gyflawni hynny. Er gwaethaf addewid gan Lywodraeth Lafur flaenorol y DU y byddai 100% o ddefnyddwyr gwasanaeth yn defnyddio taliadau uniongyrchol erbyn diwedd y mis hwn, nid yw awdurdodau lleol yng Nghymru

wrongly couched in negative terms, implying privatisation rather than emphasising the positive benefits for the local economy that money in service users' pockets and market choice would bring. After all, do you not think that it should be up to the person who is suffering, who needs that care, to decide how they purchase their care?

yn annog pobl i wneud hynny. Yn wir, yn hytrach na mynd ati i hyrwyddo taliadau uniongyrchol, mae MS Cymru o'r farn bod y dewis yn cael ei fynegi yn anghywir mewn termau negyddol, gan awgrymu preifateiddio yn hytrach na phwysleisio'r manteision cadarnhaol a allai ddod i'r economi leol o roi arian ym mhocedi defnyddwyr gwasanaeth a chyflwyno dewis i'r farchnad. Wedi'r cyfan, onid ydych o'r farn mai'r sawl sy'n dioddef, sef y sawl y mae angen y gofal hwnnw arno, ddylai gael yr hawl i benderfynu sut y mae'n talu am ei ofal?

**Ann Jones:** In that purchase of care, would you be looking to safeguard the people who would be delivering that care, in relation to things like sick pay and insurance, so that they are not hurt? Is that included in your direct payments?

**Ann Jones:** Wrth dalu am ofal fel hyn, a fyddech yn ceisio diogelu'r sawl a fyddai'n darparu'r gofal hwnnw, mewn perthynas â phethau megis tâl salwch ac yswiriant, fel nad ydynt yn cael eu niweidio? A yw hynny wedi ei gynnwys yn eich taliadau uniongyrchol?

**Janet Finch-Saunders:** There are several reputable care agencies across Wales, therefore, when someone who needs care takes up a care package with a care agency, the protection will all be in place as a result of the care standards that we have in Wales.

**Janet Finch-Saunders:** Ceir nifer o asiantaethau gofal ledled Cymru sydd ag enw da, felly pan fydd rhywun y mae angen gofal arno yn dewis pecyn gofal gydag asiantaeth ofal, bydd y cyfan yn ei le o ganlyniad i'r safonau gofal sydd gennym yng Nghymru.

**Ann Jones:** Not if the choice was made not to use them.

**Ann Jones:** Ond ni fyddai pe bai rhywun yn dewis peidio â'u defnyddio.

**Janet Finch-Saunders:** That should not make any difference whatsoever.

**Janet Finch-Saunders:** Ni ddylai hynny wneud dim gwahaniaeth o gwbl.

While public expenditure comprises a significant element of any advanced economy, the true economy is made up of the shops, factories, farms and businesses in our local communities. The public sector is reliant on the hard work and innovation of these sectors for all its revenue. As our debate earlier today highlighted, there remains too much waste in local government, and if the Party of Wales is serious about the value of services, it needs to consider the value for taxpayers' money that these services are providing.

Er bod gwariant cyhoeddus yn elfen sylweddol o unrhyw economi ddatblygedig, yr hyn sy'n sail i'r economi go iawn yw'r siopau, y ffatrïoedd, y ffermydd a'r busnesau yn ein cymunedau lleol. Mae'r sector cyhoeddus yn dibynnu ar waith caled ac arloesedd y sectorau hyn ar gyfer ei holl refeniw. Fel yr amlygwyd yn ein dadl yn gynharach heddiw, mae gormod o wastraff mewn llywodraeth leol o hyd, ac os yw Plaid Cymru o ddifrif ynghylch gwerth gwasanaethau, mae angen iddi ystyried y gwerth am arian y trethdalwyr y mae'r gwasanaethau hyn yn ei ddarparu.

4.30 p.m.

This includes the benefits to the local economy. As such, I feel that this motion ignores the value of the goods and services provided by the private and third sectors. While the number of people employed in the

Mae hynny'n cynnwys y manteision i'r economi leol. O ran hynny, rwyf o'r farn bod y cynnig hwn yn anwybyddu gwerth y nwyddau a'r gwasanaethau a ddarperir gan y sector preifat a'r trydydd sector. Er i nifer y

public sector in Wales has fallen over the last year by 2.8% to one third of a million, public sector employment still accounts for 25.6% of total employment in Wales, which is the second highest percentage for a UK region. This fact directly contradicts point 1(b) of the motion, as over-reliance on the public sector for growth and employment is inherently unsustainable.

bobl a gyflogir yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ostwng 2.8% dros y flwyddyn ddiwethaf i draean o filiwn, mae cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn dal i gyfateb i 25.6% o gyfanswm cyflogaeth Cymru, sef y ganran uchaf ond un o holl ranbarthau'r DU. Mae'r ffaith hon yn gwrth-ddweud pwynt 1(b) y cynnig yn uniongyrchol, oherwydd mae gor-ddibyniaeth ar y sector cyhoeddus i sicrhau twf a chyflogaeth yn anghynaliadwy yn ei hanfod.

The dire economic circumstances in which the previous Labour Government left the UK are unprecedented. It is important to minimise the impact of public sector job losses on local communities and local economies. It is, therefore, essential that local government engages with the private sector. The Federation of Small Businesses highlights a study undertaken by the Centre for Local Economic Strategies, which showed that, when local suppliers were used by councils, significantly more of each pound invested by the councils through procurement was re-spent locally than when national suppliers were used. It is about keeping that pound going around in the community.

Mae'r amgylchiadau economaidd enbyd y bu i'r Llywodraeth Lafur flaenorol adael y DU ynddynt yn rhai na gwelwyd mo'u tebyg o'r blaen. Mae'n bwysig lleihau'r effaith y mae colli swyddi yn y sector cyhoeddus yn ei chael ar gymunedau lleol ac economïau lleol. Felly, mae'n hanfodol bod llywodraeth leol yn ymgysylltu â'r sector preifat. Mae Ffederasiwn y Busnesau Bach yn tynnu sylw at astudiaeth a gynhaliwyd gan y Ganolfan ar gyfer Strategaethau Economaidd Lleol, a oedd yn dangos bod canran lawer uwch o bob punt a fuddsoddwyd gan gynghorau trwy gaffael yn cael ei hailwario'n lleol pan fyddai'r cynghorau'n defnyddio cyflenwyr lleol o'i chymharu â phan fyddent yn defnyddio cyflenwyr cenedlaethol. Mae a wnelo â chadw'r bunt honno'n troi yn y gymuned.

The chair of the trade and industry policy committee of the FSB has said that, through engaging and working with local businesses, local authorities could take the lead in stimulating sustainable growth in their economies. There is a key call for improved localism here, which does not sit so comfortably with the Welsh Government's approach to the public sector workforce. In 2010, the First Minister said that he wanted to see best practice being shared and delivered across Welsh public services—engagement, negotiation and agreement rather than diktat. However, all too often, it is a top-down and Cardiff-centred diktat that we see, as is evident in the First Minister's Cabinet-approved paper, 'A Strategic Framework for the Public Service Workforce in Wales'. This paper has been developed under the brief of bringing together all devolved public service workforce matters, including partnership and service delivery and the citizen experience. Only once in the

Mae cadeirydd pwyllgor polisi masnach a diwydiant Ffederasiwn y Busnesau Bach wedi dweud y gallai awdurdodau lleol arwain y broses o ysgogi twf cynaliadwy yn eu heconomi trwy ymgysylltu â busnesau lleol a gweithio gyda hwy. Ceir galwad gref am well gweithredu'n lleol yn y sefyllfa hon, nad yw'n cyd-fynd yn dda iawn ag agwedd Llywodraeth Cymru at weithlu'r sector cyhoeddus. Yn 2010 dywedodd y Prif Weinidog ei fod am weld arfer gorau'n cael ei rannu a'i weithredu ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru—ymgysylltu, trafod a dod i gytundeb yn hytrach na dictad. Fodd bynnag, yn rhy aml o lawer yr hyn a gawn yw dictad o'r brig i lawr sy'n canolbwyntio ar Gaerdydd, fel y gwelwn yn glir ym mhapur y Prif Weinidog a gymeradwywyd gan y Cabinet, sy'n amlinellu fframwaith strategol ar gyfer gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Datblygwyd y papur hwn yn rhan o'r brîff i dynnu ynghyd yr holl faterion sydd

document does the word 'local' appear other than in the phrase 'local government'. The Welsh Conservatives want to see our local authorities empowering and enabling our communities, individuals and companies so that, together, we can drive up standards and improve our public services in Wales.

wedi'u datganoli yng nghyswllt gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth, darparu gwasanaethau a phrofiad y dinesydd. Dim ond unwaith yn y ddogfen y mae'r gair lleol yn ymddangos ac eithrio yn yr ymadrodd llywodraeth leol. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig am weld ein hawdurdodau lleol yn grymuso ac yn galluogi ein cymunedau, ein hunigolion a'n cwmnïau er mwyn inni allu gweithio gyda'n gilydd i godi safonau a gwella ein gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

*Gwelliant 2 Peter Black*

*Amendment 2 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as a new point at end of motion:*

*Yn nodi pwysigrwydd ethol cynghorwyr sydd â gweledigaeth ar gyfer gwella gwasanaethau lleol er mwyn codi safonau.*

*Notes the importance of electing councillors with a vision for improving local services in order to drive up standards.*

**Peter Black:** I move amendment 2 in my name.

**Peter Black:** Cynigiaf welliant 2 yn fy enw i.

I take the motion before us at face value with regard to the value that local councils are able to add to the local economy and the good practice that councils are able to disseminate regarding employment, not only of their own staff but through the contracts that they award to others. It is important that all local councils take that on board. There is some very good practice around Wales, which is worth repeating in the Chamber, with regard to how local councils have made a difference in relation to the local economy and to the creation of jobs and investment in the area.

Nid wyf yn ceisio gweld ystyr arall i'r cynnig sydd ger ein bron o safbwynt y gwerth y gall cynghorau lleol ei ychwanegu i'r economi leol a'r arfer da y gall cynghorau ei ledaenu o safbwynt cyflogaeth, nid yn unig ymysg eu staff eu hunain ond hefyd drwy'r contractau y maent yn eu dyfarnu i eraill. Mae'n bwysig bod pob cyngor lleol yn ystyried hynny. Ceir achosion o arfer da iawn ar hyd a lled Cymru o ran y gwahaniaeth y mae cynghorau lleol wedi'i wneud i'r economi leol a'r broses o greu swyddi a sicrhau buddsoddiad yn yr ardal, y mae'n werth eu hailadrodd yn y Siambr.

I am tempted to start with Cardiff, where we are now, because a large number of Assembly Members have already taken advantage of the St David's 2 shopping centre, which the council helped to broker as part of the development of that site. That is, in itself, a major investment in the city. The plans to create a central business district, in conjunction with the Welsh Government in terms of the enterprise zone in the city, will also add value to the area and help to bring jobs to Cardiff. The council also has a capital fund for investing in new small businesses by offering loans. That is another example of a local council going the extra mile to help businesses to get off the ground.

Caf fy nhemtio i ddechrau â Chaerdydd, lle'r ydym ar hyn o bryd, gan fod nifer fawr o Aelodau'r Cynulliad eisoes wedi manteisio ar ganolfan siopa Dewi Sant 2, sy'n ganolfan y bu i'r cyngor helpu i'w broceru yn rhan o waith datblygu'r safle hwnnw. Mae hynny ynddo'i hun yn fuddsoddiad sylweddol yn y ddinas. Bydd y cynlluniau i greu ardal fusnes ganolog, ar y cyd â Llywodraeth Cymru o ran yr ardal fenter yn y ddinas, hefyd yn ychwanegu gwerth i'r ardal ac yn helpu i ddod â swyddi i Gaerdydd. Mae gan y cyngor gronfa gyfalaf hefyd ar gyfer buddsoddi mewn busnesau bach newydd trwy gynnig benthyciadau. Dyna enghraifft arall o gyngor lleol yn gwneud mwy nag sydd raid i helpu

busnesau i ddechrau arni.

In Swansea, we have the business improvement district around the city centre, which is generating additional investment through a small addition to business rates. The council is about to embark on a £18 million investment in council housing over the next three years. However, more importantly, the council is doing this in a way that is enabling it to take on new apprentices and to employ additional people, giving them additional skills to carry out the work. The council has also made a point of targeting a large chunk of its spending at local businesses, ensuring that, when it spends money, it is able to add value and generate a local multiplier from that expenditure. Councils in Wales spend billions of pounds of public money, which, if spent locally, can make a big difference to the way that their local economies are stimulated. Wrexham has invested in solar panels on social housing, again helping important local businesses. In Newport, work has started on the city centre redevelopment. Conwy County Borough Council is the first council in Wales to introduce a local mortgage scheme, thereby helping first-time buyers onto the housing ladder. It is an initiative that is being copied by a number of councils around Wales, and one which I would like to see the Welsh Government take forward in helping first-time buyers get the homes for which they can afford to pay the mortgage but not the deposit. The investment that local councils are able to put into their area through their policies is crucial in terms of not only delivering value for money but improving the economy for which they are responsible.

Yn Abertawe, mae gennym yr ardal gwella busnes o amgylch canol y ddinas, sy'n cynhyrchu buddsoddiad ychwanegol drwy ychwanegu rhywfaint at ardrethi busnes. Mae'r cyngor ar fin dechrau ar raglen o fuddsoddi £18 miliwn mewn tai cyngor dros y tair blynedd nesaf. Yn bwysicach na hynny fodd bynnag, mae'r cyngor yn gwneud hynny mewn modd sy'n ei alluogi i roi gwaith i brentisiaid newydd a chyflogi gweithwyr ychwanegol, gan roi sgiliau ychwanegol iddynt gyflawni'r gwaith. Mae'r cyngor hefyd wedi mynd ati'n fwriadol i anelu cyfran fawr o'i wariant at fusnesau lleol, gan sicrhau ei fod yn gallu ychwanegu gwerth a chreu lluosydd lleol o ganlyniad i'r arian y mae'n ei wario. Mae cynghorau yng Nghymru yn gwario biliynau o bunnoedd o arian cyhoeddus, ac os caiff yr arian hwnnw ei wario'n lleol gall wneud gwahaniaeth mawr i'r modd y caiff eu heconomi leol ei hysgogi. Mae cyngor Wrecsam wedi buddsoddi mewn paneli solar ar dai cymdeithasol, sydd unwaith eto'n helpu busnesau lleol pwysig. Yng Nghasnewydd, mae gwaith wedi dechrau ar ailddatblygu canol y ddinas. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw'r cyngor cyntaf yng Nghymru i gyflwyno cynllun morgeisi lleol, sy'n helpu prynwyr tro cyntaf i gael troedle yn y farchnad dai. Mae'n fenter y mae nifer o gynghorau eraill ledled Cymru yn ei hefelychu, ac mae'n fenter yr hoffwn weld Llywodraeth Cymru yn ei datblygu er mwyn helpu prynwyr tro cyntaf i gael y cartrefi y gallant fforddio talu'r morgais ar eu cyfer ond nid y blaendal. Mae'r buddsoddiad y mae cynghorau lleol yn gallu ei wneud yn eu hardal drwy eu polisïau yn hollbwysig nid yn unig o safbwynt rhoi gwerth am arian ond hefyd o ran gwella'r economi y maent yn gyfrifol amdani.

When you look at what the motion states in relation to sustainability, the use of that money in local businesses not only generates more business rates, but also generates additional investment in the local area. I would recommend to the Welsh Government that it looks at the example of the UK Government, which is considering a new initiative whereby business rates are able to be retained by local authorities and they are

Pan fyddwch yn edrych ar yr hyn a nodir yn y cynnig o safbwynt cynaliadwyedd, mae'r defnydd y mae busnesau lleol yn ei wneud o'r arian hwnnw yn cynhyrchu buddsoddiad ychwanegol yn yr ardal leol, yn ogystal â chreu mwy o ardrethi busnes. Byddwn yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar yr esiampl a gynigir gan Lywodraeth y DU, sy'n ystyried menter newydd lle y gall awdurdodau lleol gadw ardrethi busnes, a lle

able to invest and borrow against future income from those business rates in areas where there is a need for regeneration. That is one initiative that the UK Government is taking forward that is well worth duplicating here. As the motion states, it is important that local authorities are good, responsible employers. I commend those authorities that have managed to make savings, particularly back-office savings, without having to cut staff salaries or having to, effectively, force staff to take new terms and conditions. They have done that through negotiation instead, but have also done so in a way that enables staff to flourish in terms of frontline services. Those councils that have, effectively, cut staff pay and forced new terms and conditions upon them are setting very bad examples. There is a different way of doing this, if you have careful management.

y gallant fuddsoddi a benthyg yn erbyn yr incwm a geir yn y dyfodol o'r ardrethi busnes hynny mewn ardaloedd lle y mae angen gwneud gwaith adfywio. Dyna un fenter y mae Llywodraeth y DU yn ei datblygu sy'n sicr yn werth ei dyblygu yng Nghymru. Fel y mae'r cynnig yn ei nodi, mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn gyflogwyr da a chyfrifol. Cymeradwyaf yr awdurdodau hynny sydd wedi llwyddo i wneud arbedion, yn enwedig arbedion cefn swyddfa, heb orfod torri cyflogau staff neu orfodi staff i gymryd telerau ac amodau newydd i bob pwrpas. Yn hytrach maent wedi gwneud yr arbedion hynny drwy drafod, ond maent hefyd wedi gwneud hynny mewn modd sy'n galluogi staff yn y gwasanaethau rheng flaen i ffynnu. Mae'r cynghorau hynny sydd i bob pwrpas wedi torri cyflogau staff a gorfodi telerau ac amodau newydd arnynt yn gosod esiampl wael iawn. Mae ffordd wahanol o wneud yr arbedion, os byddwch yn rheoli pethau'n ofalus.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Conclude, please.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Gorffennwch, os gwelwch yn dda.

**Peter Black:** There are some very good examples out there, and I would commend them to the Chamber as a way forward.

**Peter Black:** Ceir rhai enghreifftiau da iawn ar lawr gwlad, a byddwn yn eu cymeradwyo i'r Siambr fel ffordd ymlaen.

**Alun Ffred Jones:** Rwyf am ganolbwyntio ar gymal b), sef bod awdurdodau lleol yn hanfodol i gynaliadwyedd economïau lleol. Nid oes angen imi bwysleisio'r cyd-destun cyffredinol anodd. Bu cynnydd o ryw 7,000 yn lefelau diweithdra Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae bron i chwarter ein pobl ifanc o dan 24 oed yn ddi-waith, ac, yn rhai siroedd yng Nghymru, mae 10 o bobl yn chwilio am bob swydd sydd ar gael. Heddiw, clywsom fod yr economi ar draws Prydain bellach yn swyddogol mewn dirwasgiad, a hynny'n rhannol oherwydd lleihad yn y maes adeiladu. Dyna pam mae Plaid Cymru, yn gyson ar hyd y flwyddyn ddiwethaf, wedi bod yn dweud wrth y Llywodraeth yng Nghymru bod rhaid darganfod adnoddau ariannol ychwanegol er mwyn buddsoddi mewn isadeiledd, boed hynny yn ysgolion, adeiladau iechyd neu'r system drafnidiaeth. Dyna'r unig arf sylweddol sydd gan y Llywodraeth at ei galw, mewn gwirionedd.

**Alun Ffred Jones:** I would like on concentrate on clause b), namely that local authorities are vital to the sustainability of local economies. There is no need for me to emphasise the difficult general context. There has been a rise of some 7,000 in unemployment rates in Wales over the past year. Almost a quarter of our young people under the age of 24 are unemployed, and, in some counties of Wales, there are 10 applicants for every vacant post. Today, we have heard that the economy across Britain is now officially in recession, partly because of the downturn in the construction industry. That is why Plaid Cymru has been telling the Government in Wales consistently over the past year that additional financial resources must be found to invest in infrastructure, whether in schools, health service buildings or the transport system. That is the only significant weapon in the Government's armoury, to be honest.

Rwyf hefyd yn galw ar y Llywodraeth i

I also call on the Government to re-establish

ailsefydlu'r uwchgynadleddau economaidd yn wyneb y bygythiad dwbl hwn o golledion pellach yn y sector cyhoeddus a'r dirwasgiad cyffredinol. Er na all y cynghorau lleol ar eu pen eu hunain wneud dim am y cefndir hwnnw, maent yn gallu gwneud gwahaniaeth yn lleol. Rwy'n falch iawn o'r arweiniad y mae Plaid Cymru wedi ei ddangos mewn siroedd. Mae Rhodri Glyn wedi cyfeirio at weithgarwch yng Nghaerdydd, sydd wedi diogelu 600 o swyddi, ac mae gweithgarwch wedi bod yng Ngwynedd, lle mae cronfa wedi diogelu swyddi. Mae honno'n gronfa o fenthyciadau, sy'n golygu y gall yr arian hwnnw gael ei ailgylchu. Yng Nghonwy a Chaerffili, mae enghreifftiau o arfer da y gellir eu hailadrodd ar hyd a lled Cymru. Nid wyf yn honni mai cynghorau Plaid Cymru yn unig sydd yn gwneud gwaith o'r fath.

the economic summits in the face of this double danger of further losses in the public sector and the recession generally. Although local councils alone cannot themselves do anything about that background, they can make a difference locally. I am very proud of the leadership that Plaid Cymru has shown in some counties. Rhodri Glyn has referred to action in Cardiff, which has secured 600 jobs, and there has also been activity in Gwynedd, where a fund has safeguarded jobs. That is a fund made up of loans, which means that the money can be recycled. In Conwy and Caerphilly, there are further examples of good practice that could be replicated throughout Wales. I am not trying to claim that it is only Plaid Cymru-led councils that are undertaking that kind of work.

We also want to expand local procurement through building on the previous work of the One Wales Government. Councils spend up to £7 billion per year on services, and Plaid Cymru wants more of this money to be circulated in Wales.

Rydym hefyd am ehangu'r broses gaffael leol trwy adeiladu ar y gwaith a wnaed yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru'n Un. Mae cynghorau'n gwario hyd at £7 biliwn y flwyddyn ar wasanaethau, ac mae Plaid Cymru am i ragor o'r arian hwn gylchdroi yng Nghymru.

In Gwynedd recently, a tender for suppliers of food to schools and care homes was divided into various lots, and 98% of those tenders were won by companies from Gwynedd or Anglesey. That is what can be achieved through co-operation and through ensuring that local businesses are attuned to the needs of local government.

Yng Ngwynedd yn ddiweddar cafodd tendr ar gyfer cyflenwyr bwyd i ysgolion a chartrefi gofal ei rannu'n wahanol lotiau, ac enillodd cwmnïau o Wynedd neu Ynys Môn 98% o'r lotiau hynny. Dyna y gellir ei gyflawni trwy gydweithio a sicrhau bod busnesau lleol yn gyfarwydd ag anghenion llywodraeth leol.

On housing, Peter Black referred to Conwy County Borough Council, where Plaid leads a coalition: the council introduced a £1 million housing bond to help first-time buyers. That involves the council putting up a bond that will allow the banks and building societies to lend more. That is a truly innovative scheme, only available within the county. Conwy council can be proud of this initiative, which will stimulate the economy and get the housing market moving.

O ran tai, cyfeiriodd Peter Black at Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, lle y mae Plaid Cymru yn arwain clymblaid: cyflwynodd y cyngor fond tai gwerth £1 filiwn i helpu prynwyr tro cyntaf. Mae hynny'n golygu bod y cyngor yn cynnig bond sy'n caniatáu i'r banciau a'r cymdeithasau adeiladu roi benthyg mwy o arian. Mae hwnnw'n gynllun gwirioneddol arloesol, sydd ar gael yng Nghonwy yn unig. Gall cyngor Conwy fod yn falch o'r fenter hon, sy'n fenter a fydd yn ysgogi'r economi ac yn rhoi hwb i'r farchnad dai.

These are the priorities that Plaid Cymru is setting out. Plaid Cymru-governed councils will be implementing policy programmes along these lines when they are elected next week. Plaid Cymru is the only party using these elections to focus on the economy and

Dyma'r blaenoriaethau sydd gan Blaid Cymru. Bydd cynghorau a gaiff eu rheoli gan Blaid Cymru yn gweithredu rhaglenni polisi tebyg i hynny pan gânt eu hethol yr wythnos nesaf. Plaid Cymru yw'r unig blaid sy'n defnyddio'r etholiadau hyn i ganolbwyntio ar

jobs, because that is the priority in Wales at the moment. Although councils have limited capacity, with innovative and creative thinking, they can make a difference to local economies.

yr economi a swyddi, oherwydd dyna'r flaenoriaeth yng Nghymru ar hyn o bryd. Er bod y gallu sydd gan gynghorau'n gyfyngedig, gallant wneud gwahaniaeth i economïau lleol dim ond iddynt feddwl mewn modd arloesol a chreadigol.

**Jenny Rathbone:** The Wales Audit Office report, 'A Picture of Public Services 2011', strongly underlines the challenges ahead for local government and notes that very difficult decisions will have to be made and that excellent leadership will be required. Therefore, I agree with the Lib Dem amendment to the Plaid motion on the importance of electing councillors with a vision for improving local services.

**Jenny Rathbone:** Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2011', yn pwysleisio'n gryf yr heriau sy'n wynebu llywodraeth leol, ac mae'n nodi y bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd iawn ac y bydd angen arweinyddiaeth ragorol. Felly, rwyf yn cytuno â gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol i'r cynnig a wnaed gan Blaid Cymru ynghylch pwysigrwydd ethol cynghorwyr sydd â gweledigaeth ar gyfer gwella gwasanaethau lleol.

However, I am sure that Peter Black will not be surprised to know that I do not think that the Lib Dems have demonstrated such a vision during the past eight years on Cardiff Council. One reason for this is the state of the bus station, which Carl Sargeant referred to. It is the showcase and the entrance to Cardiff for those arriving by train; it makes some students get straight back on the train without even bothering to go to the university where they have an interview, and it puts off prospective businesses. However, more seriously for the residents that I represent, it must have had serious implications for air quality. Air quality along Newport Road has seriously deteriorated as a result of more people choosing to drive into Cardiff to get to work. That is because of the Lib Dems' lack of an integrated transport policy, which does not enable people to arrive by train and transfer easily to bus to get to their ultimate destination.

Fodd bynnag, rwyf yn siŵr na fydd Peter Black yn synnu o glywed nad wyf o'r farn i'r Democratiaid Rhyddfrydol ddangos gweledigaeth o'r fath yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf ar gyngor Caerdydd. Un rheswm am hyn yw cyflwr yr orsaf fysiau, sy'n bwynt y cyfeiriodd Carl Sargeant ato. Dyma'r fynedfa i Gaerdydd i'r sawl sy'n cyrraedd ar y trên, a dylai ddangos y ddinas ar ei gorau; ond yn hytrach mae'n peri i rai myfyrwyr neidio'n ôl ar y trên ar unwaith heb hyd yn oed drafferthu mynd i'r cyfweliad sydd ganddynt yn y brifysgol, ac nid yw'n gwneud dim i ddenu darpar fusnesau. Fodd bynnag, ac mae hwn yn bwynt mwy difrifol i'r trigolion yr wyf yn eu cynrychioli, mae'n rhaid bod yr orsaf wedi cael goblygiadau difrifol ar gyfer ansawdd yr aer. Mae ansawdd yr aer ar hyd Heol Casnewydd wedi dirywio'n sylweddol o ganlyniad i'r ffaith bod rhagor o bobl yn dewis gyrru i Gaerdydd i gyrraedd y gwaith. Mae hynny oherwydd diffyg polisi trafnidiaeth integredig gan y Democratiaid Rhyddfrydol, sy'n golygu na all pobl gyrraedd ar y trên a throsglwyddo'n hawdd i fws er mwyn cyrraedd pen eu taith.

The latest little idea being dished up by the Lib Dem candidates is that residents in the city centre areas of Cardiff Central will be allowed to have a resident parking permit free of charge, which is a huge perverse incentive for every single household to get a parking permit, whether they have a car or not, because there will be commuters who

Y syniad diweddaraf a gyflwynir gan ymgeiswyr y Democratiaid Rhyddfrydol yw y bydd trigolion yn y rhannu hynny o etholaeth Canol Caerdydd sydd yng nghanol y ddinas yn cael yr hawl i gael trwydded parcio i breswylwyr yn rhad ac am ddim, sy'n gymhelliant rhyfedd iawn i bob aelwyd gael trwydded parcio, ni waeth a oes

will be happy to take up that opportunity. That is hardly a way of contributing towards reducing the climate change problem that we have, never mind the respiratory problems that result from poor air quality.

ganddynt gar ai peidio, oherwydd bydd llawer o gymudwyr yn falch iawn o fanteisio ar y cyfle hwnnw. Go brin bod honno'n ffordd dda o gyfrannu at leihau'r broblem sydd gennym o ran y newid yn yr hinsawdd, heb sôn am y problemau anadlu sy'n deillio o ansawdd aer gwael.

**Eluned Parrott:** How much would you charge?

**Eluned Parrott:** Faint byddech chi'n ei godi?

**Jenny Rathbone:** There is already a charge. Of course, they say nothing about what services that they would cut to provide this bung.

**Jenny Rathbone:** Codir tâl eisoes. Wrth gwrs, nid ydynt yn dweud dim am y gwasanaethau y byddent yn eu torri i swcro pobl fel hyn.

I will now move on to the education service. Embarrassingly, Cardiff, our capital city, has an education service that is deemed 'adequate'. After eight years of weaving and wefting in trying to eliminate school places by closing local schools, when there are plenty of other ways of going about that, including attempting to rebuild—

Symudaf ymlaen yn awr at y gwasanaeth addysg. Mae'n gywilydd bod gan Gaerdydd, ein prifddinas, wasanaeth addysg a gaiff ei ystyried yn 'ddigonol'. Ar ôl wyth mlynedd o ymlafnio i geisio dileu lleoedd gwag mewn ysgolion trwy gau ysgolion lleol, pan fo digon o ffyrdd eraill o wneud hynny, gan gynnwys ceisio ailadeiladu—

**Peter Black** *rose*—

**Peter Black** *a gododd*—

**Jenny Rathbone:** You have already had an opportunity to speak, Peter. [*Interruption.*]

**Jenny Rathbone:** Rydych eisoes wedi cael cyfle i siarad, Peter. [*Torri ar draws*.]

**The Deputy Presiding Officer:** Order. The Member is not giving way.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Nid yw'r Aelod am ildio.

4.45 p.m.

**Jenny Rathbone:** It included an attempt to build on Rumney recreation ground, in the face of the opposition of the whole community. My surgeries are now full of people saying that they are unable to get their child into primary or nursery schools. They include a single parent with three children who cannot get her second child into the school that is 200 yards away from where she lives. She has no car but the nursery place that has been offered to her child is a mile and half up a hill—with a third child, a toddler, in tow. That is because the local education authority tells us that it has lost her application. It should be perfectly possible for the education service to map the predicted numbers of places required but, sadly, that is not happening in Cardiff.

**Jenny Rathbone:** Roedd yn cynnwys ymgais i adeiladu ar faes chwarae Tredelerch, yn wyneb gwrthwynebiad gan y gymuned gyfan. Erbyn hyn, mae fy nghymorthfeydd yn llawn pobl sy'n dweud na allant gael lle i'w plentyn mewn ysgol gynradd neu ysgol feithrin. Mae'r bobl hynny'n cynnwys rhiant sengl â thri o blant nad yw'n gallu cael lle i'w hail blentyn yn yr ysgol sydd 200 llath i ffwrdd o'r man lle y mae'n byw. Nid oes ganddi gar, ond mae ei phlentyn wedi cael cynnig lle mewn ysgol feithrin sydd filltir a hanner i ffwrdd i fyny'r rhiw, a rhaid iddi gerdded i fyny'r rhiw honno i'r ysgol feithrin gan fynd â'i thrydydd plentyn bach gyda hi. Mae hynny oherwydd bod yr awdurdod addysg lleol yn dweud wrthym iddo golli ei chais. Dylai fod yn gwbl bosibl i'r gwasanaeth addysg fapio nifer y lleoedd y rhagwelir y bydd eu hangen ond, yn anffodus, nid yw hynny'n digwydd yng Nghaerdydd.

We then had the so-called regeneration of Clifton Street, where £1 million of Welsh Government money was misspent on a one-way system that no-one wanted, and which was just dreamed up by some consultant. Traders have been begging for it to be reversed, but they have not been listened to by Cardiff Council. Perhaps the worst decision is that by the executive member for the ward in which it is happening not to have a partnership with the health service. What is more important than partnership with health? The Liberal Democrats' plan is to redevelop the Maelfa shopping centre without including the health centre, which means that the people of the area would not have a health centre that is fit for purpose. They would therefore have to receive health services out of a Portakabin. A more dangerous decision I have never come across.

Yna, cawsom yr hyn a elwir yn adfywio ar Clifton Street, lle y cafodd £1 filiwn o arian Llywodraeth Cymru ei gamwario ar system un ffordd nad oedd neb ei heisiau ac a gafodd ei dyfeisio ym mhen rhyw ymgynghorydd. Mae masnachwyr wedi bod yn ymbil am i'r datblygiad gael ei wrthdroi, ond nid yw cyngor Caerdydd wedi gwrando arnynt. Efallai mai'r penderfyniad gwaethaf yw'r penderfyniad gan yr aelod gweithredol dros y ward lle y mae'r datblygiad hwn yn digwydd i beidio â chael partneriaeth â'r gwasanaeth iechyd. Beth sy'n bwysicach na phartneriaeth â'r gwasanaeth iechyd? Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn bwriadu ailddatblygu canolfan siopa Maelfa heb gynnwys y ganolfan iechyd, sy'n golygu na fyddai gan bobl yr ardal honno ganolfan iechyd sy'n addas i'w diben. Felly, byddai'n rhaid i wasanaethau iechyd gael eu darparu iddynt mewn caban. Nid wyf erioed wedi dod ar draws penderfyniad mwy peryglus.

**Lindsay Whittle:** I have a confession to make, because it is good for the soul, is it not?

**Lindsay Whittle:** Mae gennyf gyfaddefiad i'w wneud, gan fod hynny'n dda i'r enaid, onid ydyw?

**Mick Antoniw:** Do you do it regularly?

**Mick Antoniw:** A ydych yn gwneud hynny'n rheolaidd?

**Lindsay Whittle:** I try to. I want to confess that I love local government. I was that geeky schoolboy at 14 years of age who used to go straight from Caerphilly Boys' Grammar School to meetings of the Caerphilly Urban District Council. I was the only person ever in the public gallery. I have been attending council meetings for 45 years now, and I have served on four different councils consecutively as a councillor for 36 years. I am standing again next week, because I think it important that the link between local government and national Government be maintained in Wales.

**Lindsay Whittle:** Rwyf yn ceisio gwneud. Rwyf am gyfaddef fy mod wedi dotio ar lywodraeth leol. Fi oedd y bachgen ysgol rhyfedd hwnnw a arferai fynd yn syth o Ysgol Ramadeg y Bechgyn Caerffili i gyfarfodydd Cyngor Dosbarth Trefol Caerffili pan oeddwn yn 14 mlwydd oed. Fi oedd yr unig berson yn yr oriel gyhoeddus bob tro. Rwyf wedi bod yn mynychu cyfarfodydd cyngor am 45 mlynedd bellach, ac rwyf wedi gwasanaethu fel cynghorydd ar bedwar cyngor gwahanol yn olynol am 36 o flynyddoedd. Byddaf yn sefyll unwaith eto'r wythnos nesaf, gan fy mod o'r farn ei bod yn bwysig cynnal y cysylltiad rhwng llywodraeth leol a Llywodraeth genedlaethol yng Nghymru.

We are unique in Wales in that many councillors across the country, regardless of their politics, know and understand each other. That can be a good thing and a bad thing, but I want to pay tribute to the thousands of council workers in this country who, in my lifetime of being a councillor,

Rydym yn unigryw yng Nghymru gan fod llawer o gynghorwyr ar draws y wlad, waeth beth fo'u gwleidyddiaeth, yn adnabod ac yn deall ei gilydd. Gall hynny fod yn beth da ac yn beth drwg, ond hoffwn roi teyrnged i'r miloedd sy'n gweithio mewn cynghorau yn y wlad hon sydd, yn ystod fy amser i yn

have gone that extra mile in their jobs to serve the public that we represent. We never get to hear about them. These people are the unsung heroes and not so much the councillors, with respect to all dedicated and hard-working councillors.

gynghorydd, wedi gwneud mwy nag sydd raid yn eu swydd i wasanaethu'r cyhoedd yr ydym yn ei gynrychioli. Nid ydym byth yn cael clywed amdanynt. Y bobl hyn ac nid yn gymaint y cynghorwyr yw'r arwyr anhysbys, a dywedaf hynny â phob parch i bob cynghorydd ymroddedig a gweithgar.

We know that local authorities in Wales are facing difficult times. Difficult financial pressures will be coming to them all. In this difficult context, the record of one council in particular means that it really could be identified as one of Wales's most progressive councils. Caerphilly council's finances have been managed in such a way as to make a council tax freeze possible without needing any central Government diktat, as the Welsh Conservatives are calling for. Plaid Cymru does not support a national council tax freeze, as has happened in England and Scotland, because tax levels here are different from those in England. The funding settlement to Scotland is also more generous. Caerphilly chose to freeze council tax to help hard-pressed families. That was Caerphilly council's own decision, and Plaid Cymru is clear that decisions on council tax must be made by every individual council. Just as we want Wales to control its own tax rates where possible, we do not support a blanket all-Wales policy on council tax, because each authority, regardless of politics, has its own needs and circumstances.

Gwyddom fod awdurdodau lleol yng Nghymru yn wynebu cyfnod anodd. Bydd pob un ohonynt yn wynebu pwysau ariannol anodd. Yn y cyd-destun anodd hwn, mae hanes un cyngor yn benodol yn golygu y gallai yn wir gael ei ystyried yn un o gynghorau mwyaf blaengar Cymru. Mae cyllid cyngor Caerffili wedi'i reoli mewn modd sy'n golygu y gellir rhewi'r dreth gyngor heb fod angen dim dictad gan Lywodraeth ganolog, sef yr hyn y mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn galw amdano. Nid yw Plaid Cymru yn cefnogi rhewi'r dreth gyngor ar hyd a lled y wlad, fel sydd wedi digwydd yn Lloegr a'r Alban, gan fod lefelau treth yng Nghymru yn wahanol i lefelau treth yn Lloegr. Mae'r setliad ariannol a roddwyd i'r Alban yn fwy hael hefyd. Dewisodd cyngor Caerffili rewi'r dreth gyngor i helpu teuluoedd sydd dan bwysau. Penderfyniad cyngor Caerffili ei hun oedd hynny, ac mae Plaid Cymru yn mynnu bod yn rhaid i bob cyngor yn unigol wneud penderfyniadau am y dreth gyngor. Yn yr un modd ag yr ydym am i Gymru reoli ei chyfraddau treth ei hun lle y bo hynny'n bosibl, nid ydym yn cefnogi cael un polisi ar y dreth gyngor i Gymru gyfan, oherwydd mae gan bob awdurdod, waeth beth yw ei wleidyddiaeth, ei anghenion a'i amgylchiadau ei hun.

In Caerphilly, £17 million-worth of efficiency savings have been found without having a significant impact on front-line services and local jobs. That is the kind of financial management that has enabled Plaid Cymru to keep council tax in the borough frozen, not just this coming year, but last year as well. That is an historic first in Wales. At the same time, there are inevitable pressures on jobs, and the council has completed its job evaluation exercise. There is a bit of a difference between Caerphilly and other councils because three quarters of the staff balloted by the unions supported the Plaid Cymru deal that was put on the table. Our engagement with the trade unions was very

Yng Nghaerffili, gwnaed gwerth £17 miliwn o arbedion effeithlonrwydd heb i hynny gael effaith sylweddol ar wasanaethau rheng flaen a swyddi lleol. Dyna'r math o reolaeth ariannol sydd wedi galluogi Plaid Cymru i rewi'r dreth gyngor yn y fwrdeistref nid yn unig yn y flwyddyn sydd i ddod ond y llynedd hefyd. Mae hynny'n hanesyddol, gan mai dyna'r tro cyntaf erioed i hynny ddigwydd yng Nghymru. Ar yr un pryd, mae pwysau anochel ar swyddi, ac mae'r cyngor wedi cwblhau ei ymarfer gwerthuso swyddi. Ceir tipyn o wahaniaeth rhwng cyngor Caerffili a chynghorau eraill, gan y gwelwyd bod tri chwarter y staff yr holwyd am eu barn gan yr undebau yn cefnogi'r cynnig a

constructive indeed, unlike what has perhaps happened with our neighbours in Rhondda Cynon Taf and our fairly good neighbours in Neath Port Talbot. I probably should not even go to Neath Port Talbot because of the difficulties going on there—[*Interruption.*] I cannot accept interventions because I really need to go canvassing tonight and I do not want to waste time. [*Laughter*.]

gyflwynwyd gan Blaid Cymru. Roedd ein hymgysylltiad â'r undebau llafur yn adeiladol iawn, yn wahanol i'r hyn sydd efallai wedi digwydd gyda'n cymdogion yn Rhondda Cynon Taf, a'r hyn sydd wedi digwydd gyda'n cymdogion llai agos yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae'n debyg na ddylwn sôn am Gastell-nedd Port Talbot hyd yn oed oherwydd y trafferthion a geir yno—[*Torri ar draws*.] Ni allaf dderbyn ymyriadau oherwydd bod yn rhaid imi fynd i ganfasio heno ac nid wyf am wastraffu amser. [*Chwerthin*.]

On apprenticeships, given the current focus on youth unemployment, it is pleasing, as Rhodri Glyn said, that 160 youngsters have benefited from a council-run apprenticeship scheme. We need every local authority to do that.

O ran prentisiaethau, o ystyried y ffocws a geir ar hyn o bryd ar ddiweithdra ymhlith pobl ifanc, mae'n beth da, fel y dywedodd Rhodri Glyn, bod 160 o bobl ifanc wedi elwa o gynllun prentisiaethau a drefnwyd gan y cyngor. Mae angen i bob awdurdod lleol wneud hynny.

Regeneration is vital. The final area of progress that must be recognised when it comes to the economy is regeneration. Some of the key work that local councils do in all our communities includes investment in town centres. It would be remiss of me not to mention Bargoed, where there has been investment in leisure facilities and improvements to street furniture and the urban environment. That inevitably increases footfall in our town centres. The work that Jocelyn Davies did in the previous Welsh Government enabled regeneration money to be dispersed to many local authorities across Wales. Local authorities also play an important part when it comes to events. In fact, we should commend Caerphilly's record on that, as it secured the World Indoor Bowls Championship and the Tour of Britain cycle race among many other things.

Mae adfywio yn hanfodol. Y maes olaf y mae'n rhaid ei gydnabod o safbwynt gwneud cynydd yn yr economi yw adfywio. Mae rhywfaint o'r gwaith allweddol y mae cynghorau lleol yn ei wneud ym mhob un o'n cymunedau yn cynnwys buddsoddi mewn canol trefi. Byddwn ar fai pe na bawn yn sôn am Fargoed, lle y cafwyd buddsoddiad mewn cyfleusterau hamdden a gwelliannau i ddodrefn stryd a'r amgylchedd trefol. Mae'n anochel bod hynny'n cynyddu nifer yr ymwelwyr â chanol ein trefi. Roedd y gwaith a wnaed gan Jocelyn Davies yn Llywodraeth flaenorol Cymru wedi caniatâu i arian ar gyfer adfywio gael ei rannu ymysg llawer o awdurdodau lleol ledled Cymru. Mae awdurdodau lleol yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gynnal digwyddiadau hefyd. Yn wir, dylem gymeradwyo llwyddiant cyngor Caerffili yn hynny o beth, gan iddo sicrhau bod Pencampwriaeth y Byd Bowlio Dan Do a ras beicio Taith Prydain, ymysg digwyddiadau eraill, yn dod i'r ardal.

I will not even begin to talk about our success with regard to new libraries, recycling and our record on procurement, which is second to none. The list is endless. However, this is not a party political broadcast after all, is it? [*Laughter*.]

Nid wyf am ddechrau sôn hyd yn oed am ein llwyddiant mewn perthynas â llyfrgelloedd newydd, ailgylchu a'n hanes o ran caffael, sydd heb ei ail. Mae'r rhestr yn ddiddiwedd. Fodd bynnag, mae'n siŵr y cytunwch nad darllediad gwleidyddol mo hwn wedi'r cyfan. [*Chwerthin*.]

Let us go to Cardiff, because we have heard

Gadewch inni fynd i Gaerdydd, oherwydd

much about Cardiff, where Plaid Cymru has some influence—

rydym wedi clywed llawer am Gaerdydd, lle y mae gan Blaid Cymru rywfaint o ddylanwad—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Conclude please.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Gorffennwch, os gwelwch yn dda.

**Lindsay Whittle:** I will conclude. The key destination now, not just for rugby and football but for—

**Lindsay Whittle:** Rwyf ar fin gorffen. Dyma'r brif gyrchfan yn awr, nid yn unig ar gyfer rygbi a phêl-droed, ond ar gyfer—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. I call Suzy Davies.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Galwaf ar Suzy Davies.

**Suzy Davies:** It really is not a surprise that we are all talking about local authorities today, is it? However, nor is it a surprise that this motion has attracted only minimal amendment. We surely all support the principle of sharing good practice and the assertion that local authorities should be good, responsible employers. I know that I will not be the only South Wales West Member here to be disappointed by the job evaluation process conducted by the Labour council that represents the constituents of the First Minister and the Government Chief Whip. I will be surprised if we do not hear more about that over the course of the debate. We all value the sort of public services provided by our local councils, but residents can get exasperated by how local councils choose to prioritise spending on services, and they find it difficult to scrutinise how efficiently and effectively they deliver those services, something that Antoinette Sandbach raised in the last debate. Members will remember the Welsh Conservative debate on this issue before recess.

**Suzy Davies:** Mae'n siŵr y cytunwch nad yw'n ddim syndod mewn gwirionedd ein bod i gyd yn trafod awdurdodau lleol heddiw. Fodd bynnag, nid yw'n syndod chwaith i'r cynnig hwn ddenu nifer fach iawn o welliannau. Does bosibl nad ydym i gyd yn cefnogi'r egwyddor o rannu arfer da a'r farn y dylai awdurdodau lleol fod yn gyflogwyr da a chyfrifol. Gwn nad fi fydd yr unig Aelod yma o ranbarth Gorllewin De Cymru i gael fy siomi gan y broses gwerthuso swyddi a gynhaliwyd gan y cyngor Llafur sy'n cynrychioli etholwyr y Prif Weinidog a Phrif Chwip y Llywodraeth. Byddaf yn synnu os na chlywn ragor am hynny wrth i'r ddadl hon fynd rhagddi. Mae pob un ohonom yn gwerthfawrogi'r math o wasanaethau cyhoeddus a ddarperir gan ein cynghorau lleol, ond gall trigolion gael eu gwylltio gan y modd y mae cynghorau lleol yn dewis blaenoriaethu eu gwariant ar wasanaethau, ac maent yn ei chael yn anodd craffu ar ba mor effeithlon ac effeithiol y maent yn darparu'r gwasanaethau hynny. Mae hwn yn bwynt a godwyd gan Antoinette Sandbach yn ystod y ddadl ddiwethaf. Bydd yr Aelodau yn cofio'r ddadl a gafwyd gan y Ceidwadwyr Cymreig ynghylch y mater hwn cyn y toriad.

The Welsh Conservative amendment, however, is more a matter of balance and emphasis than disagreement with the assertion that local authorities are major players in the sustainability of local economies. I hope that Members will see it that way when it comes to the vote. However, as I have said previously in the Chamber, some of us are thinking in wider terms. We are asking different questions. We are asking whether, under this Welsh Labour Government, local authorities are as free as

Mae'r gwelliant a gynigir gan y Ceidwadwyr Cymreig, fodd bynnag, yn ymwneud mwy â phwyslais a sicrhau cydbwysedd nag anghytundeb â'r farn bod awdurdodau lleol yn chwarae rhan bwysig wrth sicrhau bod economïau lleol yn gynaliadwy. Gobeithiaf mai dyna sut y bydd yr Aelodau yn ei gweld hi pan ddaw'n bryd pleidleisio. Fodd bynnag, fel yr wyf wedi'i ddweud o'r blaen yn y Siambr, mae rhai ohonom yn meddwl yn ehangach. Rydym yn gofyn cwestiynau gwahanol. Rydym yn gofyn a yw

they have been in the past to make their own decisions. We are asking whether, rather than power moving back from councils to central Government, now might be the time to begin to open up the design and delivery of public services to the people who benefit from them. I have said before that every one of us can point to a community group, a large voluntary organisation, a co-operative or a mutual, a social enterprise or even a more traditional private business that grew out of a jointly identified need in our constituency or region that was not being addressed.

awdurdodau lleol yr un mor rhydd ag y buont yn y gorffennol i wneud eu penderfyniadau eu hunain dan y Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru. Rydym yn gofyn a yw'n bryd dechrau rhoi'r cyfle i'r bobl sy'n cael budd o wasanaethau cyhoeddus eu cynllunio a'u darparu, yn hytrach na symud pŵer yn ôl o'r cynghorau i Lywodraeth ganolog. Rwyf wedi dweud o'r blaen y gall pob un ohonom enwi grŵp cymunedol, mudiad gwirfoddol mawr, corff cydweithredol neu gydfuddiannol, menter gymdeithasol neu hyd yn oed busnes preifat mwy traddodiadol sydd wedi deillio o angen a nodwyd ar y cyd yn ein hetholaeth neu'n rhanbarth nad oedd yn cael ei ddiwallu.

Some council departments are obviously more willing than others to turn to these citizen bodies to meet local needs. Through service level agreements and other procurement, they are prepared to trust communities and repatriate work to this pool of social capital to deliver public services. Partnership does not just mean public bodies working with other public bodies, but it also goes beyond councils just delegating work. Community action and the third and independent sectors should not just be a way of dressing up the Government's work and doing it in the Government's way. Public service can be a matter for the public and not just for government, local or otherwise.

Mae'n amlwg bod rhai adrannau mewn cynghorau yn fwy parod nag eraill i droi at y cyrff hyn a gaiff eu rhedeg gan ddinasyddion i ddiwallu anghenion lleol. Trwy gytundebau lefel gwasanaeth a dulliau eraill o gaffael, maent yn barod i ymddiried mewn cymunedau a symud gwaith yn ôl i'r gronfa hon o gyfalaf cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nid yw partneriaeth yn golygu cyrff cyhoeddus yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill yn unig, ond mae hefyd yn mynd y tu hwnt i gynghorau'n dirprwyo gwaith yn unig. Ni ddylai gweithredu cymunedol a'r trydydd sector a'r sector annibynnol fod yn ffordd o ychwanegu at waith y Llywodraeth a'i wneud yn null y Llywodraeth yn unig. Gall gwasanaeth cyhoeddus fod yn fater i'r cyhoedd ac nid i'r llywodraeth yn unig, boed honno'n llywodraeth leol neu fel arall.

Therefore, I draw the Chamber's attention to Carers Direct South West Ltd, which was established in 2002 to provide care services in the community. It is not driven by profit, but by morals, ethics and commitment. SELDOC is a not-for-profit organisation that provides out-of-hours medical services to patients. North West Housing Services is another not-for-profit organisation, and is one of the largest providers of services to housing co-ops and small registered landlords. I will also mention Sir Thomas Boughey High School, a comprehensive school that has been designated a specialist building and enterprise college, which has been graded as 'outstanding'. All these organisations deliver public services outside the immediate control of the local authority, and what they all have

Felly, rwyf yn tynnu sylw'r Siambr at Carers Direct South West Ltd, a sefydlwyd yn 2002 i ddarparu gwasanaethau gofal yn y gymuned. Nid elw sy'n ei sbarduno, ond yn hytrach moesau, moeseg ac ymrwymiad. Mae SELDOC yn fudiad di-elw sy'n darparu gwasanaethau meddygol i gleifion y tu allan i oriau gwaith arferol. Mae North West Housing Services yn fudiad di-elw arall, ac mae'n un o'r cyrff mwyaf sy'n darparu gwasanaethau i fentrau tai cydweithredol a landlordiaid cofrestredig bach. Rwyf hefyd am sôn am Ysgol Uwchradd Syr Thomas Boughey, sy'n ysgol gyfun sydd wedi'i dynodi'n goleg busnes a menter arbenigol, sydd wedi'i ddisgrifio'n sefydliad 'rhagorol'. Mae pob un o'r sefydliadau a'r mudiadau hyn yn darparu gwasanaethau cyhoeddus y tu

in common is that they are co-ops.

allan i reolaeth uniongyrchol yr awdurdod lleol, a'r hyn sy'n gyffredin i bob un ohonynt yw eu bod yn gyrff cydweithredol.

In Europe and the US, co-ops have never been the province of the left as they are here. Co-ops should not be the province of any political party; nevertheless, we will all be aware of Plaid's leader's commitments to co-ops and there are members of the Government who are there on a Labour and Co-operative Party ticket. I will use this opportunity to remind Members in those parties of the Welsh Conservatives' assertion that local empowerment goes beyond a vote every four years in the local authority election. Councils need not fear partnerships with citizen groups, and central Government need not fear trusting public service delivery to citizen groups, such as those very co-ops that those parties support.

Yn Ewrop a'r Unol Daleithiau, nid yw cyrff cydweithredol erioed wedi bod yn rhywbeth sy'n perthyn i'r chwith fel y maent yn y wlad hon. Ni ddylai cyrff cydweithredol fod yn rhywbeth sy'n perthyn i unrhyw blaid wleidyddol; serch hynny, bydd pob un ohonom yn ymwybodol o'r ymrwymiadau a wnaed gan arweinydd Plaid Cymru i gyrff cydweithredol, a cheir rhai aelodau o'r Llywodraeth sydd yno dan enw'r Blaid Lafur a'r Blaid Gydweithredol. Cymeraf y cyfle hwn i atgoffa'r Aelodau hynny sy'n perthyn i'r pleidiau hynny ynghylch haeriad y Ceidwadwyr Cymreig, sef bod grymuso lleol yn mynd y tu hwnt i gael pleidlais bob pedair blynedd yn etholiad yr awdurdod lleol. Nid oes angen i gynghorau ofni partneriaethau â grwpiau dinasyddion, ac nid oes angen i Lywodraeth ganolog ofni ymddiried y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus i grwpiau dinasyddion, megis yr union gyrff cydweithredol hynny y mae'r pleidiau hynny'n eu cefnogi.

As for the Lib Dem amendment 2, which states that we should be looking for councillors with vision to drive up standards, I understand that, but perhaps they should be careful of what they wish for. Some Members may remember the vision of a particular Swansea councillor, which was expressed in a blue-sky thinking debate about how the council could use the lake in Singleton park to generate income. When a colleague argued that perhaps the council could introduce a gondola to the lake, the said councillor, a spokesman for education, agreed, and suggested in all seriousness that perhaps it could get a second one and see if they would breed.

O ran yr ail welliant a gyflwynir gan y Democratiaid Rhyddfrydol, sy'n datgan y dylem fod yn ceisio cael cynghorwyr sydd â gweledigaeth ar gyfer codi safonau. Rwyf yn deall hynny, ond efallai y dylent ofalu rhag i'w dymuniad ddod yn wir. Mae'n bosibl y bydd rhai Aelodau yn cofio gweledigaeth un cynghorydd arbennig o Abertawe, a gafodd ei mynegi mewn dadl meddwl heb orwelion ynghylch sut y gallai'r cyngor ddefnyddio'r llyn ym Mharc Singleton i gynhyrchu incwm. Pan gynigiodd un cydweithiwr efallai y gallai'r cyngor gyflwyno gondola i'r llyn, cytunodd y cynghorydd dan sylw, a oedd yn llefarydd dros addysg, ac awgrymodd o ddifrif efallai y gellid cael ail gondola i weld a fyddent yn bridio.

**Bethan Jenkins:** I will focus on local authorities as responsible employers. As we all know, the task of local authorities is undoubtedly becoming more difficult in these times of cuts inflicted on us by the UK Government. I fully appreciate and understand that there are difficult choices to be made and priorities that have to be met. However, the UK Government has clearly

**Bethan Jenkins:** Rwyf am ganolbwyntio ar awdurdodau lleol fel cyflogwyr cyfrifol. Fel y gwyddom i gyd, nid oes amheuaeth nad yw gwaith awdurdodau lleol yn mynd yn anos yn y cyfnod hwn o doriadau sy'n cael eu gorfodi arnom gan Lywodraeth y DU. Rwyf yn gwerthfawrogi ac yn deall yn iawn bod dewisiadau anodd i'w gwneud ac y ceir blaenoriaethau y mae'n rhaid eu bodloni.

singled out the public sector as a target for cuts and the impact of that is now being felt acutely in our communities. The first to be affected, of course, are our hard-working council staff. We in Plaid Cymru believe in a strong and vibrant public sector that is able to deliver high-quality services to our communities. The fact that front-line workers working for our communities and the local authority are being targeted has become painfully clear in many councils throughout Wales.

Fodd bynnag, mae'n amlwg bod Llywodraeth y DU yn gwneud y sector cyhoeddus yn darged ar gyfer toriadau, ac mae ein cymunedau bellach yn teimlo effaith hynny'n ddifrifol. Y bobl gyntaf yr effeithir arnynt, wrth gwrs, yw staff ein cynghorau, sy'n gweithio'n galed. Rydym ni ym Mhlaid Cymru yn credu mewn sector cyhoeddus cryf a bywiog sy'n gallu darparu gwasanaethau o safon i'n cymunedau. Mae'r ffaith bod gweithwyr rheng flaen sy'n gweithio dros ein cymunedau a'r awdurdod lleol yn cael eu targedu wedi dod yn boenus o amlwg mewn llawer o gynghorau ledled Cymru.

However, what does not help workers in many areas is how elected councillors have treated their workers, not only in relation to pay cuts, but also the job evaluation processes that Suzy Davies mentioned earlier, regardless of the UK cuts. As we have all heard today, Labour claims to be the party that is standing up for Wales. It claims to be the party that is on the side of hard-working public sector workers. Labour has said that it will stand up for everybody. Its local council election materials are telling people not to vote for the Tory bogeyman. 'We'll support you and help you', it says, in areas where Labour already controls the council and is making decisions that are being forced on people, such as privatising the leisure services in Bridgend County Borough Council. We need to be clear that it is not all about the Tory bogeyman; it is about what Labour delivers on a council basis as well.

Fodd bynnag, yr hyn nad yw'n helpu gweithwyr mewn nifer o ardaloedd yw'r modd y mae cynghorwyr etholedig wedi trin eu gweithwyr, nid yn unig mewn perthynas â thoriadau mewn cyflogau, ond hefyd mewn perthynas â'r prosesau gwerthuso swyddi y soniodd Suzy Davies amdanynt yn gynharach, ni waeth pa doriadau a wnaed ar lefel y DU. Fel y mae pob un ohonom wedi'i glywed heddiw, mae Llafur yn honni mai hi yw'r blaid sy'n sefyll o blaid Cymru. Mae'n honni mai hi yw'r blaid sydd ar ochr y gweithwyr sy'n gweithio'n galed yn y sector cyhoeddus. Mae'r Blaid Lafur wedi dweud y bydd yn sefyll o blaid pawb. Mae'r deunyddiau y mae'r Blaid Lafur yn eu defnyddio yn etholiadau'r cynghorau lleol yn dweud wrth bobl am beidio â phleidleisio dros y bwgan o'r Blaid Doriaidd. Mae'r deunyddiau'n dweud y bydd y Blaid Lafur yn cefnogi ac yn helpu'r bobl, mewn ardaloedd lle y mae Llafur eisoes yn rheoli'r cyngor ac yn gwneud penderfyniadau sy'n cael eu gorfodi ar bobl, megis preifateiddio'r gwasanaethau hamdden yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae angen inni fod yn glir nad y bwgan o'r Blaid Doriaidd yw'r unig beth sy'n berthnasol; mae'r hyn y mae'r Blaid Lafur yn ei gyflawni yn y cynghorau hefyd yn berthnasol.

All councils have been going through the job evaluation process for some time now, as well as moving towards single status pay. I appreciate how difficult the process is, which means that we need extensive consultation with trade unions and council workers. Most councils, to be fair, have consulted properly with unions to reach the best outcome. However, some areas that I will mention

Mae pob cyngor wedi bod yn mynd drwy'r broses gwerthuso swyddi ers cryn dipyn o amser bellach, yn ogystal â symud i gyfeiriad cyflog statws sengl. Rwyf yn sylweddoli mor anodd yw'r broses hon, a'i bod yn golygu bod angen inni ymgynghori'n helaeth ag undebau llafur a gweithwyr cynghorau. Er tegwch, mae'r rhan fwyaf o'r cynghorau wedi ymgynghori'n briodol â'r undebau i

Neath Port Talbot, for example, where the trade union had to threaten industrial action in 2010 because of the pay cuts that the council was hoping to inflict on people and because council leaders said that they would, potentially, dismiss and re-employ—

sicrhau'r canlyniad gorau. Fodd bynnag, ceir rhai ardaloedd y byddaf yn sôn amdanynt—er enghraifft Castell-nedd Port Talbot—lle y bu'n rhaid i'r undeb llafur fygwth gweithredu diwydiannol yn 2010 oherwydd y toriadau mewn cyflogau yr oedd y cyngor yn gobeithio eu gorfodi ar bobl ac oherwydd i arweinwyr y cyngor ddweud y byddent, o bosibl, yn diswyddo ac yn ailgyflogi—

**David Rees:** Will you take an intervention?

**David Rees:** A wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Bethan Jenkins:** No. I am sorry, but I am sure that you can speak for yourself afterwards. They came to an agreement in the end, of course, but it was not a desirable outcome for anybody involved.

**Bethan Jenkins:** Na wnaf. Mae'n ddrwg gennyf, ond rwyf yn siŵr y cewch gyfle i siarad eich hun yn nes ymlaen. Daethant i gytundeb yn y pen draw, wrth gwrs, ond nid oedd yn ganlyniad dymunol i neb a oedd yn ymwneud â'r mater.

5.00 p.m.

Rhondda Cynon Taf is another area where Labour threatened a lock-out if staff did not agree to extensive pay cuts and pay freezes. Is this really what you expect from a Labour-run authority? I would not have thought so.

Mae Rhondda Cynon Taf yn ardal arall lle y bu Llafur yn bygwth atal staff rhag gweithio pe na baent yn cytuno i doriadau sylweddol mewn cyflogau a rhewi cyflogau. Ai dyna y byddech yn ei ddisgwyl mewn gwirionedd gan awdurdod a gaiff ei redeg gan y Blaid Lafur? Go brin.

The latest botched job, however, is the Bridgend's job evaluation process—it is a nightmare. Speak to anybody who works for Bridgend County Borough Council and they will tell you how chaotic the job evaluation process has been. It is immediately clear that there has not been a proper consultation process with those who are affected. Trade unions are still in negotiations, of course, but they have been told that there will be no backpay for employees. If Bridgend accepts the legislation, then employees should be entitled to up to six years' worth of backpay. While other councils, including Plaid-led Caerphilly and Gwynedd, have agreed to pay protection of up to three years, Labour-led Bridgend has currently offered only one year of compensation payment. Some groups of staff will get more, but others will not, due to job remodelling.

Y llanast diweddaraf, fodd bynnag, yw proses gwerthuso swyddi Pen-y-bont ar Ogwr—mae'n hunllef. Gallwch siarad ag unrhyw un sy'n gweithio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a byddant yn dweud wrthych mor anhrefnus y bu'r broses gwerthuso swyddi. Mae'n gwbl amlwg na chafwyd proses ymgynghori briodol â'r sawl yr effeithir arnynt. Mae undebau llafur yn dal i gynnal trafodaethau, wrth gwrs, ond maent wedi cael gwybod na fydd gweithwyr yn cael ôl-daliadau. Os bydd Pen-y-bont ar Ogwr yn derbyn y ddeddfwriaeth, dylai'r gweithwyr gael yr hawl i gael hyd at chwe mlynedd o ôl-daliadau. Tra mae cynghorau eraill, gan gynnwys cyngor Caerffili a chyngor Gwynedd sydd dan arweiniad Plaid Cymru, wedi cytuno i ddiogelu cyflogau am hyd at dair blynedd, mae cyngor Pen-y-bont ar Ogwr, dan arweiniad y Blaid Lafur, wedi cynnig talu un flwyddyn o iawndal yn unig ar hyn o bryd. Bydd rhai grwpiau o staff yn cael mwy, ond ni fydd eraill, o ganlyniad i ailfodelu swyddi.

Unbelievably, it was originally proposed that staff would not be paid extra or overtime for

Mae'n anodd credu, ond cynigiwyd yn wreiddiol na fyddai staff yn cael tâl

working unsociable hours, such as night shifts. Following uproar and disgust from the unions, this has been changed, and I am grateful to the council for having listened to the trade unions in this regard.

ychwanegol am weithio oriau anghymdeithasol, megis shifftiau nos. Ar ôl i'r undebau llafur godi stŵr a dangos eu hanniddigrwydd, mae hynny wedi newid, ac rwyf yn ddiolchgar i'r cyngor am wrando ar yr undebau llafur yn y cyswllt hwn.

In seeking to limit the damage resulting from job evaluations, many local authorities have sought to borrow money from the Welsh Government to cover such things as backpay and costs arising from single status, but not Bridgend. For months, the authority's head of finance claimed that he could not borrow funds for evaluation costs. Unison disagreed. He recently changed his position and now says that he can in fact borrow to cover costs. Unlike other authorities, Bridgend has set no reserves to cover expenses resulting from job evaluations.

Wrth geisio cyfyngu ar y niwed sy'n deillio o werthusiadau swyddi, mae llawer o awdurdodau lleol wedi ceisio benthyca arian gan Lywodraeth Cymru i dalu am bethau megis ôl-daliadau a chostau sy'n codi o ganlyniad i'r statws sengl, ond nid ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Am fisoedd bu pennaeth cyllid yr awdurdod yn honni na allai fenthyca arian i dalu costau'n ymwneud â'r broses werthuso. Roedd Unsain yn anghytuno. Newidiodd ei safbwynt yn ddiweddar, a bellach mae'n dweud y gall fenthyca arian i dalu'r costau hyn wedi'r cyfan. Yn wahanol i awdurdodau eraill, nid oes gan gyngor Pen-y-bont ar Ogwr gronfeydd wrth gefn i dalu costau sy'n deillio o'r ymarfer gwerthuso swyddi.

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** We will support the motion and the amendments as they recognise the value of local authorities and the services they provide to the people of Wales, their contribution to the economy and their role as good employers. The Government is already working with local authorities on other ways to promote good practice. The value of services provided through local authorities cannot be overstated. Certainly, I do not expect, nor have I heard, any comments opposing that today.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Byddwn yn cefnogi'r cynnig a'r gwelliannau gan eu bod yn cydnabod gwerth awdurdodau lleol a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru, y cyfraniad y maent yn ei wneud i'r economi a'u rôl fel cyflogwyr da. Mae'r Llywodraeth eisoes yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddod o hyd i ffyrdd eraill o hyrwyddo arfer da. Ni ellir gorbwysleisio gwerth y gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol. Yn sicr, nid wyf wedi clywed ac nid wyf yn disgwyl clywed unrhyw sylwadau sy'n gwrthwynebu'r farn honno heddiw.

Central government and local government should be a partnership for securing the services that the people of Wales want and need, from roads to education and to the essential services for our most vulnerable groups. This provision should not be market-driven by competition between service providers, as I believe that this delivers neither fairness nor equality. I agree that local authorities are vital to the sustainability of our local economies, and it is right to say that this is about engaging widely with others to deliver. Local authorities need to work together with other public service providers

Dylai llywodraeth ganolog a llywodraeth leol fod yn bartneriaeth sy'n ceisio sicrhau'r gwasanaethau y mae eu heisiau a'u hangen ar bobl Cymru, o ffyrdd i addysg ac i'r gwasanaethau hanfodol ar gyfer y grwpiau mwyaf agored i niwed sydd gennym. Ni ddylai'r ddarpariaeth hon fod yn ddarpariaeth a yrrir gan y farchnad a chystadleuaeth rhwng darparwyr gwasanaeth, gan nad yw hynny'n sicrhau tegwch na chydraddoldeb yn fy marn i. Cytunaf fod awdurdodau lleol yn hanfodol i gynaliadwyedd ein heconomïau lleol, ac mae'n wir dweud bod a wnelo hyn ag ymgysylltu'n eang ag eraill er mwyn

and the third sector where appropriate, and Members have made reference to that today.

cyflawni. Mae angen i awdurdodau lleol weithio gyda chyrff eraill sy’n darparu gwasanaethau cyhoeddus a’r trydydd sector lle y bo hynny’n briodol, ac mae rhai Aelodau wedi cyfeirio at hynny heddiw.

In Bridgend, for example, the council’s work with the health board on telecare has led to more elderly people being able to continue to live in their own homes. Working together, local authorities and others can make effective use of the £4 billion spent on external goods and services provided by them. Our national programme of reform for procurement and asset management focuses on this.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, er enghraifft, mae’r gwaith y mae’r cyngor wedi’i wneud gyda’r bwrdd iechyd ar deleofal wedi arwain at sicrhau bod mwy o bobl mewn oed yn gallu parhau i fyw yn eu cartref eu hunain. Trwy weithio gyda’i gilydd, gall awdurdodau lleol ac eraill wneud defnydd effeithiol o’r £4 biliwn a gaiff ei wario ar nwyddau a gwasanaethau allanol a ddarperir ganddynt. Mae ein rhaglen ddiwygio genedlaethol ar gyfer caffael a rheoli asedau yn canolbwyntio ar hynny.

I do not believe that the UK Government’s position and proposals on regional pay will support the sustainability of local economies, but I believe that our approach to funding local government in Wales will. The average council tax for band B properties in Wales continues to be lower than it is in England, at around 19%, despite top-slicing of the settlement in England to fund the council tax freeze in this financial year. That means more money in people’s pockets to support their local economy.

Nid wyf o’r farn y bydd safbwynt Llywodraeth y DU a’i chynigion ar gyfer cyflogau rhanbarthol yn sicrhau cynaliadwyedd economïau lleol, ond credaf y bydd ein dull o ariannu llywodraeth leol yng Nghymru yn sicrhau hynny. Ar gyfartaledd, mae’r dreth gyngor ar gyfer eiddo band B yng Nghymru yn parhau oddeutu 19% yn is nag ydyw yn Lloegr, er i’r setliad yn Lloegr gael ei frigdorri i dalu am rewi’r dreth gyngor yn y flwyddyn ariannol hon. Mae hynny’n golygu y bydd mwy o arian ym mhocedi pobl i gynnal eu heconomi leol.

As with all employers, it is essential that local authorities are responsible employers. Some 12% of the entire workforce in Wales is employed by local authorities. They need to be able to depend on fair and properly rewarded employment to release and retain the best performance. This was at the heart of the 2011 memorandum of understanding between local government employers and trade unions, which was signed through the Welsh Government workforce partnership council.

Mae’n hanfodol bod awdurdodau lleol yn gyflogwyr cyfrifol, yn yr un modd â phob cyflogwr. Caiff oddeutu 12% o’r gweithlu cyfan yng Nghymru ei gyflogi gan awdurdodau lleol. Mae angen iddynt allu dibynnu ar gyflogaeth deg a gaiff ei chydnabod yn briodol i sicrhau a chynnal y perfformiad gorau. Roedd hyn wrth wraidd y memorandwm o ddealltwriaeth yn 2011 rhwng cyflogwyr llywodraeth leol ac undebau llafur, a lofnodwyd drwy gyngor partneriaeth y gweithlu Llywodraeth Cymru.

The work carried out by authority employees touches the lives of thousands, and probably each of us, on a daily basis, and this is something that we realise. Care and repair services helped more than 40,000 people last year, and teachers taught more than 400,000 young people. Librarians, traffic wardens—I will not attempt to name-check them all today, but I want to take the opportunity to

Mae’r gwaith a wneir gan weithwyr awdurdodau lleol yn effeithio ar fywydau miloedd o bobl, ac ar bob un ohonom ni fwy na thebyg, bob dydd, ac mae hynny’n rhywbeth yr ydym yn ei gydnabod. Bu i wasanaethau gofal a thrwsio helpu dros 40,000 o bobl y llynedd, a bu athrawon yn dysgu dros 400,000 o bobl ifanc. Yn llyfrgellwyr, wardeiniaid traffig—nid wyf am

pay tribute to our local government workers, because they do a cracking job for our communities in Wales. Next Thursday, I am quite sure that council workers will send Mr Cameron and Mr Clegg a message: they want fair pay, not postcode pay.

geisio enwi pob un o'r galwedigaethau heddiw, ond hoffwn gymryd y cyfle hwn i roi teyrnged i'n gweithwyr llywodraeth leol, oherwydd maent yn gwneud gwaith gwych dros ein cymunedau yng Nghymru. Ddydd Iau nesaf, rwyf yn siŵr y bydd gweithwyr cynghorau yn anfon neges at Mr Cameron a Mr Clegg: sef eu bod am gael cyflog teg, nid cyflog ar sail cod post.

On promoting good practice and ensuring that partnerships are fit for purpose I am entirely in agreement with the motion. We need partnerships with purpose that are fit and focused and fully accountable. This is the reason that I have asked all areas to review and reduce their partnerships, and why I am putting in place a new scrutiny arrangement so that elected Members can rightly hold partnerships to account, and do what they do best through scrutiny.

O ran hyrwyddo arfer da a sicrhau bod partneriaethau'n addas i'w diben, rwyf yn cytuno'n llwyr â'r cynnig. Mae angen partneriaethau â phwrpas arnom, sy'n addas, sy'n canolbwyntio ar y gwaith dan sylw ac sy'n gwbl atebol. Dyna pam yr wyf wedi gofyn i bob ardal adolygu a lleihau eu partneriaethau, a dyna pam yr wyf yn rhoi trefniant craffu newydd ar waith fel y gall Aelodau etholedig ddwyn partneriaethau i gyfrif yn gywir ddigon, a gwneud yr hyn a wnânt orau trwy graffu.

I want to pick up on the point that Rhodri Glyn opened with. I find his take on the council tax benefit process rather bizarre. He is clearly aware of the proposals coming from the UK Government. I read his press release yesterday, and I believe that that is the reason why he has brought this to the floor today. He challenged me to name one thing on which Welsh Labour is standing up for Wales. Let us start with two. My colleagues Leighton Andrews and Jeff Cuthbert introduced the Jobs Growth Wales scheme. The Conservatives in Westminster, supported by their Lib Dem colleagues, axed the Future Jobs Fund for Wales. In my portfolio, we are delivering community support officers on the ground. They are out delivering services and community safety for the people of Wales, but the Liberal Democrats and their Conservative colleagues in the UK Government are axing community policing across Wales. I hope that starts to explain the difference between standing up for Wales and sitting down shouting the odds, which are often inaccurate.

Hoffwn gyfeirio at y pwynt a wnaed gan Rhodri Glyn ar y dechrau. Mae ei sylwadau ynghylch proses budd-dal y dreth gyngor braidd yn rhyfedd yn fy marn i. Mae'n amlwg ei fod yn ymwybodol o'r cynigion a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU. Darllenais ei ddatganiad i'r wasg ddoe, a chredaf mai dyna pam y mae wedi dod â'r pwynt hwn i'r llawr heddiw. Fe'm heriodd i enwi un peth y mae Llafur Cymru yn ei wneud i sefyll o blaid Cymru. Gadewch inni ddechrau gyda dau beth. Cyflwynodd fy nghydweithwyr Leighton Andrews a Jeff Cuthbert y cynllun Twf Swyddi Cymru. Mae'r Ceidwadwyr yn San Steffan, gyda chefnogaeth eu cydweithwyr o'r Democratiaid Rhyddfrydol, wedi dileu Cronfa Swyddi'r Dyfodol i Gymru. Yn fy mhortffolio, rydym yn darparu swyddogion cymorth cymunedol ar lawr gwlad. Maent wrthi'n darparu gwasanaethau i bobl Cymru ac yn sicrhau bod cymunedau'n ddiogel, ond mae'r Democratiaid Rhyddfrydol a'u cydweithwyr Ceidwadol yn Llywodraeth y DU yn cwtogi ar blismona cymunedol ledled Cymru. Gobeithiaf fod hynny'n dechrau esbonio'r gwahaniaeth rhwng sefyll o blaid Cymru a gwneud dim ond eistedd a gweiddi pethau sy'n aml yn anghywir.

Finally, I am happy to support Peter Black's amendment. The Government has put in

Yn olaf, rwyf yn fodlon cefnogi gwelliant Peter Black. Mae'r Llywodraeth wedi rhoi

place a range of measures that support councillors in undertaking their role. The Local Government (Wales) Measure 2011 includes the publication of councillors' annual reports, greater public involvement with scrutiny, and ensuring that councillors are properly supported to fulfil their roles.

ystod o fesurau ar waith sy'n cefnogi cynghorwyr wrth iddynt ymgymryd â'u gwaith. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cynnwys cyhoeddi adroddiadau blynyddol cynghorwyr, sicrhau bod y cyhoedd yn cymryd mwy o ran yn y broses graffu, a sicrhau bod cynghorwyr yn cael y gefnogaeth briodol i gyflawni eu rôl.

I and ministerial colleagues will be working closely with local councillors following the election next Thursday. All elected representatives need to have a vision to serve the people who elected them. The Government believes that this will mean working across boundaries, services and geographical areas as the way to meet the needs of the people of Wales. I support the motion and will be supporting the amendments as I indicated.

Byddaf i a chyd-Weinidogion yn gweithio'n agos gyda chynghorwyr lleol yn dilyn yr etholiad ddydd Iau nesaf. Mae angen i'r holl gynrychiolwyr etholedig gael gweledigaeth i wasanaethu'r bobl a'u hetholodd. Mae'r Llywodraeth o'r farn y bydd hynny'n golygu gweithio ar draws ffiniau, gwasanaethau ac ardaloedd daearyddol er mwyn diwallu anghenion pobl Cymru. Rwyf yn cefnogi'r cynnig, a byddaf yn cefnogi'r gwelliannau fel y nodais.

**Rhodri Glyn Thomas:** Diolchaf i Janet Finch-Saunders, Peter Black, Alun Ffred, Jenny Rathbone, Lindsay Whittle, Suzy Davies a Bethan Jenkins am eu cyfraniadau. Hoffwn ddweud, yn sgîl yr hyn sydd wedi ei ddweud, fy mod yn hapus i gefnogi'r gwelliant yn enw William Graham a'r gwelliant yn enw Peter Black, er bod Jenny Rathbone wedi dweud bod Peter Black yn datgan yr hyn sy'n gwbl amlwg. Nid oes dim byd newydd yn hynny, mewn gwirionedd, ond gan dderbyn hynny, byddwn yn cefnogi'r gwelliant hwnnw.

**Rhodri Glyn Thomas:** I thank Janet Finch-Saunders, Peter Black, Alun Ffred, Jenny Rathbone, Lindsay Whittle, Suzy Davies and Bethan Jenkins for their contributions. I would like to say, on the back of what has been said already, that I am happy to support the amendment in the name of the William Graham and the amendment in the name of Peter Black, even though Jenny Rathbone has said that Peter Black is stating the obvious. There is nothing new in that, to be truthful, but in accepting that point, we will be supporting the amendment.

Yr wyf am ganolbwyntio ar gyfraniad y Gweinidog.

I want to concentrate on the Minister's contribution.

Earlier in the debate, the Minister challenged me to say when exactly this shortfall in the council tax benefits was announced. I can tell Carl Sargeant that it was announced in the spending review of 2010, and the UK Government announced that it would

Yn gynharach yn y ddadl, cefais fy herio gan y Gweinidog i ddweud pa bryd yn union y cyhoeddwyd y diffyg hwn ym mudd-daliadau'r dreth gyngor. Gallaf ddweud wrth Carl Sargeant iddo gael ei gyhoeddi yn yr adolygiad o wariant yn 2010, a chyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n

'localise support for council tax from 2013-14 and reduce expenditure by 10 per cent'.

'lleoleiddio cymorth gyda'r dreth gyngor o 2013-14 ymlaen ac yn lleihau gwariant 10 y cant.'

I am sure that that is correct because I am quoting from the Welsh Government website. It goes on to say:

Rwyf yn siŵr bod hynny'n gywir gan fy mod yn dyfynnu o wefan Llywodraeth Cymru. Mae'n mynd ymlaen i ddweud:

'From 31 March 2013 council tax benefit in

'Ar 31 Mawrth 2013, daw budd-dal y dreth

its current form will come to an end and the provision of support for council tax and the funding associated with it, will be devolved to local authorities in England, to the Scottish Government and to the Welsh Government.'

gyngor ar ei ffurf bresennol i ben a datganolir y cymorth a ddarperir ar gyfer y dreth gyngor ac ariannu cysylltiedig i awdurdodau lleol yn Lloegr, i Lywodraeth yr Alban ac i Lywodraeth Cymru.'

I have more. The Welsh Government—and presumably this was a statement made by the Minister, although he may have signed it without realising that he was signing it—said in an official response:

Mae gennyf ragor. Mewn ymateb swyddogol—ac rwyf yn tybio mai datganiad a wnaed gan y Gweinidog oedd hwn, er ei bod yn bosibl iddo ei lofnodi heb sylweddoli ei fod yn ei lofnodi—dywedodd Llywodraeth Cymru:

'the Welsh Government is not in a position to make up any shortfall in funding'.

'nid yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i dalu'r diffyg yn y cyllid'.

**Carl Sargeant:** When you read the Record later, you will see that you said that Scotland had filled the gap with a £20 million subsidy and that the Welsh Government had said that it would not do that after the matter was devolved. The council tax benefit system has not been devolved; that is still being discussed with the UK Government. We have no clear figures on what they mean, therefore the Member is, again, wrong.

**Carl Sargeant:** Pan fyddwch yn darllen y Cofnod yn nes ymlaen, byddwch yn gweld ichi ddweud bod yr Alban wedi mynd ati i lenwi'r bwlch gyda chymhorthdal o £20 miliwn a bod Llywodraeth Cymru wedi dweud na fyddai'n gwneud hynny wedi i'r mater gael ei ddatganoli. Nid yw system budd-dal y dreth gyngor wedi'i datganoli; rydym wrthi'n trafod hynny â Llywodraeth y DU o hyd. Felly, nid oes gennym ffigurau clir ynghylch yr hyn y mae'n ei olygu, felly mae'r Aelod yn anghywir unwaith yn rhagor.

**Rhodri Glyn Thomas:** You, as Minister, have said that you are not in a position to make up any shortfall, which means that you are placing an additional tax on local government of £23.4 million. The Scottish Government has already announced that it will make good that shortfall and that local government in Scotland will not be affected, and therefore services and pensioners in Scotland will not be affected. However, in Wales, the Welsh Government will place upon local authorities and those people who are most in need in our communities an additional tax of £23.4 million. I hope that the electorate of Wales remembers that.

**Rhodri Glyn Thomas:** Rydych chi, fel Gweinidog, wedi dweud nad ydych mewn sefyllfa i dalu'r diffyg yn y cyllid, sy'n golygu eich bod yn gosod treth ychwanegol o £23.4 miliwn ar lywodraeth leol. Mae Llywodraeth yr Alban eisoes wedi cyhoeddi y bydd yn talu'r diffyg hwnnw yn y cyllid ac na fydd hynny'n effeithio ar lywodraeth leol yn yr Alban, nac ar wasanaethau a phensiynwyr yn yr Alban, felly. Fodd bynnag, yng Nghymru bydd Llywodraeth Cymru yn gosod treth ychwanegol o £23.4 miliwn ar awdurdodau lleol a'r bobl hynny sydd fwyaf mewn angen yn ein cymunedau. Gobeithiaf y bydd etholwyr Cymru yn cofio hynny.

You have already consulted on this, Minister. You may not be aware of that either, given that you have not been aware of anything else that has happened since the announcement was made in the 2010 spending review. That consultation came to an end on 5 April, and you have already announced that you will make a statement on this issue on 8 May. Is it not convenient that you will make a

Rydych eisoes wedi ymgynghori ynghylch hyn, Weinidog. Efallai nad ydych yn ymwybodol o hynny chwaith, o gofio nad ydych wedi bod yn ymwybodol o ddim byd arall sydd wedi digwydd ers i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn adolygiad o wariant 2010. Daeth yr ymgynghoriad hwnnw i ben ar 5 Ebrill, ac rydych eisoes wedi cyhoeddi y byddwch yn gwneud datganiad ar y mater

statement five days after the local elections? By then you might have caught up with these issues, but the fact is that you, as Minister, and your Government have stated quite categorically that you are not in a position, and that you have no wish, to make up that shortfall. As a result, that shortfall will have to be met by local authorities in Wales, which will mean a cut in services and that the people who are dependent on these benefits will be the ones who suffer in Wales.

hwn ar 8 Mai. Onid yw'n gyfleus y byddwch yn gwneud datganiad bum diwrnod ar ôl yr etholiadau lleol? Erbyn hynny efallai y byddwch wedi dod i wybod am y materion hyn, ond y ffaith yw i chi, fel Gweinidog, a'ch Llywodraeth ddatgan yn gwbl bendant nad ydych mewn sefyllfa i dalu'r diffyg yn y cyllid, ac nad oes gennych ddim dymuniad i wneud hynny. O ganlyniad, bydd yn rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru dalu'r diffyg hwnnw, a fydd yn golygu torri gwasanaethau, ac yn golygu mai'r bobl sy'n dibynnu ar y budd-daliadau hyn fydd y rhai sy'n dioddef yng Nghymru.

All the Minister can do is to sit there and point towards the Conservatives. All that we have had since the election is a continual criticism of the coalition Government in Westminster, but the fact is that the Welsh Government does nothing. It has not shielded the people of Wales and it has done nothing to safeguard their interests. The Government just sits there and criticises and believes that because it is sitting there and criticising that it is accomplishing something. It is about time that this Government stood up for the people of Wales. At least the Minister acknowledges that, in partnership with local government in Wales, something can be done. Let us just hope, Minister, that it is local government in Wales that is leading that partnership, otherwise nothing will happen.

Y cyfan y gall y Gweinidog ei wneud yw eistedd yno a phwyntio bys at y Ceidwadwyr. Dyna'i gyd yr ydym wedi'i gael ers yr etholiad yw beirniadaeth barhaus o'r Llywodraeth glymblaid yn San Steffan, ond y gwir yw nad yw Llywodraeth Cymru yn gwneud dim. Nid yw wedi amddiffyn pobl Cymru, ac nid yw wedi gwneud dim i ddiogelu eu buddiannau. Y cyfan y mae'r Llywodraeth yn ei wneud yw eistedd yno a beirniadu, ac mae'n credu am ei bod yn eistedd yno yn beirniadu ei bod yn cyflawni rhywbeth. Mae'n hen bryd i'r Llywodraeth hon sefyll o blaid pobl Cymru. O leiaf y mae'r Gweinidog yn cydnabod bod modd gwneud rhywbeth trwy weithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol yng Nghymru. Gadewch inni obeithio, Weinidog, mai llywodraeth leol yng Nghymru sy'n arwain y bartneriaeth, neu fel arall ni fydd dim yn digwydd.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod, ac felly gohiriaf y pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.
Before we proceed to voting time, are there three Members who wish for the bell to be rung? I see that there are not.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion unamended. Does any Member object? I see that there is objection and therefore I defer voting on this item until voting time.
Cyn inni fwrw ymlaen â'r pleidleisiau, a oes tri Aelod yn dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Cyfnod Pleidleisio
## Voting Time

*Cynnig NDM4963: O blaid 13, Ymatal 0, Yn erbyn 38.*
*Motion NDM4963: For 13, Abstain 0, Against 38.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:

The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y cynnig.*
*Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4963: O blaid 34, Ymatal 0, Yn erbyn 17.*
*Amendment 1 to NDM4963: For 34, Abstain 0, Against 17.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM4963: O blaid 4, Ymatal 9, Yn erbyn 38.*
*Amendment to 2 NDM4963: For 4, Abstain 9, Against 38.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Black, Peter
Parrott, Eluned
Powell, William
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Davies, Jocelyn
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

5.15 p.m.

*Cynnig NDM4963 fel y'i diwygiwyd:*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. Yn nodi bod yr hinsawdd economaidd anodd yn tynnu sylw at bwysigrwydd bod cyrff cyhoeddus yn gweithredu mewn ffordd sy'n sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian.*

*2. Yn cymeradwyo unrhyw ymdrechion gan awdurdodau lleol i wneud arbedion er mwyn darparu gwerth am arian y trethdalwyr; a*

*3. Yn nodi ymhellach fod gormod o wastraff o hyd ar lefel Llywodraeth Leol.*

*Motion NDM4963 as amended:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Notes that the difficult economic climate highlights the importance of public bodies acting in a manner which ensures best possible value for money;*

*2. Commends any efforts by local authorities to make savings in order to provide value for taxpayer's money; and*

*3. Further notes that there is still too much waste at the Local Government level.*

*Cynnig NDM4963 fel y'i diwygiwyd: O blaid 38, Ymatal 0, Yn erbyn 13.*
*Motion NDM4963 as amended: For 38, Abstain 0, Against 13.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig NDM4963 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM4963 as amended agreed.*

*Cynnig NDM4964: O blaid 34, Ymatal 0, Yn erbyn 17.*
*Motion NDM4964: For 34, Abstain 0, Against 17.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

## Dadl Fer
## Short Debate

### Troi Cefn neu Wthio i'r Cyrion: Beth sy'n Digwydd i'r Pedwerydd Ystâd yng Nghymru?
### Abandonment or Marginalisation: What is Happening to the Fourth Estate in Wales?

**Angela Burns:** I have allowed some time to Peter Black and Ken Skates.

**Angela Burns:** Rwyf wedi caniatáu rhywfaint o amser i Peter Black a Ken Skates.

Abandonment or marginalisation: what is happening to the fourth estate in Wales? Perhaps the unasked question in this debate is 'Why should we care?' I believe that it is important for all of us at the Assembly to care about the current situation and the possible future for all media outlets in Wales. I also believe that the people of Wales need to care about the fourth estate. With faith in the Lords, spiritual and temporal, and the Commons—the first three great estates of our nations—at an all-time low, we need the fourth estate to step up to the plate and deliver for all of us. While we are a democratic nation with an established democracy, our parliamentary system is but an infant. That infant needs the support of the people and the media to grow. When I say support, I am not talking about pats on the back; I am, rather, talking about lively political debate, engagement, participation, commentary and scrutiny.

Troi cefn neu wthio i'r cyrion: beth sy'n digwydd i'r bedwaredd ystâd yng Nghymru? Efallai mai'r cwestiwn na chaiff ei ofyn yn y ddadl hon yw 'Pam y dylem boeni?' Rwyf yn credu ei bod yn bwysig i bob un ohonom yn y Cynulliad boeni am y sefyllfa bresennol a'r dyfodol posibl ar gyfer pob cyfrwng yng Nghymru. Rwyf hefyd yn credu bod angen i bobl Cymru boeni am y bedwaredd ystâd. Gyda ffydd yn yr Arglwyddi, ysbrydol a thymhorol, a Thŷ'r Cyffredin—sef tair prif ystâd gyntaf ein gwledydd—ar ei lefel isaf erioed, mae angen i'r bedwaredd ystâd gamu i'r adwy a chyflawni ar ran pob un ohonom. Er ein bod yn wlad ddemocrataidd â democratiaeth sydd wedi ennill ei phlwyf, baban yn unig yw ein system seneddol. Mae angen cefnogaeth y bobl a'r cyfryngau ar y baban hwnnw i dyfu. Wrth sôn am gefnogaeth, nid wyf yn sôn am ganmoliaeth; yn hytrach, rwyf yn sôn am drafodaeth wleidyddol fywiog, ymgysylltu, cyfranogi, sylwebu a chraffu.

The press, in its broadest definition, which includes journalists, television and radio broadcasters, photographers and the new media of websites such as Twitter and so on, wields immense social and political power. It has a unique opportunity to shape societies in a way that many governments envy deeply. That is why we have to rely on the press being balanced and responsible, and why many nations have stringent laws to protect the rights of the press and the rights of the sources of their stories. We are, of course, now seeing demands for the people to be protected from the press. The Leveson inquiry has brought to the fore the awful stories of perfectly innocent people being hounded by the press, being taped illegally or

Mae gan y wasg, o ystyried y diffiniad mwyaf cyffredinol ohoni, sy'n cynnwys newyddiadurwyr, darlledwyr teledu a radio, ffotograffwyr a'r cyfryngau newydd, sef gwefannau megis Twitter ac yn y blaen, rym cymdeithasol a gwleidyddol aruthrol. Mae ganddi gyfle unigryw i ddylanwadu ar gymdeithasau mewn ffordd y mae llawer o lywodraethau'n eiddigeddus iawn ohoni. Dyna pam y mae'n rhaid inni ddibynnu ar y wasg i fod yn gytbwys ac yn gyfrifol, a dyna pam y mae gan lawer o wledydd ddeddfau llym i ddiogelu hawliau'r wasg a hawliau ffynonellau ei straeon. Yn awr, wrth gwrs, rydym yn gweld galwadau i sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu rhag y wasg. Mae ymchwiliad Leveson wedi amlygu straeon

subject to other dubious practices by some elements of the press. However, I believe that most members of the press try to remain fairly neutral. I also believe that the integrity of the press stands the test of time well. Individuals try to protect their sources, and they mainly try to verify information before making it public. Many will seek out stories with true newshound zeal, and I think that they try to act as arbiters of the truth to encourage public trust in all of them.

ofnadwy am bobl gwbl ddiniwed yn cael eu herlid gan y wasg, yn cael eu recordio ar dâp yn anghyfreithlon neu'n dod yn destun arferion amheus eraill gan rai elfennau o'r wasg. Fodd bynnag, credaf fod y rhan fwyaf o aelodau'r wasg yn ceisio aros yn weddol niwtral. Credaf hefyd fod integriti'r wasg yn sefyll prawf amser yn dda. Mae unigolion yn ceisio gwarchod eu ffynonellau, ac yn gyffredinol maent yn ceisio gwirio gwybodaeth cyn ei chyhoeddi. Bydd llawer yn chwilio am straeon gydag awydd gwirioneddol i fynd ar drywydd newyddion, a chredaf eu bod yn ceisio gweithredu fel awdurdod ar y gwirionedd i annog y cyhoedd i ymddiried ym mhob un ohonynt.

In 1841, Thomas Carlyle wrote of the powerful role of the press in parliamentary procedure, in shaping the will of the people and in influencing the outcomes of votes in government. I could not have said it better, which is why I believe that we should all care about what is happening to the fourth estate in Wales. Although I think that a decline in media coverage in Wales suits many people—I wonder whether it suits some Assembly Members and Members of Parliament—a weak press leads to poor scrutiny; I will return to this theme later.

Yn 1841, ysgrifennodd Thomas Carlyle am rôl bwerus y wasg mewn gweithdrefnau seneddol, o ran ffurfio ewyllys y bobl a dylanwadu ar ganlyniadau pleidleisiau mewn llywodraeth. Ni allwn fod wedi'i fynegi'n well, a dyna pam yr wyf yn credu y dylem i gyd bryderu am yr hyn sy'n digwydd i'r bedwaredd ystâd yng Nghymru. Er fy mod yn credu bod llai o sylw gan y cyfryngau yng Nghymru yn gyfleus i lawer o bobl—tybed a yw'n gyfleus i rai o Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol—mae gwasg wan yn arwain at graffu gwael; byddaf yn dychwelyd at y thema hon yn nes ymlaen.

Are we allowing ourselves to be marginalised or abandoned by the press? I start my argument that we are being marginalised by referring to the former head of BBC Wales, Menna Richards, who gave an interesting speech in Aberystwyth, which focused on her concerns for English-language broadcasting and reflected her surprise at the lack of debate by politicians over its decline. Menna Richards said that, between 2006 and 2011, the number of hours of English-language programming had gone down by more than 16%, which is the equivalent of more than 100 broadcast hours. That means 100 hours less output for Wales and Welsh audiences on matters to do with Wales by Wales's national broadcaster. Therefore, why so little outcry from us? Why are we allowing this to happen? Menna Richards also goes on to say that the BBC in Scotland is faced with making similar tough savings, but she says:

A ydym yn gadael i'r wasg ein gwthio i'r cyrion neu'n gadael iddi droi ei chefn arnom? Hoffwn ddechrau fy nadl ein bod yn cael ein gwthio i'r cyrion drwy gyfeirio at gyn-bennaeth BBC Cymru, Menna Richards, a draddododd araith ddiddorol yn Aberystwyth, a oedd yn canolbwyntio ar ei phryderon am ddarlledu drwy gyfrwng y Saesneg, ac a oedd yn adlewyrchu ei syndod ynghylch y diffyg dadlau gan wleidyddion ynghylch ei ddirywiad. Dywedodd Menna Richards fod nifer yr oriau o raglenni Saesneg wedi gostwng fwy nag 16% rhwng 2006 a 2011, sy'n cyfateb i dros 100 awr o ddarlledu. Mae hynny'n golygu 100 awr yn llai o allbwn ar gyfer Cymru a chynulleidfaoedd Cymru ar faterion sy'n ymwneud â Chymru gan ddarlledwr cenedlaethol Cymru. Pam, felly, y cafwyd cyn lleied o brotestio gennym ni? Pam yr ydym yn caniatáu i hynny ddigwydd? Â Menna Richards yn ei blaen i ddweud hefyd bod y BBC yn yr Alban yn wynebu gorfod gwneud arbedion anodd tebyg, ond

dywed:

‘I have always found it curious that the level of interest and engagement there is so much more intense. Scottish newspapers and politicians complain, write, criticize and attack the BBC’s senior management in London. The BBC’s top team would tend to sigh theatrically at what they saw as an excess of emotion in Edinburgh and Glasgow, but you would know that, usually, Scotland would get some concession just to keep them quiet. Because a fuss was being kicked up. There was a public debate. Newspapers were agitated. Politicians were angry. The BBC centrally needs to hear from politicians, newspaper editors and other opinion formers that they are worried about the threat to English language services in Wales as well as the dangers facing S4C. You can bet they would be doing so in Scotland.’

Rwyf wedi meddwl erioed ei bod yn rhyfedd bod lefel y diddordeb a’r ymgysylltu yno gymaint â hynny’n fwy dwys. Mae papurau newydd a gwleidyddion yr Alban yn cwyno, yn ysgrifennu, yn beirniadu ac yn ymosod ar uwch-reolwyr y BBC yn Llundain. Byddai tîm rheoli’r BBC yn tueddu i ochneidio’n ddramatig ynghylch yr hyn a oedd, yn eu barn nhw, yn emosiwn gormodol yng Nghaeredin a Glasgow, ond byddech yn gwybod, fel arfer, y byddai’r Alban yn cael rhyw gonsesiwn neu’i gilydd dim ond er mwyn ei chadw’n dawel. Gan fod rhai’n creu ffwdan. Gan fod trafodaeth gyhoeddus. Gan fod y papurau newydd wedi’u cynhyrfu. Gan fod gwleidyddion yn flin. Mae angen i’r BBC yn ganolog glywed gan wleidyddion, golygyddion papurau newydd ac eraill sy’n llunio barn eu bod yn poeni am y bygythiad i wasanaethau Saesneg eu hiaith yng Nghymru yn ogystal â’r peryglon sy’n wynebu S4C. Gallwch warantu y byddent yn gwneud hynny yn yr Alban.

It is not just the BBC; ITV Wales has been through torrid times, and while its coverage of Welsh affairs is currently on the up, I still believe that it needs to step forward. Let me put some context here from a financial point of view. Again, I will use the BBC as my example, because it is the dominant broadcaster in Wales. Funding for English-language programming by BBC Wales will be around £20 million in 2013, whereas S4C will receive around £90 million from the licence-fee payer.

Nid oes a wnelo hyn â’r BBC yn unig; mae ITV Cymru wedi bod drwy amseroedd anodd iawn, ac er bod ei sylw i faterion Cymreig ar hyn o bryd yn gwella, rwyf yn dal i gredu bod angen iddo gamu ymlaen. Gadewch imi osod rhywfaint o gyd-destun o safbwynt ariannol. Unwaith eto, hoffwn ddefnyddio’r BBC fel fy enghraifft, gan mai’r BBC yw’r darlledwr amlycaf yng Nghymru. Bydd cyllid ar gyfer rhaglenni Saesneg eu hiaith gan BBC Cymru yn cyfateb i oddeutu £20 miliwn yn 2013, tra bydd S4C yn cael oddeutu £90 miliwn gan y sawl sy’n talu ffi’r drwydded.

I want to continue with my concerns about our two TV broadcasters, but I will also be turning my attention to the written press. The diminution of the BBC’s financial resources into Wales is having a serious impact on political programming. We are going to lose *am.pm* and *Dragon’s Eye*. I was on *am.pm* this morning, and I promise that they did not slip me anything—I was grateful for that opportunity—but it has a distinct remit and while it does not have the best viewing figures, it gives backbenchers untold opportunities to be scrutinised, to bring forward their views and to engage with the public. Where else can this happen if political

Hoffwn barhau â’m pryderon ynghylch ein dau ddarlledwr teledu, ond byddaf hefyd yn rhoi sylw i’r wasg ysgrifenedig. Mae’r ffaith bod adnoddau ariannol y BBC yng Nghymru yn lleihau’n cael effaith ddifrifol ar raglenni gwleidyddol. Rydym yn mynd i golli *am.pm* a *Dragon’s Eye.* Roeddwn ar *am.pm* y bore yma, ac rwyf yn addo na chefais ddim gan y rhaglen—roeddwn yn ddiolchgar am y cyfle—ond mae ganddi gylch gwaith penodol, ac er nad ganddi hi y mae’r ffigurau gwylio gorau, mae’n rhoi cyfleoedd dirifedi i aelodau’r meinciau cefn fod yn destun gwaith craffu, ac yn rhoi cyfleoedd dirifedi iddynt gyflwyno eu barn ac ymgysylltu â’r cyhoedd.

news becomes no more than a story that has to fight for its slot on a busy news programme such as *Wales Today*? There can be no replacement for *am.pm*, in the amount or range of its coverage. It covers stories and debates that will never get onto the news programmes, because of its different remit.

Ble arall y gall hynny ddigwydd os bydd newyddion gwleidyddol yn troi'n ddim byd mwy na stori y mae'n rhaid iddi ymladd am ei lle ar raglen newyddion brysur megis *Wales Today*? Ni all rhaglen arall gymryd lle *am.pm*, o ran maint nac ystod ei sylw. Mae'n ymdrin â straeon a dadleuon na fyddent byth yn cyrraedd y rhaglenni newyddion, oherwydd cylch gwaith gwahanol y rhaglen.

I have heard the counter argument that its audiences are relatively small, but surely the point of a licence-fee-funded organisation is that it caters on occasion for smaller audiences that would not otherwise be served by commercial outlets. Much the same can be said for *Dragon's Eye*. I agree that nothing can stay the same and that production formats need to change to mirror expectations, but, again, my concern is that any replacement programme will be too generalist. By making a new *Dragon's Eye* something that is less focused on politics and by dropping *am.pm* on Wednesdays, the question that arises is this: while the audience may be bigger for those political stories that make it onto the news programmes, how is BBC Wales serving that section of the population that wants to watch specialist political programming? If the audience is too small, it is the BBC's responsibility to find ways of building up that audience, not to abandon the ground altogether.

Rwyf wedi clywed yr wrthddadl, sef bod ei chynulleidfaoedd yn gymharol fach, ond onid diben sefydliad a ariennir gan ffi'r drwydded yw darparu weithiau ar gyfer cynulleidfaoedd llai o faint na fyddent fel arall yn cael eu gwasanaethu gan sefydliadau masnachol. Gellir dweud yr un peth i raddau am *Dragon's Eye.* Rwyf yn cytuno na all dim aros yr un fath, a bod angen i fformatau cynhyrchu newid er mwyn adlewyrchu disgwyliadau, ond, unwaith eto, fy mhryder yw y bydd unrhyw raglen a ddaw yn ei lle'n rhy gyffredinol. Drwy newid *Dragon's Eye* i rywbeth sy'n canolbwyntio llai ar wleidyddiaeth, a thrwy ollwng *am.pm* ar ddydd Mercher, y cwestiwn sy'n codi yw hyn: er bod y gynulleidfa efallai'n fwy ar gyfer y straeon gwleidyddol sy'n cyrraedd y rhaglenni newyddion, sut y mae BBC Cymru yn gwasanaethu'r rhan honno o'r boblogaeth sy'n awyddus i wylio rhaglenni gwleidyddol arbenigol? Os yw'r gynulleidfa yn rhy fach, cyfrifoldeb y BBC yw dod o hyd i ffyrdd o gynyddu'r gynulleidfa honno, nid rhoi'r gorau'n gyfan gwbl i ymdrin â'r maes.

This is not just my concern. The Presiding Officer, Rosemary Butler, has written to the BBC Trust chairman, Lord Patten, warning that cuts to the corporation's budget in Wales will inevitably damage Welsh democracy. The Presiding Officer made the point that it was puzzling that the corporation wanted to cut coverage of Welsh politics just as the Assembly had won full law-making powers. She goes on to say that serious concerns have been raised with her about proposed changes in BBC Wales's political output. She adds that hardly any legislators from Scotland, Wales or Northern Ireland are interviewed on network news, that there is little attempt to tackle devolution issues per se, and that substantial and important political and policy developments in the nations simply do not figure on the main bulletins.

Nid fy mhryder i'n unig yw hwn. Mae'r Llywydd, Rosemary Butler, wedi ysgrifennu at gadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC, yr Arglwydd Patten, i rybuddio ei bod yn anochel y bydd toriadau i gyllideb y gorfforaeth yng Nghymru yn niweidio democratiaeth Cymru. Gwnaeth y Llywydd y pwynt ei bod yn rhyfedd bod y gorfforaeth am leihau'r sylw a roddir i wleidyddiaeth yng Nghymru yn syth ar ôl i'r Cynulliad gael pwerau deddfu llawn. Â yn ei blaen i ddweud bod pryderon difrifol wedi eu codi gyda hi am newidiadau arfaethedig i raglenni gwleidyddol BBC Cymru. Mae'n ychwanegu mai prin iawn yw'r deddfwyr o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a gaiff eu cyfweld ar newyddion y rhwydwaith, na wneir fawr ddim ymdrech i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â datganoli fel y

cyfryw, ac nad yw datblygiadau gwleidyddol a datblygiadau polisi sylweddol a phwysig gwledydd unigol yn ymddangos yn y prif fwletinau.

Minister, do you think that the cuts to BBC Wales and the consequential effect on political programming will damage coverage and hinder the building of our recently strengthened parliamentary process? The important thing is that BBC Wales broadcasts a flagship political programme that is properly resourced, and I do not think that it is clear at the moment that either of those things will be the case, although I will say that I have sympathy with the position of the new director general of BBC Wales, Rhodri Talfan Davies, who said that one of his basic challenges is to live within the BBC's means, given last year's licence fee settlement and the new responsibilities that the BBC must fund. However, he also told the task and finish group on the future outlook for the media in Wales that the BBC would be maintaining political coverage. How will that happen, given these cutbacks?

Weinidog, yn eich barn chi, a fydd y toriadau i BBC Cymru a'r effaith ddilynol ar raglenni gwleidyddol yn niweidio sylw i faterion ac yn rhwystro'r gwaith o feithrin ein proses seneddol a gafodd ei chryfhau'n ddiweddar? Y peth pwysig yw bod BBC Cymru yn darlledu rhaglen wleidyddol flaenllaw sy'n cael adnoddau priodol, ac nid wyf yn credu ei bod yn glir ar hyn o bryd y bydd y naill beth na'r llall yn digwydd. Fodd bynnag, hoffwn ddweud fy mod yn cydymdeimlo â sefyllfa cyfarwyddwr cyffredinol newydd BBC Cymru, sef Rhodri Talfan Davies, a ddywedodd mai un o'i heriau sylfaenol yw byw o fewn incwm y BBC, o gofio'r setliad ar gyfer ffi'r drwydded y llynedd a'r cyfrifoldebau newydd y mae'n rhaid i'r BBC eu hariannu. Fodd bynnag, o ran y rhagolygon ar gyfer dyfodol y cyfryngau yng Nghymru, dywedodd hefyd wrth y grŵp gorchwyl a gorffen y byddai'r BBC yn cynnal lefel y sylw a roddir i faterion gwleidyddol. Sut y bydd hynny'n digwydd, o ystyried y toriadau hyn?

With these changes happening at the BBC, and with ITV only recently finding its feet again, Minister, will you please implement a method of monitoring the output of political coverage and Welsh-based programming by both organisations over the next year? We need reassurance that these changes will not have a negative impact on political programming.

O ystyried y newidiadau hyn sy'n digwydd yn y BBC, ac o ystyried mai dim ond yn ddiweddar y mae'r sefyllfa wedi sefydlogi unwaith eto yn ITV, Weinidog, a wnewch chi weithredu dull o fonitro sylw gwleidyddol a rhaglenni sy'n seiliedig ar Gymru gan y ddau sefydliad yn ystod y flwyddyn nesaf? Mae angen sicrwydd arnom na fydd y newidiadau hyn yn cael effaith negyddol ar raglenni gwleidyddol.

It feels as if there is a degree of abandonment by the London-based broadcasters, and I cannot see the Scottish and Irish Executives sitting by quietly while this is going on. How about the marginalisation of Wales by the London-based newspapers, the dearth of Welsh national newspapers and the slow death of local newspapers? The big London newspapers barely mention Wales in their coverage of national news. There have been times when I have wondered if they know where Wales is. Many London-based reporters do not understand what is devolved and what is not. In Scotland and Northern

Teimlir bod darlledwyr yn Llundain yn troi eu cefn arnom i ryw raddau, ac ni allaf weld Gweithrediaethau'r Alban ac Iwerddon yn eistedd yn dawel tra bydd hynny'n digwydd. Beth am y ffaith bod Cymru yn cael ei gwthio i'r cyrion gan y papurau newydd yn Llundain, prinder papurau newydd cenedlaethol yng Nghymru a marwolaeth araf papurau newydd lleol? Prin y mae papurau newydd mawr Llundain yn sôn am Gymru yn eu sylw i newyddion cenedlaethol. Bu adegau pan fûm yn meddwl tybed a ydynt yn gwybod ble mae Cymru. Nid yw llawer o ohebwyr yn Llundain yn deall beth sydd wedi

Ireland, there is much more competition in the press. They have their own national newspapers and, perhaps more salient, many national newspapers run Scottish and Irish editions. It is not so here. In fact, the paper that would be the national paper of Wales is dying at the hands of Trinity Mirror plc. Trinity Mirror plc is the largest newspaper publisher in Wales. It produces the *Western Mail*, the *South Wales Echo*, *Wales on Sunday* and the Celtic series of weekly papers. However, this newspaper group is adding over £15 million of cuts this year to the £105 million made over the past three years.

a beth sydd heb ei ddatganoli. Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae mwy o lawer o gystadleuaeth yn y wasg. Mae ganddynt eu papurau newydd cenedlaethol eu hunain ac, yn fwy amlwg efallai, mae llawer o bapurau newydd cenedlaethol yn cyhoeddi rhifynnau ar gyfer yr Alban ac Iwerddon. Nid yw hynny'n wir yma. A dweud y gwir, mae'r papur a fyddai'n bapur cenedlaethol Cymru yn marw yn nwylo Trinity Mirror ccc. Trinity Mirror ccc yw'r cyhoeddwr papurau newydd mwyaf yng Nghymru. Mae'n cynhyrchu'r *Western Mail*, y *South Wales Echo*, *Wales on Sunday* a'r gyfres Geltaidd o bapurau wythnosol. Fodd bynnag, mae'r grŵp papurau newydd hwn yn ychwanegu dros £15 miliwn o doriadau eleni at y £105 miliwn a wnaed dros y tair blynedd diwethaf.

Minister, if you talk to people at the *Western Mail*, this is what you would hear: they have a widespread belief that the newspaper has a limited remaining life span. There is speculation that, within a relatively short space of time, the *Western Mail* will cease to be published as a daily, and will become a weekly newspaper. If that happens, not only will many more jobs be lost, but Wales will lose the only daily newspaper that seeks to take a national view.

Weinidog, o siarad â phobl yn y *Western Mail*, dyma y byddech yn ei glywed: eu cred gyffredinol yw bod dyddiau'r papur newydd wedi eu rhifo. Mae rhai'n dyfalu na fydd y *Western Mail* yn cael ei gyhoeddi fel papur dyddiol cyn pen cyfnod cymharol fyr, ac y bydd yn troi'n bapur newydd wythnosol. Os bydd hynny'n digwydd, nid yn unig y bydd mwy o lawer o swyddi'n cael eu colli, ond bydd Cymru yn colli'r unig bapur newydd dyddiol sy'n ceisio cymryd safbwynt cenedlaethol.

The National Union of Journalists seems to believe that regional newspapers are also in terminal decline. Is it not ironic that, as the National Assembly and Welsh Government accrue more powers, the prospects for Welsh newspapers appear so bleak?

Ymddengys fod Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr yn credu bod papurau newydd rhanbarthol yn wynebu dirywiad terfynol hefyd. Onid yw'n eironig, wrth i'r Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru gael mwy o bwerau, bod y rhagolygon ar gyfer papurau newydd Cymru yn ymddangos mor llwm?

What about the decline and fall of local press? In the area that I and Paul Davies represent, the *Western Telegraph* is an extremely strong local newspaper, much liked by the communities that it serves and well supported. However, that is not the story that resonates throughout Wales. Local newspapers have especially suffered under the tidal wave of internet delivery methods. Their owners have also used them to cut costs—due to a host of reasons, owners have chosen to sacrifice local newspapers, concentrating on just one or two titles or branching into new media for news delivery.

Beth am ddirywiad a chwymp y wasg leol? Yn yr ardal yr wyf fi ac y mae Paul Davies yn ei chynrychioli, mae'r *Western Telegraph* yn bapur newydd lleol eithriadol o gryf, y mae'r cymunedau a wasanaethir ganddo'n ei hoffi'n fawr ac yn ei gefnogi'n dda. Fodd bynnag, nid felly y mae ledled Cymru. Mae papurau newydd lleol wedi dioddef yn arbennig oherwydd yr holl ddulliau sydd ar gael o gyflwyno gwybodaeth dros y rhyngrwyd. At hynny, mae eu perchnogion wedi eu defnyddio i dorri costau—oherwydd llu o resymau, mae perchnogion wedi dewis aberthu papurau newydd lleol, gan

However, the local newspaper plays an incredibly important role in holding local councils to account, upping the game of elected politicians, ensuring that unelected officials do not go unscrutinised and, possibly, unchecked.

ganolbwyntio ar un neu ddau deitl yn unig neu fentro i ddefnyddio cyfryngau newydd i gyflwyno newyddion. Fodd bynnag, mae papurau newydd lleol yn chwarae rôl eithriadol o bwysig o ran dwyn cynghorau lleol i gyfrif, gwella perfformiad gwleidyddion etholedig, a sicrhau nad yw swyddogion anetholedig yn osgoi bod yn destun gwaith craffu a phrosesau gwirio, efallai.

Local press sometimes relies on just a few people, trying to cover too many roles, and trying to keep on top of the endless requirement to be timely with web uploads and contributions. Local press becomes poorer in quality, with skinnier and fewer editions. Local press depends on advertising for its revenue, which can also hinder its scrutiny of others: advertising revenue is a powerful weapon, as this Government will know.

Mae'r wasg leol yn dibynnu weithiau ar ychydig o bobl yn unig, sy'n ceisio cyflawni gormod o rolau ac sy'n ceisio bodloni'r gofyniad diddiwedd i sicrhau bod yr hyn a lwythir ac a gyfrennir ar y we'n amserol. Mae ansawdd y wasg leol yn gwaethygu, gyda rhifynnau mwy tenau a llai niferus. Mae'r wasg leol yn dibynnu ar hysbysebu am refeniw, sydd hefyd yn gallu rhwystro gwaith craffu ar eraill: mae refeniw hysbysebu yn arf pwerus, fel y mae'r Llywodraeth hon yn gwybod.

I will return to my unasked question: why is it important to care about what is happening to the fourth estate in Wales? We all need to up our game, and not just in local councils. In an earlier debate, Mike Hedges asked whether there was anyone in the gallery, and he got a laugh—we all fell about with laughter—because there is no-one in the gallery. That does not happen in Westminster, and I cannot believe that it happens in Edinburgh.

Hoffwn ddychwelyd at fy nghwestiwn na chafodd ei ofyn: pam y mae'n bwysig poeni am yr hyn sy'n digwydd i'r bedwaredd ystâd yng Nghymru? Mae angen i bob un ohonom wella'r hyn a wnawn, ac nid mewn cynghorau lleol yn unig. Mewn dadl gynharach, gofynnodd Mike Hedges a oedd unrhyw un yn yr oriel, a bu inni chwerthin—roeddem i gyd yn rowlio chwerthin—gan nad oes neb yn yr oriel. Nid yw hynny'n digwydd yn San Steffan, ac ni allaf gredu ei fod yn digwydd yng Nghaeredin.

How can we get people interested in their politics if we do not have a strong political edge to our media coverage and a strong media? Prime Minister's Questions from Westminster is often shown on mainstream news; how often do questions to the First Minister appear on ITV or BBC news? I appreciate that ITV has issues, as ITN is a separate organisation. While PMQs can often be a rambunctious piece of political theatre, it captivates people—they watch it. No-one watches questions to the First Minister. The First Minister can get away with dismissive one-liners, and I do not blame him, because he is not being called to account by anyone other than the opposition. If there is no coverage of the Assembly, there will be a huge gap. It hinders the Assembly

Sut y gallwn gael pobl i ymddiddori yn eu gwleidyddiaeth os nad oes gennym gyfryngau cryf a chyfryngau sy'n rhoi sylw treiddgar i faterion gwleidyddol? Caiff Sesiwn Gwestiynau'r Prif Weinidog yn San Steffan ei dangos yn aml ar newyddion prif ffrwd; pa mor aml y mae'r cwestiynau i Brif Weinidog Cymru yn ymddangos ar newyddion ITV neu'r BBC? Rwyf yn sylweddoli bod gan ITV broblemau, gan fod ITN yn sefydliad ar wahân. Er y gall Sesiwn Gwestiynau'r Prif Weinidog yn San Steffan fod yn ddarn o theatr gwleidyddol swnllyd iawn yn aml, mae'n dal dychymyg pobl—maent yn ei wylio. Nid oes neb yn gwylio'r cwestiynau i Brif Weinidog Cymru. Caiff Prif Weinidog Cymru rwydd hynt i roi atebion byr bachog sy'n ddiystyriol, ac nid

Commission. One of its stated aims is to ensure that the people of Wales are in no doubt as to what the Assembly is responsible for.

wyf yn gweld bai arno, gan nad yw'n cael ei ddwyn i gyfrif gan neb ar wahân i'r wrthblaid. Bydd bwlch enfawr os na roddir sylw i'r Cynulliad. Mae'n rhwystro Comisiwn y Cynulliad. Un o'i nodau penodol yw sicrhau nad oes gan bobl Cymru ddim amheuaeth ynghylch beth y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdano.

5.30 p.m.

As I said to the Finance Committee last year, in my role as Commissioner, when we go out canvassing in 2016, no Welsh-domiciled person should be asking, 'What does the National Assembly for Wales do?' Minister, there is an enormous poster down by the docks in Cardiff, sponsored by an organisation called 38 Degrees, asking a question about the NHS in England. Does it not know that we are a devolved nation in respect of the NHS? Although it may bring joy to the heart of the Government in terms of political point scoring, how can that help with the development of our parliament and parliamentary responsibilities?

Fel y dywedais wrth y Pwyllgor Cyllid y llynedd, yn fy rôl fel Comisiynydd, pan fyddwn yn mynd allan i ganfasio yn 2016, ni ddylai neb sy'n byw yng Nghymru fod yn gofyn, 'Beth y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei wneud?' Weinidog, mae poster enfawr wrth ymyl y dociau yng Nghaerdydd, a noddir gan sefydliad o'r enw 38 Degrees, sy'n gofyn cwestiwn am y GIG yn Lloegr. Onid yw'n gwybod ein bod yn wlad ddatganoledig o safbwynt y GIG? Efallai ei fod yn galondid i'r Llywodraeth o ran sgorio pwyntiau gwleidyddol, ond sut y gall hynny helpu i ddatblygu ein senedd a'n cyfrifoldebau seneddol?

This cannot bring cheer either to the arch-independents, Plaid Cymru. I heard the First Minister say on *Good Morning Wales* today that the people on the other side of most of the doors that he has knocked on during this local council election campaign have commented on policies in England. While he enjoyed the political point scoring, I was filled with genuine regret at the opportunity that is missed when the First Minister of Wales knocks on your door and you do not know enough about what your Assembly does to talk positively or negatively about health, jobs or education, or about what policies you think that Wales needs.

Ni all hynny fod yn destun llawenydd i'r archannibynwyr, Plaid Cymru, chwaith. Clywais y Prif Weinidog yn dweud ar *Good Morning Wales* heddiw fod y bobl yr ochr arall i'r rhan fwyaf o'r drysau y mae wedi curo arnynt yn ystod ymgyrch etholiadol y cynghorau lleol y tro hwn wedi gwneud sylwadau ar bolisïau yn Lloegr. Er iddo fwynhau sgorio'r pwyntiau gwleidyddol, roeddwn yn gresynu'n wirioneddol at y cyfle a gollir pan fydd Prif Weinidog Cymru yn curo ar eich drws a phan na fyddwch yn gwybod digon am yr hyn y mae eich Cynulliad yn ei wneud i siarad yn gadarnhaol neu'n negyddol am iechyd, swyddi neu addysg, neu am y polisïau y mae eu hangen ar Gymru yn eich barn chi.

I do not think that we as politicians have asked enough questions about what is happening with the media in Wales; we have not really called these organisations to account. Minister, have you met the BBC, Trinity Mirror Group, ITV or any of the other big media barons in Wales? If so, what have you said to them? Does the state of the fourth estate worry you? How are you monitoring the process of calling them to account? What thoughts have you had on the fate of the fourth estate? What plans do you have to

Nid wyf yn credu ein bod ni fel gwleidyddion wedi gofyn digon o gwestiynau am yr hyn sy'n digwydd o ran y cyfryngau yng Nghymru; nid ydym wedi dwyn y sefydliadau hyn i gyfrif mewn gwirionedd. Weinidog, a ydych wedi cyfarfod â'r BBC, Grŵp Trinity Mirror, ITV neu unrhyw un o'r barwniaid mawr eraill ym maes y cyfryngau yng Nghymru? Os felly, beth yr ydych wedi'i ddweud wrthynt? A yw cyflwr y bedwaredd ystâd yn eich poeni? Sut yr ydych yn monitro'r broses o'u dwyn i gyfrif? A ydych

reverse the decline in the local press and the lack of national political coverage by newspapers and broadcasters that are coming our way? I have ideas and views, some of which I have expressed here, but I would like to know your thoughts. Minister, do you, like me, believe that without a strong media, we simply cannot have a strong parliamentary system, a healthy political democracy and an informed electorate? To paraphrase the aforementioned Thomas Carlyle a little, the press gives people a tongue that others, like us, will listen to. The fourth estate is the right of the people of Wales.

wedi meddwl am dynged y bedwaredd ystâd? Pa gynlluniau sydd gennych i wrthdroi'r dirywiad yn y wasg leol a'r diffyg sylw gwleidyddol cenedlaethol gan bapurau newydd a darlledwyr sy'n dod atom? Mae gennyf syniadau a safbwyntiau, ac rwyf wedi mynegi rhai ohonynt yma, ond hoffwn wybod beth yw eich barn chi. Weinidog, a ydych chithau, fel finnau, yn credu na allwn gael system seneddol gref, democratiaeth wleidyddol iach ac etholwyr gwybodus heb gyfryngau cryf? I aralleirio Thomas Carlyle ryw ychydig, y soniais amdano eisoes, mae'r wasg yn rhoi llais i bobl, y bydd eraill, fel ninnau, yn gwrando arno. Mae'r bedwaredd ystâd yn hawl i bobl Cymru.

**The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis):** Thank you, Angela, for tabling this debate. I am sure that the contributions that we will hear from Members during the debate will echo the cross-party concerns that we all have and share about developments in relation to the media industry in Wales. This was also reflected during the meetings of the task and finish group on the future outlook for the media in Wales. I appeared before the group in January, and I look forward to the publication of the group's report.

**Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis):** Diolch, Angela, am gyflwyno'r ddadl hon. Rwyf yn siŵr y bydd y cyfraniadau y byddwn yn eu clywed gan Aelodau yn ystod y ddadl yn adleisio'r pryderon trawsbleidiol cyffredin sydd gan bob un ohonom am ddatblygiadau yng nghyswllt diwydiant y cyfryngau yng Nghymru. Cafodd hynny ei adlewyrchu hefyd yn ystod cyfarfodydd y grŵp gorchwyl a gorffen ar ragolygon ar gyfer dyfodol y cyfryngau yng Nghymru. Bûm gerbron y grŵp ym mis Ionawr, ac edrychaf ymlaen at weld adroddiad y grŵp yn cael ei gyhoeddi.

The public service broadcasters in Wales—to begin there—have a crucial role in the civic life of Wales, not least in the context, as Angela has said, of a relatively weak indigenous press and commercial television and radio sector in Wales. Its role has undoubtedly become even more important following the referendum result last year.

Mae gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru—o ddechrau yno—rôl hollbwysig i'w chwarae ym mywyd dinesig Cymru, yn enwedig yng nghyd-destun gwasg gynhenid a sector teledu a radio masnachol sy'n eithaf gwan yng Nghymru, fel y mae Angela wedi sôn. Yn ddi-os, mae eu rôl wedi dod yn bwysicach fyth yn dilyn canlyniad y refferendwm y llynedd.

Angela is quite right to point to the essential role of the media as an agent of democracy—it is fundamental—and the need for all of us to be concerned about the changes that are unfolding before us. I only wish that that attitude was wholeheartedly shared in relation to public service broadcasting by her party colleagues in Government in Westminster. Angela, I was inspired by your speech, so please send the transcript to Jeremy Hunt, as I think that he should read it.

Mae Angela yn llygad ei lle wrth dynnu sylw at rôl hanfodol y cyfryngau fel asiant democratiaeth—mae'n rôl sylfaenol—a'r angen i bob un ohonom boeni am y newidiadau sy'n datblygu o'n blaenau. Mae'n drueni nad yw ei chydweithwyr sydd mewn Llywodraeth yn San Steffan yn rhannu'n llwyr yr agwedd honno at ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Angela, cefais fy ysbrydoli gan eich araith, felly anfonwch y trawsgrifiad at Jeremy Hunt, gan fy mod yn credu y dylai ef ei ddarllen.

Our concerns as a Government encompass the provision of non-news programmes directed at a Welsh audience, as well as comprehensive news and current affairs coverage. The Welsh Government's programme for government underlines our commitment to the broadcasting industry in Wales.

Mae ein pryderon fel Llywodraeth yn cynnwys pryderon ynghylch darparu rhaglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion, a anelir at gynulleidfa yng Nghymru, yn ogystal â rhaglenni newyddion a materion cyfoes cynhwysfawr. Mae rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru yn tanlinellu ein hymrwymiad i'r diwydiant darlledu yng Nghymru.

Ofcom's communications market report for Wales 2010, published in August 2011, underlined the already serious decline in spending on English-language television programming in Wales. Spending by ITV1 Wales and BBC Wales on English-language television programmes fell from £28 million in 2009 to £25 million in 2010—a decline of 13%. That was the largest year-on-year reduction among the four nations. Over five years, there has been a reduction from £37 million in 2005 to £25 million in 2010—a decrease of a third over five years. In addition, there have, of course, been significant cuts to S4C and the BBC's budgets. These are political decisions, not made here, but at the other end of the M4. The broadcasting industry in Wales is therefore facing a very uncertain future indeed.

Roedd adroddiad Ofcom am y farchnad gyfathrebu ar gyfer Cymru 2010, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2011, yn tanlinellu'r dirywiad difrifol a fu eisoes yn y gwariant ar raglenni teledu Saesneg eu hiaith yng Nghymru. Gwelwyd gwariant ITV1 Cymru a BBC Cymru ar raglenni teledu Saesneg eu hiaith yn gostwng o £28 miliwn yn 2009 i £25 miliwn yn 2010—gostyngiad o 13%. Hwn oedd y gostyngiad mwyaf o'r naill flwyddyn i'r llall a welwyd ymhlith pedair gwlad y DU. Dros gyfnod o bum mlynedd, bu gostyngiad o £37 miliwn yn 2005 i £25 miliwn yn 2010—gostyngiad o draean dros gyfnod o bum mlynedd. At hynny, wrth gwrs, bu toriadau sylweddol i gyllidebau S4C a'r BBC. Mae'r rhain yn benderfyniadau gwleidyddol, na chawsant eu gwneud yma, ond a wnaed yn hytrach ar ben arall yr M4. Mae'r diwydiant darlledu yng Nghymru, felly, yn wynebu dyfodol ansicr iawn yn wir.

The challenge of safeguarding S4C has rightfully been a matter of concern to many of us in Wales over recent months. As a Government, we welcomed the agreement that was reached between the BBC Trust and the S4C Authority. Crucially, it protects the editorial and managerial independence of S4C. The assurance of funding until 2017 is, I suppose, a step forward and should provide at least stability for S4C and the independent production sector. However, the funding situation facing S4C is, of course, dramatically different from that which was previously guaranteed—guaranteed in statute; a statute that still stands. We will continue to argue the principle that Welsh-language broadcasting should not be treated any less favourably than other aspects of public service broadcasting. The Department for Culture, Media and Sport is currently consulting on the changes to S4C's governance arrangements, and the Welsh Government will, of course, respond to that

Mae'r her o ddiogelu S4C wedi bod yn fater sydd wedi peri pryder i lawer ohonom yng Nghymru dros y misoedd diwethaf, a hynny'n gywir ddigon. Fel Llywodraeth, bu inni groesawu'r cytundeb y daethpwyd iddo rhwng Ymddiriedolaeth y BBC ac Awdurdod S4C. Mae'n gwarchod annibyniaeth S4C o ran golygu a rheoli, sy'n hollbwysig. Mae'r sicrwydd o gyllid tan 2017 yn gam ymlaen, am wn i, a dylai ddarparu sefydlogrwydd o leiaf ar gyfer S4C a'r sector cynhyrchu annibynnol. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa sy'n wynebu S4C o ran cyllid, wrth gwrs, yn wahanol iawn i'r hyn a oedd wedi'i warantu yn flaenorol—wedi'i warantu mewn statud; statud sy'n dal i sefyll. Byddwn yn parhau i ddadlau dros yr egwyddor na ddylai gwaith darlledu drwy gyfrwng y Gymraeg gael ei drin yn llai ffafriol nag agweddau eraill ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ymgynghori ar hyn o bryd ynghylch y newidiadau i drefniadau

consultation.

llywodraethu S4C, a bydd Llywodraeth Cymru, wrth gwrs, yn ymateb i’r ymgynghoriad hwnnw.

We are encouraged that the new partnership between the two broadcasters offers, it must be said, important benefits to the citizens of Wales. The first priority should be for S4C and the BBC to begin to deliver on the back of that partnership. However, because of the crucial importance of S4C’s role, we also believe that the outcome of this partnership should at some point be subject to an independent review.

Rydym wedi ein calonogi bod y bartneriaeth newydd rhwng y ddau ddarlledwr yn cynnig manteision pwysig, rhaid dweud, i ddinasyddion Cymru. Cael S4C a’r BBC i ddechrau cyflawni ar gefn y bartneriaeth honno ddylai fod yn flaenoriaeth gyntaf. Fodd bynnag, oherwydd pwysigrwydd hanfodol rôl S4C, rydym hefyd yn credu y dylai canlyniad y bartneriaeth hon fod yn destun adolygiad annibynnol ar ryw adeg.

**Peter Black:** Thank you for taking an intervention, Minister. When giving evidence to the task and finish group on the media, all broadcasters indicated that they would very much welcome a greater scrutiny role for the National Assembly and the Welsh Government in terms of how they deliver services in Wales—something that would address the issues Angela has raised. Is the Welsh Government working with DCMS to try to set up a better structure, whereby both the Government and the Assembly could implement that improved scrutiny process?

**Peter Black:** Diolch am dderbyn ymyriad, Weinidog. Wrth roi tystiolaeth i’r grŵp gorchwyl a gorffen ar y cyfryngau, dywedodd pob un o’r darlledwyr y byddent yn falch iawn pe bai’r Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru yn craffu’n fwy helaeth ar sut y maent yn darparu gwasanaethau yng Nghymru—rhywbeth a fyddai’n mynd i’r afael â’r materion y mae Angela wedi’u codi. A yw Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda’r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i geisio sefydlu strwythur gwell a fyddai’n galluogi’r Llywodraeth a’r Cynulliad i weithredu’r broses graffu fwy helaeth honno?

**Huw Lewis:** Of course, yes. Discussions along those lines have begun. I will touch on that a little later. I have to say that there is very ready acceptance on the part of key figures in the BBC in Wales of the need to discuss those lines of accountability and to open up a conversation about how exactly the democratic accountability of broadcasting in particular in Wales sits within devolution, whether that is to be done formally—and I hope that it would be over time—or whether we should begin it informally anyway. Regardless of exactly what is devolved here and what is not, the conversation needs to be had. We are having the conversation among ourselves as politicians. That conversation needs to go outside this building and, critically, encompass the decision makers in broadcasting in Wales as a first stop.

**Huw Lewis:** Ydy, wrth gwrs. Mae trafodaethau i’r perwyl hwnnw wedi dechrau. Soniaf am hynny ychydig yn nes ymlaen. Rhaid imi ddweud bod ffigyrau allweddol yn y BBC yng Nghymru yn barod iawn i dderbyn yr angen i drafod y llinellau atebolrwydd hynny a dechrau sgwrs am sut yn union y mae atebolrwydd democrataidd darlledu, yn arbennig yng Nghymru, yn cyd-fynd â datganoli, boed hynny’n gam ffurfiol—ac rwyf yn gobeithio y byddai’n ffurfiol gydag amser—ynteu’n rhywbeth y dylem ddechrau ei wneud yn anffurfiol beth bynnag. Ni waeth beth yn union sydd wedi neu sydd heb ei ddatganoli yma, mae angen cynnal y sgwrs. Rydym yn cael y sgwrs ymysg ein gilydd fel gwleidyddion. Mae angen i’r sgwrs honno ddigwydd y tu allan i’r adeilad hwn ac, yn hollbwysig, mae angen iddi gynnwys yn gyntaf y sawl sy’n gwneud penderfyniadau ym maes darlledu yng Nghymru.

The Welsh Government's position is, I hope, clear: there should be a wide-ranging review of S4C commissioned jointly by the UK and Welsh Governments. This commitment to press for an undertaking for a review is outlined in our programme for government, and we will continue to discuss the timing of this review with the UK Government. As a Government, we are encouraged by how the new leadership at S4C has started to respond to the significant challenges facing the channel. S4C and the other broadcasters have a vital role in contributing to delivering the Government's new Welsh language strategy, apart from anything else.

Mae safbwynt Llywodraeth Cymru, gobeithio, yn glir: dylid cynnal adolygiad eang o S4C, a gomisiynir ar y cyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Caiff yr ymrwymiad hwn i bwyso am addewid i gynnal adolygiad ei amlinellu yn ein rhaglen lywodraethu, a byddwn yn parhau i drafod amseriad yr adolygiad gyda Llywodraeth y DU. Fel Llywodraeth, rydym wedi ein calonogi gan y modd y mae'r arweinyddiaeth newydd yn S4C wedi dechrau ymateb i'r heriau sylweddol sy'n wynebu'r sianel. Mae gan S4C a'r darlledwyr eraill rôl hanfodol i'w chwarae o ran cyfrannu at wireddu strategaeth newydd y Llywodraeth ar gyfer yr iaith Gymraeg, ar wahân i unrhyw beth arall.

The requirement for the BBC to find budget savings of up to 20% over the next four years represents a potentially disproportionate threat to the BBC's local services in Wales. We were naturally concerned to see the proposals for reductions in the BBC's services in Wales, and Angela has touched on some of the points relating to that. We recognise that the BBC, as is the case with all public sector organisations, is having to take some tough decisions, to say the least, to deliver significant savings over the next few years. Reductions to Wales-based services need to be seen against the background of those services being relatively limited in scope to begin with. However, we believe that there should be a clear commitment to safeguard and strengthen the core services in English and Welsh that are specifically aimed at Welsh viewers and listeners. These issues were reflected in the Welsh Government's response to the BBC Trust's consultation, 'Delivering Quality First'. I also had an opportunity to discuss a number of these issues during my meeting yesterday with Elan Closs Stephens, the BBC Trust member for Wales.

Mae'r gofyniad i'r BBC ddod o hyd i arbedion o hyd at 20% yn y gyllideb dros y pedair blynedd nesaf yn fygythiad a allai fod yn anghymesur i wasanaethau lleol y BBC yng Nghymru. Roeddem yn naturiol yn bryderus o weld y cynigion i leihau gwasanaethau'r BBC yng Nghymru, ac mae Angela wedi cyffwrdd â rhai o'r pwyntiau sy'n ymwneud â hynny. Rydym yn cydnabod bod y BBC, fel sy'n wir am bob sefydliad yn y sector cyhoeddus, yn gorfod gwneud rhai penderfyniadau anodd, a dweud y lleiaf, i sicrhau arbedion sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae angen ystyried y broses o leihau gwasanaethau yng Nghymru yn erbyn cefndir sy'n golygu bod rhychwant y gwasanaethau hynny'n gymharol gyfyngedig i ddechrau. Fodd bynnag, credwn y dylai fod ymrwymiad clir i ddiogelu a chryfhau'r gwasanaethau craidd Cymraeg a Saesneg a anelir yn benodol at wylwyr a gwrandawyr yng Nghymru. Cafodd y materion hyn eu hadlewyrchu yn ymateb Llywodraeth Cymru i ymgynghoriad Ymddiriedolaeth y BBC, 'Darparu Ansawdd yn Gyntaf'. Cefais gyfle hefyd i drafod nifer o'r materion hyn yn ystod fy nghyfarfod ddoe ag Elan Closs Stephens, aelod Ymddiriedolaeth y BBC ar ran Cymru.

The economic impact of the reduction in BBC Wales's budget over recent years has to some extent been lessened by the growth in network productions produced in Wales. We do not see the development of Cardiff as an increasingly important centre for network productions as any sort of justification for

Mae effaith economaidd y gostyngiad yng nghyllideb BBC Cymru dros y blynyddoedd diwethaf wedi'i lleihau i ryw raddau gan y ffaith bod nifer y cynyrchiadau a gynhyrchir yng Nghymru ar gyfer y rhwydwaith wedi cynyddu. Nid ydym yn ystyried bod datblygiad Caerdydd fel canolfan sy'n

reducing the BBC's investment in Welsh services. It is vital that the BBC meets its commitments to produce 15% of network productions outside London and the south-east by 2016. We have interpreted this as indicating that at least 5% of productions will originate in Wales. As a Government, we will continue to do everything we can to help secure a sustainable and vibrant future for the BBC in Wales.

gynyddol bwysig ar gyfer cynyrchiadau'r rhwydwaith yn unrhyw fath o gyfiawnhad dros leihau buddsoddiad y BBC mewn gwasanaethau yng Nghymru. Mae'n hanfodol bod y BBC yn cyflawni ei ymrwymiadau i gynhyrchu 15% o gynyrchiadau ar gyfer y rhwydwaith y tu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr erbyn 2016. Rydym wedi dehongli hynny fel arwydd y bydd o leiaf 5% o gynyrchiadau yn dod o Gymru. Fel Llywodraeth, byddwn yn parhau i wneud popeth a allwn i helpu i sicrhau dyfodol cynaliadwy a bywiog ar gyfer y BBC yng Nghymru.

To turn to ITV, if I may, at the moment, we are far from clear about the long-term pattern of ITV services in Wales. We believe that Wales needs a strong independent voice in broadcasting to provide a counter-balance to the provision of BBC Wales and that ITV Wales continues to have a vital role to play. The channel 3 news service should not be looked at as a regional news service, but as an essential democratic national news service for the people of Wales. The existing provision by ITV of just under four hours of news a week, plus an hour and a half of other material, including current affairs and political coverage, should be the minimum conditions for ITV's licence renewal—a political decision that will be made in Westminster. This is reflected in our programme for government, and we will continue to press for this in the period before the current channel 3 licence expires and in the context of the forthcoming communications review.

Gan droi at ITV, os caf, rydym ymhell o fod yn glir ar hyn o bryd ynghylch patrwm hirdymor gwasanaethau ITV yng Nghymru. Credwn fod angen llais annibynnol cryf ar Gymru ym maes darlledu i wrthbwyso darpariaeth BBC Cymru, a chredwn fod gan ITV Cymru rôl hanfodol i'w chwarae o hyd. Ni ddylid ystyried gwasanaeth newyddion sianel 3 fel gwasanaeth newyddion rhanbarthol, ond fel gwasanaeth newyddion cenedlaethol democrataidd hanfodol ar gyfer pobl Cymru. Dylai'r ddarpariaeth bresennol gan ITV, sef ychydig yn llai na phedair awr o newyddion yr wythnos, yn ogystal ag awr a hanner o ddeunydd arall, gan gynnwys sylw i faterion cyfoes a materion gwleidyddol, fod yn amodau sy'n ofynnol ar gyfer adnewyddu trwydded ITV—penderfyniad gwleidyddol a gaiff ei wneud yn San Steffan. Caiff hynny ei adlewyrchu yn ein rhaglen lywodraethu, a byddwn yn parhau i bwyso am hynny yn ystod y cyfnod cyn i drwydded bresennol sianel 3 ddod i ben ac yng nghyd-destun yr adolygiad o gyfathrebu sydd ar ddod.

Providing a plurality of services also applies, as Angela has said, to the newspaper industry in Wales in order to ensure a fair democracy and to satisfy the needs of readers. Wales is in a unique situation, because a small percentage of the population reads newspapers that report stories about Wales that are written in Wales. You cannot have newspapers without journalists, either. Therefore, it has been extremely disappointing, during the last few years, to hear of job losses in several newspaper offices. Several local newspapers are under threat—Angela was quite right—and some have disappeared already. Along with the

Mae darparu lluosogrwydd o ran gwasanaethau'n berthnasol hefyd, fel y mae Angela wedi dweud, i'r diwydiant papurau newydd yng Nghymru, er mwyn sicrhau democratiaeth deg a diwallu anghenion darllenwyr. Mae Cymru mewn sefyllfa unigryw, gan fod canran fach o'r boblogaeth yn darllen papurau newydd sy'n adrodd straeon am Gymru a gaiff eu hysgrifennu yng Nghymru. Ni allwch gael papurau newydd heb newyddiadurwyr, chwaith. Felly, mae clywed am golli swyddi mewn swyddfeydd sawl papur newydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn hynod siomedig. Mae nifer o bapurau newydd lleol dan fygythiad—

loss of editorial jobs, the news office closures and associated downgrading are obvious blows to those communities. It damages local democracy and undermines community cohesion. As colleagues will know, the Welsh Government has no direct responsibility in relation to the newspaper industry in Wales. However, we have grave concerns about the developing situation, because it has such an effect on our work and on local communities across the country.

roedd Angela yn llygad ei lle—ac mae rhai eisoes wedi diflannu. Yn ogystal â cholli swyddi golygyddol, mae cau swyddfeydd newyddion a'r israddio cysylltiedig yn ergyd amlwg i'r cymunedau hynny. Mae'n niweidio democratiaeth leol ac yn tanseilio cydlyniant cymunedol. Fel y bydd cydweithwyr yn gwybod, nid oes gan Lywodraeth Cymru ddim cyfrifoldeb uniongyrchol o ran y diwydiant papurau newydd yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn pryderu'n ddifrifol am y sefyllfa sy'n datblygu, gan ei bod yn cael cymaint o effaith ar ein gwaith ac ar gymunedau lleol ar draws y wlad.

I assure you that, during the last few years, we have consistently expressed our concerns to the UK Government, the BBC Trust and Ofcom about a number of issues in relation to public service broadcasting. It cannot be right—

Hoffwn eich sicrhau ein bod, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi mynegi ein pryderon yn gyson wrth Lywodraeth y DU, Ymddiriedolaeth y BBC ac Ofcom am nifer o faterion sy'n ymwneud â darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Ni all fod yn iawn—

**Andrew R.T. Davies:** You might well have been going to go on to touch on this—I welcome the opportunity to have a debate on the fourth estate—but one thing that has been missing is the focus on local radio and its ability to have a big impact on public affairs and civic engagement. This morning, I was at Nation Radio South Wales and looking at its stable of local radio stations across the whole of south Wales. It is an exciting development that, 10 or 15 years ago, did not exist. I appreciate that there are difficulties across the board, but we have focused on the BBC and the print media in today's debate, and it would be good to hear from you, Minister, about your view on community radio and its ability to raise the profile of public life in Wales.

**Andrew R.T. Davies:** Efallai eich bod wedi bwriadu mynd ymlaen i sôn am hyn—rwyf yn croesawu'r cyfle i gael dadl ar y bedwaredd ystâd—ond un peth sydd wedi bod ar goll yw'r ffocws ar radio lleol a'i allu i gael effaith fawr ar faterion cyhoeddus ac ymgysylltu dinesig. Y bore yma, roeddwn yn Nation Radio De Cymru ac yn edrych ar ei gasgliad o orsafoedd radio lleol ar hyd a lled de Cymru. Mae'n ddatblygiad cyffrous nad oedd yn bodoli 10 neu 15 mlynedd yn ôl. Rwyf yn sylweddoli bod anawsterau'n gyffredinol, ond rydym wedi canolbwyntio ar y BBC a'r cyfryngau print yn y ddadl heddiw, a byddai'n dda clywed, Weinidog, beth yw eich barn am radio cymunedol a'i allu i godi proffil bywyd cyhoeddus yng Nghymru.

**Huw Lewis:** Andrew is quite right, and I would echo his concerns. We need to open up a dialogue about the future of local radio too. It is becoming a powerful force for good, particularly in terms of the way that news services are developing across local radio in Wales. It is something that we should welcome and we should discuss ways in which we as a Welsh Government, but also the Assembly more widely, can be supportive of those developments.

**Huw Lewis:** Mae Andrew yn llygad ei le, a byddwn yn ategu ei bryderon. Mae angen inni ddechrau trafodaeth am ddyfodol radio lleol hefyd. Mae'n dod yn rym pwerus er gwell, yn enwedig o ran y modd y mae gwasanaethau newyddion yn datblygu ar draws radio lleol yng Nghymru. Mae'n rhywbeth y dylem ei groesawu, a dylem drafod ffyrdd y gallwn ni fel Llywodraeth Cymru, a'r Cynulliad yn fwy eang hefyd, fod yn gefnogol i'r datblygiadau hynny.

To return to the point that I was making, the Welsh Government has, as I said,

Gan ddychwelyd at y pwynt yr oeddwn yn ei wneud, mae Llywodraeth Cymru, fel y

consistently expressed our concerns about these issues. It cannot be right for the future of broadcasting in Wales to be driven simply by the cuts agenda of the UK Government.

dywedais, wedi mynegi ei phryderon yn gyson am y materion hyn. Ni all fod yn iawn bod dyfodol darlledu yng Nghymru yn cael ei yrru gan agenda doriadau Llywodraeth y DU yn unig.

There has been a lot of discussion recently about whether S4C and broadcasting in general should be devolved. The UK Government has not offered to devolve S4C from the UK level. It would not make sense for us as a Government to be responsible for S4C without assurance that the appropriate funding would also be transferred from the UK Government. However, the broadcasting landscape is changing rapidly, partly because of technological reasons and partly because of political priorities, and there is no guarantee that the structures currently in place will remain in the future.

Bu llawer o drafod yn ddiweddar ynghylch a ddylid datganoli S4C a darlledu yn gyffredinol. Nid yw Llywodraeth y DU wedi cynnig datganoli S4C o lefel y DU. Ni fyddai'n gwneud synnwyr i ni fel Llywodraeth fod yn gyfrifol am S4C heb sicrwydd y byddai'r cyllid priodol hefyd yn cael ei drosglwyddo gan Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, mae'r dirwedd ym maes darlledu yn newid yn gyflym, yn rhannol am resymau technolegol ac yn rhannol oherwydd blaenoriaethau gwleidyddol, ac nid oes dim sicrwydd y bydd y strwythurau sydd ar waith ar hyn o bryd yn parhau yn y dyfodol.

We also wish to raise with the UK Government how we can establish stronger links between S4C, and, indeed, other broadcasters in Wales, and the National Assembly, as I mentioned. That is not because we think that responsibility for broadcasting should necessarily be devolved, but because we believe that the activities of the public service broadcasters are too important not to be discussed in the Assembly.

Rydym hefyd yn dymuno trafod â Llywodraeth y DU sut y gallwn sefydlu cysylltiadau cryfach rhwng S4C, ac, yn wir, darlledwyr eraill yng Nghymru, a'r Cynulliad Cenedlaethol, fel y soniais. Nid yw hynny oherwydd ein bod yn credu y dylai'r cyfrifoldeb am ddarlledu gael ei ddatganoli o reidrwydd, ond oherwydd ein bod yn credu bod gweithgareddau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn rhy bwysig i beidio â chael eu trafod yn y Cynulliad.

5.45 p.m.

There is a commitment in the programme for government to press the broadcasters and the regulator to report on an annual basis to the National Assembly for Wales, with Ofcom, the BBC, S4C, ITV and Channel 4 reporting annually to a National Assembly for Wales committee. The Welsh Government will also engage closely with DCMS on a number of these key issues, and will continue to contribute constructively to ensure that the new communication review meets the needs of Wales.

Ceir ymrwymiad yn y rhaglen lywodraethu i bwyso ar y darlledwyr a'r rheoleiddiwr i adrodd yn flynyddol wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gydag Ofcom, y BBC, S4C, ITV a Channel 4 yn adrodd yn flynyddol wrth un o bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgysylltu'n agos â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ynghylch nifer o'r materion allweddol hyn, a bydd yn parhau i gyfrannu'n adeiladol er mwyn sicrhau bod yr adolygiad newydd o gyfathrebu yn diwallu anghenion Cymru.

The Welsh Government will continue, therefore, to stand up for maintaining full services in the Welsh and English languages. As a nation with its own language, culture and political institutions, a strong media is essential to provide a comprehensive service that informs, educates and inspires the people of Wales. I know that we all agree on this,

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau, felly, i sefyll yn gadarn o blaid cynnal gwasanaethau llawn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Fel gwlad sydd â'i hiaith, ei diwylliant a'i sefydliadau gwleidyddol ei hun, mae cyfryngau cryf yn hanfodol i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn ysbrydoli pobl Cymru. Gwn ein bod i gyd yn

across the parties. I know that there is, clearly, a distinction between what is being said by the Welsh Conservatives and the Welsh Liberal Democrats and the kind of policy developments that we are seeing being pushed upon us by the UK Government. I believe that there is the option here for a developing a strong, cross-party agreement within Wales in terms of how we address this as a wider Welsh civil society, incorporating not just party-political voices, but the wider Welsh community. I think that we should work towards developing that.

cytuno â hynny, ar draws pob plaid. Gwn fod gwahaniaeth, mae'n amlwg, rhwng yr hyn a ddywedir gan y Ceidwadwyr Cymreig a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a'r math o ddatblygiadau polisi yr ydym yn eu gweld yn cael eu gwthio arnom gan Lywodraeth y DU. Credaf fod opsiwn yma i ddatblygu cytundeb cryf, trawsbleidiol yng Nghymru ynghylch sut yr ydym am ymdrin â'r mater fel cymdeithas sifil Gymreig ehangach, gan gynnwys nid yn unig lleisiau gwleidyddiaeth bleidiol ond y gymuned Gymreig ehangach hefyd. Credaf y dylem weithio tuag at ddatblygu hynny.

**The Deputy Presiding Officer:** That concludes today's proceedings.

**Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.46 p.m.*
*The meeting ended at 5.46 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)

Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)